

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 25/02/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol](#)

[1. Questions to the Minister for Natural Resources](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)

[2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[3. Datganiad: Y Diweddaraf am y Cyhoeddiad ynghylch Grŵp Bwyd y 2 Sisters Cyf](#)

[3. Statement: Update on Announcement by 2 Sisters Food Group Ltd](#)

[4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei Ymchwiliad i Fynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru](#)

[4. Debate on the Health and Social Care Committee's Report on its Inquiry into Access to Medical Technologies in Wales](#)

[5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Targedau'r GIG](#)

[5. Welsh Conservatives Debate: NHS Targets](#)

[6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Iechyd Meddwl](#)

[6. Welsh Liberal Democrats Debate: Mental Health](#)

[7. Cyfnod Pleidleisio](#)

[7. Voting Time](#)

[8. Dadl Fer: Adnabod Eich Prostad!](#)

[8. Short Debate: Know Your Prostate!](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:30 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon is questions to the Minister for Natural Resources, and question 1 is Nick Ramsay.

**1. Questions to the Minister for Natural Resources**

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw'r cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a daw cwestiwn 1 gan Nick Ramsay.

**Y** [Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

**Y Diwydiant Ffermio**

**The Farming Industry**

13:30 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r diwydiant ffermio yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0263(NR)*

*1. Will the Minister make a statement on support for the farming industry in south-east Wales? OAQ(4)0263(NR)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:31 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

It's my priority to support the farming industry in all parts of Wales to become more profitable, sustainable, resilient, and professionally managed.

Fy mlaenoriaeth yw cefnogi'r diwydiant ffermio ym mhob rhan o Gymru i fod yn fwy proffidiol, cynaliadwy, gwydn, ac wedi'i reoli'n broffesiynol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:31	<b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you, Minister. None of us would disagree with those objectives. As we know, our dairy industry is facing a crisis, with the price paid for milk by supermarkets reaching an all-time low in the last few months, with it actually dipping below the production price of milk, which I'm sure you would agree is completely unsustainable for any business in the long term. This has led to some farmers seeking to sell their milk to supermarkets directly, which, in some cases, has been successful. However, it's not been so successful in terms of the price they've got for cheese and other dairy products. What discussions have you held with supermarkets, and, indeed, what progress are you making in discussions with supermarkets, and the UK Government—because I know they've got to put pressure on them as well—to make sure that our farmers get the price for the milk, and for the cheese and other dairy products, that they deserve and need?</p>	<p>Diolch, Weinidog. Ni fyddai'r un ohonom yn anghytuno â'r amcanion hynny. Fel y gwyddom, mae ein diwydiant laeth yn wynebu argyfwng, gyda'r pris a delir gan archfarchnadoedd am laeth yn is nag erioed gan ostwng yn is na phris cynhyrchu laeth yn y misoedd diwethaf mewn gwirionedd, ac rwy'n sicr y byddech yn cytuno bod hynny'n hollol anghynladwy ar gyfer unrhyw fusnes yn y tymor hir. Mae hyn wedi arwain at rai ffermwyr yn ceisio gwerthu eu laeth i archfarchnadoedd yn uniongyrchol, ac mae hyn, mewn rhai achosion, wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw wedi bod mor llwyddiannus o ran y pris y maent wedi ei gael am gaws a chynhyrchion laeth eraill. Pa drafodaethau a gawsoch gydag archfarchnadoedd, ac yn wir, pa gynnydd a wnaethoch mewn trafodaethau gydag archfarchnadoedd, a Llywodraeth y DU—oherwydd rwy'n gwybod bod angen iddynt hwy roi pwysau arnynt hefyd—i sicrhau bod ein ffermwyr yn cael y pris y maent yn ei haeddu a'i angen am y laeth, ac am gaws a chynhyrchion laeth eraill?</p>
13:32	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, you'll be familiar with the fact that I've made representations to the UK Government regarding the Groceries Code Adjudicator, asking for her to be given more teeth in order to support our dairy farmers here in Wales. I'm really pleased that she's been given the powers to fine supermarkets when they're not giving a fair deal to our farmers. I'm meeting shortly with the Welsh Retail Consortium, to continue these conversations. I have met with one of the major supermarkets recently, and I have to say that not all supermarkets are the same. And I've met a large number of dairy farmers over the past couple of months, and they have different contracts with different supermarkets, and different processors, and, actually, how they're faring now in difficult times is a reflection of the vast range of kinds of contracts that farmers have.</p>	<p>Wel, fe fyddwch yn ymwybodol o'r ffaiht fy mod wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd, yn gofyn iddi gael mwy o rym i gefnogi ein ffermwyr godro yma yng Nghymru. Rwy'n hynod o falch ei bod wedi cael pwerau i ddirwyo archfarchnadoedd pan nad ydynt yn rhoi chwarae teg i'n ffermwyr. Byddaf yn cyfarfod yn fuan â Chonsortium Manwerthu Cymru, i barhau â'r trafodaethau hyn. Rwyf wedi cyfarfod ag un o'r prif archfarchnadoedd yn ddiweddar, ac mae'n rhaid i mi ddweud nad yw pob archfarchnad yr un fath. Ac rwyf wedi cwrdd â nifer fawr o ffermwyr godro dros y misoedd diwethaf, ac mae ganddynt wahanol gytundebau gyda gwahanol archfarchnadoedd a gwahanol broseswyr, ac mewn gwirionedd, mae'r ffordd y maent yn ymdopi yn awr mewn cyfnod anodd yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o fathau o gontractau sydd gan ffermwyr.</p>
	<b>Caffael Cynnyrch Laeth</b>	<b>The Procurement of Dairy Products</b>
13:32	<b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gaffael cynnyrch laeth yng Nghymru? OAQ(4)0270(NR)</i></p>	<p><i>2. Will the Minister make a statement on the procurement of dairy products in Wales? OAQ(4)0270(NR)</i></p>
13:32	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The survey of public sector food—</p>	<p>Mae'r arolwg ar fwyd y sector cyhoeddus—</p>
13:33	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I think you've requested to have this grouped.</p>	<p>Credaf eich bod wedi gwneud cais i hwn gael ei grwpio.</p>
13:33	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Yes, thank you. You've given permission to group this with question 4.</p>	<p>Do, diolch. Rydych wedi rhoi caniatâd i hwn gael ei grwpio gyda chwestiwn 4.</p>
13:33	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you. Okay.</p>	<p>Diolch yn fawr. Iawn.</p>

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ffermio llaeth yng Nghymru yn 2015? OAQ(4)0258(NR)

4. What action will the Welsh Government take to support dairy farming in Wales in 2015? OAQ(4)0258(NR)

## 13:33 Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The survey of public sector food purchasing in Wales 2013 found that 86% of fresh milk purchases and 68% of other dairy purchases were through Welsh companies. Public sector procurement is important in our view of commitment to sustainability, and we're working hard to ensure the success of our Welsh businesses.

Canfu arolwg sector cyhoeddus Cymru ar brynu bwyd 2013 fod 86% o bryniadau llaeth ffres a 68% o bryniadau cynnyrch llaeth eraill wedi digwydd drwy gwmnïau Cymreig. Mae caffael yn y sector cyhoeddus yn bwysig yn ein safbwynt o ymrwymiad i gynaliadwyedd, ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant ein busnesau yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## 13:33 William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank the Deputy Minister very much for that response and, indeed, for the energy that you've shown over recent weeks in engaging with dairy farmers across Wales in the difficult challenges that they're facing. Given those challenges, Deputy Minister, what consideration have you given to proposals worked up recently by Patrick Holden, founding director of the Sustainable Food Trust, and formerly of the Soil Association, specifically for the establishment of a fair trade accreditation and marketing scheme for dairy herds of up to 400 cows? As well as encouraging sound procurement practice, surely such a scheme would also help to promote human-scale family farms, which are the bedrock of Welsh rural communities.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Dirprwy Weinidog am yr ymateb hwnnw ac yn wir, am yr egni rydych wedi'i ddangos dros yr wythnosau diwethaf yn ymgysylltu â ffermwyr godro ledled Cymru ynghylch yr heriau anodd y maent yn eu hwynebu. O ystyried yr heriau hynny, Ddirprwy Weinidog, pa ystyriaeth a roesoch i argymhellion a luniwyd yn ddiweddar gan Patrick Holden, sylfaenydd a chyfarwyddwr y Sustainable Food Trust, gynt o Gymdeithas y Pridd, yn benodol i sefydlu cynllun achredu a marchnata masnach deg ar gyfer buchesi godro o hyd at 400 o wartheg? Yn ogystal ag annog arferion caffael da, yn sicr byddai cynllun o'r fath hefyd yn helpu i hyrwyddo ffermydd teuluol ar raddfa ddynol, sy'n sylfaen i gymunedau gwledig Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## 13:34 Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm really proud of Wales's position as a Fairtrade Nation, and of our commitment to supporting fair trade both at home and abroad. I'm doing a farm visit next week, as it happens, with the Farmers Union of Wales's farmer exchange initiative, to mark Fairtrade Fortnight. A sugar cane farmer from Malawi will be coming to Ceredigion to meet a dairy farmer there, to exchange views and experiences of their different farming practices. So, I'm interested to learn more about that particular proposal. I do struggle sometimes to see how a Fairtrade mark would work, in the sense that milk is processed in different ways—well, milk from different farms is processed together, so it's difficult to separate out those different kinds of farming systems. But, I'll certainly look into this further and will certainly write to you after I've considered it.

Wel, rwy'n falch iawn o statws Cymru fel Cenedl Masnach Deg ac o'n hymrwymiad i gefnogi masnach deg gartref a thramor. Byddaf yn ymweld â fferm yr wythnos nesaf, fel y mae'n digwydd, gyda menter cyfnewid ffermwyr Undeb Amaethwyr Cymru, i nodi Pythefnos Masnach Deg. Bydd ffermwr cansen siwgr o Malawi yn dod i Geredigion i gwrrdd â ffermwr godro yno, i gyfnewid barn a phrofiadau o'u harferion ffermio gwahanol. Felly, mae gen i ddiddordeb mewn dysgu mwy am yr argymhelliad penodol hwnnw. Rwy'n ei chael yn anodd gweld weithiau sut y byddai marc Masnach Deg yn gweithio, yn yr ystyr bod llaeth yn cael ei brosesu mewn gwahanol ffyrdd—wel, mae llaeth o wahanol ffermydd yn cael ei brosesu gyda'i gilydd, felly mae'n anodd gwahanu'r gwahanol fathau o systemau ffermio. Ond byddaf yn sicr yn ymchwilio i hyn ymhellach a byddaf yn sicr yn ysgrifennu atoch ar ôl i mi ei ystyried.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## 13:35 Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the House of Commons Welsh Affairs Committee is holding an inquiry next week into the state of the dairy industry in Wales. Representatives of the National Farmers Union Cymru, the Farmers Union of Wales and Farmers For Action are due to give evidence. Will the Minister commit to studying the results of this inquiry and to implementing its recommendations to secure a viable future for dairy farming in Wales?

Weinidog, bydd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin yn cynnal ymchwiliad yr wythnos nesaf i gyflwr y diwydiant llaeth yng Nghymru. Mae disgwyl i gynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru a Farmers For Action roi tystiolaeth. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i astudio canlyniadau'r ymchwiliad hwn ac i weithredu'r argymhellion i sicrhau dyfodol hyfyw i ffermio llaeth yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:35

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll certainly watch that with interest. You did give a list of people who've been invited to give evidence to that committee, which is looking at the Welsh dairy industry. I have to say that I was quite perplexed that the Welsh Government hasn't been invited to give evidence to that inquiry. That said, I've asked for an independent review into the Welsh dairy industry here in Wales, which will be reporting to me by the end of next week. I'll be considering those responses and responding in due course. Our review has been much more wide-ranging and holistic than the review proposed in Westminster. We've taken views from right across the supply chain—from banks, processors, farmers, retailers and so on—and I hope it will address some of the specific issues that are affecting our farmers in terms of price volatility in the market at the moment. We'll come forward with some really strong, specific recommendations as to how we can use the next rural development programme to support our dairy farmers too.

Byddaf yn sicr yn gwyllo hynny gyda diddordeb. Rhoesoch restr o bobl sydd wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw, sy'n edrych ar y diwydiant llaeth yng Nghymru. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi drysu braidd nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad. Wedi dweud hynny, rwyf wedi gofyn am adolygiad annibynnol i'r diwydiant llaeth yma yng Nghymru, a bydd yn cyflwyno ei adroddiad i mi erbyn diwedd yr wythnos nesaf. Byddaf yn ystyried yr ymatebion hynny ac yn ymateb maes o law. Mae ein hadolygiad wedi bod yn llawer ehangach a mwy cyfannol na'r adolygiad a argymhellwyd yn San Steffan. Rydym wedi ystyried safbwyntiau o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi—gan fanciau, proseswyr, ffermwyr, manwerthwyr ac yn y blaen—ac rwy'n gobeithio y bydd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion penodol sy'n effeithio ar ein ffermwyr o ran anwadalwch prisiau yn y farchnad ar hyn o bryd. Byddwn yn cyflwyno rhai argymhellion gwirioneddol gryf a phenodol ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio'r rhaglen datblygu gwledig nesaf i gefnogi ein ffermwyr godro hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A ydy'r Dirprwy Weinidog yn cytuno mai un ffordd o sicrhau bod mwy o gynnyrch llaeth Cymreig yn cael ei gaffael ydy sicrhau bod mwy o gytundebau cyhoeddus Cymreig sy'n ymwneud â bwyd yn cael ei roi i gwmnïau o Gymru? Mi wnaf i roi hwb i'r Dirprwy Weinidog i'r cyfeiriad rwy'n gobeithio yr aiff hi iddo drwy ddweud bod cytundeb ciniawau ysgol fy etholaeth i yn cael ei ddarparu gan gwmni o Loegr.

Does the Deputy Minister agree that one way of ensuring that more Welsh dairy produce is procured is to ensure that more public sector contracts in Wales related to food are given to Welsh companies? I will give the Deputy Minister a nudge in the direction I hope she will travel by saying that the contract for school lunches in my constituency is delivered by a company in England.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that contribution. You'll know that we have 'Towards Sustainable Growth', our action plan for the food and drink industry, to grow the industry here by 30% by 2020, and we have specific actions within that action plan focusing on enabling public sector purchasing. Those are measurable things as well, so I want to see the numbers of our food and drinks suppliers supplying to the public sector increase and the volume of products supplied increase, and we'll also be benchmarking this against what's happening in England, Northern Ireland and Scotland to check that we are leading the way on public sector procurement in Wales.

Diolch i'r Aelod am y cyfraniad hwnnw. Fe fyddwch yn gwybod am 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', ein cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, i ehangu'r diwydiant yma 30% erbyn 2020, ac mae gennym gamau gweithredu penodol o fewn y cynllun gweithredu hwnnw sy'n canolbwyntio ar alluogi prynu gan y sector cyhoeddus. Mae'r rheini'n bethau mesuradwy hefyd, felly rwyf am weld nifer ein cyflenwyr bwyd a diod sy'n cyflenwi i'r sector cyhoeddus yn codi a maint y cynnyrch a gyflenwir yn cynyddu, a byddwn hefyd yn meincnodi hyn yn erbyn yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i sicrhau ein bod yn arwain y ffordd o ran caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

We all support greater public procurement of Welsh produce, but, in the dairy sector in particular, there is precious little processing capacity here in Wales. There isn't, for example, a large liquid milk processing facility in the whole of south Wales. Given the size of the milk field in west Wales, that is a pretty indefensible position to find ourselves in, to be honest with you. So, how will you correlate the aspirations in your plan for 2020 growth of public procurement with the inability for us to have a processing sector that would be able to meet that public demand for greater Welsh produce?

Rydym i gyd yn cefnogi mwy o gaffael cyhoeddus ar gynnyrch o Gymru, ond yn y sector llaeth yn arbennig, ychydig iawn o gapasiti prosesu sydd yma yng Nghymru. Er enghraifft, nid oes cyfleuster prosesu llaeth hylifol mawr yn ne Cymru. O ystyried maint y maes llaeth yng ngorllewin Cymru, nid oes cyfiawnhad dros fod yn y sefyllfa honno, a bod yn onest. Felly, beth yw'r gydberthynas rhwng yr uchelgais yn eich cynllun ar gyfer twf caffael cyhoeddus erbyn 2020 a'r anallu i sicrhau sector prosesu a fyddai'n gallu bodloni'r galw cyhoeddus hwnnw am fwy o gynnyrch o Gymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I fully agree with you that increasing our processing capacity here in Wales is a priority, and I can tell you that my officials in our food division are working really hard to try and attract processors to Wales.

Cytunaf yn llwyr â chi fod cynyddu ein gallu prosesu yma yng Nghymru yn flaenoriaeth, a gallaf ddweud wrthyfch fod fy swyddogion yn ein hisdran fwyd yn gweithio'n galed iawn i geisio denu proseswyr i Gymru.

13:38 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Ond a fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid inni bellach ystyried y farchnad laeth fel marchnad lle mae cynnwrf pris, fel marchnad fyd-eang, ac ein bod yn delio yn fan hyn â chynwyddau rhyngwladol ac, felly, fod yn rhaid i ni fodelu safle'r diwydiant laeth yng Nghymru mewn perthynas â hynny? Felly, a fyddai'r Gweinidog yn cymryd sylw arbennig o'r angen i ni gynhyrchu llawer iawn mwy o gaws, menyng a chynhyrchion laeth fel ein bod ni'n ychwanegu gwerth?

But would the Minister agree that we must now look at the dairy market as a market where there is price volatility, as a global market, and that we are dealing here with international commodities, and that we therefore have to model the position of the dairy industry in Wales in relation to that? Therefore, would the Minister take particular note of the need for us to produce far more cheese, butter and dairy produce so that we add value here?

13:39 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, again, I agree with you, and it's very much in the spirit of the last question about increasing our processing capacity, for liquid milk but also for added value products as well. I think added value products really are where the future needs to be for our Welsh milk, because it's very difficult to increase consumption of liquid milk; we already drink about 50% of what we produce here, so the next steps absolutely have to be in the direction of increasing our output of cheeses, yoghurts and other dairy products. I'm interested in seeing what we could do in terms of import substitution. For example, there's no reason why we can't be making French-style cheeses here in Wales and that's something that I'm paying particular attention to as well.

Byddwn, unwaith eto, rwy'n cytuno â chi, ac mae'n sicr yn yr un ysbryd â'r cwestiwn diwethaf ynglŷn â chynyddu ein gallu prosesu, o ran laeth hylif, a hefyd o ran cynnyrch gwerth ychwanegol. Rwy'n credu o ddirif mai cynhyrchion gwerth ychwanegol yw'r dyfodol ar gyfer laeth o Gymru, oherwydd ei bod yn anodd iawn cynyddu faint o laeth hylif a yfir; rydym eisoes yn yfed tua 50% o'r hyn rydym yn ei gynhyrchu yma, felly mae'n rhaid i'r camau nesaf symud tuag at gynyddu ein hallbwn o gawsiau, iogwrt a chynhyrchion laeth eraill. Mae gen i ddi-ddordeb mewn gweld beth y gallem ei wneud o ran amnewid mewnforio. Er enghraifft, nid oes rheswm pam na allem wneud cawsiau o fath Ffrengig yma yng Nghymru ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n rhoi sylw arbennig iddo hefyd.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon, the Welsh Conservatives spokesperson, Antoinette Sandbach.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Ceidwadwyr Cymru, Antoinette Sandbach.

13:39 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, I recently attended a public meeting of Save our Paths, a group in Llangollen that is very concerned about bridle ways and footpaths being used by motor vehicles in north Wales. And it's not just a problem in Llangollen, but elsewhere in north Wales. Legislation was introduced by the Department for Environment, Food and Rural Affairs in 2006, covering England and Wales under the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 to allow local authorities to prosecute for misuse of these pathways, but uncertainty remained and further guidance was issued in 2008. Last year, in October, in response to a question from Aled Roberts, you accepted that there was a void of guidance here in Wales. What steps have you taken since last October to look at introducing guidance around green lanes, effectively?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn ddiweddar mynychais gyfarfod cyhoeddus Save our Paths, grŵp yn Llangollen sy'n bryderus iawn ynghylch llwybrau ceffylau a llwybrau troed sy'n cael eu defnyddio gan gerbydau modur yng ngogledd Cymru. Ac nid yn Llangollen yn unig y mae'n broblem, ond mewn mannau eraill yng ngogledd Cymru. Cyflwynwyd deddfwriaeth gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn 2006, yn cwmpasu Cymru a Lloegr o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, i ganiatáu i awdurdodau lleol erlyn am gamddefnyddio'r llwybrau hyn, ond parhaodd yr ansicrwydd a chyhoeddwyd canllawiau pellach ym mis 2008. Y llynedd, ym mis Hydref, mewn ymateb i gwestiwn gan Aled Roberts, fe dderbyniodd fod diffyg canllawiau yma yng Nghymru. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych ers mis Hydref diwethaf i ystyried cyflwyno canllawiau ynghylch lonydd gwyrdd mewn gwirionedd?

- 13:40 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*  
Of course—and I think the Member is right to raise this issue—we are also concerned about the misuse of these bridle ways and footpaths by illegal use of motor cycles in many cases. This is about working with the Minister for Public Services to see what and how enforcement action can be taken in these areas. But, also, supporting the issue of guidance is something that I've asked my team to look at, particularly around what's in the NERC Act currently, and what potential there is for the environment Bill moving forward.
- Wrth gwrs—ac rwy'n meddwl bod yr Aelod yn iawn i godi'r mater hwn—rydym hefyd yn pryderu am gamddefnyddio'r llwybrau ceffylau a'r llwybrau troed hyn drwy ddefnydd anghyfreithlon o feiciau modur mewn llawer o achosion. Mae hyn yn ymwneud â gweithio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i weld pa gamau gorfodi y gellir eu cymryd a sut y gellir eu rhoi ar waith yn yr ardaloedd hyn. Ond hefyd, mae cefnogi mater canllawiau yn rhywbeth rwyf wedi gofyn i fy nhîm edrych arno, yn enwedig o ran yr hyn sydd yn Neddff yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig ar hyn o bryd, a pha botensial sydd yna i symud y Bil amgylchedd yn ei flaen.
- 13:41 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
The difficulty is that, without guidance here in Wales, what is happening is that we are getting people who would have been doing it in England now coming over and using the green lanes here in Wales. It seems that one of the things causing a problem with NERC is the option for an application to upgrade a green lane to a byway open to all traffic—a BOAT status. The guidance in England clarified that in 2008, but, without guidance here in Wales, local authorities can't take that action to prosecute. Are you willing, Minister, to write to me and other Assembly Members, giving a timeline for when you're looking to issue this guidance and to commit yourself to a date to issue it by?
- Yr anhawster yw mai'r hyn sy'n digwydd, heb ganllawiau yma yng Nghymru, yw ein bod yn gweld pobl a fyddai wedi bod yn gwneud hynny yn Lloegr yn awr yn dod i ddefnyddio'r lonydd gwyrdd yma yng Nghymru. Ymddengys mai un o'r pethau sy'n achosi problem gyda Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yw'r opsiwn am gais i uwchraddio lôn werdd yn gillfordd sydd ar agor i unrhyw draffig—statws BOAT. Eglurai'r canllawiau yn Lloegr hynny yn 2008, ond heb ganllawiau yma yng Nghymru, ni all awdurdodau lleol fynd ati i erlyn. Weinidog, a ydych yn fodlon ysgrifennu ataf fi ac Aelodau Cynulliad eraill yn rhoi amserlen i ddangos pa bryd rydych yn bwriadu cyhoeddi'r canllawiau hyn ac i ymrwymo i'w cyhoeddi erbyn dyddiad penodol?
- 13:42 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
I will review the policy objective of my department and I will write to the Member accordingly.
- Byddaf yn adolygu amcan polisi fy adran a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod yn unol â hynny.
- 13:42 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
I'm very grateful for that answer, Minister. Many of these byways and bridle paths go through Forestry Commission land and, last year, on 4 November, I called for a statement from you about the sell-off of Welsh Government-owned forestry land. We know that there have been sales by Welsh Government, but nothing has come into the public domain, effectively, to allow us to question you on that. Can you give us details on that, particularly given that the Welsh Government is so far away from its target of planting 100,000 acres of forest by 2032? It seems odd to be selling off land when you could be using it for planting, and will you commit to making an oral statement in this Chamber about that issue?
- Diolch yn fawr am eich ateb, Weinidog. Mae llawer o'r cilffyrdd a'r llwybrau ceffylau yn mynd dros dir y Comisiwn Coedwigaeth a'r llynedd, ar 4 Tachwedd, gelwais am ddatganiad gennych am werthu tir coedwigaeth sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Gwyddom fod gwerthiannau wedi bod gan Lywodraeth Cymru, ond nid oes dim wedi dod yn gyhoeddus, i bob pwrpas, i'n galluogi i'ch holi ynglŷn â hynny. A allwch roi manylion i ni ar hynny, yn enwedig o ystyried bod Llywodraeth Cymru mor bell o gyrraedd ei tharged o blannu 100,000 erw o goedwig erbyn 2032? Mae'n od eich bod yn gwerthu tir pan allech ei ddefnyddio ar gyfer plannu, ac a wnewch chi ymrwymo i wneud datganiad llafar ar y mater yn y Siambr hon?
- 13:43 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
I have met with forestry officials; I've met with the forestry industry. We're looking very carefully at the objectives set by Welsh Government in terms of our targets for the growth and planting of new trees. It is something that we are working together on to ensure that we are making the best use of land. Of course, I am aware of information requests from the Member seeking information about the forestry in land sales. I'm sure that she has plenty of information that we have released for her.
- Rwyf wedi cyfarfod â swyddogion coedwigaeth; rwyf wedi cyfarfod â'r diwydiant coedwigaeth. Rydym yn edrych yn ofalus iawn ar yr amcanion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o ran ein targedau ar gyfer tyfu a phlannu coed newydd. Mae'n rhywbeth rydym yn gweithio arno gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o dir. Wrth gwrs, rwy'n ymwybodol o geisiadau am wybodaeth gan yr Aelod yn gofyn am wybodaeth am goedwigoedd mewn gwerthiannau tir. Rwy'n sicr bod ganddi ddigon o'r wybodaeth a ryddhawyd gennym ar ei chyfer.

- 13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We now move to Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd. Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.
- 13:43 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Diolch, Lywydd. Next week, Minister, is Climate Week, as I'm sure you are aware, but Wales, of course, is the only part of the UK without statutory climate change targets, or at least the stated intent to introduce such targets. Will you now confirm to the National Assembly for Wales that you, as Minister, and the Welsh Government, will introduce statutory climate change targets for Wales in the forthcoming environment Bill?  
Diolch, Lywydd. Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn gwybod mai'r wythnos nesaf yw Wythnos yr Hinsawdd, ond Cymru, wrth gwrs, yw'r unig ran o'r DU heb dargedau newid hinsawdd statudol, neu fwriad penodol o gyflwyno targedau o'r fath fan lleiaf. A wnewch chi gadarnhau yn awr i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y byddwch chi, fel Gweinidog, a Llywodraeth Cymru, yn cyflwyno targedau newid hinsawdd statudol ar gyfer Cymru yn y Bil amgylchedd sydd i ddod?
- 13:44 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We will be having many discussions about the environment Bill over the next couple of months and we will be seeking to place milestones within the Bill structure as it is presented in the future.  
Byddwn yn cynnal llawer o drafodaethau am y Bil amgylchedd dros y misoedd nesaf a byddwn yn ceisio gosod cerrig milltir yn strwythur y Bil wrth iddo gael ei gyflwyno yn y dyfodol.
- 13:44 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I'm not sure if that's a 'yes' or a 'no' actually, Minister, and maybe a 'yes' or a 'no' would have sufficed. If it is your intention to do that or if it is your wish to do that, then maybe you could indicate, and I'd appreciate that you maybe use this opportunity to tell us whether you would like to do that, if it is at all possible.  
Nid wyf yn siŵr ai 'gwnaf' neu 'na wna'f yw hynny mewn gwirionedd, Weinidog, ac efallai y byddai 'gwnaf' neu 'na wna'f wedi bod yn ddigon. Os yw'n fwriad neu'n ddymuniad gennych wneud hynny, yna efallai y gallech roi arwydd, a byddwn yn gwerthfawrogi pe baech yn manteisio ar y cyfle hwn i ddweud wrthym a fydddech yn hoffi gwneud hynny, os yw hynny'n bosibl o gwbl.
- 13:44 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I think I refer the Member to my previous answer. I am very keen to ensure that the discussions that will be ongoing around the environment Bill will include limits that we will be keen to discuss, as to what that means for Wales and how that will be presented in a more global context.  
Credaf fy mod yn cyfeirio'r Aelod at fy ateb blaenorol. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau y bydd y trafodaethau a fydd yn parhau ynghylch y Bil amgylchedd yn cynnwys terfynau y byddwn yn awyddus i'w trafod, o ran yr hyn y mae hynny'n ei olygu i Gymru, a sut y'i cyflwynir mewn cyd-destun mwy byd-eang.
- 13:44 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Okay, yes, that was an even longer answer. If you are minded to do so, do you believe that it might be also an opportune time to review the current targets of a 3% year-on-year decrease or cut in carbon emissions or a 40% cut by 2020, and do you share the disappointment of many that the climate change annual report from the Welsh Government noted a 3.3% increase in the year reported upon recently, against the annual target, and a 5% increase against the 40% reduction target?  
Iawn, ie, roedd hwnnw'n ateb hirach fyth. Os ydych yn bwriadu gwneud hynny, a ydych yn credu y gallai fod yn amser da hefyd i adolygu'r targedau presennol o ostyngiad o 3% o flwyddyn i flwyddyn mewn allyriadau carbon neu doriad o 40% erbyn 2020, ac a ydych yn rhannu siom llawer o bobl fod adroddiad blynyddol newid yn yr hinsawdd Llywodraeth Cymru wedi nodi cynnydd o 3.3% yn y flwyddyn yr adroddwyd amdani'n ddiweddar yn erbyn y targed blynyddol, a chynnydd o 5% yn erbyn y targed i leihau 40%?

- 13:45 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think the Member raises a fair question in term of the targets that are currently in place. I think what we have to do is recognise that Wales does sit in a global context and how the effects of that are and can be mitigated by a Welsh effect and that's why the seventh goal of the future generations Bill looks at the global impact. Of course, I'm hopeful that the Member will support that next time around when the future generations Bill comes to the floor of the Assembly. It is something that I know he has concerns about, but I also share many of his concerns about what our footprint is in the world and in particular in Wales.
- Credaf fod yr Aelod yn codi cwestiwn teg o ran y targedau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Credaf mai'r hyn sydd angen i ni ei wneud yw cydnabod bod Cymru yn bodoli mewn cyd-destun byd-eang, a sut y gellid lliniaru'r effeithiau hynny gan effaith Cymru, a sut y mae hynny'n digwydd, a dyna pam y mae seithfed nod y Bil cenedlaethau'r dyfodol yn edrych ar yr effaith fyd-eang. Wrth gwrs, rwy'n gobeithio y bydd yr Aelod yn cefnogi hynny'r tro nesaf pan ddaw Bil cenedlaethau'r dyfodol gerbron y Cynulliad. Mae'n rhywbeth y gwn fod ganddo bryderon yn ei gyloch, ond rwyf hefyd yn rhannu llawer o'i bryderon ynglŷn â'n hól troed yn y byd ac yn enwedig yng Nghymru.
- 13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, William Powell.
- 13:46 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr, Lywydd. Minister, what assessment have you made of the significance of the announcement last week by the European Commission of an investment of some €79 million through the INTERREG programme in Ireland and in Wales, with regard particularly to climate change mitigation and the potential benefits that would accrue both to Ireland and of course, equally importantly, to Wales?
- Diolch yn fawr, Lywydd. Weinidog, pa asesiad a wnaethoch o arwyddocâd cyhoeddiad y Comisiwn Ewropeaidd yr wythnos diwethaf o fuddsoddiad o tua €79 miliwn drwy'r rhaglen INTERREG yn Iwerddon ac yng Nghymru, yn benodol o ran mesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd a'r manteision posibl a ddôi i Iwerddon ac wrth gwrs, yr un mor bwysig, i Gymru?
- 13:46 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It's too early to tell about the impacts that will mean for Wales, but we are making assessments of that. I think, what we are well placed in our legislative framework of where the future generations Bill and the environment Bill will work hand in hand, making sure our position and our global footprint works to the best effect on both a European context and beyond.
- Mae'n rhy gynnar i sôn am yr effeithiau a ddeilliai o hynny i Gymru, ond rydym yn cynnal asesiadau ar hynny. Credaf ein bod mewn lle da yn ein fframwaith deddfwriaethol o ran lle y bydd Bil cenedlaethau'r dyfodol a'r Bil amgylchedd yn gweithio law yn llaw, gan sicrhau bod ein sefyllfa a'n hól troed byd-eang yn gweithio mor effeithiol â phosibl mewn cyd-destun Ewropeaidd a thu hwnt.
- 13:46 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm grateful to the Minister for that response. In the context of Climate Week that's coming up, but also with the ongoing discussions that your colleague the Minister for finance has been having with the European Investment Bank, Minister, will you commit to working with her and, indeed through her, with her Irish opposite number, Brendan Howlin, the Minister for public finance, to maximise the benefits particularly to coastal communities of climate change mitigation, with particular emphasis on the very important issue for regeneration, but also most importantly of all for public safety, of flood defence schemes?
- Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb. Yng nghyd-destun Wythnos yr Hinsawdd sydd ar y gorwel, ond hefyd gyda'r trafodaethau parhaus y mae eich cydweithiwr, y Gweinidog cyllid, wedi bod yn eu cael gyda Banc Buddsoddi Ewrop, Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i weithio gyda hi, ac yn wir drwyddi hi, gyda'i Gweinidog Gwyddelig cyfatebol, Brendan Howlin, y Gweinidog cyllid cyhoeddus, i wneud y gorau o fanteision mesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd, yn enwedig i gymunedau arfordirol, gyda phwyslais arbennig ar fater hollbwysig adfywio, ond hefyd yn bwysicaf oll er diogelwch y cyhoedd, i wneud y gorau o fanteision cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd?
- 13:47 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Indeed, and the Member will be aware that, in Wales, we have maintained and enhanced our flood defence budget, whereas in the UK context that has been decreased significantly, and it's something that is a priority for me and this Welsh Government. I work very closely with the finance Minister and my Deputy Minister to ensure that we can have the best leverage to ensure not only Welsh Government finances, but from other sectors that can protect communities that the Member is raising with me today.
- Yn bendant, a bydd yr Aelod yn ymwybodol ein bod wedi cynnal a gwella ein cyllideb amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru, er ei bod wedi lleihau'n sylweddol yng nghyd-destun y DU, ac mae'n fater sy'n flaenoriaeth i mi ac i Lywodraeth Cymru. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog cyllid a fy Nirprwy Weinidog i sicrhau y gallwn gael y dylanwad gorau er mwyn sicrhau nid yn unig cyllid Llywodraeth Cymru, ond o sectorau eraill a all amddiffyn cymunedau y mae'r Aelod yn eu dwyn i fy sylw heddiw.

- 13:48 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm grateful for that response. Finally, Minister, will you commit to working with relevant Cabinet colleagues and also the Welsh Local Government Association to ensure that communities from the bottom up—from town and community councils right up through principal local authorities—are able fully to understand the significance of this structural funding from the European Union and the benefits and opportunities that that brings in terms of enhancing the prospects for future growth, particularly in the coastal communities of Wales?
- Diolch am eich ymateb. Yn olaf, Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i weithio gyda chydweithwyr perthnasol yn y Cabinet a hefyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod cymunedau o'r gwaelod i fyny—o gynghorau tref a chymuned hyd at y prif awdurdodau lleol—yn gallu deall holl arwyddocâd y cyllid strwythurol hwn o'r Undeb Ewropeaidd a'r cyfleoedd a'r buddion a ddaw yn ei sgil o ran gwella'r rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol, yn enwedig yng nghymunedau arfordirol Cymru?
- 13:48 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Indeed. The Member raises a very important procedural issue. I will speak to the finance Minister where we will discuss the best way of disseminating this information once collated.
- Yn wir. Mae'r Aelod yn crybwyll mater gweithdrefnol pwysig iawn. Byddaf yn siarad â'r Gweinidog cyllid ac yn trafod y ffordd orau o ledaenu'r wybodaeth hon wedi iddi gael ei chasglu.
- 13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move back to questions on the paper, and question 3 is William Graham.
- Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan William Graham.

## Trwyddedau Amgylcheddol

## Environmental Permits

- 13:49 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 3. A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu'r canllawiau ar gyfer ceisiadau i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer trwyddedau amgylcheddol? OAQ(4)0265(NR)*
- 3. Does the Minister have any plans to review the guidelines for applications to Natural Resources Wales for environmental permits? OAQ(4)0265(NR)*
- 13:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for South Wales East for his question. I currently have no plans.
- Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru am ei gwestiwn. Ar hyn o bryd nid oes gennyf unrhyw gynlluniau.
- 13:49 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm grateful to the Minister for his answer. Last week, Sonorex Oil and Gas applied for an environmental permit to drill a 4,000 ft exploratory borehole at Uskmouth in Newport to see whether oil or gas were contained within the rocks below the surface. Whilst this is only an exploratory exploration at this time, will the Minister give an assurance that all necessary safeguards and regulations will be strictly complied with, should the site become one of potential fracking?
- Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Yr wythnos diwethaf, gwnaeth Sonorex Oil and Gas gais am drwydded amgylcheddol i ddrilio twll turio archwiliadol 4,000 o droedfeddi yn Aber-wysg yng Nghasnewydd i weld a oes olew neu nwy yn y creigiau o dan yr wyneb. Er mai archwiliad archwiliadol yn unig yw hwn ar hyn o bryd, a wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd o gydymffurfiaeth â'r holl fesurau diogelu a rheoliadau angenrheidiol, pe bai'r safle'n dod yn safle ffracio posibl?
- 13:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Indeed, and the Member will be aware of our precautionary approach to all planning applications with regard to this, and we made a very positive statement on fracking, and the moratorium we raised around this, only last week.
- Yn bendant, a bydd yr Aelod yn ymwybodol o'n hymagwedd ragofalus at yr holl geisiadau cynllunio mewn perthynas â hyn, a gwnaethom ddatganiad cadarnhaol iawn yr wythnos diwethaf ar ffracio, a'r moratoriwm a osodwyd gennym ar hyn.

13:49 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Ar y pwynt yna, wrth gwrs, Weinidog, fe bleidleisiodd y Cynulliad yn ddiweddar iawn, gyda chefnogaeth y Llywodraeth, ar faterion ffracio, ar gais Plaid Cymru, i gymryd y golwg mwyaf gochelgar tuag at ffracio yng Nghymru. Os felly, a oes angen edrych ar y canllawiau sy'n cael eu rhoi i Gyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau eu bod nhw, bellach, yn ateb gofynion a dyheadau y lle hwn?

On that point, of course, Minister, the Assembly voted very recently, with the support of the Government, on the fracking issue, in order to take the most precautionary approach possible towards fracking in Wales, with the support of Plaid Cymru. Therefore, don't we need to look at the guidance given to Natural Resources Wales to ensure that they do correspond to the requirements and aspirations of this place?

13:50 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
The Member will, or should, be aware that, following that vote and my announcement only a week later, I wrote to planning authorities right across Wales informing them of the new policy objectives of this Government.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol, neu fe ddylai fod, fy mod wedi ysgrifennu at awdurdodau cynllunio ledled Cymru, yn dilyn y bleidlais honno a fy nghyhoeddiad wythnos yn unig yn ddiweddarach, yn eu hysbysu o amcanion polisi newydd y Llywodraeth hon.

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Question 4 was grouped with question 2, so we now move to question 5.

Grwpiwyd cwestiwn 4 gyda chwestiwn 2, felly symudwn yn awr at gwestiwn 5.

## Blaenoriaethau Cynllunio

## Planning Priorities

13:50 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei brif flaenoriaethau cynllunio? OAQ(4)0260(NR)*

*5. Will the Minister make a statement on his immediate planning priorities? OAQ(4)0260(NR)*

13:50 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
My immediate planning priority is delivering the Planning (Wales) Bill, in order to create a more efficient, effective and resilient planning service in Wales.

Fy mlaenoriaeth cynllunio uniongyrchol yw cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru), er mwyn creu gwasanaeth cynllunio mwy effeithlon, effeithiol a gwydn yng Nghymru.

13:50 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Minister, may I also very much welcome the Welsh Government's announcement in your statement that there will be a de facto moratorium on fracking—on the extraction of unconventional gas—and that this is effective from 15 February? Could I ask the Minister what the Government's position would be with regard to those applications that are already, I suppose, in the pipeline—if that's not an unfortunate phrase—because there is certainly one in my constituency like that, and it seems to me that we have to ensure that there is consistency from now onwards?

Weinidog, a gaf fi hefyd groesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn eich datganiad y bydd moratoriwm de facto ar ffracio—ar echdynnu nwy anghonfensiynol—ac y daw i rym o 15 Chwefror ymlaen? A gaf fi ofyn i'r Gweinidog beth fyddai safbwynt y Llywodraeth o ran y ceisiadau hynny sydd eisoes, mae'n debyg, ar y gweill, oherwydd mae un felly yn fy etholaeth i yn sicr, ac mae'n ymddangos i mi fod yn rhaid inni sicrhau cysondeb o hyn allan?

13:51 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
I'm grateful that the Member and many other Members in this Assembly have raised this on a continuous basis. We took positive action on 15 February. The direction is clear that it only applies to applications made after 15 February, and it is not retrospective to apply to those regulations. The direction applies to applications for onshore gas or oil developments that propose to use unconventional methods, including hydraulic fracturing, to stimulate extraction of gas at this stage of the development. We are not aware of any applications currently submitted that would fall into this category at this stage.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod a llawer o Aelodau eraill yn y Cynulliad hwn am godi hyn yn barhaus. Fe gymeron ni gamau positif ar 15 Chwefror. Mae'r cyfarwyddyd yn glir ac yn dweud ei fod yn berthnasol i geisiadau a wnaed ar ôl 15 Chwefror yn unig, ac nid yw'n ôl-weithredol i gymhwyso i'r rheoliadau hynny. Mae'r cyfarwyddyd yn cyfeirio at geisiadau ar gyfer datblygiadau nwy neu olew ar y tir sy'n argymhell defnyddio dulliau anghonfensiynol, yn cynnwys hollti hydrologig, i ysgogi echdynnu nwy ar y cam hwn o'r datblygiad. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw geisiadau a gyflwynwyd a fyddai'n perthyn i'r categori hwn ar hyn o bryd.

- 13:52 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one of the concerns raised during the report stage of the Planning (Wales) Bill was that legislation could create a democratic deficit, with decisions being taken away further from the communities that they affect. As I understand it, there is a provision within Part 5 of the Localism Act 2011 around community asset transfer and community right to reclaim land that could be enacted by Welsh Ministers, if they so wished, which could mitigate some of the concerns without changing the Bill. Have you examined those provisions, and, if not, will you commit to doing so?
- Weinidog, un o'r pryderon a godwyd yn ystod cyfnod adrodd y Bil Cynllunio (Cymru) oedd y gallai deddfwriaeth greu diffyg democrataidd, a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ymhellach oddi wrth y cymunedau y maent yn eu heffeithio. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae darpariaeth yn Rhan 5 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau cymunedol a hawl cymunedol i adennill tir y gellid ei deddfu gan Weinidogion Cymru, pe baent yn dymuno gwneud hynny, a fyddai'n lliniaru rhai o'r pryderon heb newid y Bil. A ydych chi wedi archwilio'r darpariaethau hynny, ac os nad ydych, a wnewch chi ymrwymo i wneud hynny?
- 13:52 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- There are two parts to the Member's question. The first one, around democratic deficit, I do not accept that there is a democratic deficit in this process and the Member hasn't been able to allude to it, either, in detail. The fact is that I still only preside over around a dozen applications a year in making decisions; there is no intention for that to change in that process. Indeed, I receive many letters from many Members in this Chamber asking me to make those determinations as the planning Minister. So, you can't have it both ways. One minute, you want me to adjudicate over a planning application, and, sometimes, you don't.
- Mae dwy ran i gwestiwn yr Aelod. O ran y gyntaf, sy'n ymwneud â diffyg democrataidd, nid wyf yn derbyn bod diffyg democrataidd yn y broses hon ac nid yw'r Aelod wedi gallu cyfeirio ato'n fanwl chwaith. Y ffaith yw fy mod ond yn penderfynu ar oddeutu dwsin yn unig o geisiadau'r flwyddyn; nid oes unrhyw fwriad i hynny newid yn y broses honno. Yn wir, rwy'n cael llawer o lythyrau gan nifer o Aelodau yn y Siambr hon yn gofyn i mi i wneud y penderfyniadau hynny fel y Gweinidog cynllunio. Felly, ni allwch ei chael hi'r ddwy ffordd. Un funud, rydych eisiau i mi ddyfarnu cais cynllunio, ac weithiau, nid ydych am i mi wneud hynny.
- The issue around community asset transfer is not a matter for me; it is a matter for another Minister, Lesley Griffiths.
- Nid yw'r mater sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau cymunedol yn fater i mi; mae'n fater i Weinidog arall, Lesley Griffiths.
- 13:53 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, a gaf i eich cyfeirio chi at y diffyg democrataidd, oherwydd rydych yn sôn yn y Bil am sefydlu cynlluniau datblygu strategol a fydd yn cael eu gwneud ar lefel rhanbarthol? Bydd hynny'n golygu bod y penderfyniadau yn cael eu gwneud gan bobl sydd ddim wedi'u hethol yn uniongyrchol gan y cyhoedd. A gaf i eich cyfeirio chi at y sefyllfa yn yr Alban, lle, ar y byrddau cymharol yn yr Alban, mae'r bobl sydd heb eu hethol yn gweithredu fel ymgynghorwyr yn hytrach na phobl sy'n gwneud y penderfyniadau? Oni fyddai system felly yn fwy democrataidd yng Nghymru?
- Minister, may I refer you to the democratic deficit, because you talk in the Bill about the establishment of strategic development plans that will be carried out on a regional level? That means that the decisions will be taken by people who are not directly elected by the public. May I refer you to the position in Scotland, where, on the comparative boards in Scotland, the non-elected people act as consultants or advisors rather than the decision makers? Wouldn't such a system be more democratic for Wales?
- 13:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, it would, and I will consider that very carefully in the amendment stages.
- Byddai, a byddaf yn ystyried hynny'n ofalus iawn yn y camau diwygio.
- Echdynnu Nwy Anghonfensiynol** **The Extraction of Unconventional Gas**
- 13:54 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru o ran ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu nwy anghonfensiynol yng Nghymru?*  
OAQ(4)0267(NR)
- 6. Will the Minister make a statement on Welsh Government policy regarding planning applications for the extraction of unconventional gas in Wales?*  
OAQ(4)0267(NR)

- 13:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I thank the Member for his question. National planning policy on the extraction of unconventional gas is contained in 'Minerals Planning Policy Wales' and reiterated in the policy clarification letter issued in 2014. On 13 February, I issued a notification direction that sets out circumstances where such applications should be referred to Welsh Ministers.
- Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol ar echdynnu nwy anghonfensiynol yn cael ei gynnwys yn 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' ac yn cael ei ailadrodd yn y llythyr egluro polisi a gyhoeddwyd yn 2014. Ar 13 Chwefror, cyhoeddais gyfarwyddyd hysbysu sy'n nodi amgylchiadau lle y dylid cyfeirio ceisiadau o'r fath at Weinidogion Cymru.
- 13:54 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you for that answer, Minister, and I also welcome the decision on the moratorium on fracking. Like my colleague from Pontypridd, we also have an application prior to the date set, and I was also listening to your answer to him on that point. Many of these applications are actually for exploratory boreholes. Are you going to look at the combination of exploratory boreholes for the fracking applications, but also the exploratory boreholes for coal-bed methane and for shale gas? Have you done any analysis of the implications of the pollutants that might be in the water that are coming out as a consequence of the coal-bed methane extraction?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, ac rwyf hefyd yn croesawu'r penderfyniad a wnaed ar y moratoriwm ar ffracio. Fel fy nghyd-Aelod o Bontypridd, mae gennym ninnau hefyd gais cyn y dyddiad penodedig, ac roeddwn yn gwrandao ar eich ateb iddo ar y pwynt hwnnw. Mewn gwirionedd mae llawer o'r ceisiadau hyn ar gyfer tyllau turio archwiliol. A ydych yn mynd i edrych ar y cyfuniad o dyllau turio archwiliol ar gyfer y ceisiadau ffracio, ond hefyd y tyllau turio archwiliol ar gyfer methan gwely glo a nwy siâl? A ydych chi wedi gwneud unrhyw ddadansoddiad o oblygiadau'r llygryddion a allai fod yn y dŵr sy'n cael eu rhyddhau o ganlyniad i echdynnu'r methan gwely glo?
- 13:55 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Of course. I think we are doing some more work with regard to other technology involved in fracturing the ground. The borehole element of this isn't covered by this direction. What we don't want to do— Boreholes are used for extensive purposes, whether that is for potential fracking or otherwise for ground assessment in terms of what that may mean for water or other extraction. So, borehole drilling isn't covered by the direction, but most certainly fracking is. I will give further consideration to the examples that the Member raised with regard to other activity post that, but it's certainly a very clear message that any fracking potential in Wales must be referred to me.
- Wrth gwrs. Rwy'n credu ein bod yn gwneud mwy o waith mewn perthynas â thechnoleg arall sy'n cynnwys hollti'r ddaear. Nid yw'r elfen o hyn sy'n ymwneud â thyllau turio wedi'i chynnwys y cyfarwyddyd. Yr hyn nad ydym eisiau ei wneud—. Mae tyllau turio'n cael eu defnyddio at ystod eang o ddibenion, boed ar gyfer ffracio posibl neu fel arall ar gyfer asesu'r ddaear i weld beth y gallai hynny ei olygu o ran dŵr neu gloddio arall. Felly, nid yw tyllu twll turio wedi ei gynnwys yn y cyfarwyddyd, ond mae ffracio, yn sicr, yn cael ei gynnwys. Byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r enghreifftiau a godwyd gan yr Aelod o ran gweithgarwch arall ar ôl hynny, ond mae'n sicr yn neges glir iawn y dylid cyfeirio unrhyw ffracio posibl yng Nghymru ataf i.
- 13:56 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you for your answers to David Rees, Minister. Your party, of course, is seeking more control over energy through a revised devolution settlement, yet you have not until now used your powers to revise planning guidance, not even on exploratory work in connection with unconventional gas extraction. You're also introducing a planning Bill that aims to bring consistency to the interpretation of guidance and yet you haven't been prepared to give guidance on this very specific and controversial issue. Why should the Welsh public support your primary legislation and your calls for further powers over energy, when you haven't even been prepared to address mere guidance?
- Diolch i chi am eich atebion i David Rees, Weinidog. Mae eich plaid, wrth gwrs, yn chwilio am fwy o reolaeth dros ynni drwy setliad datganoli diwygiedig, ac eto nid ydych wedi defnyddio eich pwerau i adolygu canllawiau cynllunio tan yn awr, hyd yn oed ar waith archwiliol yng nghyswllt echdynnu nwy anghonfensiynol. Rydych hefyd yn cyflwyno Bil cynllunio sy'n anelu at ddod â chysondeb i'r broses o ddehongli canllawiau, eto i gyd nid ydych wedi bod yn barod i roi arweiniad ar y mater penodol a hynod ddadleuol hwn. Pam y dylai'r cyhoedd yng Nghymru gefnogi eich deddfwriaeth sylfaenol a'ch galwadau am bwerau pellach dros ynni, pan nad ydych yn barod i fynd i'r afael â chyfarwyddyd syml hyd yn oed?

- 13:56 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the Member should perhaps refer herself to a conversation with Russell George. The fact is that the planning Bill is a structural framework Bill, not a policy Bill, and the Member should be made aware of that process. We have been very clear in terms of the process of guidance issued to planning authorities. They fully understand the regulatory regime that they have to follow, and I don't believe that the authorities are short of guidance in any way, shape or form. We've been very clear on energy policy here in Wales.
- 13:57 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rwy'n derbyn eich bod chi wedi ysgrifennu at yr awdurdodau cynllunio, ond nid mater jest i Lywodraeth Cymru ydy datganoli pwerau ynni, ond mater sydd wedi cael ei gyhoeddi yn Silk rhan 2. Os ydy'r pŵer yna yn cael ei ddatganoli, a ydych chi wedi gwneud unrhyw waith paratoi fel ein bod yn gallu symud yn gyflym iawn, o achos yr holl bwysau sydd ar y ceisiadau yma yn y pen draw?
- 13:57 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, energy policy is split between myself and the Minister for Economy, Science and Transport in terms of where the levels of power or energy consents lie. Particularly in planning terms, we are prepared for an increase in powers, subject to whatever Silk may deliver in the near future.
- 13:58 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I welcome the answers you've given to both my colleagues to earlier questions, but a British Geological Survey study on potential unconventional gas resource in Wales states that the south Wales coalfield contains a significant thickness of coal that meets the criteria to be called a coal-bed methane resource with the highest measured seam content in the UK. I'm told that a licence has already been granted to explore in the Burry Port inlet. Would you please confirm, Minister, that NRW will have to assess the environmental impact of any proposals that come forward for exploration in the inlet?
- 13:58 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, again, all of my department and external bodies such as NRW are clear on the application of the precautionary approach around borehole applications. As I said, that's a separate issue from the issue around fracking or coal-bed methane extraction, and we're very keen to ensure that developers understand completely the planning regime that operates here in Wales, which is very different to what's happening in England. This moratorium is applying in Scotland and in Wales, but not in England, and I don't hear the opposition party saying much about that today.

## Allyriadau Carbon Deuocsid

## Carbon Dioxide Emissions

- 13:59 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*7. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod Cymru yn ystyried effeithiau ei hallyriadau CO2 ar weddill y byd? OAQ(4)0266(NR)*  
*7. What plans does the Minister have to ensure that Wales takes into account the effects of its CO2 emissions on the rest of the world? OAQ(4)0266(NR)*
- 13:59 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
I thank the Member for Cardiff North for her question today. Our report, published last December, showed the solid progress we are making towards meeting our emission reduction targets, but further action is needed. I am committed to working with our international partners to help secure a legally binding global agreement in Paris this December.  
Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am ei chwestiwn heddiw. Mae ein hadroddiad, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf, yn dangos y cynnydd cadarn rydym yn ei wneud tuag at gyrraedd ein targedau lleihau allyriadau, ond mae angen gweithredu pellach. Rwy'n ymrwymedig i weithio gyda'n partneriaid rhyngwladol i helpu i sicrhau cytundeb cyfreithiol byd-eang ym Mharis ym mis Rhagfyr.
- 13:59 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
I thank the Minister for that reply. I think we all know that our actions here in Wales contribute to climate change, and climate change does affect the poorest people throughout the world. The Minister says that he is committed to getting a meaningful and universal climate agreement in Paris later on in the year. What can Wales actually do to ensure that summit is successful?  
Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Rwy'n credu ein bod i gyd yn gwybod bod ein gweithgarwch yma yng Nghymru yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd, ac mae newid hinsawdd yn effeithio ar y bobl dlotaf ledled y byd. Mae'r Gweinidog yn dweud ei fod wedi ymrwmo i gael cytundeb hinsawdd cyffredinol ac ystyrllon ym Mharis yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Beth y gall Cymru ei wneud mewn gwirionedd i sicrhau bod yr uwchgynhadledd yn llwyddiannus?
- 14:00 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
We, I believe, with our legislative profile, are starting to create a spur in the global context of saying look at what Wales is doing, and we should be very proud of the whole process. We've already contributed to achieving formal United Nations recognition of the key role regional governments have on climate change. We are working alongside international European Union and UK partners towards a strong global agreement, and I think we are well placed here in Wales to demonstrate our commitment to ensuring that we tackle climate change very seriously, and we are legislating towards that too.  
Gyda'n proffil deddfwriaethol, rwy'n credu ein bod yn dechrau creu sbardun yn y cyd-destun byd-eang drwy ddweud edrychwch ar yr hyn y mae Cymru'n ei wneud, a dylem fod yn falch iawn o'r broses gyfan. Rydym eisoes wedi cyfrannu at gael cydnabyddiaeth ffurfiol y Cenhedloedd Unedig i'r rôl allweddol sydd gan lywodraethau rhanbarthol ar newid hinsawdd. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid rhyngwladol yr Undeb Ewropeaidd a'r DU tuag at gytundeb byd-eang cryf, ac rwy'n credu ein bod mewn sefyllfa dda yma yng Nghymru i ddangos ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael o ddifrif â newid hinsawdd, ac rydym yn deddfu tuag at hynny hefyd.
- 14:01 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Minister, I'm slightly surprised by that answer, given your earlier answer to Llyr Huws Gruffydd, when you said that the 3.3% increase in Wales's emissions was down to factors that you couldn't particularly identify in relation to Wales. Now, given that the three Westminster party leaders have signed up to push for a fair, strong and legally binding global climate deal, which affirms their commitment to UK targets in line with the climate change Acts—in other words, an 80% reduction in emissions by 2050—and your disappointing delivery of that in Wales, what action have you taken to discuss that failure to deliver in Wales with the UK Government and the other opposition parties in Westminster?  
Weinidog, rwy'n synnu braidd at eich ateb, o ystyried eich ateb cynharach i Llyr Huws Gruffydd, pan ddywedoch fod y cynnydd o 3.3% yn allyriadau Cymru yn deillio o ffactorau na allech eu nodi'n benodol mewn perthynas â Chymru. Nawr, o gofio bod y tri arweinydd plaid yn San Steffan wedi ymrwmo i bwysu am fargen hinsawdd gref a theg, sy'n rhwymo mewn cyfraith, ac sy'n cadarnhau eu hymrwymiad i dargedau'r DU yn unol â'r Deddfau newid hinsawdd—mewn geiriau eraill, gostyngiad o 80% mewn gollyngiadau erbyn 2050—a'ch cyflawniad siomedig ar hynny yng Nghymru, pa gamau a roesoch ar waith i drafod y methiant hwnnw i gyflawni yng Nghymru gyda Llywodraeth y DU a'r gwrthbleidiau eraill yn San Steffan?

14:01	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I think the Member may live in a different climate to our climate change, because we have exceeded our 3% annual emission reduction targets for 2012 data, and are likely to meet our 3% annual reduction target for the 2013 data. So, the Member suggesting that we are not doing well at all on this is incorrect. We are very keen to play our position in a union context; Wales is part of the UK, which I'm very proud to be part of, and we have to take this very seriously. Our commitment to climate change is very clear, and we are introducing an environment Bill, hopefully in April.</p>	<p>Rwy'n credu bod yr Aelod yn byw mewn hinsawdd wahanol i'n hinsawdd newidiol ni, oherwydd rydym wedi rhagori ar ein targedau i leihau allyriadau blynyddol o 3% ar gyfer data 2012, ac yn debygol o gyrraedd ein targed lleihau allyriadau blynyddol o 3% ar gyfer data 2013. Felly, mae awgrym yr Aelod nad ydym yn gwneud yn dda o gwbl ar hyn yn anghywir. Rydym yn awyddus iawn i ddefnyddio ein sefyllfa yng nghyd-destun yr undeb; mae Cymru yn rhan o'r DU, ac rwy'n falch iawn o fod yn rhan ohoni, ac mae'n rhaid i ni fod o ddifrif ynglŷn â hyn. Mae ein hymrwymiad i'r newid yn yr hinsawdd yn glir iawn, a byddwn yn cyflwyno Bil amgylchedd ym mis Ebrill, gobeithio.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:02	<p><b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Os ydym ni yn mynd i leihau ein hallyriadau carbon, yna mae'n rhaid i ni gynhyrchu mwy o drydan mewn ffordd gynaliadwy i'r dyfodol. Pryd fydd y Llywodraeth yn gosod targedau ystyrlon ar gyfer cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddol?</p>	<p>If we are to reduce our carbon emissions, then we must produce more electricity in a sustainable manner for the future. When will the Government set meaningful targets for energy production from renewable sources?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:02	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, we are very keen to have a mix of energy. Low-carbon energy programmes are part of that programme. I'm sure I can count on the Member's support for low carbon technology as we move forward here in Wales, particularly in Anglesey.</p>	<p>Wel, rydym yn awyddus iawn i gael cymysgedd o ynni. Mae rhaglenni ynni carbon isel yn rhan o'r rhaglen honno. Rwy'n siŵr y gallaf ddibynnu ar gefnogaeth yr Aelod i dechnoleg carbon isel wrth i ni symud ymlaen yma yng Nghymru, yn enwedig yn Ynys Môn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>CFFI Cymru</b>		<b>Wales YFC</b>	
14:03	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â thrafodaethau gyda Cffl Cymru ar gyllid? OAQ(4)0268(NR)</i></p>	<p><i>8. Will the Minister provide an update on progress in discussions with YFC Wales over funding? OAQ(4)0268(NR)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<p><b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>My officials have met with representatives from YFC Wales in relation to any support that this Government, alongside others, might provide to help ensure the long-term sustainability of the organisation.</p>	<p>Mae fy swyddogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o CFFI Cymru mewn perthynas ag unrhyw gefnogaeth y gallai'r Llywodraeth hon, ynghyd ag eraill, ei darparu i helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister, for that. I do declare an interest on this question as I'm a vice-president of a local young farmers club, and I do have children connected to the movement at the moment.</p> <p>Minister, obviously the withdrawal of Government funding from a significant level—I think it was £120,000 to zero overnight—provided a real financial challenge to the YFC movement. Are you in a position to give any indication at all as to whether the negotiations and discussions that your officials have had to date will enable the young farmers movement to bridge some of that difference in funding that they find themselves facing, given that the end of the financial year now is only one month away?</p>	<p>Diolch i chi am hynny, Weinidog. Rwy'n datgan fy niddordeb mewn perthynas â'r cwestiwn hwn gan fy mod yn is-lywydd clwb ffermwyr ifanc lleol, ac mae gennyf blant sy'n gysylltiedig â'r mudiad ar hyn o bryd.</p> <p>Weinidog, cafodd cyllid sylweddol ei dynnu'n ôl gan y Llywodraeth—rwy'n credu iddo fynd o £120,000 i ddim dros nos—ac roedd hynny'n amlwg yn her ariannol go iawn i fudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc. A ydych mewn sefyllfa i roi unrhyw arwydd o gwbl a yw'r trafodaethau y mae eich swyddogion wedi'u cael hyd yma yn mynd i alluogi mudiad y ffermwyr ifanc i bontio rhywfaint o'r gwahaniaeth y maent yn ei wynebu yn y cyllid, o ystyried mai mis yn unig sydd i fynd cyn diwedd y flwyddyn ariannol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:04

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I do have to correct you; there was no withdrawal of funding. What happened was that applications were made for national voluntary youth organisations funding, and the young farmers were unsuccessful in that particular round of funding, so there wasn't a cut in funding or withdrawal of funding, as some Members on your benches have suggested. But what I will say is discussions— [Interruption.] There was no withdrawal of funding. Discussions are ongoing, and Welsh Government is grateful for the work that the YFC do in terms of providing a young persons' voice for us, helping us ensure that our policies are futureproofed to meet the needs of young people entering the industry. We're very grateful for their work. I'm unable to provide a fuller answer in terms of the detailed discussions today, I'm sorry.

Mae'n rhaid i mi eich cywiro chi; ni chafodd unrhyw gyllid ei dynnu'n ôl. Yr hyn a ddigwyddodd oedd bod ceisiadau wedi'u gwneud am gyllid sefydliadau ieuencid gwirfoddol cenedlaethol, ac roedd y ffermwyr ifanc yn aflwyddiannus yn y rownd benodol honno, felly ni chafwyd toriad yn y cyllid ac ni chafodd arian ei dynnu'n ôl, fel y mae rhai Aelodau ar eich meinciau wedi ei awgrymu. Ond yr hyn a ddywedaf yw bod trafodaethau—[Torri ar draws.] Ni chafodd unrhyw gyllid ei dynnu'n ôl. Mae trafodaethau'n parhau, ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am y gwaith y mae CFFI yn ei wneud o ran rhoi llais i'n pobl ifanc, sy'n ein helpu i sicrhau bod ein polisiau wedi'u diogelu at y dyfodol i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r diwydiant. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu gwaith. Ni allaf roi ateb llawnach o ran y trafodaethau manwl heddiw, mae'n ddrwg gen i.

14:05

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf i hefyd yn datgan diddordeb, gan fy mod i'n un o is-lywyddion y mudiad ffermwyr ifanc. O'm mhersbectif i, fel Aelod Cynulliad Ceredigion, mae'r mudiad yma mor bwysig yn y gwaith maen nhw'n ei gynnal. Fe lanwon nhw Theatr Felinfach bob noswaith yr wythnos diwethaf gyda'u cystadlaethau, ac fe fyddai fe'n gam mawr yn ôl os na fyddai'r mudiad yma'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru. Un o'u cryfderau nhw, wrth gwrs, yw eu bod nhw'n rhwydwaith cenedlaethol o bobl ifanc yng nghefn gwlad. Felly, maen nhw'n cynnig eu hunain, fel mudiad, i fod yn gallu gweithio gyda chi i ddelifro rhai o flaenoriaethau a pholisiau Llywodraeth Cymru. Yng nghyd-destun hynny, a wnewch chi edrych ar sut allwch chi ddefnyddio'r mudiad i weithio gyda chi, ac i'w hariannu nhw'n briodol, er mwyn delifro ar rhai o'r amcanion yr ych chi'n eu rhannu, fel Llywodraeth, gyda'r mudiad pwysig yma?

I also declare an interest, as I am one of the vice-presidents of the young farmers movement. From my perspective, as the Assembly Member for Ceredigion, this movement is so important in the work that they do. They filled Theatr Felinfach every night last week with their competitions, and it would be a huge retrograde step if this movement did not receive funding from Welsh Government. One of their strengths, of course, is that they are a national network of young people in rural areas. So, they offer themselves, as an organisation, to work with you to deliver some of the priorities and policies of Welsh Government. In that context, will you look at how you can use the organisation to work with you, and to fund them appropriately, in order to deliver on some of the objectives that you as a Government share with this important organisation?

14:06

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I do hear what you're saying and I'll bear all this in mind as the discussions go on. I agree that the YFC provide excellent resource for Welsh Government in terms of, I suppose, testing the pulse of young people in rural Wales. They have already participated in our young entrants support scheme stakeholder group and the knowledge transfer strategic advisory board, which helps to develop our vision for the next rural development programme, as well as being involved in the 'Working Smarter' task and finish group on communications and customer service, and the on-farm health and safety partnership as well. They're a really effective campaigning group in terms of on-farm safety and rural issues more generally, so I'm completely in tune and sympathetic and in agreement with what you've said.

Rwy'n clywed yr hyn rydych yn ei ddweud a byddaf yn cadw hyn i gyd mewn cof wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen. Rwy'n cytuno bod CFFI yn darparu adnodd gwych i Lywodraeth Cymru o ran, fe dybiaf, profi pwls pobl ifanc yn y Gymru wledig. Maent eisoes wedi cymryd rhan yn ein grŵp rhanddeiliaid ar gyfer y cynllun cefnogi newydd-ddyfodiaid ifanc a'r bwrdd cynghori strategol ar drosglwyddo gwybodaeth, sy'n helpu i ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer y rhaglen datblygu gwledig nesaf, yn ogystal â bod yn rhan o 'Hwyluso'r Drefn', y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfathrebu a gwasanaeth i gwsmeriaid, a'r bartneriaeth iechyd a diogelwch ar y fferm yn ogystal. Maent yn grŵp ymgyrchu effeithiol iawn o ran diogelwch ar y fferm a materion gwledig mwy cyffredinol, felly rwy'n deall yn iawn yr hyn rydych wedi ei ddweud, ac yn llawn cydymdeimlad ac yn cytuno â chi.

14:06

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, as someone who was once a member of a young farmers club, I understand their importance to rural communities. [Interruption.] Can I ask what consideration you've given to funding the YFC through your department, perhaps through the rural development plan?

Weinidog, fel rhywun a oedd unwaith yn aelod o glwb ffermwyr ifanc, rwy'n deall eu pwysigrwydd i gymunedau gwledig. [Torri ar draws.] A gaf fi ofyn pa ystyriaeth rydych wedi ei rhoi i ariannu CFFI yn eich adran, efallai drwy'r cynllun datblygu gwledig?

14:07	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> As I say, discussions are ongoing at the moment, and I'm unable to provide a fuller answer on the detail of those discussions today, I'm afraid.	Fel y dywedais, mae trafodaethau'n parhau ar hyn o bryd, ac nid wyf yn gallu rhoi ateb llawnach ar fanylion y trafodaethau hynny heddiw, yn anffodus.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:07	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I'm not sure why there should be such disbelief that Peter was a member. [Laughter.] We now move to question 9—Gwyn Price.	Nid wyf yn siŵr pam y dylai fod cymaint o anghrediniaeth fod Peter wedi bod yn aelod. [Chwerthin.] Rydym bellach yn symud i gwestiwn 9—Gwyn Price.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Rhandiroedd</b>		<b>Allotments</b>	
14:07	<b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd rhandiroedd yng Nghymru? OAQ(4)0259(NR)</i>	<i>9. Will the Minister make a statement on the availability of allotments in Wales? OAQ(4)0259(NR)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:07	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I refer you to the recent statement I made on allotments in Plenary on 27 January.	Fe'ch cyfeiriaf at y datganiad diweddar a wneuthum ar rhandiroedd yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ionawr.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:07	<b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for that answer. Minister, allotments have traditionally been the territory of pottering old men, but allotments are now appealing to a wider age group, as people increasingly recognise their many benefits. I am delighted that many schools in Wales, including Pantiside Primary School in my constituency, have their own allotments on site, and the pupils plant seeds and grow vegetables. What action is the Welsh Government taking to encourage communities to use allotments as an educational resource?	Diolch i chi am eich ateb. Weinidog, yn draddodiadol, manau i hen ddynion ymdroi ynddynt oedd rhandiroedd yn arfer bod, ond maent bellach yn apelio at grŵp oedran ehangach, wrth i fwyfwy o bobl gydnabod eu hamryw fanteision. Rwyf wrth fy modd fod gan lawer o ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys Ysgol Gynradd Cefn-y-Pant yn fy etholaeth, eu rhandiroedd eu hunain ar y safle, ac mae'r disgyblion yn plannu hadau ac yn tyfu llysiau. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog cymunedau i ddefnyddio rhandiroedd fel adnodd addysgol?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:07	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> It's a fantastic opportunity. I recently visited a school in Ann Jones's constituency where they had a fantastic allotment area and livestock too. It was a great experience for the young people. I think this offers great opportunity. I know that the leader of Plaid Cymru is an allotment addict too, like our 'Percy the Park Keeper' on our backbenches, and we welcome his question this afternoon.	Mae'n gyfle gwych. Yn ddiweddar, ymwelais ag ysgol yn etholaeth Ann Jones ac roedd ganddynt randir rhagorol a da byw hefyd. Roedd yn brofiad gwych i'r bobl ifanc. Rwy'n credu bod hyn yn cynnig cyfle gwych. Gwn fod arweinydd Plaid Cymru yn dwli ar rhandiroedd hefyd, fel ein Persi Ceidwad y Parc ar ein meinciau cefn ni, ac rydym yn croesawu ei gwestiwn y prynhawn yma.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:08	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I'm sure the Minister will agree with me that allotments can result in improving social cohesion. They combine the local community together, as well as being a great way to learn more about the benefits of healthy eating. Given that there is clearly increased demand for allotments—and there is certainly demand in my own constituency—can the Minister tell us how the forthcoming Planning (Wales) Bill will help in increasing the number of allotments in Pembrokeshire, and, indeed, across the whole of Wales?	Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi pan ddywedaf y gall rhandiroedd arwain at wella cydlyniant cymdeithasol. Maent yn dod â'r gymuned leol at ei gilydd, yn ogystal â bod yn ffordd wych o ddysgu mwy am fanteision bwyta'n iach. O ystyried ei bod yn amlwg fod mwy o alw am rhandiroedd—ac yn sicr mae galw yn fy etholaeth ia all y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae Bil Cynllunio (Cymru) sydd i ddod yn mynd i helpu i gynyddu nifer y rhandiroedd yn Sir Benfro, ac yn wir, ar draws Cymru gyfan?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:08

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as the Member will be aware, the planning Bill won't help in terms of allotment provision, but what it will do, what we can do, and I'll do with the Green Paper that we recently consulted on, is about understanding land use, and it's not always about allocating land as allotments. There are examples, I think in Swansea, where they have community garden facilities, which is a very similar activity, undertaken in allotment-style, but it doesn't have the same legislative burden around it. So, it's something that my team and local authorities, local parishes, are thinking about: how can we enhance that better in the future?

Wel, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, ni fydd y Bil cynllunio'n help o ran darparu rhandiroedd, ond yr hyn y bydd yn ei wneud, yr hyn y gallwn ei wneud, ac y byddaf yn ei wneud gyda'r Papur Gwyrdd y buom yn ymgynghori yn ei glych yn ddiweddar, yw ysgogi dealltwriaeth am ddefnydd tir, ac nid yw bob amser yn ymwneud â dyrannu tir ar ffurf rhandiroedd. Mae yna enghreifftiau, yn Abertawe rwy'n credu, lle y mae ganddynt gyfleusterau gerddi cymunedol, sy'n weithgaredd tebyg iawn, ac yn cael ei wneud mewn ffordd debyg i'r hyn a wneir â rhandiroedd, ond nid yw'n cynnwys cyrmaint o faich deddfwriaethol. Felly, mae'n rhywbeth y mae fy nhim ac awdurdodau lleol, plwyfi lleol, yn ei ystyried: sut y gallwn ehangu hynny'n well yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, byddwch chi'n gwybod o'r datganiad y gwnaethoch chi ym mis Ionawr fy mod i wedi bod yn gweithio gyda grŵp o ddeiliaid 'allotments' yn Fairyland, yng Nghastell-nedd, ar ôl i'r cyngor tref newid ei bolisi yno. Y pryder mawr o hyd yw'r ffaith bod y cyngor tref yn bwriadu gweithredu'r polisi newydd yn ôl-weithredol o fis Medi 2015, gan gymryd safleoedd ychwanegol gan y rheini sydd yno'n barod a chan y rheini sy'n byw y tu allan i ffiniau'r cyngor tref ar hyn o bryd. A ydych yn cytuno felly dylai cynghorau nodi'n glir, a chyfiawnhau, unrhyw benderfyniadau ôl-weithredol drwy ymgynghori â'r bobl hynny a hefyd rhoi siawns iddynt apelio nad yw'n bodoli ar hyn o bryd?

Minister, you will know from the statement that you made in January that I have been working with a number of allotment holders in Fairyland, in Neath, after the town council changed its policy there. The great concern still is that the town council intends to implement the new policy retrospectively from September 2015, taking additional sites from those already in situ and from those who live outwith the boundaries of the town council at present. Do you agree, therefore, that councils should note clearly, and justify, any retrospective decisions in consultation with those people and also give them an opportunity to appeal, an opportunity that isn't available at the moment?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think what's important is that we recognise the value allotments have in communities—not just in the growth and supply of vegetables, but, actually, it's great for the human aspect and health qualities too. Of course, I think one of the important things for any local authority or local town and community council is engagement with communities and what the effects are of any changes that may be taking place. But this is a matter for the local authority that the Member relates to.

Rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig yw ein bod yn cydnabod gwerth rhandiroedd mewn cymunedau—nid yn unig o ran tyfu a chyflenwi llysiau, ond mewn gwirionedd, mae'n wych ar gyfer yr agwedd ddynol a rhinweddau iechyd hefyd. Wrth gwrs, rwy'n credu mai un o'r pethau pwysig ar gyfer unrhyw awdurdod lleol neu dref leol a chynghor cymuned yw ymgysylltu â chymunedau a darganfod beth yw effeithiau unrhyw newidiadau a allai fod yn digwydd. Ond mater i'r awdurdod lleol y mae'r Aelod yn sôn amdano yw hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Gwaith Cynllunio i Atal Llifogydd

## Flood Prevention Planning

14:10

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'r gwersi a ddsysgwyd o'r llifogydd yn Nhywyn ym 1990 wedi dylanwadu ar waith cynllunio i atal llifogydd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0256(NR)*

*10. Will the Minister make a statement on how lessons learnt from the 1990 Towyn floods have influenced flood prevention planning in north Wales? OAQ(4)0256(NR)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Clwyd West for his question. I do remember those floods very well, as a Member in north Wales. Many of my colleagues worked in the fire service, rescuing many in his particular constituency. We always learn lessons from flood incidents. Towyn has remained resilient in the face of last year's coastal storms, and, over the term of this Government, we have invested over £40 million in coastal flood prevention across north Wales.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin Clwyd am ei gwestiwn. Rwy'n cofio'r llifogydd hynny'n dda iawn, fel Aelod yng ngogledd Cymru. Roedd llawer o fy nghydweithwyr yn gweithio yn y gwasanaeth tân, yn achub llawer yn ei etholaeth ef. Rydym bob amser yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau llifogydd. Mae Tywyn wedi parhau'n gadarn yn wyneb stormydd arfordirol y llynedd, a thros gyfnod y Llywodraeth hon, rydym wedi buddsoddi dros £40 miliwn yn atal llifogydd arfordirol ar draws gogledd Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, Minister. You will know that this Thursday marks the twenty-fifth anniversary of the floods in Towyn, and I can sorely remember my family household being affected by those devastating floods and, of course, they're seared into the memory of many thousands of homeowners in not just Towyn, but also Kinmel Bay, Rhyl and beyond in terms of the flooding events that took place on that fateful day. But, Minister, I have to say that I am disappointed that there isn't a greater effort being made to promote flood awareness as a result of the commemoration of the twenty-fifth anniversary. I do think that it is a missed opportunity, not just for Towyn but, as I say, the whole of the north Wales coast, in order to refresh people in terms of the action that they need to take to protect their homes from flooding in low-lying areas around our coasts and indeed along Welsh rivers. I wonder, Minister, whether you will accept an invitation from me to come and visit Towyn at the earliest opportunity in order to highlight the good work—and there has been some very good work—that has been done.

Diolch am eich ateb, Weinidog. Fe wyddoch y bydd hi'n bum mlynedd ar hugain ers y llifogydd yn Nhywyn y dydd lau hwn, a gallaf gofio'n glir fy nghartref teuluol yn cael ei effeithio gan y llifogydd dinistriol hynny. Wrth gwrs, mae'r atgofion hynny yn fyw yng nghof miloedd lawer o berchnogion tai, nid perchnogion tai yn Nhywyn yn unig, ond perchnogion tai ym Mae Cinmel, Y Rhyl a thu hwnt o ran y llifogydd a ddigwyddodd ar y diwrnod tyngedfennol hwnnw. Ond Weinidog, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn siomedig nad oes mwy o ymdrech yn cael ei wneud i hybu ymwybyddiaeth o lifogydd yn sgil cofio'r pumed pen blwydd ar hugain. Rwy'n credu ei fod yn gyfle sy'n cael ei gollu, nid yn unig i Dywyn, ond fel y dywedais, i arfordir gogledd Cymru i gyd, er mwyn atgoffa pobl o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i amddiffyn eu cartrefi rhag llifogydd ar dir isel o amgylch ein harfordiroedd, ac yn wir, ar hyd afonydd Cymru. Weinidog, tybed a fydddech yn derbyn gwahoddiad gennyf i ddod i ymweld â Thywyn ar y cyfle cyntaf, er mwyn tynnu sylw at y gwaith da a wnaed-sy'n cynnwys gwaith da dros ben.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:12

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, and I do recall that the Member has invited me to come; it's just diary commitments at this point in time that I've been unable to commit to that, but I will indeed, and I do often go to his constituency and walk my dog along the coastal front, as the Member will know very well. What we have to be very clear about is that flooding won't go away, but we have to make sure that communities are resilient and aware of that process. We are the only part of the UK that has community wardens that look after people in flood areas. In England and Scotland, this doesn't happen, but in Wales we are still committed to doing that. Natural Resources Wales do a tremendous job of informing the local people in communities about the risks of flooding, but the Member raises an important point about making sure that people are prepared for this potential of flood risk, and it is something that I'm very keen my team work on with the agencies alongside them.

Wrth gwrs, ac rwy'n cofio bod yr Aelod wedi fy ngwahodd i ddod; ymrwymadau dyddiadur ar hyn o bryd sydd wedi fy rhwystro rhag gallu ymrwymo i hynny, ond fe wnaef yn wir, ac rwy'n aml yn mynd i'w etholaeth i fynd â fy nghl am dro ar hyd y traeth, fel y mae'r Aelod yn gwybod yn iawn. Yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yn glir iawn yw na fydd llifogydd yn peidio â digwydd, ond mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod cymunedau'n gallu eu gwrthsefyll a'u bod yn ymwybodol o'r broses honno. Ni yw'r unig ran o'r DU â wardeiniaid cymunedol i ofalu am bobl mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl llifogydd. Yn Lloegr a'r Alban, nid yw hyn yn digwydd, ond yng Nghymru rydym yn parhau â'n hymrwymiad i wneud hynny. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwaith gwych yn rhoi gwybod i bobl leol mewn cymunedau am beryglon llifogydd, ond mae'r Aelod yn tynnu sylw at bwynt pwysig ynglŷn â gwneud yn siŵr fod pobl yn paratoi ac yn barod ar gyfer y posibilrwydd o berygl llifogydd, ac mae'n rhywbeth rwy'n frwd iawn i fy nhim weithio arno ochr yn ochr â'r asiantaethau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:13

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Un agwedd bwysig arall, wrth gwrs, yw sicrhau nad oes datblygiadau anaddas yn digwydd yn y lle cyntaf. A gaf ofyn i chi, felly, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, a ydych chi'n hyderus bod yna ddigon yn cael ei wneud i atal datblygiadau ar orlffdir arfordirol a hefyd, wrth gwrs, mewndirol?

One other important aspect, of course, is to ensure that there are no inappropriate developments happening in the first place. Can I ask you, therefore, as Minister with responsibility for planning, are you confident that enough is being done to prevent development on coastal floodplains and, of course, inland floodplains also?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:13

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, we are very keen to ensure that the raft of advice given to local authorities on floodplains is considered very carefully and assessed at every opportunity when an application is presented.

Ydw, rydym yn awyddus iawn i sicrhau fod yr holl gyngor a roddwyd i awdurdodau lleol ar orlffdiroedd yn cael ei ystyried yn ofalus iawn ac yn cael ei asesu ar bob cyfle pan fydd cais yn cael ei gyflwyno.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Llosgyddion Gwastraff Cartref

## Household Waste Incinerators

14:14	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gael gwared ar ludw o losgyddion gwastraff cartref yng Nghymru? OAQ(4)0261(NR)</p>	<p>11. Will the Minister make a statement on the disposal of ash from household waste incinerators in Wales? OAQ(4)0261(NR)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:14	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I thank the Member for her question. In line with 'Towards Zero Waste', the Welsh Government encourage operators of energy-from-waste plants to recycle ash. The most common use is as secondary aggregate.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Yn unol â 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', mae Llywodraeth Cymru yn annog gweithredwyr safleoedd sy'n troi gwastraff yn ynni i ailgylchu lludw. Y defnydd mwyaf cyffredin ohono yw fel agregau eilaidd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:14	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Thank you for that answer, Minister. You'll be aware that the Splott incinerator is operational, but I've had concerns raised with me by residents near the Lamby Way waste disposal site that ash from the Splott incinerator is being sorted and processed in the open air on that site and that, with heavy machinery moving ash and sorting metal out of the ash in the open air, obviously, there is potential for that ash to be dispersed into the air and to affect the local population. I have written to Natural Resources Wales to ask what monitoring they're doing of air quality in the area, but I wonder if you could investigate and just make sure that Viridor are operating within the terms of their licence.</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol bod llosgydd y Sblot yn weithredol, ond mae trigolion ger y safle gwaredu gwastraff ar Ffordd Lamby wedi dangos eu bod yn pryderu bod lludw o losgydd y Sblot yn cael ei ddioli a'i brosesu yn yr awyr agored ar y safle hwnnw, a gyda pheiriannau trwm yn symud lludw ac yn didoli metel o'r lludw yn yr awyr agored, yn amlwg, mae posibilrwydd i'r lludw hwnnw gael ei wasgaru i'r awyr ac effeithio ar y boblogaeth leol. Rwyf wedi ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn pa waith monitro y maent yn ei wneud ar ansawdd aer yn yr ardal, ond tybed a wnewch chi ymchwilio i wneud yn siŵr fod Viridor yn gweithredu yn unol ag amodau eu trwydded.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:14	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I will.</p>	<p>Gwnaf.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:15	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Minister, I know you'll be aware of the fines of the Castle Cement plant in Padeswood in my region. There are concerns about dioxins contained in emissions from incineration. What research is Welsh Government undertaking to ensure that those don't represent a health risk to citizens in North Wales and elsewhere?</p>	<p>Weinidog, gen eich bod yn ymwybodol o ddirwyon gweithfa Castle Cement yn Padeswood yn fy rhanbarth i. Mae pryderon ynghylch deuocsinau sy'n cael eu cynnwys mewn allyriadau yn sgil llosgi. Pa ymchwil y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau nad yw'r rhain yn creu risg iechyd i ddinasyddion yng ngogledd Cymru ac mewn mannau eraill?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:15	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Proposals for any incineration plant to be built in Wales come under strict regulation, operated by Natural Resources Wales and the local planning authority. These are taken into consideration at that point in time.</p>	<p>Mae argymhellion i adeiladu unrhyw safleoedd llosgi yng Nghymru yn gaeth i reoliadau llym a weithredir gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol. Caiff y rhain eu hystyried bryd hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:15	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:15	<b>2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi</b>	<b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<b>2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty</b>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
	<p>We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1 is from Llyr Gruffydd.</p>	<p>Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Daw cwestiwn 1 gan Llyr Gruffydd.</p>		
	<b>Argaeledd Tai Fforddiadwy</b>		<b>The Availability of Affordable Housing</b>	

14:15	<p><b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd tai fforddiadwy? OAQ(4)0292(CTP)</p>	<p>1. Will the Minister make a statement on the availability of affordable housing? OAQ(4)0292(CTP)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:15	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i></p> <p>Diolch. Increasing the supply of housing is a key priority for this Government. Our programme for government commitment to deliver 10,000 additional affordable homes and bring 5,000 empty properties back into use during the term of this Government is well on target.</p>	<p>Diolch. Mae cynyddu'r cyflenwad o dai yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon. Mae ymrwymiad ein rhaglen lywodraethu i ddarparu 10,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol a dod â 5,000 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd dros gyfnod y Llywodraeth hon yn agos iawn at gyrraedd y targed.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:16	<p><b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Diolch ichi am eich ateb. Un rhwystredigaeth fawr sy'n cael ei chodi'n gyson gyda fy wy y llwyddiant y mae nifer o ddatblygwyr yn ei gael pan mae'n dod i ostwng nifer y tai fforddiadwy sy'n ddisgwyliedig iddyn nhw eu cynnwys mewn datblygiadau tai. A gaf ofyn pa drafodaethau yr ych chi wedi'u cael gyda'r Gweinidog cynllunio i drïo mynd i'r afael â hyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n mynnu bod yna lefel uwch o dai fforddiadwy yn rhan o bob datblygiad?</p>	<p>Thank you for your response. One major frustration raised with me regularly is the success that many developers have when it comes to reducing the number of affordable housing that they are expected to include in their housing developments. May I ask what discussions you have had with the planning Minister to try to tackle this to ensure that we insist that there's a higher level of affordable housing as a part of every development?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:16	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes. That is a discussion that I have had with my colleague, Carl Sargeant. In fact, yesterday, we had a joint meeting with developers. It's not something that developers have raised very often with me since I came into post, but it is a matter that we have discussed.</p>	<p>Cewch. Mae honno'n drafodaeth rwyf wedi'i chael gyda fy nghyd-Aelod, Carl Sargeant. Yn wir, ddoe, cawsom gyfarfod ar y cyd gyda datblygwyr. Nid yw'n rhywbeth y mae datblygwyr wedi ei ddwyn i fy sylw'n aml iawn ers i mi gychwyn yn y swydd, ond mae'n fater rydym wedi'i drafod.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:16	<p><b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I welcome the progress that's been made on the Government's ambitious targets to build affordable housing. Would you agree with me, however, that the cost-of-living crisis is making it more difficult for people to get on the housing ladder and making the need for affordable housing more acute?</p>	<p>Weinidog, rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed ar gyrraedd targedau uchelgeisiol y Llywodraeth i adeiladu tai fforddiadwy. A fydddech yn cytuno â mi, fodd bynnag, fod yr argyfwng costau byw yn ei gwneud yn anos i bobl gael lle ar yr ysgol dai ac yn gwneud yr angen am dai fforddiadwy yn fwy difrifol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:17	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes. I would absolutely agree with you. We do face a very real cost-of-living crisis. I think that's a result of many of the UK Government policies on taxes and benefits, falling wages, and the cost of fuel bills is continuing to rise. I think that really makes it very difficult for people to get their foot on the property ladder.</p> <p>We have several schemes, as a Welsh Government, to help people get on that ladder. You'll be aware of our Help to Buy Wales scheme, and that's really helping first-time buyers and existing home owners to purchase a new build property. I've just today announced our intention to extend the Help to Buy Wales scheme beyond 31 March 2016. You rightly point out the importance of affordable homes, and we have made excellent progress with a total of 6,890 additional affordable homes delivered against our target of 10,000 in the term of this Government.</p>	<p>Byddwn. Byddwn yn cytuno'n llwyr â chi. Rydym yn wynebu argyfwng costau byw go iawn. Rwy'n credu bod hynny'n deillio o ganlyniad i nifer o bolisiau Llywodraeth y DU ar drethi a budd-daliadau, cyflogau sy'n gostwng, ac mae cost biliau tanwydd yn parhau i godi. Credaf fod hynny'n yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl i gael troed ar yr ysgol eiddo.</p> <p>Mae gennym nifer o gynlluniau, fel Llywodraeth Cymru, i helpu pobl i gael troed ar yr ysgol honno. Fe fyddwch yn ymwybodol o'n cynllun Cymorth i Brynu yng Nghymru, ac mae hwnnw'n help mawr i brynwyr tro cyntaf a pherchenogion cartrefi presennol i brynu eiddo wedi'i adeiladu o'r newydd. Heddiw, rwyf newydd gyhoeddi ein bwriad i ymestyn y cynllun Cymorth i Brynu ar ôl 31 Mawrth, 2016. Rydych yn hollol gywir i nodi pa mor bwysig yw tai fforddiadwy ac rydym wedi gwneud cynnydd ardderchog gyda chyfanswm o 6,890 o dai fforddiadwy ychwanegol wedi cael eu darparu yn erbyn ein targed o 10,000 dros gyfnod y Llywodraeth hon.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>

14:18	<p><b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, the number of student houses in multiple occupation actually let in Swansea dropped by 25% last year. What progress have you made following questions to you and your predecessor about working with landlords to convert empty HMO houses into more permanent and affordable one and two-bedroomed homes?</p>	<p>Weinidog, cafwyd gostyngiad o 25% yn nifer y tai amfeddiannaeth i fyfyrwyr a gafodd eu gosod yn Abertawe y llynedd. Pa gynnydd a wnaethoch yn dilyn cwestiynau i chi a'ch rhagflaenydd ynglŷn â gweithio gyda landlordiaid i droi tai amfeddiannaeth gwag yn dai un a dwy ystafell wely, sy'n fwy parhaol a fforddiadwy?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:18	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I have had discussions with some landlords, particularly on my visits out and about across Wales. I can't think of anything specifically in Swansea, but I think our renting homes Bill is another area where that perhaps will encourage landlords to increase the HMOs that we do have in Wales. I think it's really important that both tenants and landlords are very well aware of their roles and responsibilities.</p>	<p>Rwyf wedi cael trafodaethau gyda rhai landlordiaid, yn enwedig ar fy ymweliadau ar draws Cymru. Ni allaf feddwl am unrhyw beth yn benodol yn Abertawe, ond rwy'n credu bod ein Bil rhentu cartrefi yn faes arall a allai annog landlordiaid i gynyddu nifer y tai amfeddiannaeth sydd gennym yng Nghymru. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i denantiaid a landlordiaid fel ei gilydd fod yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:18	<p><b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, one issue that's been raised with me on a number of occasions in this regard is the management of affordable housing contributions from housing developers, particularly in Wales's national parks. Some stakeholders are concerned that national park authorities are sometimes somewhat overprotective of these contributions and are not always prepared to engage fully with the respective housing authorities in their areas. In this context, Minister, there is, then, potentially, a failure for the most effective spend of those moneys to address the affordable housing need. As a result of this, Minister, will you commit to looking into this matter and also to engaging with your Cabinet colleagues with responsibility for planning, but also for national parks, to endeavour to have this issue addressed so that housing need also in Welsh national parks can be fully addressed?</p>	<p>Weinidog, un mater a gafodd ei ddwyn i fy sylw ar sawl achlysur yn y cyswllt hwn yw rheoli cyfraniadau tai fforddiadwy gan ddatblygwyr tai, yn enwedig ym mharciau cenedlaethol Cymru. Mae rhai rhanddeiliaid yn pryderu bod awdurdodau parciau cenedlaethol braidd yn rhy amddiffynnol o'r cyfraniadau hyn weithiau ac nad ydynt yn barod bob amser i ymgysylltu'n llawn â'r awdurdodau tai priodol yn eu hardaloedd. Yn y cyd-destun hwn, Weinidog, mae yna bosibilrwydd felly y methir â gwario'r cyllid hwnnw yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy. O ganlyniad i hyn, Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i edrych ar y mater a hefyd i ymrwymo i ymgysylltu â'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio, a thros y parciau cenedlaethol, er mwyn ymdrechu i dynnu sylw at y mater hwn fel y gellir mynd i'r afael yn llawn â'r angen am dai ym mharciau cenedlaethol Cymru hefyd?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:19	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, I'm very happy to have that discussion with my colleague, Carl Sargeant, Minister for Natural Resources.</p>	<p>Gwnaf, rwy'n hapus iawn i gael y drafodaeth honno gyda fy nghyd-Aelod, Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Hawliau Gofal Plant</b></p>		<p><b>Childcare Entitlement</b></p>	
14:19	<p><b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hawliau gofal plant ar gyfer teuluoedd yn Nyffryn Clwyd?</i> OAQ(4)0291(CTP)</p>	<p><i>2. Will the Minister make a statement on childcare entitlement for families in the Vale of Clwyd?</i> OAQ(4)0291(CTP)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:19	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>All three to four-year-olds in Wales are entitled to a minimum of 10 hours a week of free early education through the foundation phase. The Welsh Government also provides 12.5 hours a week of free childcare to eligible two to three-year-olds under the Flying Start programme.</p>	<p>Mae gan bob plentyn tair i bedair oed yng Nghymru hawl i isafswm o 10 awr yr wythnos o addysg gynnar am ddim drwy'r cyfnod sylfaen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i blant 2-3 oed sy'n gymwys o dan y rhaglen Dechrau'n Deg.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:20

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that answer, Minister. I'm delighted that we are leading the way here in Wales with providing childcare. It's often seen as one of the barriers that many women will find trying to return to work. Often, the provision of childcare is the other side of the town, and many of them who haven't got access to transport find it difficult then to access the employment market. I'm delighted that you are committed to ensuring that we do have this extra childcare to allow women to work. What assessment can you make of other programmes that the Welsh Government may be able to facilitate to ensure that women can make the best use of the childcare provision or offer that is available to them at present?

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Rwyf wrth fy modd ein bod yn arwain y ffordd yma yng Nghymru o ran darparu gofal plant. Mae'n aml yn cael ei weld yn un o'r rhwystrau sy'n wynebu llawer o fenywod wrth geisio dychwelyd i'r gwaith. Yn aml, mae'r ddarpariaeth gofal plant ar yr ochr arall i'r dref ac mae llawer ohonynt sydd heb drafnidiaeth yn ei chael hi'n anodd wedyn i fynd i mewn i'r farchnad waith. Rwy'n falch iawn eich bod wedi ymrwymo i sicrhau'r gofal plant ychwanegol hwn er mwyn caniatáu i fenywod weithio. Pa asesiad y gallwch ei wneud o raglenni eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu hyrwyddo i sicrhau bod merched yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth neu'r cynnig gofal plant sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. We know that work is often difficult for many people, not just women, but men as well, to access because of childcare, so it's very important that we are able to offer high-quality childcare in the places that they're very much needed. We know from our programmes such as Communities First and Lift that women in particular are deterred and often prevented from taking paid work by the difficulties in finding and paying for childcare. I mentioned in my original answer to you the childcare provision we have. You'll be aware that we've recently launched a pledge that, following May, when we have a Labour Government in Westminster, we're then going to increase our childcare. At that time, we will consult. I think it's very important that, in providing that childcare, we consult with parents, we consult with the workforce, and we consult with the childcare sector and schools to make sure that provision is of high quality and is where it's required.

Diolch yn fawr. Fe wyddom fod cael gwaith yn aml yn anodd i lawer o bobl oherwydd gofal plant, ac nid i fenywod yn unig, ond i ddynion yn ogystal, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn gallu cynnig gofal plant o ansawdd uchel yn y lleoedd y mae fwyaf o'i angen. O'n rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf ac Esgyn, fe wyddom fod menywod yn arbennig yn cael eu rhwystro, a'u hatal yn aml, rhag gwneud gwaith cyflogedig oherwydd yr anawsterau a gânt yn dod o hyd i ofal plant a thalu amdano. Soniais yn fy ateb gwreiddiol i chi am y ddarpariaeth gofal plant sydd gennym. Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod yn ddiweddar wedi lansio addewid y byddwn yn cynyddu ein darpariaeth gofal plant ar ôl mis Mai pan fydd gennym Lywodraeth Lafur yn San Steffan. Byddwn yn ymgynghori bryd hynny. Wrth ddarparu gofal plant o'r fath, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ymgynghori â rhieni, gyda'r gweithlu, a'r sector gofal plant ac ysgolion i wneud yn siŵr fod y ddarpariaeth o ansawdd uchel a'i bod yn cael ei chynnig yn y manau lle y mae ei hangen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was amazed to hear that statement by Ann Jones about us leading the way in accessible, affordable childcare, because the independent Family and Childcare Trust's assessment of Wales was that, in fact, we, of all the nations, were the one falling the furthest behind, Minister. In my region, Llanbedr school has a wraparound childcare service called Munchkins, which provides a huge deal of support to local working parents. What are you doing, particularly in rural areas, where childcare is often connected with a local school and that local school is under threat of closure, to ensure that the childcare remains available and accessible for those parents who are working?

Roeddwn wedi fy synnu o glywed y datganiad gan Ann Jones amdanom ni'n arwain y ffordd ym maes gofal plant hygyrch a fforddiadwy, oherwydd yn ôl asesiad annibynnol yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant, o'r holl genhedloedd, Cymru oedd fwyaf ar ei hôl hi mewn gwirionedd, Weinidog. Yn fy rhanbarth i, mae gan ysgol Llanbedr wasanaeth gofal plant cofleidiol o'r enw Munchkins, sy'n darparu llawer iawn o gefnogaeth i rieni lleol sy'n gweithio. Mewn ardaloedd gwledig yn enwedig, lle y mae gofal plant yn aml yn gysylltiedig ag ysgol leol a bod bygythiad i gau'r ysgol leol honno, beth rydych chi'n ei wneud i sicrhau bod gofal plant yn parhau ar gael ac yn parhau'n hygyrch i rieni sy'n gweithio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a Government, we provide funding and grants to local authorities for them to provide wraparound childcare and play during out-of-school hours and holiday periods. So, it's up to the local authorities to ensure that that provision is there.

Fel Llywodraeth, rydym yn darparu cyllid a grantiau i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddarparu gofal plant cofleidiol a chyfluoedd chwarae yn ystod oriau y tu allan i'r ysgol a chyfnodau gwyliau. Felly, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw sicrhau bod y ddarpariaeth honno ar gael.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:23 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae sefyllfa mewn llawer ardal, wrth gwrs, lle mae gofal plant i blant tair i bedair oed yn gysylltiedig â'r ysgol, ond, weithiau, y tu allan i'r ysgol mewn neuadd bentref. Mae yna achosion yn fy etholaeth i lle mae gofyn y Llywodraeth i wario arian er mwyn gwella'r adnoddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn golygu bod rhaid gwario'r arian cyn mis Ebrill, ond mae hynny'n amhosib oherwydd amgylchiadau sy'n ymwneud ag eiddo, ac yn y blaen. A oes posib i chi sicrhau bod y ddarpariaeth yma'n cael ei hymestyn gan y Llywodraeth er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i fudiadau lleol er mwyn addasu'r safleoedd yma?

The situation in many areas, of course, is that childcare for children aged three to four years is associated with schools, but, sometimes, outside school, in a village hall. There are cases in my constituency where the Government's requirement to spend money to improve the resources outside the classroom means that the money must be spent before April, but that's impossible because of circumstances relating to property, and things like that. Is it possible for you to ensure that this provision can be extended by the Government to give local organisations more flexibility in order to adapt these sites?

14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I can't comment on specific examples, but if the Member would like to write to me, I'm certainly very happy to look into it.

Ni allaf roi sylwadau ar enghreifftiau penodol, ond os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf, rwy'n sicr yn hapus iawn i edrych ar hynny.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to spokespeople's questions. First this afternoon is the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau'r llefarwyr. Yn gyntaf y prynhawn yma mae llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.

14:24 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, yn gynharach yn eich sesiwn gwestiynau, fe roeddech chi'n sôn am effaith polisiâu y glymblaid yn San Steffan ar bobl yng Nghymru: budd-daliadau'n cael eu torri, a chyflwyno'r dreth ystafell wely. A ydych chi wedi gwneud asesiad o faint mae'ch adran chi wedi gorfod ei wario yn nhermau gweinyddiaeth er mwyn delio â'r achosion yma?

Minister, earlier in your questions session, you were talking about the impact of the Westminster coalition's policies on people in Wales: benefits being cut, and the introduction of the bedroom tax. Have you carried out an assessment of how much your department has had to spend in administrative terms in order to deal with these cases?

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That's something I've asked my officials to look into.

Mae hynny'n fater rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych arno.

14:24 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, fe fyddai hi'n ddiddorol iawn petaech chi yn gwneud hynny, ac, ar yr un pryd, Weinidog, hwyrach y byddech chi'n ystyried adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Ariannol, yr 'Institute for Fiscal Studies', sydd yn dweud y byddai yna doriad o 2% yng nghyllideb Llywodraeth Cymru petai yna Lywodraeth Lafur yn cael ei hethol wedi'r etholiad cyffredinol nesaf. A wnech chi geisio cael amcan gan eich swyddogion o beth fyddai cost hynny i weinyddiaeth eich adran chi?

Well, it would be very interesting if you could do that, and, at the same time, Minister, perhaps you would consider the report of the Institute for Fiscal Studies, which states that there would be a cut of 2% in the Welsh Government budget if a Labour Government were to be elected following the next general election. Will you ask your officials to estimate the cost of that to your department's administration?

- 14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As I say, I have asked my officials to look into that piece of work. Obviously, budgets after the general election in May will be a matter for the UK Government to discuss. I know it's going to be very difficult for a Labour Government going in, but I'm absolutely convinced that if it is a Tory Government again—if we had that misfortune—then we'll probably be looking at in the region of £50 billion.
- Fel y dywedais, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych ar y gwaith hwnnw. Yn amlwg, bydd cyllidebau ar ôl yr etholiad cyffredinol ym mis Mai yn fater i Lywodraeth y DU ei drafod. Rwy'n gwybod y bydd yn anodd iawn i Lywodraeth Lafur newydd, ond rwy'n gwbl argyhoeddedig, os ceir Llywodraeth Doriaidd eto—pe baem mor anffodus â hynny—yna byddwn yn ôl pob tebyg yn edrych ar oddeutu £50 biliwn.
- 14:25 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Wel, rwy'n falch eich bod chi'n derbyn bod yna gwtogi yn mynd i fod ar gyllideb Llywodraeth Cymru, pwy bynnag sydd yn ennill yr etholiad cyffredinol nesaf. A oes yna le ichi, Weinidog, i edrych yn strategol ar eich adran chi ac i geisio defnyddio'r arian sydd gyda chi yn fwy strategol, o ystyried nad oes unrhyw fodd ichi amddiffyn pobl Cymru, mewn gwirionedd, rhag y toriadau hyn sydd yn dod o San Steffan, pwy bynnag sydd yn llywodraethu yn y fan honno? Byddech chi'n gallu bod yn llawer iawn mwy effeithiol wrth ddefnyddio'ch cyllideb chi mewn ffordd strategol, er mwyn ceisio mynd i'r afael â thlodi plant, er enghraifft.
- Well, I'm pleased that you accept that there will be a cut in the Welsh Government's budget, whoever wins the next general election. Is there scope for you, Minister, to take a strategic look at your department and to try to use the funding available to you more strategically, given that there is no way for you to protect the people of Wales from these cuts coming from Westminster, whoever governs there? You could be much more effective by using your budget in a strategic manner, in order to try to tackle child poverty, for example.
- 14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I do think we look very strategically at how we spend our funding. One area of work that I have undertaken since I came into portfolio is looking at how much more closely aligned our major tackling poverty programmes can be. Communities First, Flying Start and Families First do fantastic work separately, but I think to align them much more strategically will bring better outcomes.
- Wel, rwy'n credu ein bod yn edrych yn strategol iawn ar sut rydym yn gwario ein cyllid. Un maes gwaith rwyf wedi bod ynghlwm ag ef ers i mi gael y portffolio yw edrych ar sut y gellid alinio ein prif raglenni trechu tlodi yn well. Mae Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn gwneud gwaith gwych yn annibynnol ar ei gilydd, ond rwy'n credu y byddai alinio'r tri yn fwy strategol yn sicrhau gwell canlyniadau.
- 14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.
- Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 14:26 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, the recent issue of 'Inside Housing' highlighted the concern of a number of Welsh councils that they're going to struggle to train staff in time to implement the new homelessness policies by the April deadline. In particular, they're concerned about the timetable because the consultation on new guidance for councils on accommodation and homelessness will not close until 23 March, meaning that they have very little time to train staff. Can you give some assurances that this issue is not going to arise for those councils?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, roedd cyhoeddi 'Inside Housing' yn ddiweddar yn tynnu sylw at bryder nifer o gynghorau yng Nghymru eu bod yn mynd i gael trafferth hyfforddi staff mewn pryd i weithredu'r polisiâu digartrefedd newydd erbyn y terfyn amser ym mis Ebrill. Yn benodol, maent yn pryderu am yr amserlen gan na fydd yr ymgynghoriad ar ganllawiau newydd i gynghorau ar lety a digartrefedd yn cau tan 23 Mawrth, sy'n golygu mai ychydig iawn o amser a gânt i hyfforddi staff. A allwch gynnig sicrwydd nad yw'r broblem hon yn mynd i godi i'r cynghorau hynny?
- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I don't think those issues will arise. I think they've had plenty of a heads-up and plenty of time to get ready for this. I know my predecessor, Carl Sargeant, did a huge amount of work with local authorities as the Bill was going on its passage through the Assembly before it became an Act.
- Nid wyf yn credu y bydd y materion hynny'n codi. Rwy'n credu eu bod wedi cael digon o rybudd a digon o amser i baratoi ar gyfer hyn. Rwy'n gwybod bod fy rhagflaenydd, Carl Sargeant, wedi gwneud llawer iawn o waith gydag awdurdodau lleol tra oedd y Bil yn mynd drwy'r Cynulliad cyn iddo ddog yn Ddeddf.

14:27	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for that answer, Minister. Nevertheless, there is very little time between the closing date for the guidance consultation and when that new guidance is going to be issued, and local authorities only have a matter of weeks. How quickly are you going to be able to get that guidance out so that local authorities will know precisely what they'll be working to and what they have to train staff on?	Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Serch hynny, nid oes llawer iawn o amser rhwng dyddiad cau'r ymgynghoriad ar y canllawiau a chyhoeddi'r canllawiau newydd, ac wythnosau'n unig fydd gan awdurdodau lleol. Pa mor gyflym rydych chi'n mynd i allu cyhoeddi'r canllawiau fel y bydd awdurdodau lleol yn gwybod yn union beth fydd eu gwaith a'r hyn y bydd yn rhaid iddynt hyfforddi staff yn ei gylch?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:27	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Officials are already starting preparatory work, which you would expect, and I hope to get it turned around very, very quickly before implementation on 1 April.	Mae swyddogion eisoes yn dechrau ar waith paratoi, fel y byddech yn ei ddisgwyl, ac rwy'n gobeithio y caiff ei gwblhau'n gyflym iawn iawn cyn iddo ddod yn weithredol ar 1 Ebrill.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:28	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you again for that answer, Minister. I think the other issue that was raised is that the allocations for the £4.9 million fund for 2015-16 were only announced last month, leaving councils very little time to find and train appropriate staff. Are you confident that councils will be able to put in place the staff they need to implement these homelessness provisions?	Diolch i chi eto am eich ateb, Weinidog. Rwy'n credu mai'r mater arall a godwyd yw mai'r mis diwethaf yn unig y cyhoeddwyd y dyraniadau ar gyfer y gronfa £4.9 miliwn ar gyfer 2015-16, nad oedd yn gadael fawr iawn o amser i gynghorau ddod o hyd i staff priodol a'u hyfforddi. A ydych yn hyderus y bydd y cynghorau'n gallu dod o hyd i'r staff sydd eu hangen arnynt ar gyfer gweithredu'r darpariaethau digartrefedd hyn?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:28	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Yes, I am.	Ydw.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:28	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> And, finally, the Welsh Conservatives' spokesperson, Mark Isherwood.	Ac yn olaf, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mark Isherwood.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:28	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Diolch. Under international definitions used by the EU, those with less than 60% of median income are defined as 'poor', which means, technically, no matter how narrow or wide the ranges, there would always be poverty. The Bevan Foundation has said that there's no definition of poverty in the Welsh Government's tackling poverty action plan or programme for government and that the definition should broaden to include wider individual household resources and needs. The Joseph Rowntree Foundation also said that the definition should be:  'When a person's resources...are not sufficient to meet their minimum needs'.  When this was put to you in committee, you said you would need to look at all those indicators. You were quite warm in your response. Since that time, what consideration have you given to what definition of poverty should apply in Wales to recognise those resources and needs?	Diolch. Mae'r diffiniadau rhyngwladol a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd yn nodi y caiff pobl sy'n cael llai na 60% o'r incwm canolrifol eu disgrifio fel pobl 'dlawd', sy'n golygu, ni waeth pa mor gul neu eang yw'r ystodau, yn dechnegol bydd tldi bob amser yn bodoli. Mae Sefydliad Bevan wedi dweud nad oes unrhyw ddiffiniad o dlodi yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tldi na'r rhaglen lywodraethu ac y dylid ymestyn y diffiniad i gynnwys adnoddau ac anghenion ehangach aelwydydd unigol. Dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree hefyd mai dyma ddylai'r diffiniad fod:  'Pan nad yw adnoddau person...yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol'.  Pan gafodd hyn ei awgrymu i chi yn y pwyllgor, fe ddywedoch y byddai angen i chi edrych ar bob un o'r dangosyddion hynny. Roedd eich ymateb yn eithaf twymgalon. Ers hynny, pa ystyriaeth a roesoch i'r hyn y dylai'r diffiniad o dlodi fod yng Nghymru i gydnabod yr adnoddau a'r anghenion hynny?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thought it was really important that we do have a definition of poverty. I very much like the Joseph Rowntree definition and that's about a person who doesn't have the minimum resources for their basic needs living in poverty. Officials are working on that definition.
- 14:29 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that. Interestingly, at UK level, as you know, the definition of fuel poverty was changed to move towards more needs and resources. Of course, Wales has stuck to an income-based definition. But we also heard from the Bevan Foundation and Joseph Rowntree Foundation about the omission of fuel poverty, which I understand is not in your brief now, from the tackling poverty action plan, which is within your brief, which they believed should be central to your tackling poverty action plan. What consideration are you giving to that, given that fuel poverty is endemic, and often a major contributory factor to wider deprivation and vulnerability?
- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You do raise a very important point: fuel poverty isn't in my portfolio—it's in the Minister for Natural Resources'. However, tackling poverty is not just my responsibility; it's absolutely cross-Government. Every Minister in the Cabinet has responsibility for tackling poverty, so I have discussions with all my Cabinet colleagues around this. When we bring forward the tackling poverty annual report in July, we will be looking at previous 'poverties', if you like, that weren't in the original tackling poverty action plan, because they weren't so acute at the time—for instance, food and in-work poverty. So, we will be having further discussions around that before the annual report comes forward in July.
- 14:31 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- In doing that, you are probably aware, and I'll put on record, that Friday is Fuel Poverty Awareness Day—thanks to the campaign run by National Energy Action and National Energy Action Cymru. As they pointed out, Arbed and Nest are very welcome schemes. They partly fall in your portfolio, partly in your colleague's portfolio, as they cross housing, poverty and fuel poverty. Over 98% of people living in fuel poverty fall outside that, but there is great work going on, across Wales, in many areas, to address that. What consideration, working with your colleagues, but within the tackling poverty action plan—which is the only plan we currently have—have you given to revising and updating the fuel poverty strategy, to meet and reach the needs of those 98% of people?
- Credwn ei bod yn bwysig iawn inni gael diffiniad o dlodi. Rwy'n hoff iawn o ddiffiniad Joseph Rowntree sy'n cyfeirio at unigolyn sy'n byw mewn tlodi nad oes ganddo'r adnoddau gofynnol ar gyfer ei anghenion sylfaenol. Mae swyddogion yn gweithio ar y diffiniad hwnnw.
- Diolch i chi am hynny. Yn ddi-ddorol, ar lefel y DU, fel y gwyrddoch, cafodd y diffiniad o dlodi tanwydd ei addasu i symud tuag at fwy o anghenion ac adnoddau. Wrth gwrs, mae Cymru wedi glynu at ddiffiniad ar sail incwm. Ond clywsom hefyd gan Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree ynghylch hepgor tlodi tanwydd, ac rwy'n deall nad yw hynny yn eich briff yn awr, o'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, sydd yn eich briff, a chredent y dylai fod yn ganolog i'ch cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi. Pa ystyriaeth a rowch i hynny, o gofio bod tlodi tanwydd yn endemig, ac yn aml yn ffactor sy'n cyfrannu'n aruthrol at amddifadedd ehangach ac at wneud rhagor o bobl yn agored i niwed?
- Rydych yn tynnu sylw at bwynt pwysig iawn: nid yw tlodi tanwydd yn fy mhorthffolio-mae hwnnw ym mhorthffolio'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Fodd bynnag, nid fy nghyfrifoldeb i yn unig yw trechu tlodi; mae'n gyfrifoldeb ar draws y Llywodraeth. Mae gan bob Gweinidog yn y Cabinet gyfrifoldeb dros drechu tlodi, felly rwy'n cael trafodaethau gyda fy holl gyd-Aelodau yn y Cabinet ynghlân â hyn. Pan fyddwn yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol ar drechu tlodi ym mis Gorffennaf, byddwn yn edrych ar fathau blaenorol o dlodi, os mynnwch, nad oedd yn y cynllun gweithredu gwreiddiol ar gyfer trechu tlodi, gan nad oeddent mor ddifrifol ar y pryder enghraifft, tlodi bwyd a thlodi mewn gwaith. Felly byddwn yn cael trafodaethau pellach ynghylch hynny cyn i'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf.
- Wrth wneud hynny, mae'n debyg eich bod yn ymwybodol, ac rwy'n cofnodi hyn, mai dydd Gwener yw Diwrnod Ymwybyddiaeth o Dlodi Tanwydd—diolch i ymgyrch gan National Energy Action a National Energy Action Cymru. Fel y dywedant, mae cynlluniau Arbed a Nyth i'w croesawu'n fawr. Maent yn perthyn yn rhannol i'ch portffolio chi, ac yn rhannol i bortffolio eich cyd-Aelod, gan eu bod yn cynnwys tai, tlodi a thlodi tanwydd. Mae dros 98% o'r bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd heb eu cynnwys yn hynny, ond mae gwaith gwych yn digwydd mewn llawer o feysydd ledled Cymru i fynd i'r afael â hynny. Gan weithio gyda'ch cyd-Aelodau, ond o fewn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi—sef yr unig gynllun sydd gennym ar hyn o bryd—pa ystyriaeth a roesoch i adolygu a diweddarau'r strategaeth tlodi tanwydd er mwyn diwallu anghenion y 98%?

14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Both Arbed and Nest are actually in the Minister for Natural Resources' portfolio, but I mentioned that tackling poverty is absolutely cross-Government. I chair the tackling poverty implementation board, where I hold Ministers, on behalf of the First Minister, to account about what they're doing within their department to tackle poverty. So, as we go forward, to bring the tackling poverty annual report to the Assembly in July, those are the sorts of discussions we will continue to have.

Mae Arbed a Nyth ym mhorthffolio'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol mewn gwirionedd, ond fe soniais fod mynd i'r afael â thlodi yn gyfrifoldeb ar draws y Llywodraeth. Rwy'n cadeirio'r bwrdd gweithredu ar gyfer trechu tlodi, lle rwy'n dwyn Gweinidogion i gyfrif, ar ran y Prif Weinidog, am yr hyn y maent yn ei wneud yn eu hadrannau i drechu tlodi. Felly, wrth i ni symud ymlaen i ddod â'r adroddiad blynyddol ar drechu tlodi i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf, dyna'r math o drafodaethau y byddwn yn parhau i'w cael.

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Peter Black.

Symudwn yn ôl i'r cwestiynau ar y papur yn awr, a daw cwestiwn 3 gan Peter Black.

### Tenantiaethau Byrddaliol

### Shorthold Tenancies

14:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol tenantiaethau byrddaliol ? OAQ(4)0283(CTP)*

*3. Will the Minister make a statement on the future of shorthold tenancies? OAQ(4)0283(CTP)*

14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Under the Renting Homes (Wales) Bill, and subject to the Bill being passed by the Assembly, assured shorthold tenancies will be replaced by the new standard contract, which may be either periodic or fixed term. Existing shorthold tenancies will also convert to the appropriate standard contract.

O dan y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), ac yn amodol ar basio'r Bil gan y Cynulliad, bydd tenantiaethau byrddaliol sicr yn cael eu disodli gan y contract safonol newydd, a all fod yn gyfnodol neu'n gyfnod penodol. Bydd tenantiaethau byrddaliol sy'n bodoli ar hyn o bryd hefyd yn trosi i'r contract safonol priodol.

14:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. You will, of course, be aware of disquiet in the sector about the proposal in the renting homes Bill to do away with the minimum six-month tenancy, and concerns that it will cause further insecurity for tenants, in terms of the future of their tenancies. Can I ask you whether you have considered alternatives to that, such as that put forward by David Miliband, for two-year tenancies, which he proposed to bring in in England, which will not only provide security for tenants, but also give landlords the security they need in terms of the money coming in for the property that they own?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Wrth gwrs, fe fyddwch yn ymwybodol o'r anesmwythyd yn y sector ynghylch yr argymhelliad yn y Bil rhentu cartrefi i gael gwared ar yr isafswm tenantiaeth o chwe mis, a'r pryderon y bydd yn achosi ansicrwydd pellach i denantiaid ynghylch dyfodol eu tenantiaethau. A gaf fi ofyn i chi a ydych wedi ystyried dewisiadau amgen yn lle hynny, fel un David Miliband ar gyfer tenantiaethau dwy flynedd y bwriadai ei gyflwyno yn Lloegr, a fyddai nid yn unig yn rhoi sicrwydd i denantiaid, ond hefyd yn rhoi'r diogelwch sydd ei angen ar landlordiaid o ran arian yn dod i mewn am eiddo y maent yn berchen arno?

14:33	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Obviously, I introduced the renting homes Bill earlier this month into the Assembly, and I do recognise that the six-month moratorium is one of the more controversial aspects of the proposals, but it was supported by 84% of the respondents to the White Paper consultation. I think there are a couple of points to emphasise. One is that local authorities, in discharging their duty to secure accommodation for applicants in priority need into the private rented sector, will still be required to provide a fixed-term contract of at least six months. Obviously, this will be discussed as we go through the Assembly's passage. But, at the moment, I'm just having discussions with officials, with organisations such as Shelter Cymru and Citizens Advice, and I am listening very much to their concerns. But I think another point I would like to emphasise is that this Bill is about a balance—it's a balance for both tenants and landlords, and their specific roles and responsibilities.</p>	<p>Yn amlwg, cyflwynais y Bil rhentu cartrefi i'r Cynulliad yn gynharach y mis hwn, ac rwy'n cydnabod fod y moratoriwm chwe mis yn un o agweddau mwyaf dadleuol yr argymhellion, ond cafodd ei gefnogi gan 84% o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Papur Gwyn. Rwy'n meddwl bod yna un neu ddau o bwyntiau i'w pwysleisio. Un o'r rhain yw y bydd awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ymgeiswyr ag angen blaenoriaethol yn y sector rhentu preifat, yn dal i orfod darparu contract cyfnod penodol o chwe mis fan lleiaf. Yn amlwg, caiff hyn ei drafod wrth i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad. Ond ar hyn o bryd, rwy'n cael trafodaethau gyda swyddogion, gyda sefydliadau megis Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth, ac rwy'n gwrando'n astud ar eu pryderon. Ond pwynt arall yr hoffwn ei bwysleisio yw mai ymwneud â chydbwysedd y mae'r Bil—cydbwysedd rhwng tenantiaid a landlordiaid, a'u rolau a'u cyfrifoldebau penodol.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:34	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Minister, one of the benefits of the shorthold tenancy was that, when a landlord was seeking possession—perhaps for rent arrears, or anti-social behaviour—there was an absolute certainty the court would have to grant possession. Can you assure us that that will continue?</p>	<p>Weinidog, un o fanteision y denantiaeth fyrddaliol oedd bod sicrwydd llwyr, pan oedd landlord yn ceisio meddiant—efallai oherwydd ôl-ddyledion rhent, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol—y byddai'n rhaid i'r llys roi meddiant. A allwch ein sicrhau y bydd hynny'n parhau?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:34	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Well, this is something that we'll be looking at as the Bill goes through its passage. I'm having discussions, as I say, with several organisations and with individuals, but, having read the responses to the White Paper, I believe that this aspect is very important; it's really important that both tenants and landlords are aware of their roles and responsibilities and what those contracts mean.</p>	<p>Wel, mae'n fater y byddwn yn edrych arno wrth i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad. Rwy'n cael trafodaethau, fel y dywedais, gyda nifer o sefydliadau ac unigolion, ond ar ôl darllen yr ymatebion i'r Papur Gwyn, rwy'n credu bod yr agwedd hon yn bwysig iawn; mae'n bwysig iawn fod tenantiaid a landlordiaid yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau a'r hyn y mae'r contractau hynny yn ei olygu.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:35	<b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Noting the proposal, as we've heard, to end the minimum six-month tenancy, but noting also the decision to enable local authorities to make more use of the private rented sector to help homeless people, what steps will the Government take to ensure that people who request assistance with housing from local authorities aren't sent to homes in the private sector where the landlord has no intention whatsoever of entering into a long-term agreement?</p>	<p>Gan nodi'r cynnig i gael gwared ar yr isafswm tenantiaeth o chwe mis fel y clywsom, ond gan nodi hefyd y penderfyniad i alluogi awdurdodau lleol i wneud mwy o ddefnydd o'r sector rhentu preifat i helpu pobl ddigartref, pa gamau fydd y Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau nad yw pobl sy'n gofyn am gymorth ym maes tai gan awdurdodau lleol yn cael eu gyrru i gartrefi yn y sector preifat lle nad oes gan y landlord unrhyw fwrriad o gwbl i ymrwymo i gytundeb hirdymor?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:35	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>That's something that we are discussing with local authorities, and, as I say, we'll be discussing further as the Bill goes through this Assembly.</p>	<p>Mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei drafod gydag awdurdodau lleol, ac fel y dywedais, byddwn yn ei drafod ymhellach wrth i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad hwn.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Cefnogaeth i Gymdeithasau Tai</b>		<b>Support for Housing Associations</b>		
14:35	<b>Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p><i>4. I ba raddau y mae'r Gweinidog wedi blaenoriaethu cefnogaeth i gymdeithasau tai yn ei chyllideb adrannol ar gyfer 2015-16? OAQ(4)0285(CTP)</i></p>	<p><i>4. To what extent has the Minister prioritised support for housing associations in her departmental budget for 2015-16? OAQ(4)0285(CTP)</i></p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch. Capital funding of £62 million is available in 2015-16 to housing associations for additional affordable housing. A sum of £43 million is allocated to stock transfer associations to meet the Welsh housing quality standard. Across all schemes, £126 million is allocated in grant and loan funding to housing associations in 2015-16.
- Diolch. Mae cyllid cyfalaf o £62 miliwn ar gael yn 2015-16 i gymdeithasau tai ar gyfer tai fforddiadwy ychwanegol. Mae swm o £43 miliwn wedi cael ei ddyrannu i gymdeithasau trosglwyddo stoc i gwrdd â safon ansawdd tai Cymru. Ar draws yr holl gynlluniau, mae £126 miliwn yn cael ei ddyrannu fel arian grant a benthyciadau i gymdeithasau tai yn 2015-16.
- 14:36 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb adeiladol yna. Cefais gyfle i ymweld, ar wahoddiad y tenantiaid, â phrosiect tai gwerth £1.6 miliwn Grŵp Cynefin ar gyfer 17 o gartrefi newydd yn Nhywyn, Meirionnydd yn ddiweddar. Cefais gadarnhad o bwysigrwydd swyddi hwyluswyr tai lleol yn y projectau yma er mwyn canfod gwir anghenion cymunedau. A oes sicrwydd y bydd parhad o ran cefnogaeth ariannol i'r gweithwyr allweddol hyn yn y gyllideb sydd ganddi?
- I am grateful to the Minister for that constructive response. I had an opportunity recently to visit, having been invited by the tenants, the £1.6 million Grŵp Cynefin housing project for 17 new homes in Tywyn, Meirionnydd. I was given confirmation of the importance of the local housing enablers in these projects in order to identify the real needs of communities. Is there certainty that there will be continued support for these crucial workers in her budget?
- 14:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I think it's absolutely crucial that we continue to support housing associations such as Grŵp Cynefin, as you said. They carry out so much work beyond providing a roof over somebody's head, and I'm very impressed with the work that I've seen since I came into portfolio. They are absolutely crucial partners to us as Government in ensuring that we deliver on our housing targets.
- Oes, rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn parhau i gefnogi cymdeithasau tai megis Grŵp Cynefin, fel y dywedoch chi. Maent yn gwneud cymaint o waith ar wahân i roi to uwch bennau pobl, ac rwy'n falch iawn o'r gwaith rwyf wedi ei weld ers i mi gael y portffolio. Maent yn bartneriaid cwbl hanfodol i ni fel Llywodraeth wrth inni sicrhau ein bod yn cyflawni ein targedau ym maes tai.
- 14:37 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you'll be aware that, obviously, there are 11 local authorities in Wales that have not undertaken any stock transfer and they've been removed from the housing revenue subsidy scheme. I just wonder what work you are doing with them to ensure that they work collaboratively with housing associations that operate in their areas to ensure the delivery of a maximum number of affordable homes across Wales.
- Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol, yn amlwg, fod yna 11 awdurdod lleol yng Nghymru nad ydynt wedi trosglwyddo unrhyw stoc ac maent wedi cael eu tynnu o'r cynllun cymhorthdal refeniw tai. Tybed pa waith rydych yn ei wneud gyda hwy i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'r cymdeithasau tai sy'n gweithredu yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu ledled Cymru.
- 14:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, it's absolutely vital that they do have that partnership working and, certainly, I haven't come across any incidents where that's not happening, but we do rely on both housing associations, as I said in my answer to Dafydd Elis-Thomas, and local authorities, to work with us as partners to deliver on our housing targets.
- Ydy, mae'n gwbl hanfodol eu bod yn gweithio mewn partneriaeth yn y ffordd honno, ac yn sicr, nid wyf wedi dod ar draws unrhyw achosion lle nad yw hynny'n digwydd, ond fel y dywedais yn fy ateb i Dafydd Elis-Thomas, rydym yn dibynnu ar y cymdeithasau tai yn ogystal â'r awdurdodau lleol i weithio gyda ni fel partneriaid i gyflawni ein targedau tai.
- Tlodi Ymysg Pobl sydd ag Anableddau** **Poverty Among People with Disabilities**
- 14:38 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
5. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddileu tldi ymysg pobl sydd ag anableddau? OAQ(4)0296(CTP)
5. What plans does the Minister have to eradicate poverty among people with disabilities? OAQ(4)0296(CTP)

- 14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Our tackling poverty action plan and strategic equality plan include commitments to improve outcomes for disabled people. The framework for action on independent living has seven priorities for action, including housing and employment. These priorities have been identified by disabled people as areas having the biggest impact on their lives.
- Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi a'n cynllun cydraddoldeb strategol yn cynnwys ymrwymadau i wella canlyniadau ar gyfer pobl anabl. Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer byw'n annibynnol yn cynnwys saith blaenoriaeth i'w gweithredu, gan gynnwys tai a chyflogaeth. Mae pobl anabl wedi nodi'r blaenoriaethau hyn fel y meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar eu bywydau.
- 14:38 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I know from visits around my constituency, and a recent stakeholder poverty group with the Royal National Institute of Blind People, that those with disabilities such as sensory loss find it very difficult to find out what financial assistance they're entitled to, and there are large inconsistencies between those who are able to access all the support and those who are not. What steps is the Welsh Government taking to ensure that the support available is easy to access and adequately signposted?
- Diolch i chi, Weinidog. Yn sgil ymweliadau o amgylch fy etholaeth, ac o fynychu grŵp rhanddeiliaid ar dlodi yn ddiweddar gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, gwn fod pobl ag anabledau fel nam ar y synhwyrau yn ei chael yn anodd iawn canfod pa gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo, ac mae anghysondeb mawr rhwng pobl sy'n gallu manteisio ar yr holl gefnogaeth a'r bobl nad ydynt yn gallu gwneud hynny. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i sicrhau fod y cymorth sydd ar gael yn hygyrch ac yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol?
- 14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. We've put an additional £4 million into our advice services; you'll be aware of the national advice network, which will be meeting for the first time next month. That part of their remit will be to ensure that services are very consistent across the country. We know that people with disabilities are often very much hampered in being able to access information. I went to an excellent launch in Bangor—Alun Ffred Jones was also present—of the all-Wales welfare rights service, where the RNIB have been working with partners to ensure that people such as you identified are able to make sure that they are claiming all that they are absolutely entitled to.
- Diolch yn fawr. Rydym wedi rhoi £4 miliwn ychwanegol i'n gwasanaethau cynghori; fe fyddwch yn ymwybodol o'r rhwydwaith cyngor cenedlaethol a fydd yn cyfarfod am y tro cyntaf y mis nesaf. Y rhan honno o'u cylch gwaith fydd sicrhau bod gwasanaethau yn gyson iawn ar draws y wlad. Gwyddom fod pobl ag anabledau yn aml yn cael trafferth i ddod o hyd i wybodaeth. Euthum i ddiwyddiad ardderchog ym Mangor—roedd Alun Ffred Jones yn bresennol hefyd—i lansio gwasanaeth hawliau lles Cymru, lle y mae'r RNIB wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl fel y rhai a grybwyllwyd gennych yn gallu gwneud yn siŵr eu bod yn hawlio popeth y mae ganddynt hawl i'w gael.
- 14:39 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, welfare reform has a huge impact on many of the disabled people living in our communities. Two-thirds of household that have been hit by this bedroom tax are families where at least one disabled person has been living. What assessment have you been able to make, as well as your colleagues in Welsh Government, of the impact that the bedroom tax has had on efforts to eradicate poverty amongst those most vulnerable, including the disabled, within our communities?
- Weinidog, mae diwygiadau lles yn cael effaith enfawr ar lawer o'r bobl anabl sy'n byw yn ein cymunedau. Mae dwy ran o dair o aelwydydd sydd wedi cael eu taro gan y dreth ystafell wely yn deuluoedd gydag o leiaf un person anabl. Pa asesiad a alloch chi a'ch cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ei wneud o'r effaith y mae'r dreth ystafell wely wedi ei chael ar ymdrechion i ddileu tlodi ymhlith y bobl fwyaf agored i niwed, gan gynnwys pobl anabl, yn ein cymunedau?
- 14:40 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. As part of our programme of research to assess the impact of welfare reform in Wales, we have considered the impact on those with protected characteristics, such as disabilities. From this, we know that the impact of welfare reform is not equal and it's not spread equally either. I think the impact of the UK Government bedroom tax has a disproportionate effect on disabled people. I myself had a piece of constituency casework where I had a disabled constituent who had made a bedroom for herself downstairs and, because the bedroom upstairs was vacant, the local authority wanted to charge the bedroom tax—outrageous.
- Diolch yn fawr. Fel rhan o'n rhaglen ymchwil i asesu effaith diwygiadau lles yng Nghymru, rydym wedi ystyried yr effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, fel anabledau. O hyn, gwyddom nad yw effaith diwygio lles yn gyfartal ac nid yw wedi ei ledaenu'n gyfartal chwaith. Rwy'n meddwl fod treth ystafell wely Llywodraeth y DU yn cael effaith anghymesur ar bobl anabl. Cefais achos yn fy etholaeth fy hun lle'r oedd etholwr anabl wedi gwneud ystafell wely iddi hi ei hun ar y llawr gwaelod ac oherwydd bod yr ystafell wely i fyny'r grisiau'n wag, roedd yr awdurdod lleol yn awyddus i godi'r dreth ystafell wely arni-gwarthus.

## Polisi Dechrau'n Deg

## Flying Start Policy

14:40

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth polisi Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru mewn ardaloedd difreintiedig? OAQ(4)0297(CTP)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

6. Will the Minister make a statement on the value of the Welsh Government's Flying Start policy in disadvantaged areas? OAQ(4)0297(CTP)

14:41

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Flying Start provides a unique and life-changing experience for children and families from disadvantaged areas across Wales. It is a key component of the Welsh Government's Tackling Poverty agenda and independent evaluation has highlighted the many positive effects families feel the programme has had on their lives.

Diolch yn fawr. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig profiad unigryw sy'n gallu newid bywydau plant a theuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig ledled Cymru. Mae'n elfen allweddol o agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru ac mae gwerthusiad annibynnol wedi tynnu sylw at y nifer o effeithiau cadarnhaol y teimla teuluoedd y mae'r rhaglen wedi eu cael ar eu bywydau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that response, Minister. That's why I welcome the further funding that has been committed, during this Assembly, to double the number of children who will be helped by this scheme—all the more important given the way that many of the poorest families will be affected by the UK Government's ill-informed welfare changes.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Dyna pam rwy'n croesawu'r cyllid pellach a neilltuwyd, yn ystod y Cynulliad hwn, ar gyfer dyblu nifer y plant a fydd yn cael eu helpu gan y cynllun hwn—sy'n hynod o bwysig o ystyried y ffordd y bydd llawer o'r teuluoedd tlotaf yn cael eu heffeithio gan newidiadau lles disynnwyr Llywodraeth y DU.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Now, Plas-y-Felin Primary School in my constituency is set to benefit from £150,000 of Flying Start funding. This school serves the Communities First area of Churchill Park. It's expected that this money will be used for demountable buildings to provide facilities for the very young children of the area. It's likely that, by working in partnership with Families First, these children and their parents will benefit from this investment. So, Minister, do you agree with me that planning and co-operation like this will bring important improvement for some of our most disadvantaged families?

Nawr, mae Ysgol Gynradd Plas-y-Felin yn fy etholaeth ar fin elwa ar £150,000 o gyllid Dechrau'n Deg. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal Cymunedau yn Gyntaf Parc Churchill. Disgwylir i'r arian gael ei ddefnyddio at adeiladau dros dro i ddarparu cyfleusterau ar gyfer plant ifanc iawn yn ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth â Teuluoedd yn Gyntaf, mae'r plant hyn a'u rhieni yn debygol o gael budd o'r buddsoddiad. Felly, Weinidog, a ydych yn cytuno y bydd cynllunio a chydweithredu o'r fath yn creu gwelliannau pwysig i rai o'n teuluoedd mwyaf difreintiedig?

14:42

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely; I agree with you. I mentioned in an earlier answer that I think it's really important that programmes such Families First, Flying Start and Communities First align themselves to bring about real change for our communities. We're working very hard to improve the lives of those living in some of our most disadvantaged communities. You mentioned the Welsh Government's commitment to double the number of children benefiting from Flying Start from 18,000 to 36,000 and we're well on target—last year, we'd reached 31,000 children.

Ydw, yn sicr; rwy'n cytuno â chi. Soniais mewn ateb yn gynharach fy mod yn meddwl ei bod yn bwysig iawn i raglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf alinio â'i gilydd i sicrhau newid go iawn i'n cymunedau. Rydym yn gweithio'n galed iawn i wella bywydau'r bobl sy'n byw yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Fe sonioch am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddyblu nifer y plant sy'n cael budd o Dechrau'n Deg o 18,000 i 36,000 ac rydym yn debygol o gyrraedd y targed—y llynedd, roeddem wedi cyrraedd 31,000 o blant.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, school readiness at the age of five has a strong impact on future educational attainment and life chances. Can the Minister update this Assembly on how Flying Start is supporting parents in disadvantaged areas to increase the number of children who are school-ready?

Weinidog, mae bod yn barod i ddechrau yn yr ysgol yn bump oed yn cael effaith gadarn ar gyrhaeddiad addysgol a chyfluoedd bywyd yn y dyfodol. A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ynglŷn â'r modd y mae Dechrau'n Deg yn cynorthwyo rhieni mewn ardaloedd difreintiedig i gynyddu nifer y plant sy'n barod i ddechrau yn yr ysgol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Absolutely. I attended Maes y Morfa Community Primary School in Llanelli with my colleague Keith Davies earlier this month, where I saw a class being undertaken of pre-school children, along with their parents. They all had tablets and were being encouraged—both the parents and the children—to be able to have the ability to use the internet, because they didn't have access at home. So, it is schemes like that that are helping our children to be school-ready by the age of five.
- Yn bendant. Mynychais Ysgol Gynradd Gymunedol Maes y Morfa yn Llanelli gyda fy nghyd-Aelod, Keith Davies, yn gynharach y mis hwn, lle y gwelais ddosbarth o blant cyn ysgol, ynghyd â'u rhieni, yn cael ei gynnal. Roedd gan bob un ohonynt dabledi a chaent eu hannog—y rhieni a'r plant—i allu defnyddio'r rhyngwrwyd, gan nad oedd ganddynt fodd o wneud hynny gartref. Felly, cynlluniau fel hyn sy'n helpu ein plant i fod yn barod ar gyfer yr ysgol erbyn eu bod yn bum mlwydd oed.
- 14:43 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I wonder if you'd tell us what the approach is within Flying Start to the physical punishment of children.
- Weinidog, tybed a wneuch chi ddweud wrthym beth yw agwedd Dechrau'n Deg tuag at gosbi plant yn gorfforol.
- 14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I will have to write to the Member on that.
- Bydd yn rhaid i mi ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â hynny.
- 14:43 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I welcome the recent £6.9 million announcement in January for Flying Start, Minister. I shall be visiting several sites at the end of the week in my constituency to have a look at all stages of construction and work that they're doing on those particular sites. Do you agree with me that in your recent visit, which you mentioned now, to Maes y Morfa, you saw the positive health and education benefits provided to children and families by their involvement in Flying Start?
- Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad diweddar ym mis Ionawr ynghylch £6.9 miliwn i Dechrau'n Deg, Weinidog. Ar ddiwedd yr wythnos, byddaf yn ymweld â nifer o safleoedd yn fy etholaeth i gael golwg ar bob cam o'r gwaith adeiladu a'r gwaith y maent yn ei wneud ar y safleoedd penodol hynny. Yn eich ymweliad diweddar â Maes y Morfa y cyfeirioch chi ato'n awr, a ydych yn cytuno â mi eich bod wedi gweld y manteision iechyd ac addysg cadarnhaol y mae eu hymwneud â Dechrau'n Deg wedi ei roi i blant a theuluoedd?
- 14:44 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, absolutely. The visit to Maes y Morfa—. The headteacher, I think, was probably one of the most passionate of headteachers and teachers I have seen, who had embraced Flying Start in a way that was just fantastic to see in the way he evaluated the children who were going through his school. Certainly for me, I find it invaluable going out and seeing how Flying Start is working out there. It's good to see also that the capital funding that we've put in over the term of this Government, along with doubling the number of children benefiting from Flying Start, has also helped deliver the programme.
- Ydw, yn bendant. Roedd yr ymweliad â Maes y Morfa—. Rwy'n credu bod y pennaeth ymhlith y penaethiaid a'r athrawon mwyaf angerddol a welais erioed yn ôl pob tebyg, ac roedd wedi croesawu Dechrau'n Deg mewn ffordd a oedd yn wych i'w gweld o ran y ffordd y gwerthusai'r plant a oedd yn mynd drwy ei ysgol. Yn sicr i mi, rwy'n ei hystyried yn werthfawr iawn i fynd allan a gweld sut y mae Dechrau'n Deg yn gweithio ar lawr gwlad. Mae'n dda gweld hefyd fod y cyllid cyfalaf rydym wedi'i roi dros dymor y Llywodraeth hon, ynghyd â dyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg, hefyd wedi helpu gyda'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen.

## Tlodi Plant

## Child Poverty

- 14:44 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau tlodi plant yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0289(CTP)*
- 7. Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to reduce child poverty in North Wales? OAQ(4)0289(CTP)*

14:45

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Our revised child poverty strategy will reaffirm our ambition to eradicate child poverty across Wales. We believe prevention is key and continue to prioritise investment in the early years. For example, in 2014-15, we allocated over £13 million for over 6,000 children across north Wales to access Flying Start services.

Diolch yn fawr. Bydd ein strategaeth tlodi plant ddiwygiedig yn ail-gadarnhau ein huchelgais i ddileu tlodi plant ledled Cymru. Rydym yn credu bod atal yn allweddol ac rydym yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, yn 2014-15, fe ddyrannon ni dros £13 miliwn er mwyn i dros 6,000 o blant ar draws gogledd Cymru gael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, I've long raised with you the Wales Rural Observatory's rural services survey, and, of course, one of the best routes out of child poverty is to help parents back into work. In my short debate last September, I highlighted the lack of affordable and available childcare in rural areas. Since that debate last September, what have you done to look at those councils that have not provided it? The Welsh Government has an obligation under the Act to ensure that Welsh councils do have affordable and accessible childcare available to them, and I know that, Minister, you were particularly concerned about childcare outside normal working hours that dealt with, for example, shift work, which is one of the hardest-to-access childcare provisions.

Wel, Weinidog, bûm yn sôn wrthych ers amser am arolwg gwasanaethau gwledig Arsyllfa Wledig Cymru, ac wrth gwrs, un o'r llwybrau gorau allan o dlodi plant yw helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith. Yn fy nabl fer fis Medi diwethaf, tynnais sylw at ddiffyg gofal plant fforddiadwy a hygyrch mewn ardaloedd gwledig. Ers y ddadl fis Medi diwethaf, beth rydych chi wedi'i wneud i edrych ar y cynghorau hynny nad ydynt wedi ei ddarparu? Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth dan y Ddeddf i sicrhau bod gan gynghorau Cymru ofal plant fforddiadwy a hygyrch ar gael iddynt, a gwn eich bod chi, Weinidog, yn arbennig o bryderus ynglŷn â gofal plant y tu allan i oriau gwaith arferol ar gyfer gwaith sifft, er enghraifft, sy'n un o'r darpariaethau gofal plant anoddaf i gael gafael arno.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:46

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Obviously, I've been in post since September—I think the short debate was one of my first ones—and it is something that we're monitoring very closely. As you say, the local authorities do have a duty to provide. We provide the funding. Shift work has been raised with me as a specific problem, and that's why, in an earlier answer, I set out that I think it's very important that, as we go forward with our new pledges for childcare, we do consult with parents, with schools, with the childcare sector, to ensure that that childcare is absolutely of high quality and is of the flexibility that we know parents want.

Diolch yn fawr. Yn amlwg, rwyf wedi bod yn y swydd ers mis Medi—rwy'n meddwl mai'r ddadl fer oedd un o fy rhai cyntaf—ac mae'n rhywbeth rydym yn ei fonitro'n agos iawn. Fel y dywedwch, mae gan yr awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu'r gofal hwn. Rydym ni'n darparu'r cyllid. Crybwyllwyd wrthyf fod gwaith shifft yn broblem benodol, a dyna pam, mewn ateb cynharach, y nodais fy mod yn meddwl ei fod yn bwysig iawn, wrth inni symud ymlaen gyda'n haddewidion newydd ar gyfer gofal plant, ein bod yn ymgynghori â rhieni, gydag ysgolion, gyda'r sector gofal plant, i sicrhau bod y gofal plant o ansawdd gwirioneddol uchel ac yn cynnig yr hyblygrwydd y gwyddom fod ar rieni ei eisiau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:46

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae cynyddu lefel sgiliau a chyflogadwyedd rhieni y plant sydd yn byw mewn tlodi, wrth gwrs, fel rŷm ni wedi clywed, yn rhan ganolog o'r ymdrech. Ond rŷm ni hefyd yn gwybod erbyn hyn, wrth gwrs, fod mwy o blant yn cael eu magu gan eu neiniau a'u teidiau am wahanol resymau. A gaf i felly ofyn beth rŷch chi'n ei wneud i sicrhau bod y cartrefi hynny â lefelau incwm digonol, oherwydd, wrth gwrs, maen nhw'n fwy tebygol o fod o oed sydd ddim yn gweithio, yn fwy tebygol o fod yn dioddef o gyflyrau meddygol a hefyd yn gwario mwy ar wresogi eu cartrefi?

Increasing the skill levels and employability of the parents of children living in poverty plays, of course, as we have heard, a central part in efforts. But, we also know that more children are now brought up by their grandparents for various reasons. Can I therefore ask what you are doing to ensure that these households have adequate income levels, because they are more likely to be of a non-working age, to have medical conditions and to spend more on heating their homes?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You raise a very important point, and that was something that was raised with me very early on in the portfolio, which is that, often, it is grandparents, although it was pointed out to me that grandparents are a lot younger and can often be economically active more than previously. But, I think it is really important, in just looking at the skills of parents, that we do also look at the skills of grandparents. This morning, I opened the Communities 2.0 conference, which, obviously, is around digital inclusion, and, to me, digital inclusion is a real social justice issue. Again, I think it's an area where we can work, and we have been working, with grandparents to help them help their grandchildren as we get them school-ready.

Rydych yn crybwyll pwynt pwysig iawn, ac roedd yn fater y tynnwyd fy sylw ato'n gynnar iawn yn y portffolio, sef mai neiniau a theidiau yn aml sy'n darparu gofal, er y nodwyd bod neiniau a theidiau yn llawer iau ac yn aml yn weithgar yn economaidd i raddau mwy nag o'r blaen. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, wrth edrych ar sgiliau rhieni, ein bod hefyd yn edrych ar sgiliau neiniau a theidiau. Y bore yma, agorais gynhadledd y Cymunedau 2.0, sy'n amlwg yn ymwneud â chynhwysiant digidol, ac i mi, mae cynhwysiant digidol yn fater cyfiawnder cymdeithasol go iawn. Unwaith eto, rwy'n credu ei fod yn faes lle y gallwn weithio, a lle rydym wedi bod yn gweithio, gyda neiniau a theidiau i'w helpu i helpu eu hwyron wrth i ni eu paratoi ar gyfer mynd i'r ysgol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ofyn i chi am y sefyllfa ynglŷn â ward Queensway yn eich etholaeth chi? Fe wnes i sôn amdano fo fis diwethaf. Mae'r ward yna rŵan wedi cyrraedd rhif 3 ymhlith y wardiau mwyaf difreintiedig. Fe ddywedoch chi fis diwethaf eich bod chi'n cynnal gwerthusiad o raglen Cymunedau'n Gyntaf. A ydy'r gwerthusiad yna wedi ei gwblhau, ac a fydd gennym ni gyfle fel Aelodau Cynulliad i werthuso y gwerthusiad?

May I ask you about the situation with regard to Queensway ward in your constituency? I raised this last month, and, by now, that ward has reached no. 3 in the list of most deprived wards. Last month, you said that you were carrying out an evaluation of the Communities First programme. Has that evaluation been completed and will we, as Assembly Members, have an opportunity to evaluate the evaluation, as it were?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, the evaluation has been completed. I will be very happy to share the evaluation with Members. I have committed to doing that in committee, and I am looking very closely at it. I was very pleased to see that the report and the evaluation is very broadly positive about the reshaping of Communities First, which this Government undertook a little while ago. It does make a number of recommendations about the future of the programme. I will need to consider those in depth. It does acknowledge that the redesign of the programme has improved its capacity to meet its objectives and deliver the outcomes that we want for people in some of our most deprived wards and areas of Wales, but, certainly, yes, I will be very happy to share that evaluation with Members.

Ydy, mae'r gwerthusiad wedi ei gwblhau. Byddaf yn barod iawn i rannu'r gwerthusiad gyda'r Aelodau. Rwyf wedi ymrwymo i wneud hynny yn y pwyllgor, ac rwy'n edrych yn ofalus iawn arno. Roeddwn yn falch iawn o weld bod yr adroddiad a'r gwerthusiad at ei gilydd yn gadarnhaol ynghylch ail-lunio Cymunedau yn Gyntaf, proses a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth hon ychydig amser yn ôl. Mae'n gwneud nifer o argymhellion ynghylch dyfodol y rhaglen. Bydd angen i mi ystyried y rheini'n ofalus. Mae'n cydnabod bod ail-lunio'r rhaglen wedi gwella ei gallu i gyflawni ei hamcanion a sicrhau'r canlyniadau rydym eu heisiau i bobl yn rhai o wardiau ac ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ond yn sicr, byddaf yn hapus iawn i rannu'r gwerthusiad gyda'r Aelodau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Ailgartrefu Cyn-garcharorion

## The Rehousing of Ex-prisoners

14:49

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ailgartrefu cyn-garcharorion? OAQ(4)0284(CTP)*

*8. Will the Minister make a statement on the rehousing of ex-prisoners? OAQ(4)0284(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Our prisoner accommodation and resettlement working group has made good progress with arrangements to ensure all prisoners will benefit from the legislation, which emphasises preventing homelessness. A national pathway for homelessness services is being finalised and will clarify the support by statutory and non-statutory organisations working in partnership.

Diolch yn fawr. Mae ein gweithgor llety ac ailsefydlu carcharorion wedi gwneud cynnydd da gyda threfniadau i sicrhau y bydd pob carcharor yn elwa ar y ddeddfwriaeth, sy'n pwysleisio'r nod o atal digartrefedd. Mae llwybr cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yn cael ei gwblhau a bydd yn egluro'r cymorth sydd ar gael gan sefydliadau statudol ac anstatudol sy'n gweithio mewn partneriaeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:49 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. When you and the Welsh Conservatives agreed to abolish the priority need for ex-prisoners, you did set up this group. I would've expected, actually, some more concrete results by now in terms of how you're going to be dealing with that particular group. Can you give an indication of when measures will be put in place to ensure that ex-prisoners, particularly those who are vulnerable, will not end up on the street and reoffending, and can you tell us what sort of timetable and measures you will actually be implementing?
- 14:50 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The group to which I referred is finalising a model pathway for support. I've asked for that to be with me within the next couple of months. Local authorities are aware of the legislation that is coming and I think they, like me, are committed to doing as much as possible to help prisoners on housing matters and help to contribute to reducing reoffending.
- 14:50 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, figures show that while 65% of men return to their original address following release from prison, 65% of women don't. We also know that reoffending rates amongst women remain high, at 53%, which shows that prison doesn't work for women. There are many examples across the UK of where the use of women's centres and community centres would be far more effective, particularly in light of the fact that around 80% of women's offences are non-violent. Minister, what discussions are you having with the Ministry of Justice on the recommendations of the Corston report, to improve the approaches, services and interventions for women in the criminal justice system in Wales?
- 14:51 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Help for female offenders is of particular interest to me and we are part-funding a post within Integrated Offender Management Cymru alongside the National Offender Management Service in Wales to identify specific challenges faced by women leaving prison. But, principally, this is a matter for my colleague the Minister for Public Services, but our officials are collaborating on a women's pathfinder project also, which is focused on diverting women away from custodial sentences.
- 14:52 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, just leading on from what Peter Black was saying, can you perhaps tell me what additional measures are in place to minimise reoffending by not placing ex-prisoners in less than appropriate places within our communities?

14:52	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, I think it's really important that local authorities, which are obviously responsible for providing that housing, as I said, are very much committed to helping prisoners on housing matters. The new legislation means that they will reach into prison initially, before somebody is released from prison, to try to ascertain what their housing needs will be. I expect the majority of prisoners to have had their housing issues resolved prior to release, and I think this will assist prisoners when they come out—they will know where their housing will be. I do hope that, again, it will reduce homelessness.</p>	<p>Wel, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i awdurdodau lleol, sy'n amlwg yn gyfrifol am ddarparu tai o'r fath, fel y dywedais, fod wedi ymrwymo'n gadarn i helpu carcharorion gyda materion tai. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn golygu y byddant yn cynnig cymorth yn y carchar yn y lle cyntaf, cyn rhyddhau'r unigolyn o'r carchar, er mwyn ceisio canfod beth fydd eu hanghenion tai. Rwy'n disgwyl y bydd problemau tai y rhan fwyaf o garcharorion wedi cael eu datrys cyn eu rhyddhau, ac rwy'n credu y bydd hyn yn cynorthwyo carcharorion wrth iddynt ddod allan—byddant yn gwybod lle y byddant yn byw. Unwaith eto, rwy'n gobeithio y bydd yn lleihau digartrefedd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:52	<p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru</i></p> <p>In 2012, Minister, the Scottish Parliament, under the control of the SNP, passed the Homelessness (Abolition of Priority Need Test) (Scotland) Order 2012, which removed the priority need test and ensured that any applicants who could prove that they were unintentionally homeless and were eligible for assistance could actually access that assistance and help with homelessness. By insisting on having the Pereira test on the face of your housing Bill for ex-prisoners, can you explain to Assembly Members, homeless charities and groups involved with prisoner rehabilitation how this is compatible with social justice?</p>	<p>Yn 2012, Weinidog, pasiodd Senedd yr Alban o dan reolaeth yr SNP Orchymyn Digartrefedd (Diddymu Prawf Angen Blaenoriaethol) (yr Alban) 2012, a oedd yn dileu'r prawf angen blaenoriaethol ac yn sicrhau y gallai unrhyw ymgeisywyr a allai brofi eu bod yn ddigartref yn anfwriadol, ac yn gymwys i gael cymorth, gael cymorth o'r fath a help gyda digartrefedd. Drwy fynnu cael y prawf Pereira ar wyneb eich Bil tai ar gyfer cyn-garcharorion, a allwch egluro i Aelodau'r Cynulliad, elusennau a grwpiau digartrefedd sy'n ymwneud ag adsefydlu carcharorion sut y mae hyn yn gydnaws ag egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:53	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, as I said, because this support is reaching into prison before a prisoner is released, I expect the majority of prisoners to have their housing issues resolved prior to release. I don't think that always happened before.</p>	<p>Wel, fel y dywedais, am fod y cymorth hwn yn cael ei roi yn y carchar cyn rhyddhau'r carcharor, rwy'n disgwyl y bydd problemau tai y rhan fwyaf o garcharorion wedi eu datrys cyn eu rhyddhau. Nid wyf yn credu bod hyn yn digwydd bob amser o'r blaen.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Tlodi</b>	<b>Poverty</b>		
14:53	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>9. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi yng nghymoedd de Cymru?</i> OAQ(4)0294(CTP)</p>	<p><i>9. What is the Welsh Government doing to tackle poverty in the south Wales valleys?</i> OAQ(4)0294(CTP)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:53	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Diolch. There are a number of initiatives being delivered in the south Wales Valleys that are contributing to tackling poverty, including Communities First, the Lift programme and Flying Start.</p>	<p>Diolch. Mae nifer o fentrau'n cael eu cyflwyno yng Nghymoedd y de sy'n cyfrannu at drechu tlodi, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, y rhaglen Esgyn a Dechrau'n Deg.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:54	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Diolch am yr ateb hwnnw. Rwyf jest eisiau cael rhyw fath o syniad ynglŷn â sut mae'ch Llywodraeth yn gweithio ar draws adrannau yng nghyd-destun fy nadl fer yr wythnos diwethaf ar ailagor twnnel y Rhondda. Pe baech chi wedi gwrandao ar y ddadl honno, byddech chi wedi gweld bod yna botensial i adfywio cymoedd y Rhondda a'r Afan yn sgil ailagor y twnnel hwnnw. Wrth gwrs, y Gweinidog dros yr economi fydd yn arwain ar hyn, ond sut fyddech chi, er enghraifft trwy Gymunedau yn Gyntaf a phrojectau lleol, yn gallu cydweithio â'r Gweinidog, pe bai'r cysyniad yma yn gallu bod yn llwyddiannus?</p>	<p>Thank you for that answer. I just want to have some idea as to how your Government is working on a cross-departmental basis in the context of my short debate last week on the reopening of the Rhondda tunnel. Had you heard that short debate, you would have heard that there is huge potential to regenerate the Rhondda and Afan valleys in light of reopening that tunnel. Of course, the Minister for the economy will lead on this, but how will you, for example through Communities First and local projects, collaborate with the Minister, should this concept be successful?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Unfortunately, I wasn't in the Chamber to hear the Member's short debate, but I have asked my regeneration officials to liaise with the Minister for Economy, Science and Transport's officials.
- Yn anffodus, nid oeddwn yn y Siambwr i glywed dadl fer yr Aelod, ond rwyf wedi gofyn i fy swyddogion adfywio gysylltu â swyddogion Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.
- 14:54 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one of the issues contributing towards poverty in the Valleys is, of course, the growth of gambling and addiction of course the growth of gambling and addiction, and the growth, particularly, of online gaming. There's been an issue with regard to the potential withdrawal of funding provided by the Responsible Gambling Trust, and, of course, concerns around that were raised with the business Minister yesterday. How do you intend to approach the issue of poverty and gambling and to ensure that there's a joined-up strategy to alleviate poverty, but also to ensure that we get a proper share of the funding to enable us to actually deal with issues related to gambling?
- Weinidog, un o'r materion sy'n cyfrannu at dloidi yn y Cymoedd, wrth gwrs, yw'r cynnydd mewn hapchwarae a dibyniaeth, ac yn enwedig, y cynnydd mewn hapchwarae ar-lein. Mae yna fater wedi codi o ran y posibilrwydd o wrthod cyllid gan yr Ymddiriedolaeth Hapchwarae Cyfrifol, ac wrth gwrs, mynegwyd pryderon ynglŷn â hynny wrth y Gweinidog busnes ddoe. Sut y bwriadwch ymdrin â thlodi a hapchwarae a sicrhau bod strategaeth gydgyssylltiedig ar waith i leddfu tlodi, ond hefyd i sicrhau ein bod yn cael cyfran briodol o'r arian i'n galluogi i ymdrin â phroblemau'n ymwneud â hapchwarae?
- 14:55 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. I know this is an area where you've done a great deal of work, and, obviously, gambling has very clear consequences for those facing poverty, and for their families also. We know it disproportionately affects vulnerable groups within society, particularly, unfortunately, sometimes people with financial difficulties and with alcohol and mental health issues. I'm very happy for my officials to liaise with the Minister for Health and Social Services' officials to see what more can be done to increase the effectiveness of the programmes that we do have.
- Diolch yn fawr. Rwy'n gwybod bod hwn yn faes lle rydych wedi gwneud llawer iawn o waith, ac yn amlwg, mae hapchwarae'n arwain at ganlyniadau clir iawn i rai sy'n wynebu tlodi, a'u teuluoedd hefyd. Rydym yn gwybod ei fod yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau sy'n agored i niwed yn y gymdeithas, ac weithiau, yn anffodus, pobl sy'n wynebu anawsterau ariannol a phroblemau gydag alcohol ac iechyd meddwl yn arbennig. Rwy'n hapus iawn i fy swyddogion gysylltu â swyddogion y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i weld beth arall y gellir ei wneud i wella effeithiolrwydd y rhaglenni sydd gennym.
- 14:56 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, obviously we've had two tranches of European funding that is directly related to poverty levels in certain parts of Wales. We are now into the third tranche of money. Given that you're the Minister responsible for many of the schemes, where would you like Wales to be, and where will you commit the Government to putting Wales, and especially some of our most deprived communities in the south Wales Valleys, at the end of that scheme regarding poverty levels?
- Weinidog, yn amlwg rydym wedi cael dwy gyfran o arian Ewropeaidd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â lefelau tlodi mewn rhai rhannau o Gymru. Rydym bellach wedi cychwyn ar y drydedd gyfran o arian. O ystyried mai chi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am lawer o'r cynlluniau, lle y bydddech chi'n dymuno i Gymru fod, a lle yr ymrwymwch y bydd y Llywodraeth yn gosod Cymru, ac yn enwedig rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymoedd y de, ar ddiwedd y cynllun hwn o ran lefelau tlodi?
- 14:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think what's very important is that this funding is targeted at some of our most deprived and disadvantaged communities, and one of the targets that's coming out with the next tranche of funding is that 20% of it must go towards tackling poverty. So, my officials are currently working on programmes. We have one programme called PACE, which will specifically help with childcare, and we also have one called Communities for Work, which will work on a similar basis to the Lift programme, for instance. So, we're working these two programmes up as we go forward over the next two months.
- Rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig iawn yw bod yr arian yn cael ei dargedu at rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a than anfantais, ac un o'r targedau sy'n dod gyda'r gyfran nesaf o gyllid yw'r angen i 20% ohono fynd tuag at drechu tlodi. Felly, mae fy swyddogion wrthi'n gweithio ar raglenni. Mae gennym un rhaglen o'r enw Partneriaid a Chymunedau'n Ymgysylltu (PACE), a fydd yn helpu'n benodol gyda gofal plant, ac mae gennym hefyd un o'r enw Communities for Work, a fydd yn gweithio ar sail debyg i'r rhaglen Esgyn, er enghraifft. Felly, rydym yn datblygu'r ddwy raglen wrth inni symud ymlaen dros y ddau fis nesaf.

## Tai Cymdeithasol Addasadwy i Bobl Anabl

## Adaptable Social Housing for Disabled People

14:57	<p><b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd tai cymdeithasol addasadwy i bobl anabl? OAQ(4)0287(CTP)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on the availability of adaptable social housing for disabled people? OAQ(4)0287(CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:57	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Adapted housing plays a vital role in meeting the housing needs of disabled people. The Welsh Government encourages the use of accessible housing registers and partnership working to make the best use of existing resources to enable people to live as independently as possible. All local authorities have an accessible housing register matching process.</p>	<p>Mae tai wedi'u haddasu yn chwarae rhan hanfodol yn diwallu anghenion tai pobl anabl. Mae Llywodraeth Cymru yn annog y defnydd o gofrestri tai hygyrch a gweithio mewn partneriaeth i wneud y defnydd gorau o adnoddau sy'n bodoli'n barod i alluogi pobl i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Mae gan bob awdurdod lleol broses baru hygyrch ar gyfer cofrestri tai.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:57	<p><b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister. I raised in October with you the case in the Vale of Glamorgan of 20 families waiting for adaptive homes. One of the issues that has since been raised with me is that when minor adaptations are required, that can be provided quite quickly, but when major adaptations such as hoists or widening of doorways are necessary, that that takes very much longer to achieve, because the social housing stock that we have at present in Wales cannot be adequately adapted to provide those things. What guidance and what discussions have you had with local authorities in Wales to talk about building purpose-built adapted housing for people with significant disabilities?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Ym mis Hydref, tynnais eich sylw at achos ym Mro Morgannwg o 20 o deuluoedd yn aros am dai wedi'u haddasu. Un o'r materion sydd bellach wedi ei ddwyn i fy sylw yw y gellir darparu mân addasiadau yn eithaf cyflym lle bo'u hangen. Ond pan fo angen addasiadau mawr fel peiriannau codi neu ledu drysau, maent yn cymryd llawer iawn mwy o amser i'w cyflawni oherwydd na ellir addasu'r stoc tai cymdeithasol sydd gennym ar hyn o bryd yng Nghymru yn ddigonol ar gyfer darparu'r pethau hynny. Pa ganllawiau a pha drafodaethau a gawsoch gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i drafod adeiladu tai pwrpasol wedi eu haddasu ar gyfer pobl ag anableddau sylweddol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:58	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Obviously, we have issued both frameworks and guidance, and local authorities are responsible for meeting housing need in line with those. I haven't had specific discussions about them building specific housing, but I think it's really important that they ensure that, wherever possible, they get on with the adaptations as quickly as possible. Certainly, when you look at local authority performance data, there is an unacceptable level of differences in some local authorities as to how quickly they provide it. I don't think that's acceptable. There have been some improvements, but I've made very clear that I want to see even more improvements, as has my colleague the Minister for Public Services.</p>	<p>Yn amlwg, rydym wedi cyhoeddi fframweithiau a chanllawiau, ac mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddiwallu anghenion tai yn unol â'r rhain. Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol ynghylch adeiladu mathau penodol o dai, ond rwy'n meddwl ei bod yn wirioneddol bwysig eu bod yn sicrhau, lle bynnag y bo modd, eu bod yn bwrw ymlaen â'r addasiadau cyn gynted â phosibl. Yn sicr, os edrychwch ar ddata perfformiad awdurdodau lleol, mae yna lefel annerbyniol o wahaniaeth mewn rhai awdurdodau lleol o ran pa mor gyflym y maent yn ei ddarparu. Nid wyf yn credu bod hynny'n dderbyniol. Cafwyd rhai gwelliannau, ond rwyf wedi datgan yn glir iawn, fel y mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei wneud, fy mod am weld rhagor eto o welliannau.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:59	<p><b>Mohammad Asghar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>According to the report by Leonard Cheshire Disability, many councils in Wales have no estimate of the number of disabled-friendly homes they need or the impact the lack of such homes is having on health and care services in Wales. Will the Minister agree to look at this issue and provide guidance to local authorities in Wales to improve the availability of adaptable social housing for the disabled?</p>	<p>Yn ôl yr adroddiad gan Leonard Cheshire Disability, nid oes gan lawer o gynghorau yng Nghymru unrhyw amcangyfrif o nifer y cartrefi addas ar gyfer pobl anabl sydd eu hangen arnynt nac effaith diffyg cartrefi o'r fath ar wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog gytuno i edrych ar y mater a rhoi canllawiau i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau bod mwy o dai cymdeithasol addasadwy ar gael ar gyfer yr anabl?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:59	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We already provide a framework and guidance to local authorities, and we do expect them to have registers. Certainly, our research has found that all local authorities have an accessible housing register matching process, for instance, so I do think that that work is already being undertaken.</p>	<p>Rydym eisoes yn darparu fframwaith ac arweiniad i awdurdodau lleol, ac rydym yn disgwyl bod ganddynt gofrestri. Yn sicr, mae ein hymchwyl wedi canfod bod gan bob awdurdod lleol broses baru hygyrch ar gyfer y gofrestr tai, er enghraifft, felly rwy'n meddwl bod y gwaith hwnnw eisoes yn cael ei wneud.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:59	<p><b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, mae gwaith y mudiad Gofal a Thrwsio yn hynod bwysig wrth wneud mân newidiadau i alluogi pobl, yn enwedig pobl hŷn gydag anableddau, i aros yn eu cartrefi. A ydych chi yn sicr eich bod wedi gwneud digon o ddarpariaeth ar gyfer parhau â'r gwaith pwysig yma, a pha fath o waith pellach fedrwrch chi ei wneud i sicrhau bod gwaith asiantaethau megis Gofal a Thrwsio yn cael ei gynnwys gan awdurdodau lleol, a, hefyd, eu bod yn cydweithio'n agosach gyda'r byrddau iechyd?</p>	<p>Minister, the work of Care &amp; Repair is very important in making minor adaptations that enable people, particularly older people with disabilities, to remain in their own homes. Are you confident that you have made adequate provision for the continuation of this important work, and what sort of further work can you do to ensure that the work of agencies such as Care &amp; Repair are included by local authorities, and that they collaborate more closely with the health boards?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:00	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Certainly, Care &amp; Repair do carry out very important work, and you'll be aware of the report on the review of the independent living adaptations that we had a debate on in the Chamber earlier this month. Now, officials are working my other ministerial colleagues' officials to make sure that we take the report's recommendations forwards, but, obviously, Care &amp; Repair have a huge role to play in that work going forward.</p>	<p>Yn sicr, mae Gofal a Thrwsio yn cyflawni gwaith pwysig iawn, ac fe fyddwch yn ymwybodol o'r adroddiad ar yr adolygiad o addasiadau byw'n annibynnol y cawsom ddadlyn ei gylch yn y Siambr yn gynharach y mis hwn. Nawr, mae swyddogion yn gweithio gyda swyddogion fy nghyd-Aelodau gweinidogol i wneud yn siŵr ein bod yn datblygu argymhellion yr adroddiad, ond yn amlwg, mae gan Gofal a Thrwsio rôl enfawr yn y gwaith hwn wrth edrych tua'r dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:00	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:00	<p><b>3. Datganiad: Y Diweddaraf am y Cyhoeddiad ynghylch Grŵp Bwyd y 2 Sisters Cyf</b></p> <p><b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We now move to the next item, which is a statement by the Minister for Economy—Economy, Science and Transport: an update on the announcement by the 2 Sisters Food Group Ltd. I call on the Minister, Edwina Hart.</p>	<p><b>3. Statement: Update on Announcement by 2 Sisters Food Group Ltd</b></p> <p>Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef ddatganiad gan Weinidog yr Economi—Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: y wybodaeth ddiweddaraf am y cyhoeddiad gan y 2 Sisters Food Group Ltd. Galwaf ar y Gweinidog, Edwina Hart.</p>	<p><b>Y</b> Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:01	<p><b>Edwina Hart</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport</i></p> <p>Thank you, Presiding Officer. I have similar difficulties, some days, with the title, as well.</p> <p>On Friday, it was announced that 2 Sisters Food Group Ltd is entering into a consultation period on proposals to move to a single-shift operation at the poultry facility at Llangefni. The announcement made clear that there may be an impact on the number of staff employed onsite. This is, obviously, very disappointing news and a very concerning time for the staff and their families affected by the announcement.</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n cael anawsterau tebyg gyda'r teitl ar rai dyddiau hefyd.</p> <p>Ddydd Gwener, cyhoeddwyd bod y 2 Sisters Food Group Ltd yn cychwyn ar gyfnod ymgynghori ar gynigion i newid i weithio un sifft yn y gwaith dofednod yn Llangefni. Gwnaeth y cyhoeddiad yn glir y gallai effeithio ar nifer y staff a gyflogir ar y safle. Yn amlwg, mae hyn yn newyddion siomedig iawn ac yn amser pryderus iawn i'r staff a'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y cyhoeddiad.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

We have a long-standing relationship with the parent company, Boparan Holdings Ltd, which is one of our anchor companies and has a number of business interests in Wales. We are working closely with 2 Sisters to deliver all opportunities to grow investment and employment across the businesses in Wales. 2 Sisters currently has four processing sites in Wales, which employ over 4,000 people. The site in Llangefni employs around 750 people, including around 200 agency staff. It was acquired in March 2013, with support from the Welsh Government, when 2 Sisters bought the Llangefni, Sandycroft and Merthyr Tydfil sites from Vion UK Ltd; this secured 330 jobs at the Llangefni site. Further support in August 2013 assisted in the creation of a second shift at Llangefni, creating 318 new jobs.

More recently, we've been working with the company and the trade union, Unite, on their long-term plans for the site. In particular, we have been working to encourage them to retain as much production and employment as possible and to invest in further modernisation.

The company informs us that they have been experiencing a number of issues recently relating to shift patterns and productivity. I have spoken to the company at the highest level, and the trade union, following the announcement. The company have confirmed their commitment to work with the trade union and ourselves, and we will be holding further meetings to develop the long-term future of the plant.

2 Sisters values its poultry processing capacity in Wales, as it is supported by a strong local agricultural network of feed growers, mills and, of course, rearing units. We will continue to work closely with the company as it restructures, and aim to support the company in any way we can. In particular, we stand ready to offer support through our partners to any staff affected by this announcement. I am confident of the future of the site at Llangefni, and will keep Members updated on any progress.

Mae gennym berthynas hirsefydlog gyda'r rhiant gwmi, Boparan Holdings Ltd, sy'n un o'n cwmnïau angori ac mae ganddo nifer o fuddiannau busnes yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda 2 Sisters i gynnig pob cyfle i gynyddu buddsoddiad a chyflogaeth ar draws y busnesau yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae gan 2 Sisters bedwar safle prosesu yng Nghymru, sy'n cyflogi dros 4,000 o bobl. Mae'r safle yn Llangefni yn cyflogi tua 750 o bobl, gan gynnwys tua 200 o staff asiantaeth. Cafodd ei brynu ym mis Mawrth 2013 drwy gymorth Llywodraeth Cymru, pan brynodd 2 Sisters safleoedd Llangefni, Sandycroft a Merthyr Tudful gan Vion UK Ltd; sicrhodd hyn 330 o swyddi ar y safle yn Llangefni. Cynorthwyodd cymorth pellach yn Awst 2013 y broses o sefydlu ail shift yn Llangefni, gan greu 318 o swyddi newydd.

Yn fwy diweddar, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r gwmi a'r undeb llafur, Unite, ar eu cynlluniau hirdymor ar gyfer y safle. Yn benodol, rydym wedi bod yn gweithio i'w hannog i gadw cymaint o waith cynhyrchu a chyflogaeth ag y bo modd ac i fuddsoddi mewn moderneiddio pellach.

Mae'r gwmi yn dweud wrthym eu bod wedi wynebu nifer o broblemau'n ddiweddar yn ymwneud â newid patrymau a chynhyrchiant. Rwyf wedi siarad â'r gwmi ar y lefel uchaf, a'r undeb llafur, yn dilyn y cyhoeddiad. Mae'r gwmi wedi cadarnhau eu hymrwymiad i weithio gyda'r undebau llafur a ninnau, a byddwn yn cynnal cyfarfodydd pellach i ddatblygu dyfodol hirdymor y safle.

Mae 2 Sisters yn gwerthfawrogi ei gapasiti prosesu dofednod yng Nghymru, gan ei fod yn cael ei gefnogi gan rwydwaith amaethyddol lleol cryf o dyfwyr bwyd anifeiliaid, melinau ac unedau magu, wrth gwrs. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwmi wrth iddo ailstrwythuro, ac anelwn i gefnogi'r gwmi ym mhob ffordd y gallwn. Yn benodol, rydym yn barod i gynnig cefnogaeth drwy ein partneriaid i unrhyw staff yr effeithir arnynt gan y cyhoeddiad hwn. Rwy'n hyderus ynghylch dyfodol y safle yn Llangefni, a byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau.

## 15:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I remind Members that this is a statement, an opportunity to ask the Minister questions, and not for long speeches before we get the questions. Russell George.

Rwy'n atgoffa'r Aelodau mai datganiad yw hwn, cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog, nid cyfle i roi areithiau hir cyn i ni gael y cwestiynau. Russell George.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## 15:03 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank the Minister for her statement on what is extremely disappointing news. This is clearly a very uncertain time for employees and their families, and devastating to the local economy. I understand that this announcement has come out of the blue, and that employees were expecting a decision to expand operations in Llangefni rather than cut back. Minister, is it your assessment that this regrettable announcement is an isolated incident, or do you feel that there is a trend occurring? Would you agree with me that it's not only important for the Government to create the conditions for new jobs, but that investment aftercare is a key part of keeping jobs? In that regard, what levers do you have at your disposal to create the conditions to support businesses and investors that will keep valuable jobs and contracts in Wales?

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad ar yr hyn sy'n newyddion eithriadol o siomedig. Mae hwn yn amlwg yn gyfnod ansicr iawn i weithwyr a'u teuluoedd, ac yn ddinistriol i'r economi leol. Rwy'n deall bod y cyhoeddiad hwn yn annisgwyl, a bod gweithwyr yn disgwyl penderfyniad i ehangu gwaith yn Llangefni yn hytrach na thorri'n ôl. Weinidog, ai eich asesiad chi yw bod y cyhoeddiad anffodus hwn yn ddigwyddiad ynysig, neu a ydych yn teimlo bod tuedd ar waith? A fydddech yn cytuno â mi nid yn unig ei bod yn bwysig i'r Llywodraeth greu'r amodau ar gyfer swyddi newydd, ond bod ôl-ofal buddsoddi yn rhan allweddol o gadw swyddi? Yn hynny o beth, pa ddulliau sydd gennych o greu'r amodau i gefnogi busnesau a buddsoddwyr a fydd yn cadw swyddi a chontractau gwerthfawr yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, a company has to look at its own proposals—what it's doing itself within its group—and that is, certainly, the assessment the company has been making about what its needs and requirements are across Wales. In terms of investment aftercare, we have excellent relationships with the company and continue to work with them at every opportunity to ensure the future in that plant, which I am confident about. I think it's important to recognise there are issues there; there have been issues with absenteeism and about various other issues, which we are now working through. I have spoken to the very highest levels in the company today and with the trade unions concerned, and we intend to go forward in a tripartite manner to ensure that we have a resolution to matters there.

Yn amlwg, mae cwmni'n gorfod edrych ar ei argymhellion ei hun—yr hyn y mae'n ei wneud ei hun o fewn ei grŵp—a hynny, yn sicr, yw'r asesiad a wnaeth y cwmni o ran yr hyn yw ei anghenion ledled Cymru. O ran ôl-ofal buddsoddi, mae gennym berthynas ardderchog gyda'r cwmni ac rydym yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i weithio gyda hwy er mwyn sicrhau dyfodol y ffatri, ac rwy'n hyderus ynglŷn â hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod bod problemau yno; cafwyd problemau gydag absenoldeb ac amryw o faterion eraill, ac rydym yn gweithio drwy'r materion hynny ar hyn o bryd. Rwyf wedi siarad â phobl ar lefelau uchaf y cwmni heddiw ac â'r undebau llafur dan sylw ac rydym yn bwriadu symud ymlaen mewn modd teiran i sicrhau bod gennym atebion i'r problemau yno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydym yn meddwl uwchlaw unrhyw beth am y gweithwyr a'u teuluoedd nhw heddiw, wrth gwrs, a'r pryder iddyn nhw. Mae 2 Sisters, fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud, yn gwmni pwysig o ran y diwydiant bwyd drwy Gymru gyfan. Yn Ynys Môn, mae'n arbennig o bwysig, nid yn unig yn y gwaith yn Llangefni, ond yn y gadwyn gyflenwi hefyd, ac mae'n fater o dristwch a dicter hefyd, mewn difrif, na lwyddwyd i gytuno ar bryntiant ar gyfer safle arall 2 Sisters, Welsh Country Foods yng Ngaerwen, ond mater arall ydy hynny.

We are thinking, above all else, of the workers and their families today, of course, and the concern that they are going through. As the Minister has said, 2 Sisters is an important company in terms of the food industry across Wales. On Ynys Môn, it is particularly important, not only in the works in Llangefni, but also in the wider supply chain, and it's a cause of sadness and some anger that we couldn't agree on the purchase of the other 2 Sisters site, Welsh Country Foods in Gaerwen, but that is another issue altogether.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae nifer o gwestiynau gen i. Mae'r Gweinidog wedi egluro bod 2 Sisters a'i rhiant gwmni wedi cael cymorth sylweddol gan y Llywodraeth, gan gynnwys, wrth gwrs, gymorth i gyflwyno'r ail sifft yma lai na dwy flynedd yn ôl. A all y Gweinidog egluro pa 'levers' ychwanegol y mae hynny yn eu rhoi rŵan i'r Llywodraeth wrth iddyn nhw weithio efo 2 Sisters ar ddod o hyd i ffordd ymlaen? Mi glywodd y gweithwyr yn ôl yn haf 2013 nad oedd y gwaith yn Llangefni yn gynaliadwy heb y sifft ychwanegol. Rŵan, wrth gwrs, mae sôn am dynnu'r sifft ychwanegol honno i ffwrdd, ac mae pryder, os nad oedd y gwaith yn gynaliadwy ddwy flynedd yn ôl, pam ei bod hi rŵan. Dyna'r cwestiynau y mae gweithwyr yn gofyn iddyn nhw eu hunain. Beth yw dealltwriaeth y Gweinidog o'r anawsterau mae 2 Sisters yn eu hwynebu ac, yn benodol, ai her dros dro, tybed, y mae'r cwmni yn ei wynebu? A oes ffordd i'r Llywodraeth helpu i bontio dros gyfnod anodd yn y gobaith o gadw'r sifft yma?

I have a number of questions. The Minister has explained that 2 Sisters and its parent company have been given substantial assistance by Government, including assistance to introduce the second shift less than two years ago. Can the Minister explain what additional levers that provides for the Government now as they work with 2 Sisters to find a way forward? The workers heard back in the summer of 2013 that the works in Llangefni weren't sustainable without that additional shift. Now, of course, there is talk of removing that additional shift, and there is concern that, if the work wasn't sustainable two years ago, why it would be sustainable now. Those are the questions that workers are asking themselves. What is the Minister's understanding of the difficulties that 2 Sisters is facing and, specifically, is this a temporary problem that the company is facing? Is there some means by which the Government could assist by bridging over a difficult period in the hope of retaining this shift?

Yn olaf, rwy'n nodi bod 2 Sisters yn cyflogi, rwy'n meddwl, ryw 200—dyna a ddywedoch chi—o weithwyr asiantaeth yn Llangefni. Pa sicrwydd a all y Gweinidog ei roi ynglŷn â'r flaenoriaeth a ddylai gael ei rhoi i sicrwydd y swyddi parhaol sydd yn y gwaith yna? Rwyf innau'n rhannu eich gobaith chi ar gyfer dyfodol y gwaith, ond mae newid strategaeth mor sylfaenol gan y cwmni mor fuan ar ôl cyflwyno'r strategaeth honno, a dod â sifft ychwanegol i mewn, yn achosi pryder mawr, wrth reswm, i'r gweithwyr a'u teuluoedd. Yn sicr, mi wnaif gefnogi'r Llywodraeth yn unrhyw ymdrech i geisio sicrhau dyfodol llewyrchus.

Finally, I note that 2 Sisters employs, I think, some 200—that is what you said—agency workers in Llangefni. What assurances can the Minister give in terms of the priority that should be given to securing the future of the permanent jobs in those works? I share your hopes for the future of this particular plant, but such a fundamental change of strategy by the company so soon after introducing that strategy, and bringing in an additional shift, does cause very serious concern for the workers and their families. I will certainly support the Government in any efforts made to try to secure a prosperous future for the works.

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Member, particularly for his final remarks? I know that he's been very concerned about the issue, and Isle of Anglesey County Council have also been in touch with us, as has Albert Owen MP, because there are a lot of concerns about the local population and the employment prospects there and, as he noted in his introductory remarks, issues around the supply chain within the area, which are also very important. I can only say to you that, in terms of the second shift, they were hopeful that the second shift would prove to be very successful. It hasn't, in terms of the way it's panned out financially at the current time, and the company has got to be cognisant of its overall position, because there are other jobs in Wales dependent on how the company functions in terms of profitability.

Can I say, in terms of the levers of the Welsh Government, any levers we might have will assist, because I think there might be an issue, perhaps, of further training within the plant to get higher skills, perhaps, in the plant? Those are certainly areas that we will certainly look to do. We've certainly given the company substantial assistance in the past, because we do value the jobs that they've got, particularly in certain parts of Wales where employment is very difficult, and we're going to continue to do so.

In terms of who will be part and parcel if job losses are made, there are obviously discussions ongoing with the trade unions about how those matters will be resolved. I have been in contact with the trade unions myself, and will continue to do so via employers. I will certainly, Presiding Officer, providing you would be agreeable, table a further updated oral statement to the Chamber if there's any news, in light of the importance of these jobs to Ynys Môn.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod, yn enwedig am ei sylwadau terfynol? Gwn ei fod wedi bod yn bryderus iawn am y mater, ac mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd wedi bod mewn cysylltiad â ni, fel y mae Albert Owen AS, oherwydd mae llawer o bryderon am y boblogaeth leol a'r rhagolygon cyflogaeth yno ac fel y nododd yn ei sylwadau agoriadol, mae yna broblemau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yn yr ardal sydd hefyd yn bwysig iawn. Ni allaf ond dweud wrthyhch, o ran yr ail shift, eu bod wedi gobeithio y byddai'r ail shift yn llwyddiannus iawn. Ni ddigwyddodd hynny, o ran y ffordd y mae pethau wedi datblygu'n ariannol ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid bod y cwmni'n ymwybodol o'i sefyllfa gyffredinol, oherwydd mae swyddi eraill yng Nghymru yn dibynnu ar sut y mae'r cwmni'n gweithredu o ran proffidoldeb.

A gaf fi ddweud, o ran ysgogiadau Llywodraeth Cymru, y bydd unrhyw ysgogiadau a allai fod gennym o gymorth, gan fy mod yn meddwl efallai y gallai fod angen hyfforddiant pellach ar y safle i sicrhau sgiliau mwy datblygedig? Mae'r rheini yn sicr yn feysydd y byddwn yn mynd i'r afael â hwy. Rydym yn sicr wedi rhoi cymorth sylweddol i'r cwmni yn y gorffennol, gan ein bod yn gwerthfawrogi'r swyddi sydd ganddynt, yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru lle y mae cyflogaeth yn anodd iawn, ac rydym yn mynd i barhau i wneud hynny.

O ran y posibilrwydd y bydd rhai'n colli eu swyddi, mae yna drafodaethau ar y gweill, wrth gwrs, gyda'r undebau llafur ynghylch sut y bydd y materion hynny'n cael eu datrys. Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â'r undebau llafur fy hun, a byddaf yn parhau i wneud hynny drwy gyfrwng y cyflogwyr. Lywydd, os ydych yn cytuno, byddaf yn sicr o gyflwyno datganiad llafar pellach gyda'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr os oes unrhyw newyddion, o ystyried pwysigrwydd y swyddi hyn i Ynys Môn.

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwyf i hefyd yn barod iawn i roi unrhyw gefnogaeth. Mae'n anodd i'r teuluoedd, wrth gwrs, a'r gweithwyr yn ystod y cyfnod o ymgynghori. Mae Rhun ap Iorwerth wedi sôn am y datganiad ddwy flynedd yn ôl ynglŷn â'r ail sifft, ac rydych wedi esbonio yn union beth yw'r sefyllfa. Ond, mi oedd datganiad dydd Gwener hefyd yn sôn am greu safle arbenigol o fewn y cwmni ynglŷn â Llangefni, ac eto nid oes sôn am hynny yn y datganiad heddiw. A yw'r cwmni wedi rhoi unrhyw fath o esboniad ynglŷn â'u bwriadau ar gyfer hynny, achos rydych yn dweud bod y dyfodol yn sicr o ran y safle yma, ond rwy'n meddwl bod rhai gweithwyr yn cwestiynu hynny ac yn cwestiynu yn union beth mae'r cwmni yn ei fwriadu ar gyfer y safle yma? A gaf i hefyd ofyn i chi a ydy'r cwmni wedi gwneud unrhyw fath o ddatganiad ynglŷn â throsglwyddo? Os ydyn nhw yn diswyddo staff, mae ganddyn nhw ffatri, wrth gwrs, yn sir y Fflint. A fydd yna unrhyw bosibiliadau ar gyfer y gweithwyr hynny, o gofio ei bod yn debygol y bydd y rhan fwyaf o'r gweithwyr eisiau aros yn sir Fôn beth bynnag?

Minister, I am also very willing to give any support. It's very difficult for the families and the workers during the period of consultation. Rhun ap Iorwerth has mentioned the statement made two years ago about the second shift, and you've explained exactly what the position is. But, Friday's statement also talked about creating a specialist site within the company for Llangefni, and yet there is no mention of that in today's statement. Has the company given any kind of explanation about their intentions on that issue, because you have said that the future is certain from the point of view of this site, but I believe that some workers question that and question exactly what the company intends for this site? May I also ask you whether the company has made any sort of statement on transfers? If they were to make staff redundant, they have a factory, of course, in Flintshire. Will there be any possibilities for those workers, bearing in mind that most of them would probably wish to stay on Anglesey anyway?

15:10

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, I'm aware that the trade unions have actually raised many of the points you've raised about possible employment at other sites, and those will be the subject of ongoing discussion. I think the job of Government here is to ensure the security of that site and employment on that site, and what we can do to help and assist to help to make it an even more viable business on that site. That's what my officials will be tasked to undertake in discussions with both the trade unions and management. If it is a question about skills, training and we how we deal with those issues, I think we will have a very open discussion with the company and trade unions on those particular points.

As a Government, we obviously intervened previously to secure the site after what happened with Vion. It is not my intention that we won't be as helpful this time, if we can be, in ensuring that the jobs remain on that site.

Yn amlwg, rwy'n ymwybodol bod yr undebau llafur wedi cyfeirio at nifer o'r pwyntiau rydych wedi eu crybwyll ynghylch cyflogaeth posibl ar safleoedd eraill, a byddant yn destun trafodaeth barhaus. Rwy'n meddwl mai gwaith y Llywodraeth yma yw sicrhau diogelwch y safle a chyflogaeth ar y safle a'r hyn y gallwn ei wneud i helpu a chynorthwyo i'w wneud yn fusnes hyd yn oed yn fwy hyfyw ar y safle hwnnw. Dyna'r gwaith sydd i'w gyflawni gan fy swyddogion mewn trafodaethau gyda'r undebau llafur a rheolwyr. Os yw'n fater o sgiliau, hyfforddiant a sut rydym yn ymdrin â'r materion hynny, rwy'n meddwl y byddwn yn cael trafodaeth agored iawn gyda'r cwmni a'r undebau llafur ar y pwyntiau penodol hynny.

Fel Llywodraeth, fe wnaethom ymyrryd yn flaenorol, wrth gwrs, i ddiogelu'r safle ar ôl yr hyn a ddiwyddodd gyda Vion. Fy mwriad yw cynnig yr un cymorth y tro hwn, os gallwn, o ran sicrhau bod y swyddi yn aros ar y safle.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:11

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that, because I associate myself with the comments made by Aled Roberts and Rhun ap Iorwerth about the impact on the families. But, Boparan Holdings, the parent group of 2 Sisters Food Group received £5 million from Welsh Government in 2012-13. So, how much of that money actually went to support the 2 Sisters site in Anglesey, and what were the conditions attached to that funding? I'm aware that Boparan Holdings also owned Avana bakeries in Rogerstone in Newport, and a number of jobs were lost there by 2 Sisters. So, how confident are you in Boparan Holdings providing that job security that presumably that £5 million of funding went to assist? Clearly, there is a demand because we know that a new factory has been opened by a different company in Wrexham, also dealing with chickens, that will be providing 150 new jobs. I appreciate it's a rival company, but clearly the demand for the product is there, and the demand for the labour and skills in north Wales is there, given that Wrexham site and that Flintshire site. So, have you looked at the conditions of the grant and whether or not the company has actually complied with them?

Diolch i chi am hynny, Weinidog, oherwydd hoffwn ategu'r sylwadau a wnaed gan Aled Roberts a Rhun ap Iorwerth am yr effaith ar y teuluoedd. Ond derbyniodd Boparan Holdings, rhiant grŵp 2 Sisters Food Group £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2012-13. Felly, faint o'r arian hwnnw mewn gwirionedd a aeth i gefnogi safle 2 Sisters ar Ynys Môn, a beth oedd yr amodau a oedd ynghlwm wrth y cyllid hwnnw? Rwy'n ymwybodol bod Boparan Holdings hefyd yn berchen ar boptai Avana yn Rogerstone yng Nghasnewydd a cholodd 2 Sisters nifer o swyddi yno. Felly, pa mor hyderus ydych chi fod Boparan Holdings yn mynd i gynnig sicrwydd o ran swyddi yr aeth £5 miliwn o gyllid tuag at ei helpu yn ôl pob tebyg? Yn amlwg, mae yna alw gan ein bod yn gwybod bod ffatri newydd wedi cael ei hagor gan gwmni gwahanol yn Wrecsam, sydd hefyd yn delio ag ieir, a fydd yn creu 150 o swyddi newydd. Rwy'n sylweddoli ei fod yn gwmni cystadleuol, ond yn amlwg mae yna alw am y cynnyrch, ac mae yna alw am y llafur a sgiliau yng ngogledd Cymru, o ystyried bod safle yn Wrecsam a safle yn Sir y Fflint. Felly, a ydych chi wedi edrych ar amodau'r grant ac a yw'r cwmni wedi cydymffurfio â hwy ai peidio?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:12

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can assure you that any grants we give to any organisation from the sector that I am dealing with we look at in detail. If there are issues about grant repayments, we look at those; you can have that assurance. Can I say that I do not intend to be drawn on the internal workings of the company and what they might be doing in various parts of the company? My job is to ensure that we remain confident in the future of the plant on Ynys Môn, and that we give as much support as we can, as the Government, to ensure the plant continues there, because we've had a good relationship with the company in terms of open discussion and dialogue. As I've indicated, when I'm able, I will update Members on any appropriate matters in due course.

Gallaf eich sicrhau ein bod yn edrych yn ofalus ar unrhyw grantiau a roddwn i unrhyw sefydliad sector rwy'n delio ag ef yn y sector. Os oes materion yn codi ynghylch ad-daliadau grant, rydym yn edrych ar hynny; gallwch gael y sicrwydd hwnnw. A gaf fi ddweud nad wyf yn bwriadu gwneud sylw pellach ar waith mewnol y cwmni a'r hyn y gallent fod yn ei wneud mewn gwahanol rannau o'r cwmni? Fy ngwaith i yw sicrhau ein bod yn parhau yn hyderus yn nyfodol y safle ar Ynys Môn, a'n bod yn rhoi cymaint o gefnogaeth ag y gallwn, fel Llywodraeth, i sicrhau bod y safle'n parhau yno, am ein bod wedi cael perthynas dda gyda'r cwmni o ran trafodaeth a deialog agored. Fel y nodais, pan fyddaf yn gallu gwneud hynny, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar unrhyw faterion priodol maes o law.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand the company has said that proposals to make redundant 116 direct employees and 184 agency workers at the plan are both to simplify its business and to sustain the quality of its products, but also to turn the plant into a centre of excellence for producing chicken meat. What discussion have you had, or will your officials be having, with the company to identify or reconcile the apparent contradiction between those statements?

Yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, mae'r cwmni wedi dweud bod argymhellion i ddiswyddo 116 o weithwyr uniongyrchol a 184 o weithwyr asiantaeth ar y safle wedi eu gwneud er mwyn symleiddio ei fusnes ac i gynnal ansawdd ei gynnyrch, ond hefyd er mwyn troi'r safle yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu cig cyw iâr. Pa drafodaeth a gawsoch, neu y bydd eich swyddogion yn ei chael, gyda'r cwmni i dynnu sylw at, neu i gysoni'r gwrth-ddweud ymddangosiadol rhwng y datganiadau hyn?

I understand the unions have identified the possibility of transferring some jobs to Sandycroft in Deeside. What dialogue has or in such circumstances would be occurring with Flintshire to facilitate the possible relocation involved? As somebody who drives the A55 every week, I know it's not a nice commuting journey; it's not simply a case of driving a little bit further in the morning and packing an extra sandwich box.

Rwy'n deall bod yr undebau wedi nodi'r posibilrwydd o drosglwyddo rhai swyddi i Sandycroft ar Lannau Dyfrdwy. Pa drafodaeth a gafwyd neu y gellid ei chael mewn amgylchiadau o'r fath gyda Sir y Fflint i hwyluso'r gwaith posibl o adleoli? Fel rhywun sy'n gyrru ar hyd yr A55 bob wythnos, rwy'n gwybod nad yw'n daith gymudo braf; nid yw'n fater syml o yrru ychydig ymhellach yn y bore a phacio tocyn bwyd ychwanegol.

We know that, last summer, there was a safety audit at the factory, ordered by the UK health secretary, after concerns were highlighted in a newspaper. The Food Standards Agency identified no risk to public health, but agreed, at the request of the UK Secretary of State for Health, to conduct a full safety audit. Do we know what resulted from that and has this had any bearing on the decision, or are you able to establish that for us? Finally, we know worrying GVA figures most recently showed that Anglesey has the lowest value of goods and services produced per head of population already, at £11,368 against the UK average of £23,394. Given that we're now entering the third tranche of EU convergence funding, is there any role that that source might play in trying to establish these jobs in the poorest part of the UK?

Gwyddom fod archwiliad diogelwch wedi'i gynnal yn y ffatri yr haf diwethaf wedi'i orchymyn gan ysgrifennydd iechyd y DU, ar ôl i bapur newydd roi sylw i bryderon. Nododd yr Asiantaeth Safonau Bwyd nad oedd unrhyw risg i iechyd y cyhoedd, ond cytunodd i gynnal archwiliad diogelwch llawn ar gais Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Iechyd. A ydym ni gwybod beth a ddeilliodd o hynny ac a yw hyn wedi cael unrhyw effaith ar y penderfyniad, neu a allwch chi ganfod hynny i ni? Yn olaf, gwyddom fod y ffigurau GYC diweddaraf yn peri pryder ac yn dangos mai Ynys Môn sydd â'r gwerth isaf o ran nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir y pen o'r boblogaeth eisoes, sef £11,368 o gymharu â chyfartaledd y DU o £23,394. O gofio ein bod yn awr yn cychwyn ar drydedd gyfran o gyllid cydgyfeirio yr UE, a oes unrhyw rôl y gallai'r ffynhonnell honno ei chwarae i geisio sefydlu'r swyddi hyn yn y rhan dlotaf o'r Deyrnas Unedig?

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I assure the Member, after my discussion with the trade unions, that all matters regarding possible redundancies there, and what might happen about future job prospects, are being exceptionally well-aided with the company, and we are ready and able to help if they require our particular assistance. But this is fundamentally an industrial relations matter between the union and the company. Can I also make it clear as well, in terms of what's going on with the company, that we know in good faith from discussions with the company that the future of the facility is very important to them, and how we can work with them to ensure the future of the facility. I have no doubt about the future of the facility in Gaerwen, and the fact that it will employ individuals, and we will continue in that vein. It's not particularly helpful, actually, to be raising some issues around that company to take away any confidence in that business. We have to have confidence in that business and its ability to deliver, because they are large employers on Ynys Môn, and it's very important that they remain large employers on Ynys Môn.

A gaf fi sicrhau'r Aelod, ar ôl trafod gyda'r undebau llafur, fod pob mater yn ymwneud â diswyddiadau posibl yno, a beth a allai ddigwydd ynghylch rhagolygon swyddi yn y dyfodol, yn cael eu trafod yn arbennig o dda gyda'r cwmni, ac rydym yn barod i helpu ac yn gallu gwneud hynny os ydynt angen ein cymorth yn benodol. Ond yn y bôn, mater yw hwn sy'n ymwneud â chysylltiadau diwydiannol rhwng yr undeb a'r cwmni. A gaf fi ei gwneud yn glir hefyd, o ran yr hyn sy'n digwydd gyda'r cwmni, ein bod yn gwybod o drafodaethau gyda'r cwmni fod dyfodol y cyfleuster yn bwysig iawn iddynt, ac y gallwn weithio gyda hwy i sicrhau dyfodol y cyfleuster. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth ynglŷn â dyfodol y cyfleuster yn y Gaerwen, a'r ffaith y bydd yn cyflogi unigolion, a byddwn yn parhau yn yr un modd. Nid yw tynnu sylw at rai materion ynghylch y cwmni hwnnw a diddymu unrhyw hyder yn y busnes yn arbennig o fuddiol mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i ni gael hyder yn y busnes a'i allu i gyflawni gan eu bod yn gyflogwyr mawr ar Ynys Môn, ac mae'n bwysig iawn eu bod yn parhau'n gyflogwyr mawr ar Ynys Môn.

15:16

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I'm very grateful for your statement today. In particular, 2 Sisters are a large company operating in Wales with, as you put it in your statement, 4,000 employees, and this is a deeply troubling time for those employees. What is interesting in your statement is that you don't point to any economic facts, i.e. a contraction of the poultry market or some challenging economic environment that the company is finding itself trading in, as is the norm with these types of announcements. What does concern me is the paragraph that the company informs you

Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am eich datganiad heddiw. Yn benodol, mae 2 Sisters yn gwmni mawr sy'n gweithredu yng Nghymru gyda 4,000 o weithwyr, fel y dywedoch yn eich datganiad, ac mae hwn yn gyfnod gofidus iawn i'r gweithwyr hynny. Yr hyn sy'n ddi-ddorol yn eich datganiad yw'r ffaith nad ydych yn cyfeirio at unrhyw ffeithiau economaidd, h.y. crebachu yn y farchnad ddodfednod neu ryw amgylchedd economaidd heriol y mae'r cwmni'n masnachu ynnddo, fel sy'n arferol gyda'r mathau hyn o gyhoeddiadau. Yr hyn sy'n peri pryder i mi yw'r paragraff yn sôn bod y cwmni'n dweud wrthyfch

'that they have been experiencing a number of issues recently relating to shift patterns and productivity.'

'eu bod wedi bod yn profi nifer o broblemau yn ddiweddar yn ymwneud â phatrymau sifftiau a chynhyrchiant.'

Are you of the opinion that, given the conversations that you've had with the senior management and, I think you put it, at the highest level, if they can overcome these workplace issues, then the plant does have a very strong future in the 2 Sisters group, and, ultimately, the growth that the plant has enjoyed over recent years could be reinstated, should a decision be taken to contract it at this time?

O ystyried y sgrysiâu rydych wedi eu cael gyda'r uwch reolwyr—ar y lefel uchaf yn ôl yr hyn a ddywedoch, rwy'n meddwl—os gallant oresgyn y problemau hyn gyda'r gweithle, a ydych o'r farn fod dyfodol cadarn iawn i'r ffatri yng ngrŵp y 2 Sisters, ac yn y pen draw, y gellid adfer y cynnydd y mae'r ffatri wedi'i weld dros y blynyddoedd diwethaf, os gwneir penderfyniad i'w lleihau ar hyn o bryd?

15:17

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think it's very important to recognise that all parties involved, with the plant management and trade unions, will be working together to ensure that that will be the future. I'm very hopeful that these matters can be resolved. It's very unfortunate about the redundancy position and all those particular issues, but the important thing is to remain confident about the plant, confident about the ability of the employees to take on further work and do work on the plant, and confident the Government will concern itself to ensure the most successful outcome in respect of the plant, which is to have continued employment on Ynys Môn.

Credaf ei bod yn bwysig iawn cydnabod y bydd pawb sy'n rhan o hyn, ynghyd â rheolwyr y safle a'r undebau llafur, yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau mai dyna fydd y dyfodol. Rwy'n obeithiol iawn y gellir datrys y materion hyn. Mae'n sefyllfa anffodus iawn o ran y diswyddiadau a'r holl faterion hynny, ond y peth pwysig yw parhau'n hyderus ynglŷn â'r safle, yn hyderus ynghylch gallu'r gweithwyr i ymgymryd â gwaith pellach ac i weithio ar y safle, ac yn hyderus y bydd y Llywodraeth yn bwrw iddi i sicrhau'r canlyniad mwyaf llwyddiannus o ran y safle, sef parhau i gyflogi ar Ynys Môn.

15:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

15:18

**4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei Ymchwiliad i Fynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru**

**4. Debate on the Health and Social Y Care Committee's Report on its Inquiry into Access to Medical Technologies in Wales**

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to item 4, which is the debate on the Health and Social Care Committee's report on its inquiry into access to medical technologies in Wales. I call on the Chair of the committee, David Rees.

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn yn awr at eitem 4, sef y ddaol ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, David Rees.

Cynnig NDM5700 David Rees

Motion NDM5700 David Rees

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2014.

*Cynigiwyd y cynnig.*

15:18

## David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Cynigiau y cynnig. Mae'n bleser gennyf agor y ddaol hon ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar fynediad i dechnolegau meddygol yng Nghymru. Caiff ei gydnabod ers cryn amser bod gan dechnoleg newydd ran bwysig yn y broses o wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r buddion yn cynnwys canlyniadau gwell i gleifion, clinigwyr, gofalwyr a'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau. Derbynnir y gall defnyddio technoleg arwain at driniaeth fwy effeithiol ac effeithlon ac y gall sicrhau mynediad tecach at wasanaethau. Caiff ei gydnabod hefyd y gellir darparu gofal yn agosach at gartref cleifion, neu hyd yn oed yn eu cartrefi, drwy ddefnyddio technoleg.

Despite all of this, how we access and approve the use of medical technology is a subject that rarely receives attention. This is the reason why the committee decided to hold an inquiry on the topic. Throughout the ages, technology has played a significant role in the advancement of medicine and social care. The improved diagnostic and assistive tools delivered as a consequence of technological developments have improved patient outcomes, as have the more targeted and less invasive treatments that they have provided. In many cases, the introduction of technologies has also enabled the achievement of efficiencies, either by automating processes or allowing other changes in patient pathways. We wanted to shine a light on the processes that exist in Wales for accessing these technologies. We also wanted to consider what improvements could be made to ensure that Wales is at the forefront of this important area of innovation.

Before turning to our conclusions and recommendations, I would like to take the opportunity to say 'thank you' to everyone who contributed to our inquiry. The complexity of this subject area meant that we spoke to a number of people over a period of many weeks. Some of those people shared their views about our report and the Minister's response with me earlier today. Others have also joined us this afternoon to listen to this debate—some may be in the gallery—and I would like to note our thanks to them all for sharing their time and expertise with us as a committee.

We made 13 recommendations in total. I'm sure Members have had the opportunity to consider our report, so I won't speak about each one in detail. Rather, I'll concentrate on the key themes that emerged during our inquiry. First, and most importantly, we drew one overarching conclusion: Wales lacks a strategic, co-ordinated approach to technology evaluation and adoption. We found that, in many cases, technologies were introduced due to the enthusiasm of individual clinicians rather than as a consequence of a consistent and robust appraisal, commissioning and evaluation process. Some witnesses told us that this had resulted in variable levels of service being provided in different areas of Wales.

Notes the report by the Health and Social Care Committee into access to medical technologies in Wales, which was laid in the Table Office on 17 December 2014.

*Motion moved.*

Thank you, Presiding Officer. I move the motion. I am pleased to open this debate on the Health and Social Care Committee's report on access to medical technologies in Wales. The role new technology has to play in improving the delivery of health and social services is long recognised, with benefits including better outcomes for patients, clinicians, carers and service commissioners. It is acknowledged that the use of technologies can lead to more efficient and effective treatment and can improve equity of access to services. It is also recognised that technology can enable care to be delivered closer to, or even within, an individual's own home.

Er hyn i gyd, anaml y rhoddir sylw i'r modd rydym yn defnyddio ac yn cymeradwyo technoleg feddygol. Dyma'r rheswm pam y penderfynodd y pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r mater. Drwy gydol yr oesoedd, mae technoleg wedi chwarae rôl arwyddocaol yn natblygiad meddygaeth a gofal cymdeithasol. Mae'r offer diagnostig a chynorthwyol gwell a ddaeth yn sgil datblygiadau technolegol wedi gwella canlyniadau i gleifion, fel y mae'r triniaethau llai ymwithiol ac wedi'u targedu'n well a ddarparwyd ganddynt. Mewn llawer o achosion hefyd, mae cyflwyno technoleg wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd, naill ai drwy awtomeiddio prosesau neu ganiatáu newidiadau eraill yn llwybrau cleifion. Roeddem am dafu goleuni ar y prosesau sy'n bodoli yng Nghymru ar gyfer cael mynediad at y technolegau hyn. Roeddem hefyd am ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i sicrhau bod Cymru ar flaen y gad yn y maes arloesi pwysig hwn.

Cyn troi at ein casgliadau a'n hargymhellion, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddweud 'diolch yn fawr' wrth bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad. Roedd cymhlethdod y maes yn golygu ein bod wedi siarad â nifer o bobl dros gyfnod o sawl wythnos. Rhannodd rhai o'r bobl hynny eu barn ar ein hadroddiad ac ymateb y Gweinidog gyda mi yn gynharach heddiw. Mae eraill hefyd wedi ymuno â ni y prynhawn yma i wrando ar y ddaol hon—efallai fod rhai ohonynt yn yr oriel—a hoffwn nodi ein diolch i bob un ohonynt am rannu eu hamser a'u harbenigedd gyda ni fel pwyllgor.

Gwnaethom 13 o argymhellion i gyd. Rwy'n siŵr bod yr Aelodau wedi cael cyfle i ystyried ein hadroddiad, felly ni siaradaf yn fanwl am bob un. Yn hytrach, fe ganolbwyntiaf ar y themâu allweddol a ddaeth yn amlwg yn ystod ein hymchwiliad. Yn gyntaf, ac yn bwysicaf oll, daethom i un casgliad cyffredinol: mae yna ddiffyg ymagwedd strategol, gydgysylltiedig o werthuso a mabwysiadu technoleg yng Nghymru. Mewn llawer o achosion, gwelsom fod technolegau'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i frwdfrydedd clinigwyr unigol yn hytrach nag o ganlyniad i broses arfarnu, comisiynu a gwerthuso gyson a chadarn. Dywedodd rhai tystion wrthym fod hyn wedi arwain at ddarparu lefelau amrywiol o wasanaeth mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Our recommendations 1, 2 and 3 call for a more strategic, co-ordinated and streamlined approach to the adoption of medical technologies. They ask the Minister to set out the steps he will take to deliver this approach. The committee calls on the Minister to develop options for an all-Wales medical technologies appraisal mechanism, and we suggest that this mechanism should undertake a similar function in respect of technologies as the All Wales Medicines Strategy Group does for medicines. Now, I welcome the Minister's acceptance in principle of our first three recommendations and his commitment to consider a number of options for taking this national, co-ordinated approach to the adoption of medical technologies forward. I would be grateful if the Minister could outline the timescales within which these options will be developed, and by whom. I would also welcome further detail about when a final decision will be taken on the preferred option and approach.

Our recommendations 4 and 5 ask the Minister to ensure that National Institute for Health and Care Excellence guidance about medical technologies is shared properly and taken into account when shaping services. They also call for the Minister to ensure that the uptake of recommended medical technologies is measured as part of a formal audit process. I welcome the Minister's assurances that the option that is eventually chosen for appraising technologies will make provision for monitoring uptake. I would be grateful, however, if he could provide more information about why a formal audit process may not be adopted. I would also encourage the NICE liaison group, to whom the Minister refers in his response, to consider our committee reports. When read together, they suggest that work remains to be done to ensure adherence to NICE guidance in Wales.

Recommendations 6, 7 and 8 concentrate on arrangements for commissioning new technologies, calling for a more strategic approach that is linked to a robust appraisal and evaluation process. They also call on the Minister to consider adopting a national approach to commissioning in cases where budget impacts are high, wider population needs need to be met, services need to be commissioned across health board boundaries, and/or there is potential to commission treatment from elsewhere in the UK. I welcome the Minister's acceptance of these recommendations in principle and his assurances that options for a national approach to technology adoption and appraisal will take account of how it will link to commissioning and procurement services. In relation to commissioning through evaluation, the Minister has indicated that he will explore how and when this could be applied, and it is important that this work will ensure that it's applied in a Welsh context and not purely based on the English model. However, I would be grateful if the Minister could provide more information about what steps will be taken to deliver a more co-ordinated approach to commissioning. Will he be looking at a process of post-implementation evaluation of the technologies that are adopted?

Mae ein hargymhellion 1, 2 a 3 yn galw am ddull mwy strategol, cydgysylltiedig a syml o fabwysiadu technoleg feddygol. Maent yn gofyn i'r Gweinidog amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni'r dull hwn o weithredu. Mae'r pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i ddatblygu opsiynau ar gyfer system werthuso technoleg feddygol ar gyfer Cymru gyfan, ac awgrymwn y dylai'r system hon gyflawni swyddogaeth debyg mewn perthynas â thechnoleg i'r hyn y mae Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru yn ei wneud o ran meddyginiaethau. Nawr, rwy'n falch fod y Gweinidog yn derbyn ein tri argymhelliad cyntaf mewn egwyddor a'i ymrwymiad i ystyried nifer o opsiynau ar gyfer symud y dull cenedlaethol, cydgysylltiedig hwn o fabwysiadu technoleg feddygol yn ei flaen. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu'r amserlen ar gyfer datblygu'r opsiynau hyn, a phwy fydd yn gwneud hynny. Byddwn hefyd yn croesawu rhagor o fanylion ynglŷn â pha bryd y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch yr opsiwn a'r dull a ffafir.

Mae ein hargymhellion 4 a 5 yn gofyn i'r Gweinidog sicrhau bod canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ynghylch technoleg feddygol yn cael eu rhannu'n briodol a'u hystyried wrth lunio gwasanaethau. Maent hefyd yn galw ar y Gweinidog i sicrhau bod y nifer sy'n manteisio ar dechnoleg feddygol a argymhellir yn cael ei fesur fel rhan o broses archwilio ffurfiol. Rwy'n croesawu'r sicrwydd a roddodd y Gweinidog y bydd yr opsiwn sy'n cael ei ddewis yn y pen draw ar gyfer gwerthuso technolegau yn darparu ar gyfer monitro'r nifer sy'n eu defnyddio. Byddwn yn ddiolchgar, fodd bynnag, pe gallai roi mwy o wybodaeth pam na ellir mabwysiadu proses archwilio ffurfiol. Byddwn hefyd yn annog grŵp cyswllt NICE, y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ato yn ei ymateb, i ystyried adroddiadau'r pwyllgor. O'u darllen gyda'i gilydd, maent yn awgrymu bod gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau NICE yng Nghymru.

Mae argymhellion 6, 7 ac 8 yn canolbwyntio ar drefniadau ar gyfer comisiynu technolegau newydd, gan alw am ddull mwy strategol sy'n gysylltiedig â phroses arfarnu a gwerthuso gadarn. Maent hefyd yn galw ar y Gweinidog i ystyried mabwysiadu dull cenedlaethol o gomisiynu mewn achosion lle y ceir llawer o effeithiau cyllidebol, lle y mae angen diwallu anghenion y boblogaeth ehangach, lle y mae angen comisiynu gwasanaethau ar draws ffiniau byrddau iechyd, a/neu lle y ceir potensial i gomisiynu triniaethau o rannau eraill o'r DU. Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor a'i sicrwydd y bydd opsiynau ar gyfer dull cenedlaethol o fabwysiadu a gwerthuso technoleg yn ystyried sut y bydd yn cysylltu â gwasanaethau comisiynu a chaffael. Mewn perthynas â chomisiynu drwy werthuso, mae'r Gweinidog wedi nodi y bydd yn archwilio sut a phryd y gellid cymhwyso hyn, ac mae'n bwysig fod y gwaith hwn yn sicrhau y caiff ei gymhwyso yng nghyd-destun Cymru a pheidio â'i seilio'n gyfan gwbl ar fodel Lloegr. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi mwy o wybodaeth am y camau a gymerir i sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o gomisiynu. A fydd yn ystyried proses ôl-weithredol o werthuso'r technolegau a fabwysiadir?

I am pleased that the Minister has accepted our recommendation 9, which calls for appropriate training on medical technologies for staff to ensure that the benefits are maximised. I agree that training for patients and carers is also important, as many technologies are designed for use outside the clinical setting—maybe in the patient's own home. I also welcome his acceptance of recommendation 10, which asks him to outline the steps he will take to facilitate clinical trials and needs-led research and development. Could the Minister provide some more detail about what steps he will take to ensure that this research and development work will dovetail with the option that is eventually selected for appraising and adopting medical technologies?

User acceptance is often crucial to the success of medical or assistive technology. In many cases, the user will be a patient or carer, rather than a clinician or practitioner. Our recommendation 11 acknowledges this, and emphasises the importance of involving patients and carers in any new approach to the appraisal, adoption and evaluation of medical technologies. I welcome the Minister's acceptance of this recommendation and urge him to ensure that the option chosen for appraising and adopting legislation gives adequate attention to this important perspective.

Finally, recommendations 12 and 13 relate to the financial barriers to the adoption of medical technologies. They call on the Minister to outline what steps he will take to ensure that NHS Wales's financial structures and processes enable the longer term planning and alignment between capital and revenue funding that's often needed for technologies—and revenue in particular because we highlighted the issues of training of staff, and that comes under the revenue aspect. I am pleased that the Minister has accepted this and would welcome more information about how Welsh Government will consider ways to strengthen alignment between capital and revenue funding.

We also ask the Minister to explore development of a funding model that is based on the patient pathway rather than the sector in which the care is delivered. I welcome the Minister's assurances that new funding models will be considered alongside the work to improve access to medical technologies in Wales and would welcome some more information about how this work will be undertaken, again, and by whom.

To conclude, as stated earlier, this lunch time, I hosted a discussion with those who contributed to our inquiry to ask about their views on our report and on the Government's response. We heard from a range of stakeholders—from commissioners of services, primary care practitioners, health economists, industry representatives and third sector organisations representing patients. Our work in this area was welcomed, but those present emphasised the importance of ensuring that consideration is given in any future model for appraising and evaluating medical technologies to balancing the views and preferences of patients and the public with the issues of cost effectiveness. It must be important that we balance the patient perspective with the appraisal process. Equity of access and prioritisation must also be considered in this approach. I recommend the report.

Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad 9, sy'n galw am hyfforddiant priodol i staff ar dechnoleg feddygol er mwyn sicrhau cymaint o fanteision â phosibl. Rwy'n cytuno bod hyfforddiant i gleifion a gofawlyr hefyd yn bwysig, gan fod llawer o dechnolegau wedi eu cynllunio i'w defnyddio y tu allan i'r lleoliad clinigol—yng nghartref y claf ei hun efallai. Rwyf hefyd yn falch ei fod yn derbyn argymhelliad 10, sy'n gofyn iddo amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i hwyluso treialon ac ymchwil a datblygu wedi'u harwain gan anghenion clinigol. A allai'r Gweinidog roi rhywfaint yn rhagor o fanylion ynglŷn â pha gamau y bydd yn eu cymryd i sicrhau y bydd y gwaith ymchwil a datblygu yn cydweddu â'r opsiwn a ddewisir yn y pen draw ar gyfer gwerthuso a mabwysiadu technolegau meddygol?

Mae derbyniad y defnyddiwr yn aml yn hanfodol i lwyddiant technoleg feddygol neu gynorthwyl. Mewn llawer o achosion, claf neu ofalwr fydd y defnyddiwr, yn hytrach na chlinigydd neu ymarferydd. Mae ein hargymhelliad 11 yn cydnabod hyn ac yn pwysleisio'r angen i gynnwys cleifion a gofawlyr mewn unrhyw ddull newydd o arfarnu, mabwysiadu a gwerthuso technoleg feddygol. Rwy'n falch fod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad ac yn ei annog i sicrhau bod yr opsiwn a ddewisir ar gyfer deddfwriaeth werthuso a mabwysiadu yn rhoi sylw digonol i'r persbectif pwysig hwn.

Yn olaf, mae argymhellion 12 a 13 yn ymwneud â'r rhwystrau ariannol i fabwysiadu technoleg feddygol. Maent yn galw ar y Gweinidog i amlinellu pa gamau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod strwythurau a phrosesau ariannol GIG Cymru yn ei gwneud hi'n bosibl i gynllunio'n fwy hirdymor a chysoni rhwng y cyllid cyfalaf a'r cyllid refeniw sydd ei angen yn aml ar gyfer technolegau—a refeniw yn arbennig gan ein bod wedi tynnu sylw at hyfforddi staff, a daw hynny o dan elfen refeniw. Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi derbyn hyn a byddwn yn croesawu rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o gryfhau'r aliniad rhwng cyllid cyfalaf a chyllid refeniw.

Gofynnwn hefyd i'r Gweinidog archwilio datblygiad model cyllido sy'n seiliedig ar lwybr y claf yn hytrach na'r sector sy'n darparu'r gofal. Rwy'n croesawu'r sicrwydd a roddodd y Gweinidog y bydd modelau cyllido newydd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r gwaith i wella mynediad at dechnoleg feddygol yng Nghymru ac unwaith eto, byddem yn croesawu mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud, a chan bwy.

I gloi, fel y nodwyd yn gynharach, amser cinio heddiw, cynhaliais drafodaeth â'r rhai a gyfrannodd at ein hymchwiliad i ofyn am eu barn ar ein hadroddiad ac ar ymateb y Llywodraeth. Clywsom gan ystod o randdeiliaid-o gomisiynwyr gwasanaethau, ymarferwyr gofal sylfaenol, economegwyr iechyd, cynrychiolwyr y diwydiant a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli cleifion. Croesawyd ein gwaith yn y maes hwn, ond pwysleisiodd y rhai a oedd yn bresennol yr angen i sicrhau bod unrhyw fodel yn y dyfodol ar gyfer arfarnu a gwerthuso technolegau meddygol yn ystyried cydbwysio safbwyntiau a dymuniadau cleifion a'r cyhoedd â chost-efeithiolrwydd. Rhaid iddi fod yn bwysig ein bod yn cydbwysio persbectif y claf â'r broses arfarnu. Rhaid ystyried cydraddoldeb mynediad a blaenoriaethu yn y dull hwn o weithredu hefyd. Rwy'n argymhell yr adroddiad.

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank the Chairman for his overall report on that and I'd like to perhaps drill down to some of the more fundamental issues during this inquiry.

I think it's fair to say that digital and technology now isn't an option; it's a necessity. We did hear that whilst healthcare professionals play a key role in technology adoption, there is a serious issue with the absence of a strategic and consistent approach to introducing new technologies. Cancer Research UK believes that all cancer patients should be able to access the best evidence-based treatments for their condition. An example is radiotherapy, which is highly cost-effective, and, every year, cures more patients than some cancer drugs.

The charity also said the proportion of patients receiving radiotherapy in Wales is well below the internationally accepted recommendation. Proton beam therapy: two-year-old Freya Bevan from Bridgend having to travel as far as the United States for this treatment. The use of molecular diagnostic technology is far behind that of the rest of the UK. In a time of austerity and rising demand for our health service, healthcare and diagnostics must be delivered in a prudent way. But that requires a strong approach to medical technologies. So, I was quite enlightened, really, by much of the evidence that was taken during this particular inquiry. Dr Molly Price-Jones of Tybio Ltd commented that despite Wales's strong medical technology sector

'there are significant barriers to getting a new technology adopted and enabling patients to get access to improved diagnostic techniques'.

In addition, we heard the approach taken to the commissioning of new medical technologies described as 'chaotic', and there were calls on the Minister to identify a way of delivering a more strategic, co-ordinated and streamlined approach to medical technology adaptation and commissioning.

The principles of prudent healthcare include the notion that the promotion of shared responsibility for health and wellbeing will reduce the pressures currently facing our health system. So, I welcome that the Minister has made it clear that the development and delivery of future strategies in this regard will involve the engagement of clinicians, service providers, primary and community care workers and the public and patients, and the point that my colleague David Rees made there—the chairman—about the use of technologies and digital appliances inside the home.

We know that medical technologies are changing rapidly, and it's hard to keep pace. But, we know too that there's a huge problem with recruitment in Wales, and Dr Martin Rolles, of the Royal College of Radiologists' standing committee, said,

Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd am ei adroddiad cyffredinol ar hynny a hoffwn efallai fynd i wraidd rhai o'r materion mwy sylfaenol yn ystod yr ymchwiliad hwn.

Rwy'n credu ei bod yn deg dweud nad yw digidol a thechnoleg bellach yn opsiwn; mae'n anghenraid. Er bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn chwarae rhan allweddol yn y broses o fabwysiadu technoleg, clywsom fod problemau difrifol yn deillio o ddiffyg dull strategol a chyson o gyflwyno technolegau newydd. Mae Cancer Research UK yn credu y dylai pob claf cancer allu cael mynediad at y triniaethau gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer eu cyflwr. Enghraifft o hyn yw radiotherapi, sy'n hynod o gost-effeithiol, ac yn flynyddol, mae'n gwella mwy o gleifion nag y mae rhai cyffuriau cancer yn ei wneud.

Dywedodd yr elusen hefyd fod cyfran y cleifion sy'n cael radiotherapi yng Nghymru yn llawer is na'r argymhelliad a dderbynnir yn rhyngwladol. Therapi pelydr proton: bu'n rhaid i Freya Bevan o Ben-y-bont ar Ogwr, sy'n ddwy oed, deithio mor bell â'r Unol Daleithiau i gael y driniaeth hon. Mae'r defnydd o dechnoleg ddiagnostig foleciwlaidd yn bell y tu ôl i weddill y DU. Mewn cyfnod o galedi a galw cynyddol am ein gwasanaeth iechyd, rhaid darparu gofal iechyd a diagnosteg mewn ffordd ddarbodus. Ond mae hynny'n galw am ymagwedd gadarn tuag at dechnoleg feddygol. Felly dysgais gryn dipyn, mewn gwirionedd, o'r dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad. Dywedodd Dr Molly Price-Jones o Tybio Cyf, er gwaethaf sector technoleg feddygol gref Cymru, fod

'rhwystrau sylweddol yn atal mabwysiadu technoleg newydd a galluogi cleifion i gael mynediad at well technegau diagnostig'.

Yn ogystal, clywsom fod y dull o gomisiynu technoleg feddygol newydd yn cael ei ddisgrifio fel 'caotig', ac roedd galwadau ar y Gweinidog i nodi dull mwy cydgyssylltiedig, strategol a symlach o addasu a chomisiynu technoleg feddygol.

Mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn cynnwys y syniad y bydd hybu rhannu cyfrifoldeb am iechyd a lles yn lleihau'r pwysau sy'n wynebu ein system iechyd ar hyn o bryd. Felly, rwy'n falch fod y Gweinidog wedi ei gwneud yn glir y bydd yn datblygu ac yn darparu strategaethau yn y dyfodol yn hyn o beth yn cynnwys ymgysylltiad clinigwyr, darparwyr gwasanaethau, gweithwyr gofal sylfaenol a chymunedol a'r cyhoedd a chleifion, a'r pwynt a wnaeth fy nghydweithiwr, David Rees—y cadeirydd—am y defnydd o dechnolegau ac offer digidol yn y cartref.

Gwyddom fod technoleg feddygol yn newid yn gyflym, ac mae'n anodd cadw'n gyfoes. Ond gwyddom hefyd fod yna broblem enfawr gyda recriwtio yng Nghymru, a dywedodd Dr Martin Rolles, pwyllgor sefydlog Coleg Brenhinol y Radiolegwyr,

'For consultant specialities, we are in competition nationally across the UK...One of the things that we can do is make sure that if people are going to come to Wales, they can practise their craft to the best of their ability.'

And that is in terms of using these new technologies. The Welsh Government cannot afford for Welsh NHS departments to be seen as technically backward. The Minister has accepted our recommendation on this, and issued assurances that the Welsh Government will support programmes that will align technology development, to identify needs and challenges.

Now, a number of witnesses emphasised the differences between the medicines and technologies, which make appraisal more complex and a robust assessment of their clinical and cost-effectiveness more difficult to achieve. And it came across loud and clear that, too often, the third sector are coming in to provide some of these technologies when the NHS is not doing it so well. We learned that NICE guidance is not consistently implemented in Wales.

The role of the Welsh Health Specialised Services Committee, WHSSC, was mentioned by a number of witnesses, describing them as specialising in relatively ad hoc services and that its work may involve some duplication of the work of the all-Wales medicines strategy group, and/or NICE, in terms of technology assessments. Of course, in this day and age of prudence and austerity, we simply cannot afford duplication.

The Royal College of Nurses Wales has described NHS medical technology as underfunded, with the associate director saying the provision of up-to-date medical technology should be a vital focus for health boards in Wales, in order to ensure that the best possible care can be provided to our patients in a timely and effective manner, using high-quality and innovative equipment.

I think there's much to be done, but I personally would like some assurances from the Minister that those recommendations that he's only agreed to in principle he will give serious consideration to, and the ones he has actually agreed to in full, he will actually implement, as soon as possible. Thank you.

'Ar gyfer arbenigeddau ymgynghorol, rydym mewn cystadleuaeth genedlaethol ar draws y DU.... Un o'r pethau y gallwn ei wneud yw sicrhau, os yw pobl yn mynd i ddod i Gymru, y gallant ymarfer eu crefft hyd eithaf eu gallu.'

A hynny o ran defnyddio'r technolegau newydd hyn. Ni all Llywodraeth Cymru fforddio gadael i adrannau GIG Cymru gael eu hystyried yn israddol yn dechnegol. Mae'r Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad ar hyn, ac wedi rhoi sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglenni i alinio datblygiad technoleg er mwyn nodi anghenion a heriau.

Nawr, pwysleisiodd nifer o dystion y gwahaniaethau rhwng y meddyginiaethau a thechnolegau, sy'n gwneud arfarnu'n fwy cymhleth ac asesiad cadarn o'u heffaith glinigol a'u cost-ffeithiolrwydd yn anos i'w gyflawni. A gwnaed y pwynt yn glir iawn fod y trydydd sector yn dod i mewn yn rhy aml i ddarparu rhai o'r technolegau hyn pan nad yw'r GIG yn ei wneud cystal. Fe ddysgon ni nad yw canllawiau NICE yn cael eu gweithredu'n gyson yng Nghymru.

Cafodd rôl Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ei chrybwyll gan nifer o dystion, a'i disgrifiodd fel pwyllgor sy'n arbenigo mewn gwasanaethau cymharol ad hoc ac y gallai ei waith olygu rhywfaint o ddyblygu gwaith grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru a/neu NICE, o ran asesiadau technoleg. Wrth gwrs, yn yr oes sydd ohoni o bwyll a chaledi, ni allwn fforddio dyblygu gwaith.

Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru wedi disgrifio technoleg feddygol y GIG fel rhywbeth nad oes digon o gyllid wedi'i neilltuo ar ei gyfer, gyda'r cyfarwyddwr cyswllt yn dweud y dylai darparu technoleg feddygol gyfoes fod yn ffocws allweddol ar gyfer byrddau iechyd Cymru, er mwyn sicrhau y gellir darparu'r gofal gorau posibl i'n cleifion mewn modd amserol ac effeithiol, gan ddefnyddio offer arloesol o ansawdd uchel.

Rwy'n credu bod llawer i'w wneud, ond yn bersonol byddwn yn hoffi rhyw sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r argymhellion nad yw ond wedi cytuno iddynt mewn egwyddor, ac y bydd yn mynd ati i weithredu'r rhai y mae wedi cytuno iddynt yn llawn cyn gynted ag y bo modd. Diolch yn fawr.

15:32

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This has been a rewarding inquiry to be involved with, and I'm grateful to have the opportunity to speak this afternoon.

Mae hwn wedi bod yn ymchwiliad gwerth chweil a diolch am y cyfle i siarad y prynhawn yma.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

So far, the national conversation we've had when it comes to innovation in health has been largely dominated by the cancer drugs issue, and the individual patient funding request process. Indeed, this is clearly a connected issue, which we touch upon in our report, and one I intend to return to later on. But, by broadening out that debate, and setting out a clear roadmap that would allow the Welsh NHS to improve the way in which it commissions and adopts health technologies, I think this committee report represents a really important contribution. Indeed, I'm pleased to see, Minister, that you've either accepted or accepted in principle all of our committee's recommendations.

Because if we actually get this right, if we develop that coherent and strategic national approach to the adoption and use of medical technologies, which is the key message underlying this report, it seems to me there is actually a huge opportunity to get ahead of the game. Indeed, the contribution technology can make to primary care in the future, and the push towards delivering more care in community settings was one of the striking aspects of this inquiry, particularly when we now have a thriving home-grown medical technology sector among the 300 life sciences companies and small and medium-sized enterprises Wales now boasts, thanks in no small part to continued Welsh Government investment in the sector, as well as more recent initiatives, like the Medical Technologies Launchpad Wales.

As I touched on earlier, it's the evidence we took on IPFR as a committee that really stood out to me, because it chimed so closely with my experience of supporting constituents through the process. Indeed, I've been dealing with an incredibly difficult case over the last few weeks, where the criticisms of IPFR around the exceptionality criteria, as well as the continued lack of consistency across Wales—highlighted on pages 44 and 45 of this report—could've been applied more or less verbatim, albeit that it was access to cancer drug funding as opposed to access to medical technology that was at stake.

Hyd yn hyn, mae'r sgwrs genedlaethol rydym wedi ei chael o ran arloesi ym maes iechyd wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar fater cyffuriau canser, a phroses y ceisiadau cyllido cleifion unigol. Yn wir, mae hwn yn amlwg yn fater cysylltiedig a chyfeiriodd ein hadroddiad at hynny, ac mae'n fater rwy'n bwriadu dychwelyd ato yn nes ymlaen. Ond drwy ehangu'r ddafl honno, a llunio map clir a fyddai'n caniatáu i'r GIG yng Nghymru wella'r ffordd y mae'n comisiynu ac yn mabwysiadu technolegau iechyd, rwy'n meddwl bod adroddiad y pwyllgor yn gyfraniad pwysig iawn. Yn wir, rwy'n falch o weld, Weinidog, eich bod wedi derbyn holl argymhellion ein pwyllgor yn llawn neu mewn egwyddor.

Oherwydd os cawn hyn yn iawn, os datblygw'n ddull cenedlaethol cydlynol a strategol o fabwysiadu a defnyddio technoleg feddygol, sef y neges allweddol sy'n sail i'r adroddiad hwn, mae'n ymddangos i mi fod yma gyfle enfawr mewn gwirionedd i fod yn flaengar. Yn wir, roedd cyfraniad technoleg i ofal sylfaenol yn y dyfodol, a'r ymgyrch tuag at gyflwyno mwy o ofal mewn lleoliadau cymunedol, yn un o agweddau trawiadol yr ymchwiliad hwn, yn enwedig gan fod gennym bellach sector technoleg feddygol ffyniannus ein hunain ymhlith y 300 o gwmnïau a busnesau gwyddorau bywyd bach a chanolig eu maint y gall Cymru ymffrostio yn eu cylch, diolch i raddau helaeth i fuddsoddiadau cyson Llywodraeth Cymru yn y sector, yn ogystal â mentrau mwy diweddar, megis Launchpad Technoleg Feddygol Cymru.

Fel y crybwyllais yn gynharach, y dystiolaeth a gawsom fel pwyllgor ar y Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol oedd yn sefyll allan i mi, gan ei fod yn cyd-fynd i'r fath raddau â'm phrofiad o gefnogi etholwyr drwy'r broses. Yn wir, bùm yn ymdrin ag achos anhygoel o anodd yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, lle y gellid bod wedi cymhwysu'r feirniadaeth o'r Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol o ran y meini prawf eithriadoldeb, yn ogystal â'r diffyg cysondeb parhaus ledled Cymru—sy'n cael sylw ar dudalennau 44 a 45 yr adroddiad—air am air fwy neu lai, er mai mynediad at gyllid cyffuriau canser yn hytrach na mynediad at dechnoleg feddygol a oedd yn y fantol.

In this latest case, my constituent was unable to access Axitinib as a treatment for renal cancer through the IPFR panel in Aneurin Bevan Local Health Board, despite this constituent's belief that he needed it. After registering last week with a GP in Cardiff, he has now been able to access the treatment through the Cardiff and Vale University Local Health Board, which I understand has a wholly different approach to approval of this particular drug, a drug that, incidentally, has been recommended for final approval by NICE today. While I'm obviously thrilled on one level that my constituent is getting the treatment he needs, this has been an incredibly painful process for someone battling cancer, and it's worrying that people without his tenacity won't be getting the same treatment in cases that are medically similar. It's difficult enough to justify to a patient why they can't access a drug or treatment that's available in another part of the UK, but it's an altogether different argument when, even within Wales, a country of just 3 million people, we see such blatant inconsistency. While I respect the fact that the Minister's just undertaken a comprehensive review into IPFR, where he decided to reject the calls I and others made for a national IPFR panel to be established, I really feel this is something that needs to be looked at again, particularly in the light of the evidence we received from the Welsh Health Specialised Services Committee, who said, and I quote, that IPFR is:

'the lowest grade and quality of appraisal process currently in Wales...and most Panels operate without robust methods of evidence appraisal.'

Similarly, when it comes to exceptionality, we heard from a member of the IPFR panel in Cardiff and the Vale, who said there was a very clear consensus that proving exceptionality as a basis for treatment approval was inherently problematic. I have to say that, in my constituency experience, it is almost impossible.

Minister, I hope you recognise that I've always been scrupulous in avoiding the kind of overly simplistic and politically motivated calls for a cancer drugs fund we've seen from the party opposite. I'm alive to the complexities of this debate. Indeed, I found the York University research into the impact of the quality-adjusted life year threshold on patients elsewhere in the NHS, published recently, compelling and thought-provoking. But I would urge you, on the back of this report, and on the back of the case that I've brought to your attention today, to look again at exceptionality, and crucially, that clear lack of consistency between health boards, so that we can build that better system of approving expensive drugs and, indeed, medical technology that I believe Wales badly needs.

Yn yr achos diweddaraf hwn, methodd fy etholwr yn ei gais am Axitinib fel triniaeth ar gyfer cancer yr arenau drwy banel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, er bod yr etholwr yn credu bod angen y driniaeth arno. Ar ôl cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf, mae bellach wedi gallu cael mynediad at y driniaeth drwy Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y deallaf fod ei agwedd tuag at gymeradwyo'r cyffwr penodol hwn yn gwbl wahanol, cyffwr sydd, gyda llaw, wedi cael ei argymhell i'w gymeradwyo'n derfynol gan NICE heddiw. Er fy mod yn amlwg wrth fy modd ar un lefel fod fy etholwr yn cael y driniaeth sydd ei hangen arno, mae hon wedi bod yn broses hynod o boenus i rywun sy'n brwydro yn erbyn cancer, ac mae'n destun pryder na fydd pobl heb ei ddycnwch ef yn cael yr un driniaeth mewn achosion sy'n debyg yn feddygol. Mae'n ddigon anodd cyfiawnhau i glaf pam na all gael cyffwr neu driniaeth sydd ar gael mewn rhan arall o'r DU, ond mae'n ddadl hollol wahanol pan welwn y fath anghysondeb amlwg yng Nghymru hyd yn oed, gwlad o 3 miliwn o bobl yn unig. Er fy mod yn parchu'r ffaith fod y Gweinidog newydd gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol, lle y penderfynodd wrthod galwadau gennyf fi ac eraill am sefydlu panel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol cenedlaethol, rwy'n teimlo'n gryf fod hyn yn fater y mae angen ei ailystyried, yn enwedig yng ngoleuni'r dystiolaeth a gawsom gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a ddywedodd fod y Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol:

'yn broses arfarnu ar y radd isaf ac o'r ansawdd gwaethaf yng Nghymru ar hyn o bryd... ac mae'r rhan fwyaf o baneli'n gweithredu heb ddulliau cadarn o arfarnu dystiolaeth.'

Yn yr un modd, pan ddaw'n fater o eithriadoldeb, clywsom gan aelod o'r panel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yng Nghaerdydd a'r Fro, a ddywedodd fod consensws clir iawn fod profi eithriadoldeb fel sail dros gymeradwyo triniaeth yn gynhenid broblematic. Mae'n rhaid i mi ddweud, yn fy mhrofiad i yn yr etholaeth, mae bron yn amhosibl.

Weinidog, rwy'n gobeithio y byddwch yn cydnabod fy mod i bob amser wedi bod yn drwyadl o ran osgoi'r math o alwadau gorsymyl a llawn cymhelliant gwleidyddol am gronfa cyffuriau cancer a welsom gan y blaid gyferbyn. Rwy'n ymwybodol o gymhlethdodau'r ddadl hon. Yn wir, teimlwn fod gwaith ymchwil Prifysgol Efrog i effaith y trothwy blwyddyn oes wedi'i addasu yn ôl ansawdd ar gleifion mewn mannau eraill yn y GIG, a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn rymus ac yn ysgogi'r meddwl. Ond byddwn yn eich annog, ar sail yr adroddiad hwn, ac ar sail yr achos y soniais amdano heddiw, i edrych eto ar eithriadoldeb, ac yn hollbwysig, ar y diffyg cysondeb amlwg rhwng byrddau iechyd, fel y gallwn ddatblygu system well o gymeradwyo cyffuriau drud ac yn wir, y dechnoleg feddygol y credaf fod ei gwir angen ar Gymru.

May I place on record, too, my thanks and appreciation to all those witnesses who gave evidence to the committee? The committee has made a number of recommendations regarding medical technologies, and some of these do need highlighting. For example, how does the Welsh Government decide which new technologies to fund and which to stop funding? Is it purely a result of guidance from NICE? If so, why are there medical technologies available in England, but not in Wales? This question does need to be asked. Are we confident that NHS staff are able to access appropriate training in the new technologies? We believe that the Welsh Government needs to do more to ensure that the latest medical technologies are available in Wales, provided, of course, that there is compelling evidence that, in the long run, such technologies will prove cost-effective.

The Royal College of Physicians has made it clear that the current approach to commissioning medical technologies is ad hoc and unsatisfactory. What is needed is a much more co-ordinated approach, so that all-Wales access is ensured for patients. Now, we know that our hospitals, certainly those outside Cardiff, have lacked investment to adopt expensive new technologies such as robotics and radiotherapy, which have tended to appear first in teaching hospitals in England. New technologies do eventually find their way into Wales, but progress is slower. As a result, too many patients in Wales have to travel to England to access the new technologies, which costs the NHS in Wales money that it could have invested in new and often life-saving techniques and equipment.

Another area of concern here in Wales is our lack of investment in telemedicine, where people can receive advice and treatment without them having to travel to and from the GP or the hospital. It means that it can be done locally and results discussed with consultants via video links. We can compare our progress in the use of telemedicine perhaps with that of Scotland, and I'd like to single out just two examples. One is in NHS Lothian, where, through the use of those apps, people with diabetes or hypertension can be monitored in their own homes, with the results fed to health professionals, who can then intervene early, if needed, to prevent admission to hospitals. The second is an initiative using telemedicine to check whether stroke victims need thrombolysis.

In short, Llywydd, we believe the Welsh Government needs to do more to ensure that the latest medical technologies are available in Wales. It is good—it is good that the health technologies fund has the potential to upgrade the technology used in some of our hospitals, and using the latest technologies and treatments will help to attract more clinicians to the NHS in Wales. As the committee has stated, we need to put in place a more strategic approach to medical technology development, and I would add, one that considers funding as a long-term, cost-effective investment that has as its firm objective to improve the health of all of the people of Wales. Thank you.

A gaf fi hefyd gofnodi fy niolch a fy ngwerthfawrogiad i'r holl dystion a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor? Mae'r pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion o ran technoleg feddygol, ac mae angen tynnu sylw at rai o'r rhain. Er enghraifft, sut y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu pa dechnolegau newydd i'w hariannu a pha rai i roi'r gorau i'w hariannu? Ai canlyniad arweiniad NICE yn unig yw hyn? Os felly, pam y mae technolegau meddygol ar gael yn Lloegr, ond nid yng Nghymru? Mae angen gofyn y cwestiwn hwn. A ydym yn hyderus fod staff y GIG yn gallu cael hyfforddiant priodol yn y technolegau newydd? Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod y dechnoleg feddygol ddiweddaraf ar gael yng Nghymru, ar yr amod, wrth gwrs, fod tystiolaeth gadarn y bydd technolegau o'r fath yn gost-effeithiol yn y tymor hir.

Mae Coleg Brenhinol y Ffisigwyr wedi ei gwneud yn glir bod y dull presennol o gomisiynu technoleg feddygol yn broses ad hoc ac anfodddhaol. Yr hyn sydd ei angen yw ymagwedd lawer mwy cydlynol, er mwyn sicrhau mynediad i gleifion ledled Cymru. Nawr, gwyddom fod ein hysbytai, yn sicr y rhai y tu allan i Gaerdydd, wedi bod yn brin o arian i allu mabwysiadu technolegau newydd drud megis roboteg a radiotherapi, sydd wedi tueddu i ymddangos gyntaf mewn ysbytai addysgu yn Lloegr. Mae technolegau newydd yn dod o hyd i'w ffordd i mewn i Gymru yn y pen draw, ond mae cynnydd yn arafach. O ganlyniad, rhaid i ormod o gleifion yng Nghymru deithio i Loegr i gael mynediad at y technolegau newydd, sy'n costio arian i'r GIG yng Nghymru y gallai fod wedi ei fuddsoddi mewn technegau ac offer newydd sy'n achub bywydau yn aml.

Testun pryder arall yma yng Nghymru yw ein diffyg buddsoddiad mewn telefeddygaeth, lle y gall pobl gael cyngor a thriniaeth heb iddynt orfod teithio i ac o'r feddygfa neu'r ysbyty. Mae'n golygu y gellir ei wneud yn lleol a thrafod canlyniadau gyda meddygon ymgynghorol drwy gysylltiadau fideo. Efallai y gallwn gymharu ein cynnydd ar ddefnyddio telefeddygaeth â'r cynnydd a wneir yn yr Alban, a hoffwn dynnu sylw at ddwy enghraifft yn unig. Mae un yn NHS Lothian, lle y gellir monitro pobl â diabetes neu bwysedd gwaed uchel yn eu cartrefi eu hunain drwy ddefnyddio apps, gyda'r canlyniadau'n cael eu bwydo i weithwyr iechyd proffesiynol, a all ymyrryd yn gynnar wedyn, os oes angen, i atal derbyniadau i ysbytai. Mae'r ail yn fenter sy'n defnyddio telefeddygaeth i wirio a oes angen thrombolysis ar bobl sydd wedi cael strôc.

Yn fyr, Lywydd, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod y dechnoleg feddygol ddiweddaraf ar gael yng Nghymru. Mae'n dda-mae'n dda bod potensial i'r gronfa technoleg iechyd uwchraddio'r dechnoleg a ddefnyddir yn rhai o'n hysbytai, a bydd defnyddio'r technolegau a'r triniaethau diweddaraf yn helpu i ddenu mwy o glinigwyr i'r GIG yng Nghymru. Fel y mae'r pwyllgor wedi nodi, mae angen i ni fabwysiadu ymagwedd fwy strategol at ddatblygu technoleg feddygol, ac un sy'n ystyried cyllid fel buddsoddiad cost-effeithiol hirdymor gyda'r nod cadarn o wella iechyd holl bobl Cymru. Diolch yn fawr.

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The health technologies fund was a Welsh Liberal Democrat proposal put forward during the budget negotiations in 2012, and we're pleased to see the Government recognise the merit in the idea and take it forward. We did have concerns initially regarding the use to which this fund was put, as it appears to be used for replacing old equipment rather than providing the innovative treatment that we had envisaged. We welcome the developments since, which have seen hospitals across Wales receive funding for technological advances, which will benefit a substantial number of patients.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:41.*

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The report by the Health and Social Care Committee outlines a number of our own concerns, not least of which is the need for greater co-ordination and the introduction of a more streamlined process for the approval of applications. This is a view backed by BMA Cymru in evidence to the committee, in which they stated,

'Wales appears to have a poor record in the introduction of new technologies and devices, partly, in our view, because our organisation for the introduction of new technologies is both fragmented and uncoordinated.'

They go on to talk about health boards in effect competing against themselves for funding for projects with no apparent overall vision. The Royal College of Physicians likewise called for a more strategic approach, taking into consideration cost and clinical effectiveness, and with guidance from the Minister. It is somewhat disappointing then that nine of the 13 recommendations from the committee were accepted in principle only. Whilst I'm pleased that the Minister has seen merit in these recommendations, they are key to delivering on the main points to come out of the inquiry and what is being advocated by many of those clinical experts to which we should be paying regard. I would hope, therefore, that the in-principle acceptance would just be a starting point, and the Minister will, indeed, look to act upon the recommendations, which called for a Wales-wide strategy.

Such a strategy should be based on clinical evidence and patient need, with clear guidelines and a transparent process, and without an overly bureaucratic process that hampers innovation. The developments in medical technology in recent years have been phenomenal, and if patients in Wales are not to be disadvantaged, then there must be a Wales-wide system that embraces new, workable, effective ideas.

Argymhelliad a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb yn 2012 oedd y gronfa technoleg iechyd, ac rydym yn falch o weld y Llywodraeth yn cydnabod rhinwedd y syniad ac yn ei ddatblygu. Roedd gennym bryderon i ddechrau ynghylch y defnydd a wnaed o'r gronfa hon, gan ei bod i'w gweld yn cael ei defnyddio ar gyfer adnewyddu hen offer yn hytrach na darparu'r driniaeth arloesol a ragwelwyd gennym. Rydym yn croesawu'r datblygiadau ers hynny, sydd wedi golygu bod ysbytai ledled Cymru yn cael arian ar gyfer datblygiadau technolegol a fydd o fudd i nifer sylweddol o gleifion.

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:41.*

Roedd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn amlinellu nifer o'n pryderon ein hunain, ac nid y lleiaf o'r rhain yw'r angen am fwy o gydgyssylltiad a chyflwyno proses symlach ar gyfer cymeradwyo ceisiadau. Dyma farn a gefnogir gan BMA Cymru mewn tystiolaeth i'r pwyllgor. Maent yn datgan fel hyn,

'Ymddengys bod gan Gymru enw gwael o ran cyflwyno technoleg a dyfeisiau newydd, yn rhannol, yn ein barn ni, oherwydd bod ein trefniant ar gyfer cyflwyno technoleg newydd yn dameidiog ac yn ddi-drefn.'

Maent yn mynd ymlaen i sôn am fyrddau iechyd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i bob pwrpas am gyllid ar gyfer prosiectau heb unrhyw weledigaeth gyffredinol amlwg. Galwodd Coleg Brenhinol y Ffisigwyr yn yr un modd am ddull mwy strategol o weithredu, gan ystyried cost-effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd clinigol, a gydag arweiniad gan y Gweinidog. Mae'n siomedig braidd felly mai mewn egwyddor yn unig y derbyniwyd naw o'r 13 argymhelliad gan y pwyllgor. Er fy mod yn falch fod y Gweinidog wedi gweld rhinwedd yn yr argymhellion hyn, maent yn allweddol ar gyfer cyflawni'r prif bwytiaua ddeilliodd o'r ymchwiliad a'r hyn sy'n cael ei hyrwyddo gan lawer o arbenigwyr clinigol y dylem fod yn talu sylw iddynt. Byddwn yn gobeithio, felly, y byddai derbyn mewn egwyddor yn fan cychwyn yn unig, ac y bydd y Gweinidog, yn wir, yn mynd ati i weithredu'r argymhellion, a oedd yn galw am strategaeth ar gyfer Cymru gyfan.

Dylai strategaeth o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth glinigol ac angen cleifion, gyda chanllawiau clir a phroses dryloyw, a heb broses rhy fwiwocrataidd sy'n llesteirio arloesedd. Mae'r datblygiadau mewn technoleg feddygol yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anhygoel, ac os nad yw cleifion yng Nghymru yn mynd i fod o dan anfantais, yna rhaid cael system ar gyfer Cymru gyfan sy'n croesawu syniadau newydd ymarferol ac effeithiol.

The report covers the issue of technology at a community and primary healthcare level and, again, the recommendations that more emphasis could be placed on this is unacceptable in principle. Primary and community services have a vital role to play in healthcare, as has been stated by the Minister on numerous occasions and is accepted by all. They need to play a more prominent role as we attempt to address some of the problems in our NHS, and so I welcome the recommendation that the technologies fund should be used more widely to help progress in that sector.

The Welsh Liberal Democrats would like to see the remit of the fund extended to incorporate new medicines, so that Welsh patients can access the latest medicines that are more routinely available over the border. Again, this would need to be looked at as part of a wider, strategic approach to ensure that patients are not caught up in another postcode lottery. The Minister will hopefully be taking many more of these recommendations forward and putting them into action and I certainly endorse the report, which seems to me to be a sensible way forward, and hope that the Government is able to adopt it in full.

15:43

### **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#)

I think this is a very useful report for ensuring that the Welsh Government takes the lead on identifying which are the top health technologies that health boards need to be taking forward, based on clinical evidence. So, the report's very useful in devising a methodology for doing that, but I just want to raise my concerns around insulin pumps for people with type 1 diabetes. In the absence of a really clear strategic direction from the Welsh Government, we have a real piecemeal approach to this in Wales, which means that we have a much lower level of uptake for insulin pump technologies than other countries like the United States, Germany or Norway, which have a significantly higher uptake than we do in this country. This is fully in line with prudent healthcare because, where people with type 1 diabetes are struggling to maintain their insulin levels and are suffering from hypoglycaemia, with the appropriate structured education, people who use insulin pump technologies have found that it really does transform their lives and enables the diabetes to be merely one element in their life, not the dominant element. For example, one person who was put on a pump said, 'Since using a pump, my control has improved, complications are significantly reduced and I've been able to live a near normal life. Some of this is down to the education that comes prior to receiving a pump, but wearing it has enabled me to take control rather than the condition controlling me.'

Mae'r adroddiad yn ymdrin â thechnoleg ar lefel gofal iechyd cymunedol a sylfaenol ac unwaith eto, mae'r argymhellion y gellid rhoi mwy o bwyslais ar hyn yn annerbyniol mewn egwyddor. Mae gan wasanaethau sylfaenol a chymunedol ran hanfodol i'w chwarae ym maes gofal iechyd, fel y nodwyd gan y Gweinidog ar sawl achlysur ac fel sy'n cael ei dderbyn gan bawb. Mae angen iddynt chwarae rhan amlycach wrth i ni geisio mynd i'r afael â rhai o'r problemau yn ein GIG, ac felly croesawaf yr argymhelliad y dylai'r gronfa dechnoleg gael ei defnyddio'n ehangach i hybu cynnydd yn y sector hwnnw.

Byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hoffi gweld cylch gorchwyl y gronfa yn cael ei ymestyn i gynnwys meddyginiaethau newydd, fel y gall cleifion o Gymru gael mynediad at y meddyginiaethau diweddaraf sydd ar gael yn fwy arferol dros y ffin. Unwaith eto, byddai angen ystyried hyn yn rhan o ddull strategol ehangach i sicrhau nad yw cleifion yn cael eu dal gan loteri cod post arall. Bydd y Gweinidog, gobeithio, yn symud llawer mwy o'r argymhellion hyn yn eu blaenau ac yn eu rhoi ar waith ac rwy'n sicr yn cymeradwyo'r adroddiad, sydd i'w weld yn cynnig ffordd synhwylol ymlaen, ac rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gallu ei fabwysiadu'n llawn.

Rwy'n credu bod hwn yn adroddiad defnyddiol iawn ar gyfer sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o nodi'r prif dechnolegau iechyd sydd angen i fyrdau iechyd eu datblygu, yn seiliedig ar dystiolaeth glinigol. Felly, mae'r adroddiad yn ddefnyddiol iawn o ran dyfeisio methodoleg ar gyfer gwneud hynny, ond rwyf eisiau mynegi pryder ynghylch pypiau inswlin i bobl sydd â diabetes math 1. Yn niffyg cyfeiriad strategol clir gan Lywodraeth Cymru, mae'r dull sydd gennym o fynd i'r afael â hyn yng Nghymru yn wirioneddol dameidiog, sy'n golygu bod llawer llai o bobl yn defnyddio technoleg pwmp inswlin na gwledydd eraill fel yr Unol Daleithiau, yr Almaen, neu Norwy, sydd â lefelau cryn dipyn yn uwch o ddefnydd na'r wlad hon. Mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr ag amcanion gofal iechyd darbodus oherwydd, os yw pobl sydd â diabetes math 1 yn cael trafferth i gynnal eu lefelau inswlin ac yn dioddef o hypoglycaemia, gyda'r addysg strwythuredig briodol, mae pobl sy'n defnyddio technoleg pwmp inswlin wedi gweld ei fod yn trawsnewid eu bywydau mewn gwirionedd ac yn galluogi'r diabetes i fod yn un elfen yn eu bywydau yn unig, yn hytrach na'r elfen amlycaf. Er enghraifft, dywedodd un person a gafodd bwmp at ei ddefnydd, "Ers defnyddio pwmp, mae fy rheolaeth wedi gwella, mae cymhlethdodau wedi cael eu lleihau'n sylweddol ac rwyf wedi gallu byw bywyd bron yn normal. Mae rhywfaint o hyn i'w briodoli i'r addysg sy'n dod cyn cael pwmp, ond mae ei wisgo wedi fy ngalluogi i gymryd rheolaeth yn hytrach na bod y cyflwr yn fy rheoli i."

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The important point that's raised there by this individual is that, of course, it isn't possible to successfully introduce insulin pump therapy unless individuals have had structured education so that they understand how the pump works and what they have to do to make it work. One of the problems we've had in many parts of Wales is that people are waiting for pumps but haven't been able to get them because they haven't been able to access the structured education. This is precisely what happened in Northern Ireland, where a lot of money was invested in insulin pumps, but they failed to pay attention to the cost of staff training or other aspects of pump consumables. So there are hundreds of pumps lying around in Northern Ireland, unused on hospital shelves, because of insufficiently trained staff to train potential pump users. Now, clearly, we don't want that to happen in Wales, but at the moment, what people with diabetes are reporting to the cross-party group is that the people who can provide structured education programmes are simply not there in sufficient numbers in order to enable people with type-1 diabetes to get this highly effective technology, which is the subject of a NICE technology appraisal, which pretty much means that it should be mandatory on health boards to do that.

I hope that this report will make a serious contribution to ensuring that the Government takes forward those technologies where it's proven that they work and where they actually reduce costs in the long term.

Y pwynt pwysig y tynnir sylw ato yma gan yr unigolyn hwn, wrth gwrs, yw nad yw'n bosibl cyflwyno therapi pwmp inswlin yn llwyddiannus oni bai bod unigolion wedi cael addysg strwythuredig er mwyn iddynt ddeall sut y mae'r pwmp yn gweithio a'r hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud i'w gael i weithio. Un o'r problemau rydym wedi'u cael mewn sawl rhan o Gymru yw bod pobl yn aros am bympiau, ond nid ydynt wedi gallu eu cael am nad ydynt wedi gallu cael yr addysg strwythuredig. Dyma'n union a ddigwyddodd yng Ngogledd Iwerddon, lle y buddsoddiwyd llawer o arian mewn pypmiau inswlin, ond ni ystyriwyd y gost o hyfforddi staff neu agweddau eraill ar y pypmiau. Felly, mae cannoedd o bympiau'n gorwedd yn segur heb eu defnyddio ar silffoedd ysbytai yng Ngogledd Iwerddon am nad yw'r staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i hyfforddi defnyddwyr posibl y pypmiau. Nawr, mae'n amlwg nad ydym am i hynny ddigwydd yng Nghymru, ond ar hyn o bryd, yr hyn y mae pobl â diabetes yn ei ddweud wrth y grŵp trawsbleidiol yn syml yw nad oes digon o bobl yn gallu darparu rhaglenni addysg strwythuredig er mwyn galluogi pobl â diabetes math 1 i gael y dechnoleg hynod effeithiol hon, sy'n destun arfarniad technoleg NICE, gan olygu i bob pwrpas y dylai fod yn orfodol i fyrdau iechyd wneud hynny.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn gwneud cyfraniad difrifol tuag at sicrhau bod y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r technolegau hynny lle y profwyd eu bod yn gweithio a lle y maent yn lleihau costau yn y tymor hir.

15:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:47 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Yn gyntaf, a gaf i ddiolch i'r pwyllgor am ei waith gwerthfawr yn y maes hwn ac am ei adroddiad cytbwys a defnyddiol? Fel mae Aelodau eraill wedi dweud yn barod, rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'r rheini a wnaeth gynnis tystiolaeth i'r ymchwiliad. Mae eu harbenigedd a'u hawdurdod yn dangos mor gymhleth yw'r pwnc hwn ac yn cadarnhau bod technoleg feddygol yn rhan bwysig o'r darlun.

Thank you, Deputy Presiding Officer. First, may I thank the committee for its valuable work in this area and for its balanced and useful report? As other Members have already said, I am also very grateful to those who gave evidence to the inquiry. Their expertise and authority demonstrates the complexity of this issue and confirms that medical technology is an important part of the picture.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd, as others have said, and as the National Institute for Health and Care Excellence, on whose advice we rely for part of the way that these matters are addressed in Wales, has said, the benefits of new technologies are more difficult and complex to appraise than pharmaceuticals—a point that Janet Finch-Saunders emphasised. Technology adoption decisions differ depending upon context, and those contextual issues include the fact that evidence of clinical effectiveness is often limited at the point where a new technology becomes available.

Ddirprwy Lywydd, fel y mae eraill wedi dweud, ac fel y dywedodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal, y dibynnwn ar ei gynngor am ran o'r ffordd yr eir i'r afael â'r materion hyn yng Nghymru, mae manteision technoleg newydd yn fwy anodd a chymhleth i'w gwerthuso na chynhyrchion fferyllol-pwynt a bwysleisiwyd gan Janet Finch-Saunders. Mae penderfyniadau ynghylch mabwysiadu technoleg yn amrywio, yn dibynnu ar y cyd-destun, ac mae'r materion cyd-destunol hynny'n cynnwys y ffaith fod tystiolaeth o effeithiolrwydd clinigol yn aml yn gyfyngedig ar y pwynt y daw technoleg newydd ar gael.

The fact that diagnostic technologies—no matter how good they may be—depend on what happens after diagnosis to drive out clinical benefits, and, echoing the point that Jenny Rathbone just made, the fact that the skills and abilities of users are a crucial variable in determining the realisation of better clinical outcomes from new medical technologies and in making investment decisions, mean that you cannot simply focus upon the technology alone. You absolutely have to find a way of marrying the technology with the way that it will be used in the lives of the individuals for whom it can provide a benefit.

The committee's report recognises these factors in a number of its recommendations. Recommendation 9 refers to training needs, recommendation 10 highlights the role of clinical trials and recommendation 11 draws on the importance of a user and carer voice in the development, appraisal and evaluation of new assistive technologies. The Government accepted all of these recommendations. All are useful reminders of the complexity that surrounds decision making in this area.

That's not to say, Dirprwy Lywydd, that we are without advice. We have a new NICE liaison group, established here in Wales in May 2014, to promote the provision and dissemination of advice on the implementation of NICE medical technology guidance. In response to a point made by the Chair of the committee, I will ask that group for advice on formal audit mechanism, although there are very many varied technologies, with many different clinical indicators, which can make auditing particularly challenging in this area.

The Welsh Health Specialised Services Committee carries out its own evaluation of new and existing medical technologies. They looked at 85 different interventions in 2013-14 and have 40 further assessments that have been undertaken this year, and they're carried out by five dedicated clinical groups. It is very important, as Janet Finch-Saunders said, that the work of WHSSC is aligned with all the other activity that is going on, rather than duplicative of it. This work is supplemented by the work of Welsh health advisory structures here in Wales, with professional advisory committees. We are also able to draw on the UK health technology assessment programme, which includes rapid single technology appraisals and larger multiple technology reviews, which focus on clinical outcomes in specific healthcare areas.

Lynne Neagle demonstrated, in what she said, that there is expertise here in Wales that we are able to draw on directly. The Cedar group in Cardiff—I think the committee heard directly from them—carries out 20% of all the NICE evaluations that are carried out across the United Kingdom in this area, here in Cardiff. We have a surgical materials testing laboratory in Bridgend. It conducts commercial testing of medical devices. It generates nearly 40% of all its revenue for work carried out on behalf of commercial organisations directly in the medical technologies field.

Mae'r ffaith fod technoleg ddiagnostig—waeth pa mor dda y gallai fod—yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd ar ôl diagnosis i ysgogi manteision clinigol, a chan adleisio'r pwynt a wnaeth Jenny Rathbone yn awr, y ffaith fod sgiliau a gallu defnyddwyr yn newidyn allweddol o ran sicrhau gwell canlyniadau clinigol o dechnoleg feddygol newydd ac o ran gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi, yn golygu na allwch ganolbwyntio'n unig ar y dechnoleg ar ei phen ei hun. Rhaid i chi ddod o hyd i ffordd o baru'r dechnoleg â'r ffordd y caiff ei defnyddio ym mywydau'r unigolion y gall fod o fudd iddynt.

Mae adroddiad y pwyllgor yn cydnabod y ffactorau hyn mewn nifer o'i argymhellion. Mae argymhelliad 9 yn cyfeirio at anghenion hyfforddi, mae argymhelliad 10 yn tynnu sylw at rôl treialon clinigol ac argymhelliad 11 yn pwysu ar bwysigrwydd llais defnyddwyr a gofawyr wrth ddatblygu, arfarnu a gwerthuso technolegau cynorthwyol newydd. Derbyniodd y Llywodraeth bob un o'r argymhellion hyn. Maent i gyd yn ddefnyddiol i atgoffa pa mor gymhleth yw'r broses o wneud penderfyniadau yn y maes hwn.

Nid yw hyn yn dweud, Ddirprwy Lywydd, ein bod heb gyngor. Mae gennym grŵp cyswllt newydd NICE a sefydlwyd yma yng Nghymru ym mis Mai 2014 i hyrwyddo'r broses o ddarparu a lledaenu cyngor ar weithredu canllawiau technoleg feddygol NICE. Mewn ymateb i bwynt a wnaed gan Gadeirydd y pwyllgor, byddaf yn gofyn i'r grŵp hwnnw am gyngor ar system archwilio ffurfiol, er bod yna lawer iawn o dechnolegau amrywiol, gyda nifer o ddangosyddion clinigol gwahanol, sy'n gallu gwneud y broses o archwilio yn arbennig o heriol yn y maes hwn.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cynnal ei werthusiad ei hun o dechnolegau meddygol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Fe edrychwn nhw ar 85 o ymyriadau gwahanol yn 2013-14 ac mae ganddynt 40 o asesiadau pellach a wnaed eleni, ac fe'u cyflawnir gan bum grŵp clinigol penodol. Mae'n bwysig iawn, fel y dywedodd Janet Finch-Saunders, bod gwaith WHSSC yn cyd-fynd â'r holl weithgaredd arall sy'n digwydd, yn hytrach na'i ddyblygu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ategu gan waith strwythurau cyngor iechyd yma yng Nghymru, gyda phwyllgorau cynghori proffesiynol. Rydym hefyd yn gallu pwysu ar raglen asesu technoleg iechyd y DU, sy'n cynnwys arfarniadau cyflym o dechnoleg unigol ac adolygiadau mwy o faint o dechnolegau lluosog, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau clinigol mewn meysydd gofal iechyd penodol.

Dangosodd Lynne Neagle, yn yr hyn a ddywedodd, fod arbenigedd yma yng Nghymru y gallwn bwyso arno'n uniongyrchol. Mae grŵp Cedar yng Nghaerdydd—rwy'n meddwl bod y pwyllgor wedi clywed ganddynt yn uniongyrchol—yn cynnal 20% o'r holl werthusiadau NICE a gyflawnir ar draws y Deyrnas Unedig yn y maes hwn yma yng Nghaerdydd. Mae gennym labordy profi deunyddiau llawfeddygol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'n cynnal profion masnachol ar ddyfeisiau meddygol. Mae'n creu bron i 40% o'i holl refeniw ar waith a wneir ar ran sefydliadau masnachol yn uniongyrchol ym maes technoleg feddygol.

The report of the committee specifically highlights the importance of engagement in the commissioning through evaluation approach, which is developed in England. It's aimed at increasing access to services or treatments not routinely funded by the NHS. We in Wales are directly involved in two such programmes—selective internal radiotherapy and selective dorsal rhizotomy.

We will learn also from the innovative medicines and meditech review, announced by the UK Government in November. The focus of the review is on innovative projects, including drugs based on stratified medicine, diagnostics and digital health technologies. It's due to report this summer, and there will be lessons that we will be able to draw from it here in Wales.

Dirprwy Lywydd, against this complex background, it's not surprising that many of the report's recommendations focus on the strategic co-ordination of existing effort and the creation of a more systematic approach to medical technology adoption and, as Lindsay Whittle said, discard in the Welsh NHS. Part of this rests, as recommendations 4 and 5 of the report suggest, on ensuring that decision making at health board level is fully informed by the available evidence—a principle that the Welsh Government clearly endorses.

There is, too, an important case for a more national approach to the commissioning of some new medical technologies. The report sets out this principle at recommendation 6 and helpfully elaborates a set of criteria—the Chair mentioned a number of them—against which the national approach could be distinguished from local decision making.

In my written response, I confirmed that the development of options for a national approach to technology appraisal and adoption will focus on creating a clearer and more consistently applied approach to the adoption and the co-ordinated decommissioning and discard of technology here in Wales.

Perhaps the most important proposals of the report are, as David Rees said, set out in recommendations 1, 2 and 3, where the committee focuses on the creation of a more strategic, co-ordinated and streamlined approach to the adoption of medical technology. The report calls for the development of an all-Wales medical technologies appraisal mechanism, and I'm pleased to report that the work is already under way to scope potential models. That work will be carried out by my officials with stakeholders. It will be completed by the summer. There are four different options that that work has identified. It will be implemented by the end of this calendar year and, as the Chair of the committee said, post-implementation evaluation will be part of the remit of whichever option we determine. A budget has been identified to take this work forward. The recently announced £70 million of additional investment in the Welsh NHS included an efficiency-through-technology funding stream. This will provide the resources needed to deliver a national approach to technology appraisal.

Mae adroddiad y pwyllgor yn tynnu sylw penodol at bwysigrwydd ymgysylltu yn y dull o gomisiynu drwy werthuso, sy'n cael ei ddatblygu yn Lloegr. Mae wedi ei anelu at gynyddu mynediad at wasanaethau neu driniaethau nad ariennir fel mater o drefn gan y GIG. Rydym ni yng Nghymru yn ymwneud yn uniongyrchol â dwy raglen o'r fath—radiotherapi dethol mewmol a rhisotomi dethol y cefn.

Byddwn yn dysgu hefyd o'r adolygiad o feddyginiaethau a thechnoleg feddygol arloesol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Tachwedd. Mae ffocws yr adolygiad ar brosiectau arloesol, gan gynnwys cyffuriau yn seiliedig ar feddygaeth haenedig, diagnosteg a thechnolegau iechyd digidol. Mae i fod i adrodd yr haf hwn, a bydd yna wersi y gallwn eu dysgu ohono yma yng Nghymru.

Ddirprwy Lywydd, yn erbyn y cefndir cymhleth hwn, nid yw'n syndod fod llawer o argymhellion yr adroddiad yn canolbwyntio ar gydlyn ymdrechion presennol yn strategol a chreu dull mwy systematig o fabwysiadu technoleg feddygol ac fel y dywedodd Lindsay Whittle, o ddod â thechnoleg feddygol i ben yn GIG Cymru. Mae rhan o hyn yn dibynnu, fel y mae argymhellion 4 a 5 yr adroddiad yn awgrymu, ar sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ar lefel y bwrdd iechyd yn gwbl seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael—egwyddor y mae Llywodraeth Cymru yn ei chymeradwyo'n glir.

Mae yna achos pwysig hefyd dros ymagwedd fwy cenedlaethol i gomisiynu rhai technolegau meddygol newydd. Mae'r adroddiad yn nodi'r egwyddor hon yn argymhelliad 6 ac yn ymhelaethu'n effeithiol ar set o feini prawf—crybwyllodd y Cadeirydd nifer ohonynt—er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng y dull cenedlaethol o weithredu a'r broses o wneud penderfyniadau lleol.

Yn fy ymateb ysgrifenedig, cadarnheais y bydd y gwaith o ddatblygu opsiynau ar gyfer dull cenedlaethol o arfarnu a mabwysiadu technoleg yn canolbwyntio ar greu dull cliriach a mwy cyson o fabwysiadu, datgomisiynu a dod â thechnoleg i ben yn gydgysylltiedig yma yng Nghymru.

Efallai mai argymhellion pwysicaf yr adroddiad, fel y dywedodd David Rees, yw'r rhai a nodir yn argymhellion 1, 2 a 3, lle y mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar y gwaith o greu dull mwy strategol, cydgysylltiedig a symlach o fabwysiadu technoleg feddygol. Mae'r adroddiad yn galw am ddatblygu system arfarnu technolegau meddygol ar gyfer Cymru gyfan, ac rwy'n falch o adrodd bod gwaith cwmpasu modelau posibl eisoes ar y gweill. Bydd yn cael ei wneud gan fy swyddogion gyda rhanddeiliaid. Bydd wedi ei gwblhau erbyn yr haf. Nododd y gwaith bedwar opsiwn gwahanol. Caiff ei roi ar waith erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon ac fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor, bydd gwerthuso ôl-weithredol yn rhan o glych gwaith pa bynnag opsiwn a bennir gennym. Mae cyllideb wedi'i nodi i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Roedd y £70 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y GIG yng Nghymru yn cynnwys ffrwd ariannu arbedion effeithlonrwydd drwy dechnoleg. Bydd yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu dull cenedlaethol o arfarnu technoleg.

Felly, hoffwn gau gan ddiolch eto i'r pwyllgor a phawb sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad pwysig hwn. Ein bwriad yn awr yw adeiladu ar yr argymhellion i sefydlu trefn genedlaethol a strategol ar gyfer adnabod a dewis technoleg feddygol. Bydd hynny yn helpu sicrhau'r offer a'r driniaeth fwyaf addas ac effeithiol i bobl yma yng Nghymru. Diolch yn fawr.

Therefore, I'd like to conclude by thanking, once again, the committee and everyone who has contributed to this important inquiry. Our intention now is to build on the recommendations to establish a national strategic system to identify and select medical technology. That will help to ensure the most appropriate and effective equipment and treatment for people here in Wales. Thank you.

15:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee to reply.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymateb.

15:56 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Can I thank all Members who have taken part in this afternoon's debate, because I think you've highlighted various points? It's fair to say, and many have mentioned this afternoon, the scope of medical technology is broad. It ranges from very large pieces of equipment with a very specialised focus to some small items that can be used in communities or in GP surgeries. Therefore, there is no one solution, in any one sense, that fits all of this. I think those issues have been highlighted today. Janet Finch-Saunders mentioned the radiotherapy issues, clearly, involving large equipment. Just for the record, I've got to make one correction: Freya Bevan is from Neath not Bridgend. I've got to put that in place, just to make sure it's recorded properly.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma, oherwydd credaf eich bod wedi tynnu sylw at nifer o bwyntiau? Mae'n deg dweud, ac mae llawer wedi crybwyll y prynhawn yma, fod cwmplas technoleg feddygol yn eang. Mae'n amrywio o ddarnau mawr iawn o gyfarpar gyda ffocws arbenigol iawn i rai eitemau bach y gellir eu defnyddio mewn cymunedau neu mewn meddygfeydd. Felly, nid oes un ateb, mewn unrhyw ystyr unigol sy'n addas ym mhob amgylchiad. Rwy'n credu bod y materion hynny wedi cael eu hamlygu heddiw. Crybwyllodd Janet Finch-Saunders y materion sy'n ymwneud â radiotherapi sy'n amlwg yn cynnwys cyfarpar mawr. Er gwybodaeth, rhaid i mi wneud un cywiriad: o Gastell-nedd y daw Freya Bevan, nid o Ben-y-bont ar Ogwr. Rhaid i mi ddweud hynny, i wneud yn siŵr ei fod wedi'i gofnodi'n briodol.

Now, Jenny Rathbone talked about the insulin pumps issue. A small technology again. So, we go from the large to the small. It covers the whole range of technologies. I think that's one of the issues—why there is a need for a co-ordinated approach, and there is no single approach across Wales. There has to be a look at how we deal with these in different needs, and the involvement of patients at different levels in that aspect.

Nawr, soniodd Jenny Rathbone am y pypiau inswlin. Technoleg fach eto. Felly, rydym yn mynd o'r mawr i'r bach. Mae'n cynnwys yr holl ystod o dechnolegau. Rwy'n credu mai dyna un mater sy'n codi—pam y mae angen dull cydgysylltiedig, ac ni cheir un dull sengl o weithredu ledled Cymru. Mae'n rhaid edrych ar sut rydym yn delio â'r rhain mewn gwahanol anghenion, a chynnwys cleifion ar wahanol lefelau yn hynny.

Lynne Neagle highlighted the opportunity to get ahead of the game, and we should take this opportunity. There are many medical technologies businesses within Wales that we want to ensure continue to thrive, building items of medical technology. In the sense of the questions she raised on IPFR and the access to it, I have constituents who are in exactly in the same position, so I know exactly how you feel. So, Minister, take my views along with those of Lynne Neagle's on that particular aspect.

Amlygodd Lynne Neagle y cyfle i fynd ar y blaen, a dylem fanteisio ar y cyfle hwn. Mae llawer o fusnesau technoleg feddygol yng Nghymru sy'n cynhyrchu eitemau o dechnoleg feddygol, ac rydym am sicrhau eu bod yn parhau i ffynnu. O ran y cwestiynau a ofynnodd ynglŷn â phroses y Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol a'i hygyrchedd, mae gennyf etholwyr sydd yn yr un sefyllfa, felly rwy'n gwybod yn iawn sut rydych yn teimlo. Felly, Weinidog, cymerwch fy safbwyntiau ynghyd â rhai Lynne Neagle ar yr agwedd benodol honno.

Lindsay highlighted the fact that it is important to decide what we fund, but it's also important to decide what we don't fund. Also, if we have stopped or decommissioned something, how do we go about the decommissioning process as well to ensure that those technologies and those services that were once funded but are no longer to be funded have an impact upon how we deal with those issues? It is important we address that point too.

Amlygodd Lindsay y ffaith ei bod yn bwysig penderfynu beth rydym yn ei ariannu, ond mae hefyd yn bwysig penderfynu beth nad ydym yn ei ariannu. Hefyd, os ydym wedi rhoi'r gorau i rywbeth, neu wedi ei ddatgomiysynu, sut rydym yn defnyddio'r broses ddatgomiysynu hefyd i sicrhau bod y technolegau a'r gwasanaethau hynny a gâi eu hariannu ar un adeg, ond nad ydynt yn mynd i gael eu hariannu bellach, yn cael effaith ar sut rydym yn ymdrin â'r materion hynny? Mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r pwynt hwnnw hefyd.

He did highlight the issues of telemedicine. We had quite a lot of discussions during the inquiry on IT, the role of IT and other aspects, and telemedicine was one of those considerations, and how we move that forward.

I wasn't surprised by Peter Black raising the Liberal Democrats' health technology fund aspect, but he has highlighted an important point: that primary community services will be important in the future and we need to ensure that we address the issues in that sector as well. We cannot ignore those points. The fund is for the whole aspect, not just some of the large equipment that we talk about.

Minister, you agreed with everything in the report in principle, and you highlighted some very important points. It is important that we create a systematic approach to this, and I'm very pleased to hear that work is already under way on the establishment of a body, that the work will be completed by the summer and that everything will be in place by the end of the year. I think that's very helpful. I was also pleased to hear that that will include post-implementation evaluation as well, because it is important to note that, as I mentioned in my earlier points, there was variance across Wales. We must ensure that the variance is removed so that there is consistency and equality for everyone receiving treatment across Wales.

Just to finish the point, technology may not always be a solution. We have to accept that. But the approval and evaluation process is critical to ensuring that we can deliver services that do create improvement for the people of Wales. So, the strategic approach will ensure that whatever technology is important will be adopted correctly so we get the right technology for the right purpose for the right people. I think that's what we are trying to ensure happens for the people of Wales.

Tynnodd sylw at faterion telefeddygaeth. Cawsom gryn dipyn o drafodaethau yn ystod yr ymchwiliad i Dechnoleg Gwybodaeth, rôl Technoleg Gwybodaeth ac agweddau eraill, ac roedd telefeddygaeth yn un o'r ystyriaethau hynny, a sut rydym yn symud hynny yn ei flaen.

Nid oeddwn yn synnu fod Peter Black wedi cyfeirio at gronfa technoleg iechyd y Democratiaid Rhyddfrydol, ond mae wedi tynnu sylw at bwynt pwysig: y bydd gwasanaethau cymunedol sylfaenol yn bwysig yn y dyfodol ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn rhoi sylw i'r materion yn y sector hwnnw hefyd. Ni allwn anwybyddu'r pwyntiau hynny. Mae'r gronfa hon ar gyfer yr holl agwedd, nid ychydig o'r cyfarpar mawr y siaradwn amdano'n unig.

Weinidog, roeddech yn cytuno mewn egwyddor â phopeth yn yr adroddiad, ac fe dynnoch chi sylw at rai pwyntiau pwysig iawn. Mae'n bwysig ein bod yn creu dull systematig o weithredu hyn, ac rwy'n falch iawn o glywed bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar sefydlu corff, y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn yr haf ac y bydd popeth yn ei le erbyn diwedd y flwyddyn. Rwy'n credu bod hynny o gymorth mawr. Roeddwn yn falch o glywed hefyd y bydd hynny'n cynnwys gwerthuso ôl-weithredol, oherwydd mae'n bwysig nodi, fel y soniais yn fy mhwyntiau yn gynharach, fod amrywiadau i'w gweld ar draws Cymru. Rhaid inni sicrhau bod yr amrywiadau'n cael eu dileu er mwyn sicrhau cysondeb a chydraddoldeb i bawb sy'n derbyn triniaeth ledled Cymru.

I orffen y pwynt, efallai nad technoleg yw'r ateb bob amser. Mae'n rhaid i ni dderbyn hynny. Ond mae'r broses gymeradwyo a gwerthuso yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaethau sy'n creu gwelliant i bobl Cymru. Felly, bydd y dull strategol yn sicrhau bod pa dechnoleg bynnag sy'n bwysig yn cael ei mabwysiadu yn gywir er mwyn inni gael y dechnoleg gywir i'r diben iawn ar gyfer y bobl iawn. Rwy'n credu bod yr hyn rydym yn ceisio'i sicrhau yn digwydd i bobl Cymru.

16:00

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Health and Social Care Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed, in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

## **5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Targedau'r GIG**

*Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3 a 4 yn enw Elin Jones.*

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## **5. Welsh Conservatives Debate: NHS Targets**

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendments 3 and 4 in the name of Elin Jones.*

16:00

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is the Welsh Conservatives' debate on NHS targets. I call on Darren Millar to move the motion.

Cynnig NDM5701 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Item 5 yw dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar dargedau'r GIG. Galwaf ar Darren Millar i gynnig y cynnig.

Motion NDM5701 Paul Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i sicrhau bod targedau'r GIG yng Nghymru yn cael eu cwrrdd.

*Cynigiwyd y cynnig.*

Calls upon the Welsh Government to take urgent action to ensure that Welsh NHS targets are met.

*Motion moved.*

16:00

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion tabled in the name of my colleague Paul Davies, calling upon the Welsh Government to take urgent action to ensure that NHS targets are met. In opening this debate, I want to start by paying tribute to the hard work, professionalism and commitment of the NHS workforce in Wales. Debating a topic of this kind is in no way intended to criticise the excellent care that is given in our hospitals and other care settings by that workforce, in every hour of every day each year.

Many more people, as we all know, receive fantastic care, but those who do have poor experiences are far too many. It's clear that key performance targets being missed continue to impact upon the quality of life of many of those patients and individuals. It is perhaps for this reason that a recent UK-wide poll by YouGov found that patient satisfaction in Wales was lower, at just 72%, than in England and Scotland, at 80% and 84% respectively.

Turning very briefly, if I can, to the amendments, we will be supporting amendments 1 and 2, tabled by the Welsh Liberal Democrats. I think that amendment 2 is particularly important, because we do need to find better ways of capturing and measuring patient experiences and outcomes. I think that the limited development of those that we have so far is a step in the right direction, but we do need to do more. We will also be supporting amendment 4, tabled by Plaid Cymru. The Wales Audit Office report was clear in its conclusions that performance in England and Scotland, against much more demanding targets for elective care, was better than the performance here in Wales. But, I'm afraid we cannot support amendment 3, because although we want the Welsh Government to be able to learn from good practice, whether in Scotland or elsewhere, the national health service in Scotland has not shown continual and consistent improvement on waiting times in recent years, so we feel that the amendment is factually incorrect.

So, what is the situation here in Wales? Well, there are a whole host of targets that the Welsh Government sets for the national health service, but, regrettably, many of these are being routinely missed and show very little sign of being achieved in the near future. In fact, this is a record-breaking Government. We've had record-breaking NHS cuts, which have led to record-breaking numbers of people waiting more than 36 weeks for treatment; record-breaking lows in ambulance service performance against life-threatening calls; and record-breaking numbers of patients spending 12 hours or more in Welsh emergency departments in recent months.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigaf y cynnig a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i sicrhau bod targedau GIG yn cael eu cyrraedd. Wrth agor y ddadl hon, rwyf am ddechrau drwy roi teyrnged i waith caled, proffesiynoldeb ac ymroddiad gweithlu'r GIG yng Nghymru. Ni fwriedir i ddadl ar bwnc o'r math hwn fod yn unrhyw fath o feirniadaeth ar y gofal rhagorol a roddir yn ein hysbytai a lleoliadau gofal eraill gan y gweithlu hwnnw bob awr o bob dydd o bob blwyddyn.

Fel y gwyddom, mae llawer mwy o bobl yn cael gofal gwydch, ond mae llawer gormod o bobl yn cael profiadau gwael. Mae'n glir fod methiant i gyrraedd targedau perfformiad allweddol yn parhau i effeithio ar ansawdd bywyd llawer o'r cleifion a'r unigolion hynny. Efallai mai dyma pam y gwelodd arolwg barn ledled y DU yn ddiweddar gan YouGov fod bodddhad cleifion yng Nghymru yn is, ar 72% yn unig, nag yn Lloegr, lle'r oedd yn 80%, a'r Alban, lle'r oedd yn 84%.

Os caf fi droi'n fyr iawn at y gwelliannau, byddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Credaf fod gwelliant 2 yn arbennig o bwysig, oherwydd mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd gwell o gofnodi a mesur profiadau a chanlyniadau i gleifion. Credaf fod datblygiad cyfyngedig y rhai sydd gennym hyd yn hyn yn gam i'r cyfeiriad iawn, ond mae angen i ni wneud mwy. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 4, a gyflwynwyd gan Blaid Cymru. Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn glir yn ei gasgliadau fod perfformiad yn Lloegr a'r Alban yn erbyn targedau llawer mwy heriol ar gyfer gofal dewisol, yn well na'r perfformiad yma yng Nghymru. Ond yn anffodus ni allwn gefnogi gwelliant 3, oherwydd, er ein bod am i Lywodraeth Cymru allu dysgu o arfer da, boed yn yr Alban neu mewn mannau eraill, nid yw'r gwasanaeth iechyd gwladol yn yr Alban wedi dangos gwelliant parhaus a chyson o ran amseroedd aros yn y blynyddoedd diwethaf, felly teimlwn fod y gwelliant yn ffeithiol anghywir.

Felly, beth yw'r sefyllfa yma yng Nghymru? Wel, mae yna lu o dargedau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol, ond yn anffodus, yn gyson methir â chyrraedd llawer o'r rhain ac ychydig iawn o arwydd sydd yna y cânt eu cyrraedd yn y dyfodol agos. Mewn gwirionedd, mae hon yn Llywodraeth sy'n torri sawl record. Rydym wedi cael toriadau GIG sydd wedi arwain at nifer uwch nag erioed o bobl yn aros dros 36 wythnos am driniaeth; lefelau perfformiad is nag erioed gan y gwasanaeth ambiwlans yn ymateb i alwadau lle y mae bywyd yn y fantol; a niferoedd uwch nag erioed o gleifion yn treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau achosion brys yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Just today we've seen the publication of more ambulance performance statistics—this time for the month of January—and, yet again, we see targets missed by a country mile, with fewer than half of life-threatening category A calls receiving a response within the target time of eight minutes, and one in four patients waiting for 20 minutes or more in some parts of the country. Now, we all know that when someone suffers a stroke, a heart attack or serious accident, delays in attendance by an ambulance can make the difference between life and death and threaten the prospects of a patient's recovery. Yet, today's figures are just the latest in a two and a half year period in which just one month saw the Welsh ambulance service meet its performance targets.

We've received promise after promise of improved performance, and we've heard Ministers demand improvements time and time again in this Chamber, yet the service seems to be further away than ever, with the past two months being the poorest performing months on record. But, of course, the poor performance of the Welsh ambulance service is just one symptom of the pressures that exist at the moment in our whole unscheduled care system.

The emergency departments across Wales are also under-performing. The four-hour target from arrival to admission, transfer or discharge has not been met once since 2009 and more than 3,000 patients—a record number—spent more than 12 hours in a Welsh emergency department in January. Our emergency departments are, of course, choked up. Why is this? Well, it's because we've seen a fifth of beds being axed from Welsh hospitals in the past decade under Welsh Labour. And we've seen, of course, the closure of alternatives to emergency departments—the closure of minor injuries units across Wales, in different parts of the country. That's why, today, we're calling on the Welsh Government to get a grip and to take some urgent action to ensure that its own targets are being met. The situation is so bad that one consultant in Wrexham, where there's just a one in three chance of a patient being seen and dismissed within four hours or less, said, and I quote,

'We are under siege—the whole world is upon our door—and we just can't cope.'

His words of course were echoed by a senior nurse at the University Hospital of Wales who said that the stress faced by A&E staff there is worse than the stress she faced on the front line during the second Iraq war. It's a disgrace.

The performance problems in the health service are not just confined to unscheduled care. Patients are also waiting too long for diagnostic tests. The Welsh Government's target, of course, is that patients should receive their diagnostic tests within eight weeks of referral, yet more than one in four patients waited longer than this in the most recently published figures, compared to one in 1,000 for some tests over the border in England. How can we have such a gulf in performance in two neighbouring national health services?

Heddiw ddiwethaf, gwelsom gyhoeddi rhagor o ystadegau am berfformiad y gwasanaeth ambiwlans—y tro hwn ar gyfer mis Ionawr. Unwaith eto, methir â dod yn agos at gyrraedd y targedau, gyda llai na hanner y galwadau categori A lle y mae bywyd yn y fantol yn cael ymateb o fewn yr amser targed o wyth munud, ac un o bob pedwar o gleifion yn aros am 20 munud neu fwy mewn rhai rhannau o'r wlad. Nawr, pan fydd rhywun yn dioddef strôc, trawiad ar y galon neu ddamwain ddiffrifol, rydym i gyd yn gwybod y gall oedi cyn i ambiwlans gyrraedd wneud y gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth a bygwth rhagolygon y claf o gael adferiad iechyd. Eto i gyd, ffigurau heddiw yw'r rhai diweddaraf mewn cyfnod o ddwy flynedd a hanner pan fethodd gwasanaeth ambiwlans Cymru â chyrraedd ei dargedau ym mhob mis ond un.

Rydym wedi cael addewid ar ôl addewid fod y perfformiad yn mynd i wella, ac rydym wedi clywed Gweinidogion dro ar ôl tro yn galw am welliannau yn y Siambr hon, eto i gyd mae'r gwasanaeth i'w weld ymhellach o'r nod nag erioed, gyda pherfformiad y ddau fis diwethaf yn waeth nag unrhyw fisoedd a gofnodwyd. Ond wrth gwrs, nid yw perfformiad gwael y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru ond yn un symptom o'r pwysau ar ein system gofal heb ei drefnu yn ei chyfanrwydd ar hyn o bryd.

Mae'r adrannau achosion brys ledled Cymru hefyd yn tangyflawni. Ni chyrhaeddwyd y targed pedair awr rhwng cyrraedd a derbyn, trosglwyddo neu ryddhau cleifion o gwbl ers 2009 a threuliodd mwy na 3,000 o gleifion-nifer uwch nag erioed-dros 12 awr mewn adran achosion brys yng Nghymru ym mis Ionawr. Wrth gwrs, mae tagfa lwyrr yn ein hadrannau achosion brys. Pam? Wel, mae'n deillio o'r ffaith fod un o bob pum gwely wedi cael eu dileu o ysbytai yng Nghymru yn y degawd diwethaf o dan Lafur Cymru. Ac wrth gwrs, gwelsom gau dewisiadau amgen yn lle adrannau damweiniau ac achosion brys-cau unedau mân anafiadau ar draws Cymru mewn gwahanol rannau o'r wlad. Dyna pam rydym yn galw heddiw ar Lywodraeth Cymru i afael yn yr awenau a rhoi camau brys ar waith i sicrhau bod ei thargedau ei hun yn cael eu cyrraedd. Mae'r sefyllfa mor ddrwg fel bod un meddyg ymgynghorol yn Wrecsam, lle nad oes ond un o bob tri chlaf â gobaith o gael ei weld a'i ryddhau o fewn pedair awr neu lai, yn dweud hyn:

'Rydym dan warchae—mae'r byd i gyd wrth ein drws—ac yn syml iawn, nid ydym yn gallu ymdopi.'

Cafodd ei eiriau eu hadleisio gan uwch nyrs yn Ysbyty Athrofaol Cymru a ddywedodd fod y straen sy'n wynebu staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn waeth na'r straen a wynebodd ar y rheng flaen yn ystod ail ryfel Irac. Mae'n warthus.

Nid yw'r problemau perfformiad yn y gwasanaeth iechyd wedi eu cyfyngu i ofal heb ei drefnu yn unig. Mae cleifion hefyd yn aros yn rhy hir am brofion diagnostig. Targed Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yw y dylai cleifion gael eu profion diagnostig cyn pen wyth wythnos ar ôl cael eu hatgyfeirio, eto i gyd, bu'n rhaid i fwy nag un o bob pedwar claf aros yn hwy na hyn yn y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd, o gymharu ag un o bob 1,000 ar gyfer rhai profion dros y ffin yn Lloegr. Sut y gallai fod gennym gymaint o fwllch rhwng perfformiad dau wasanaeth iechyd gwladol sy'n ffinio â'i gilydd?

Of course, it is not only diagnostic waits. Look at the waits for planned treatment. The Wales Audit Office, the Nuffield Trust and even the House of Commons library have all confirmed that Welsh patients suffer from longer waits for elective treatment than patients in England and Scotland. When Carwyn Jones became First Minister there were 187,000 patients on an NHS waiting list—187,000. The latest figures show that that figure has ballooned to a record 420,000. It is scandalous. One in seven people in Wales are now on a national health service waiting list, and a record number of those patients—some 21,000 of them—are waiting more than 9 months for their treatment. It's very clear that decisions to cut national health service spending, which have been supported by other parties in this Chamber as well, are taking their toll and disadvantaging Welsh patients. And don't just take my word for it: the Nuffield Trust, much cited by the health Minister, has concluded, and I quote:

'Waiting times in Wales have been increasing...the decision to cut, rather than maintain NHS spending in real terms may have affected them.'

They went on to say:

'comparing England, Scotland and Wales...waiting times for common procedures appear to be lengthening disproportionately in Wales.'

I wonder why that is. Against a background of record-breaking cuts, it's pretty easy to see why. The trust found that the average wait for hip and knee replacement operations in Wales was 170 days compared with around just 70 days in England and Scotland. The Wales Audit Office also warned of evidence that patients are coming to harm as a result of long waiting times. It highlighted concerns that cardiac patients in south Wales were coming to harm due to excessive waits that were resulting in higher death rates, poorer outcomes, more complex operations and, of course, a greater pressure on emergency departments as a result.

The RNIB has also warned that around 48 patients per year are losing their sight needlessly as a result of waits for ophthalmology appointments. It really is a disgrace, Minister, and what we want to know is when you are going to turn this situation around. You set the targets, you have the purse strings, you resource the national health service; if it isn't performing, you should carry the can. We want to see the situation turned around immediately, and an action plan put in place with a clear timescale for your targets being achieved. I urge Members to support the motion.

Wrth gwrs, nid mater o aros am ganlyniadau diagnostig yn unig yw hyn. Edrychwch ar y rhestrau aros am driniaeth a gynlluniwyd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, Ymddiriedolaeth Nuffield a hyd yn oed llyfrgell Tŷ'r Cyffredin i gyd wedi cadarnhau bod cleifion yng Nghymru yn dioddef yn sgil aros yn hwy am driniaeth ddewisol na chleifion yn Lloegr a'r Alban. Pan ddaeth Carwyn Jones yn Brif Weinidog, roedd 187,000 o gleifion ar restr aros y GIG—187,000. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y ffigur hwnnw wedi chwyddo i nifer uwch nag erioed o 420,000 o bobl. Mae'n warthus. Mae un o bob saith o bobl yng Nghymru bellach ar un o restrau aros y gwasanaeth iechyd gwladol, ac mae nifer uwch nag erioed o'r cleifion hynny—tua 21,000 ohonynt—yn aros mwy na 9 mis am eu triniaeth. Mae'n amlwg iawn fod penderfyniadau i dorri gwariant ar y gwasanaeth iechyd gwladol, a gefnogwyd gan bleidiau eraill yn y Siambr hon yn ogystal, yn niweidio ac yn peri anfantais i gleifion yng Nghymru. A pheidiwch â chymryd fy ngair i am hynny: daeth Ymddiriedolaeth Nuffield sy'n cael ei ddyfynnu'n helaeth gan y Gweinidog iechyd, i'r casgliad fod:

'Amseroedd aros yng Nghymru wedi bod yn ymestyn... mae'n bosibl fod y penderfyniad i dorri, yn hytrach na chynnal gwariant ar y GIG mewn termau real wedi effeithio arnynt.'

Aeth ymlaen i ddweud:

'gan gymharu Cymru, Lloegr a'r Alban... mae amseroedd aros ar gyfer gweithdrefnau cyffredin i'w gweld yn ymestyn yn anghymesur yng Nghymru.'

Tybed pam y mae hynny'n digwydd. Yn erbyn cefndir o doriadau llymach nag erioed, mae'n eithaf hawdd gweld pam. Canfu'r ymddiriedolaeth fod yr amser aros cyfartalog ar gyfer llawdriniaethau clun a phen-glin yng Nghymru yn 170 o ddiwrnodau o gymharu ag oddeutu 70 diwrnod yn unig yn Lloegr a'r Alban. Hefyd, rhybuddiodd Swyddfa Archwilio Cymru fod yna dystiolaeth fod cleifion yn wynebu niwed o ganlyniad i amseroedd aros hir. Tynnodd sylw at bryderon fod cleifion y galon yn ne Cymru yn wynebu niwed o ganlyniad i amseroedd aros sy'n rhy hir gan arwain at gyfraddau marwolaethau uwch, canlyniadau gwaeth, llawdriniaethau mwy cymhleth ac wrth gwrs, mwy o bwysau ar adrannau achosion brys o'r herwydd.

Mae'r RNIB hefyd wedi rhybuddio bod tua 48 o gleifion y flwyddyn yn colli eu golwg yn ddiangen o ganlyniad i amseroedd aros am apwyntiadau offthalmoleg. Mae'n wirioneddol warthus, Weinidog, a'r hyn rydym am ei wybod yw pa bryd rydych yn mynd i newid y sefyllfa. Chi sy'n gosod y targedau, chi sy'n dal llinynnau'r pwr, chi sy'n darparu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol; os nad yw'n perfformio, chi ddylai fod yn atebol. Rydym am weld y sefyllfa'n newid ar unwaith, a chynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith gydag amserlen glir ar gyfer cyrraedd eich targedau. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

16:09

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Aled Roberts to move amendments 1 and 2, tabled in his name.

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn ei enw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Gwelliant 1—Aled Roberts

Dileu 'gymryd' a rhoi yn ei le:

'sicrhau bod ei thargedau yn diwallu anghenion cleifion y GIG a chymryd'

Gwelliant 2—Aled Roberts

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

'a datblygu'r defnydd o fesurau deiliant a adroddir gan gleifion i fesur perfformiad yn y GIG yng Nghymru.'

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.

Amendment 1—Aled Roberts

Insert after 'Government to':

'ensure its targets meet the needs of NHS patients and'

Amendment 2—Aled Roberts

Insert at end of motion:

'and develop the use of Patient Reported Outcome Measures to measure performance in the Welsh NHS.'

Amendments 1 and 2 moved.

16:09

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn cynnig gwelliannau 1 a 2, sydd wedi eu cynnig yn fy enw i. Rwy'n meddwl, wrth ddweud ein bod ni'n mynd i gefnogi'r cynnig yma heddiw, ein bod ni'n derbyn bod targedau yn bwysig o fewn y gwasanaeth iechyd. Maen nhw'n bwysig o achos ein bod ni'n gallu monitro a gwella'r gwasanaeth; maen nhw'n bwysig ar gyfer y cleifion, iddyn nhw weld beth yn union ydy'r disgwyliadau; ac maen nhw hefyd yn bwysig fel ein bod ni'n gallu cymharu perfformiad y gwasanaeth iechyd efo blynyddoedd a fu, a hefyd efo gwasanaethau iechyd tebyg ar draws y Deyrnas Gyfunol. Ond, fel mae gwelliant 1 yn dweud, mae yn bwysig ein bod ni'n dewis y targedau iawn, ac, hefyd, yn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar ofal cleifion. Rwy'n meddwl, o'm mhrofiad i o fewn llywodraeth leol, ei fod yn hawdd iawn i fyrddau iechyd, a hyd yn oed cynghorau, roi mwy o fewnbwn i wneud yn siŵr eu bod yn gallu ymateb i'r targedau yn hytrach na gwella gofal eu cleifion.

That being said, I think there is evidence that the Welsh NHS, as Darren Millar has said, is struggling to cope in the current climate. We're aware of the ambulance waiting times in December and the new figures that have been published today, which show the poor performance in some areas of Wales. Certainly, across Wales, ambulance response times currently at 48.5% do nothing to engender confidence.

It's also the case, of course, that in Wales, currently, there are 21,226 patients who've waited more than 36 weeks to start their treatment, and that's the highest figure since September 2011. I have to say, our own experience in north Wales, where you get a letter from the health board confirming that the Welsh Government target is 26 weeks, confirming, then, that their previous performance was 36 weeks and that their current performance is 50 weeks, does little for us, as Assembly Members, to actually express any satisfaction. More importantly, of course, when you have to convey that message to a patient, and tell them that the letter gives no indication as to the steps that the health board are taking to actually improve that performance, it doesn't actually satisfy the patient either.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 1 and 2, proposed in my name. I think, in saying that we are going to support this motion today, that we do accept that targets are important within the NHS. They're important because we can monitor and improve the service; they're important for patients, so that they can see exactly what the expectations are; and they're also important so that we can compare the performance of the health service with previous years, and also with similar health services across the UK. But, as amendment 1 says, it's important that we choose the correct targets, and, also, ensure that they do not have a detrimental impact on patient care. I think, from my own experience in local government, it's very easy for health boards, and even councils, to put more input into ensuring that they can respond to targets rather than improving care for patients.

Wedi dweud hynny, rwy'n credu bod tystiolaeth bod y GIG yng Nghymru, fel y mae Darren Millar wedi dweud, yn cael trafferth ymdopi yn yr hinsawdd bresennol. Rydym yn ymwybodol o amseroedd aros am ambiwlansys ym mis Rhagfyr a'r ffigurau newydd a gyhoeddwyd heddiw, sy'n dangos y perfformiad gwael mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Yn sicr, ledled Cymru, nid yw amseroedd ymateb ambiwlansys, sy'n 48.5% ar hyn o bryd, yn gwneud dim i ennyn hyder.

Mae hefyd yn wir, wrth gwrs, fod yna 21,226 o gleifion yng Nghymru ar hyn o bryd sydd wedi aros dros 36 wythnos i ddechrau eu triniaeth, a dyna'r ffigur uchaf ers mis Medi 2011. Rhaid i mi ddweud, nid yw ein profiad ein hunain yn y gogledd, lle rydych yn cael llythyr gan y bwrdd iechyd yn cadarnhau mai targed Llywodraeth Cymru yw 26 wythnos, ac yn cadarnhau wedyn mai eu perfformiad blaenorol oedd 36 wythnos ac mai eu perfformiad presennol yw 50 wythnos, yn gwneud llawer i ni, fel Aelodau'r Cynulliad, allu mynegi unrhyw foddhad mewn gwirionedd. Yn bwysicach, wrth gwrs, pan fydd yn rhaid i chi gyfleu'r neges honno i glaf, a dweud wrthynt nad yw'r llythyr yn rhoi unrhyw syniad o'r camau y mae'r bwrdd iechyd yn eu cymryd i wella'r perfformiad mewn gwirionedd, nid yw'n destun bodddhad i'r claf chwaith.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:11	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Will you take an intervention?	A wnewch chi dderbyn ymyriad?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:11	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Yes, certainly.	Gwnaf, yn sicr.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:11	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Mark Isherwood.	Mark Isherwood.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:11	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I'm concerned that the letters I've received from the health board actually stated 52 weeks, and, in one case, not 52 weeks from referral by GP, but 52 weeks from the date the patient went on the waiting list, and we had to get intervention to bring them back in line.	Rwy'n pryderu bod y llythyrau rwyf wedi eu derbyn oddi wrth y bwrdd iechyd yn dweud 52 wythnos mewn gwirionedd, ac mewn un achos, nid 52 wythnos o'r atgyfeiriad gan feddyg teulu, ond 52 wythnos o'r dyddiad yr aeth y claf ar y rhestr aros, a bu'n rhaid i ni ymyrryd i'w cael i wella'u perfformiad.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:12	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Yes, certainly, and I think the pain management clinic in Wrexham, at one stage, was citing 72 weeks for treatment for chronic pain. I can't imagine a situation where, if I were suffering chronic pain, I would be willing to accept any indication that I should wait 72 weeks, and yet what the health board do is that they set up another task and finish group, they adopt another pay and management plan and will, undoubtedly, tell us in 12 months' time why they haven't improved. So, targets do need, actually, to be adopted, but the question here is: what monitoring of those targets is undertaken by the Welsh NHS centrally, and what action is taken by the Welsh NHS to hold those health boards to account where, for years, there has been failure to actually satisfy any of the targets?	Yn sicr, ac rwy'n credu bod y clinig rheoli poen yn Wrecsam, ar un adeg, yn nodi 72 wythnos ar gyfer triniaeth at boen cronig. Pe bawn yn dioddef poen cronig, ni allaf ddychmygu sefyllfa lle y byddwn yn barod i dderbyn unrhyw arwydd y dylwn aros 72 o wythnosau, ac eto yr hyn y mae'r bwrdd iechyd yn ei wneud yw sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen arall, mabwysiadu cynllun cyflog a rheoli arall a heb os, byddant yn dweud wrthym ymhen 12 mis pam nad ydynt wedi gwella. Felly, mae angen mabwysiadu targedau, ond y cwestiwn yma yw: pa fonitro y mae GIG Cymru yn ganolog yn ei wneud ar y targedau hynny, a pha gamau a gymerir gan y GIG yng Nghymru i ddwyn y byrddau iechyd hyn i gyfrif lle y methwyd â chyrraedd unrhyw un o'r targedau ers blynyddoedd?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
		Our second amendment is, actually, about patient-reported outcome measures, because we want to see targets that centre on outcomes for patients rather than process. We would like to see those measures coming from questionnaires that are filled out by patients, asking about their health and quality of life before and after an operation. I'm sure that Darren Millar doesn't need any reminding that the Public Accounts Committee produced a report that recognised the importance of those measures, but also the need to maintain compatibility across the UK.	Mae ein hail welliant yn ymwneud â mesur canlyniadau a gofnodwyd gan y claf, am ein bod am weld targedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gleifion yn hytrach nag ar y broses. Byddem yn hoffi gweld y dulliau hynny o fesur yn dod o holiaduron a lenwir gan gleifion yn gofyn am eu iechyd ac ansawdd eu bywydau cyn ac ar ôl llawdriniaeth. Rwy'n siŵr nad oes angen atgoffa Darren Millar fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cynhyrchu adroddiad a oedd yn cydnabod pwysigrwydd y dulliau hynny o fesur, ond hefyd yr angen i gynnal cysondeb ar draws y DU.	
		I will, in finishing, confirm that we will be supporting Plaid's amendment 4, but, similarly to the Conservatives, we can't support Plaid's amendment 3, because although we, again, would be willing to accept best practice from anywhere across the UK, and even further afield, there are instances where the Scottish NHS is actually performing worse than the Welsh NHS and, certainly, the English NHS. Certainly, with the four-hour waiting time for treatment in A&E, for example, the situation is deteriorating more rapidly in Scotland, and is, actually, a lot worse than the situation in England. So, we think that, whilst we understand why Plaid might want to extol the virtues of the Scottish Government, we feel that, perhaps, we do need to be a bit more objective in our analysis of their performance.	I orffen, rwy'n cadarnhau y byddwn yn cefnogi gwelliant 4 Plaid Cymru, ond fel y Ceidwadwyr, ni allwn gefnogi gwelliant 3 Plaid Cymru, oherwydd er ein bod, unwaith eto, yn barod i dderbyn arferion gorau o unrhyw le yn y DU, a hyd yn oed ymhellach i ffwrdd, mae yna achosion lle y mae GIG yr Alban mewn gwirionedd yn perfformio'n waeth na'r GIG yng Nghymru ac yn sicr, yn waeth na'r GIG yn Lloegr. Yn sicr, gyda'r amser aros pedair awr ar gyfer triniaeth mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, er enghraifft, mae'r sefyllfa yn dirywio yn gyflymach yn yr Alban, ac mewn gwirionedd, mae'n llawer gwaeth na'r sefyllfa yn Lloegr. Felly, er ein bod yn deall pam y gallai Plaid Cymru fod eisiau canmol rhinweddau Llywodraeth yr Alban, teimlwn efallai y dylem fod ychydig yn fwy gwrthrychol yn ein dadansoddiad o'u perfformiad.	

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Elin Jones to move amendments 3 and 4, tabled in her name.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliannau 3 a 4, a gyflwynwyd yn ei henw.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddysgu wrth Lywodraeth yr Alban, sydd wedi gweithredu gwelliannau mewn perthynas ag amseroedd aros yn y GIG yn yr Alban dros y blynyddoedd diwethaf.*

*Calls on the Welsh Government to learn from the Scottish Government, which has implemented improvements to waiting times in the Scottish NHS in recent years.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi y daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad yn ei adroddiad ar 'Amseroedd aros y GIG ar gyfer gofal dewisol yng Nghymru' fod 'Lloegr a'r Alban yn perfformio'n well yn erbyn targedau llymach' yn eu gwasanaethau iechyd.*

*Notes that the Wales Audit Office concluded in its report on 'NHS elective care in Wales' that 'England and Scotland are performing better against their more stringent targets' in their respective health services.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3 a 4.*

*Amendments 3 and 4 moved.*

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n cyflwyno'r gwelliannau yn enw Plaid Cymru.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I move the amendments in the name of Plaid Cymru.

Mae'n wir i ddweud bod angen mawr i wella perfformiad y Llywodraeth yma i gwrdd â'r targedau iechyd y maen nhw'n gosod iddyn nhw eu hunain. Mae'n wir, hefyd, yn ystod eang o dargedau, fod y perfformiad yn gymaint gwaeth yma yng Nghymru, ac yn gyson felly, na'r perfformiad yn yr Alban ac yn Lloegr.

It is true to say that there is great need to improve the Government's performance in meeting its health targets—the targets that it has set for itself, of course. It is true of a broad range of targets that the performance is so much worse here in Wales, and consistently so, than the comparative performance in Scotland and in England.

Mae'r targedau amser cyrraedd ambiwlans ac aros ar gyfer A&E wedi derbyn sylw sylweddol dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n bwysig hefyd i gofnodi mewn dadl o'r math yma bod yna dargedau eraill sy'n cael eu colli, lle mae amseroedd aros llawer yn rhy hir—yn annerbyniol o hir—yma yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd-destun cymharu â'r Alban a Lloegr, yr amserau aros ar gyfer profion diagnostig yn enwedig. Os cymerwch yr amserau aros ar gyfer colonosgopi, yna dim ond 5% sy'n aros dros chwe wythnos yn Lloegr am golonosgopi, 18% yn aros dros chwe wythnos yn yr Alban am golonosgopi, ond mae 51% o bobl yn aros dros chwe wythnos yma yng Nghymru. Mae'r un math o batrwm yn wir am brofion eraill, fel sganiau MRI ac 'ultrasound' hefyd. Rydym ni i gyd yn ymwybodol iawn fod profion diagnostig cynnar mor bwysig i sicrhau triniaeth amserol a phriodol i unrhyw glaf.

The targets for ambulance response times and A&E waiting times have been given extensive coverage over the past few weeks, but it's also important to note in a debate such as this that there are other targets that are also being missed, where waiting times are far too long—unacceptably long—here in Wales, particularly in the context of the comparison with England and Scotland, the waiting times for diagnostic tests particularly. If look at the waiting times for colonoscopy, then only 5% wait longer than six weeks in England for a colonoscopy, 18% wait longer than six weeks in Scotland for a colonoscopy, but 51% of people wait longer than six weeks here in Wales. The same is true of other tests, such as MRI scans and ultrasound too. We are all very much aware that early diagnostic tests are so important in securing timely and appropriate treatment for any patient.

Mae'n wir i ddweud nad oedd perfformiad yr NHS lawer gwell yn yr Alban tan yn ddiweddar, ond maen nhw yn yr Alban wedi gweld gwell perfformiad mewn nifer o feysydd i gwrdd â thargedau. Wrth gwrs, fe gyflwynon nhw gyfundrefn newydd llawer mwy llym o 2010 ymlaen, lle mae grŵp ansawdd yn monitro yn barhaus nawr perfformiad y byrddau iechyd, ac mae pob bwrdd iechyd yn cynhyrchu cynllun tair blynedd i gwrdd ag a chynnal targedau, ac mae cytundeb perfformiad blynyddol rhwng y byrddau a'r Llywodraeth. Ers cyflwyno'r gyfundrefn lem yma, mae'r Alban yn gweld gwell perfformiad yn erbyn targedau dros y blynyddoedd diweddar yma. Rwy'n credu bod yna le felly i Lywodraeth fan hyn i edrych ar y gyfundrefn a roddwyd mewn lle yn yr Alban i ddal byrddau iechyd i gyfrif am eu perfformiad nhw yn erbyn targedau. Yn fy marn i, mae gormod o ryddid wedi bod i fyrddau iechyd yng nghyd-destun rheolaeth y gwasanaeth iechyd yma dros gyfnod y Llywodraeth yma a dim digon o arweiniad nag o sgrwtini cenedlaethol ar berfformiad y byrddau iechyd unigol.

Gair wrth gloi am welliant 4 yn enw Plaid Cymru ac adroddiad diweddar y swyddfa archwilio: yn amlwg, roedd yr adroddiad yna yn gatalog o wendidau, yn dangos diffyg arweiniad o fewn y gwasanaeth iechyd i wella perfformiad a hefyd y gwastraff adnoddau sydd yna o fewn y gwasanaeth iechyd, sy'n deillio yn aml allan o gyfathrebu a systemau cyfathrebu mewnol gwael. Nid oes amheuaeth gen i fod yna diffyg systemau effeithiol o fewn yr NHS, yn enwedig o gwmpas gwybodaeth amserol ac effeithiol i gleifion. Oherwydd rhestrau aros hir a diffyg cysylltu a gwybodaeth i gleifion ar restr aros, yna mae yna ddefnydd gwastraffus o'r NHS yn deillio o hynny—cleifion yn mynd nôl a nôl at feddyg teulu i geisio gwybodaeth ar restr aros am brawf neu driniaeth. Byddai cyfundrefn apwyntiadau lawer mwy effeithiol â gwybodaeth cleifion electronig ar draws yr NHS, yn lleihau gwastraff ac yn gwella perfformiad, a dyna oedd adroddiad diweddar y swyddfa archwilio yn ei ddatgelu. Felly, rwy'n gofyn i'r Cynulliad y prynhawn yma i gefnogi gwelliannau Plaid Cymru.

It's true to say that the NHS performance was not much better in Scotland until recently, but in Scotland they have seen an improvement in performance in a number of different areas in meeting targets. Of course, they introduced a far stricter regime from 2010 onwards, whereby a quality assurance group continually monitors the performance of the health boards, and each health board produces a three-year plan in order to meet and maintain its targets, and there is an annual performance agreement between the boards and the Government. Since the introduction of that more stringent system, Scotland has seen performance improvements against targets over recent years. I do think that there is scope for the Government here to look at the regime put in place in Scotland to hold health boards to account for their performance against targets. In my view, there has been too much freedom for health boards in the context of the management of the health service here over the period of this Government, and there hasn't been enough guidance or scrutiny at a national level of the performance of the individual health boards.

In conclusion, I would like to say a few words about amendment 4 in the name of Plaid Cymru and the recent report of the Wales Audit Office. Clearly, that report was a catalogue of failings, showing a lack of leadership within the health service in improving performance and also the waste of resources that has existed within the health service, which often emerges from poor communication and internal communication systems that are deficient. I have no doubt that there is a problem with communication systems within the NHS, particularly around timely and effective information for patients. Because of long waiting lists and a problem in terms of providing information to patients on waiting lists, then there is a wasteful use of the NHS as a result—patients returning to their GP time and time again to seek information on a waiting list for a test or treatment. A more effective appointments system, with electronic patient information available across the NHS, would reduce waste and improve performance, and that's what the recent report of the Wales Audit Office concluded. Therefore, I do ask the Assembly this afternoon to support Plaid Cymru's amendments.

16:19

## **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful to take part in this debate. Minister, we're very conscious that the targets are set by you. They are your promise to the patients here in Wales about what you will deliver for them, and you are failing on that promise. Now, we had a great fanfare at the start of this Assembly many years ago, back in 2011, about the First Minister's delivery unit and how that was going to be monitoring Government and how it delivered on its promises. Your targets are Government-set targets, in effect, to deliver services, health services, to the people of Wales.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gael cymryd rhan yn y ddadl hon. Weinidog. Rydym yn ymwybodol iawn mai chi sy'n gosod y targedau. Dyna yw eich addewid i'r cleifion yma yng Nghymru ynglŷn â'r hyn y byddwch yn ei gyflawni ar eu cyfer, ac rydych yn methu â chyflawni'r addewid hwnnw. Nawr, cawsom ffanffer fawr ar ddechrau'r Cynulliad hwn flynyddoedd lawer yn ôl yn 2011 ynghylch uned gyflawni'r Prif Weinidog a sut oedd honno'n mynd i fonitro'r Llywodraeth a'r modd y cyflawnai ei haddewidion. Targedau a osodwyd gan y Llywodraeth yw eich targedau chi i bob pwrpas ar gyfer darparu gwasanaethau, gwasanaethau iechyd, i bobl Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Elin Jones hit exactly on the point of why it's so important that, for example, diagnostic targets are hit. If you are ill and you are not diagnosed within 12 months, say, the chances are that—. If you're going for a colonoscopy because you've been suspected of having bowel cancer, and you have bowel cancer and you haven't even had your colonoscopy within 12 months, then the chances are that you will have got very much worse with that illness.

I have a constituent who contacted me in September 2013. He is a former member of the armed forces. He should get priority for treatment under the health board proposals. He has had to wait over a year to get his operation. His circumstances have been raised with the health board. It is absolutely scandalous when you have soldiers who have priority—your promise is that they have priority. You have Air Marshal Paul Evans, the surgeon-general, saying that personnel face longer waiting times in Wales than elsewhere. 'The Times' reported a senior military source as saying there are soldiers that have suffered injuries during operations overseas and training who are waiting eight or nine months for treatment, after waiting weeks to be diagnosed—much longer than they would experience if they were based in England.

Minister, I understand that achieving targets alone is not the answer—it's about outcomes—but the targets are there in order to ensure that the outcomes for patients are better, that their conditions do not get worse, and that they are seen within reasonable times. For an echocardiogram, patients in England waiting more than six weeks are only at 3.6%; in Wales, they are 46.6%. For cystoscopy, it's 6% in England waiting more than six weeks; in Wales, it's 56.5%—56.5%. Those patients are all potentially getting worse, and, Minister, they're your targets and you should be intervening on the management of the health boards to ask the management why they aren't delivering to them. What has the First Minister's delivery unit done? It was set up to particularly deal with things like this, and it's cost the taxpayer millions, and we hear nothing from it, we see nothing from it, and this failure to deliver goes by week after week, month after month, with little or no action.

I agree with my colleagues when they say that front-line staff are doing their very best in the circumstances, but, as Dr Eamonn Jessup said in north Wales, when you shut the community hospitals, when you shut the walk-in centres, where do you expect people to go? They go to A&E because they can't access the services, and that's why you have issues. I do appreciate that north Wales has, on the whole, better response times for category A calls, but not much better: in Flintshire, it's at 43.8% for a category A life-threatening calls. Minister, your targets are your promise to the Welsh people about what you will deliver for them, and you are failing to deliver. You need to make sure that you hold—

Tarodd Elin Jones yr hoelen ar ei phen ynglŷn â pham y mae mor bwysig cyrraedd targedau diagnostig er enghraifft. Os ydych yn sâl a heb gael diagnosis o fewn 12 mis, dyweder, y tebygolrwydd yw—. Os ydych yn mynd i gael colonosgopi oherwydd bod amheuaeth eich bod yn dioddef o ganser y coluddyn, a bod gennych ganser y coluddyn ac nad ydych wedi cael eich colonosgopi o fewn 12 mis, yna mae'n bur debyg y bydd y salwch wedi gwaethygu'n sylweddol.

Mae gen i etholwr a gysylltodd â mi ym mis Medi 2013. Mae'n gyn-aelod o'r lluoedd arfog. Dylai gael blaenoriaeth i gael triniaeth o dan argymhellion y bwrdd iechyd. Mae wedi gorfod aros dros flwyddyn i gael ei lawdriniaeth. Soniwyd am ei amgylchiadau wrth y bwrdd iechyd. Mae'n gwbl warthus pan fydd gennych filwyr â blaenoriaeth—eich addewid yw eu bod yn cael blaenoriaeth. Mae gennych Farsial yr Awyrlu, Paul Evans, y llawfeddyg cyffredinol, yn dweud bod personél yn wynebu amseroedd aros hwy yng Nghymru nag mewn mannau eraill. Dyfynnodd 'The Times' ffynhonnell filwrol uwch yn dweud bod yna filwyr sydd wedi dioddef anafiadau yn ystod gwasanaeth tramor a hyfforddiant sy'n aros wyth neu naw mis am driniaeth, ar ôl aros wythnosau i gael diagnosis—lawer yn hwy nag y byddent yn ei aros pe baent wedi'u lleoli yn Lloegr.

Weinidog, rwy'n deall nad cyflawni targedau yn unig yw'r ateb—mae'n ymwneud â chanlyniadau—ond mae'r targedau yno er mwyn sicrhau bod y canlyniadau i gleifion yn well, nad yw eu cyflyrau'n gwaethygu, a'u bod yn cael eu gweld o fewn cyfnodau rhesymol o amser. I gael ecocardiogram, 3.6% yn unig o'r cleifion yn Lloegr sy'n aros mwy na chwe wythnos; yng Nghymru, mae'n 46.6%. Ar gyfer systosgopi, 6% o'r cleifion yn Lloegr sy'n aros mwy na chwe wythnos; yng Nghymru, mae'n 56.5%—56.5%. Mae'n bosibl bod y cleifion hynny i gyd yn gwaethygu, a Weinidog, eich targedau chi ydynt a dylech fod yn ymyrryd ym mhroses reoli'r byrddau iechyd i ofyn i'r rheolwyr pam nad ydynt yn eu cyflawni. Beth y mae uned gyflawni'r Prif Weinidog wedi ei wneud? Cafodd ei sefydlu i ymdrin â phethau fel hyn yn arbennig, ac mae wedi costio miliynau i'r trethdalwr, ac ni chlywn ddim ganddo, ni welwn ddim ganddo. Mae ei fethiant i gyflawni yn parhau wythnos ar ôl wythnos, fis ar ôl mis, gydag ond ychydig o weithredu os o gwbl.

Rwy'n cytuno gyda fy nghyd-Aelodau pan ddywedant fod staff y rheng flaen yn gwneud eu gorau glas yn yr amgylchiadau, ond fel y dywedodd Dr Eamonn Jessup yng ngogledd Cymru, pan fyddwch yn cau'r ysbtyai cymuned, pan fyddwch yn cau'r canolfannau galw i mewn, lle rydych chi'n disgwyl i bobl fynd? Maent yn mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys am na allant ddod o hyd i wasanaethau, a dyna pam y mae gennych broblemau. Rwy'n sylweddoli bod gan y gogledd amserau ymateb gwell ar gyfer galwadau categori A ar y cyfan, ond nid ydynt yn llawer gwell: yn Sir y Fflint, mae'n 43.8% ar gyfer galwadau categori A lle y mae bywyd yn y fantol. Weinidog, eich targedau yw eich addewid i bobl Cymru ynglŷn â'r hyn y byddwch yn ei gyflawni ar eu cyfer, ac rydych yn methu â chyflawni. Mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn dwyn—

16:24	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	[Continues.]—the health boards to account.	[Yn parhau.]—y byrddau iechyd i gyfrif.
16:24	<b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Let's be clear about one thing: nine out of 10 people are happy with the NHS care they receive in Wales, including my son and I, who've had serious injuries in the past couple of years. The NHS in Wales has remained true to its founding principles. In bringing the motion, opposition parties seem to conveniently forget the 10% cut to the Welsh block grant, and the fact they're now seeing the consequences of cutting social care budgets in England and, really, privatising the NHS.</p>	<p>Gadewch i ni fod yn glir ynglŷn ag un peth: mae naw o bob 10 o bobl yn fodlon ar y gofal y maent yn ei dderbyn gan y GIG yng Nghymru, gan gynnwys fy mab a minnau, sydd wedi cael anafiadau difrifol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r GIG yng Nghymru wedi aros yn ffyddlon i'w egwyddorion sylfaenol. Wrth gyflwyno'r cynnig, mae'r gwrthbleidiau i'w gweld yn anghofio'r toriad o 10% i grant bloc Cymru yn gyfleus iawn, a'r ffaith eu bod bellach yn gweld canlyniadau torri cyllidebau gofal cymdeithasol yn Lloegr, a phreifateiddio'r GIG, mewn gwirionedd.</p>
	<p>Health spending in Wales is higher than ever before. Next year, we will spend £6.7 billion on health and social care, equivalent to the entire Welsh budget at the outset of devolution. The latest public expenditure statistical analysis figures for 2013-14 show that spending on health and social care per head of population in Wales was 5% higher than in England, which is £120 a head. On targets, I could stand up and list a range of targets and indicators where we perform well in Wales: cancer care, planned treatment times, adult mental health. Tempting as that is, especially in response to Cameron's war on Wales, I will not start using the NHS as a political football—[Interruption.] Instead, let me say that the Tories should acknowledge the difficulty in comparing performances between the NHS in the four countries in the UK in many areas, because it is measured and counted in different ways. You have statistics—</p>	<p>Mae gwariant ar iechyd yng Nghymru yn uwch nag erioed o'r blaen. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn gwario £6.7 biliwn ar iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cyfateb i holl gyllideb Cymru ar ddechrau datganoli. Mae ffigurau'r dadansoddiad ystadegol diweddaraf ar wariant cyhoeddus ar gyfer 2013-14 yn dangos bod gwariant y pen o'r boblogaeth yng Nghymru ar iechyd a gofal cymdeithasol 5% yn uwch nag yn Lloegr, ar £120 y pen. O ran targedau, gallwn restru ystod o dargedau a dangosyddion lle rydym yn perfformio'n dda yng Nghymru: gofal canser, amseroedd triniaeth a gynlluniwyd, iechyd meddwl oedolion. Er y demtasiwn i wneud hynny, yn enwedig mewn ymateb i ryfel Cameron yn erbyn Cymru, nid wyf am ddechrau defnyddio'r GIG fel pêl-droed wleidyddol—[Torri ar draws.] Yn lle hynny, gadewch i mi ddweud y dylai'r Toriaid gydnabod yr anhawster i gymharu perfformiad y GIG ym mhedair gwlad y DU mewn sawl maes, gan ei fod yn cael ei fesur a'i gyfrif mewn gwahanol ffyrdd. Mae gennych ystadegau—</p>
16:26	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Will you take an intervention?	A wnewch chi dderbyn ymyriad?
16:26	<b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	[Continues.]—damned statistics and lies. And you've got to be careful when you use statistics.	[Yn parhau.]—ystadegau bondigrybwyll a chelwyddau. Ac mae'n rhaid i chi fod yn ofalus pan fyddwch yn defnyddio ystadegau.
16:26	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Order. You've got to be very careful when you use the word 'lies', though you didn't attribute it to anyone, but let's just be careful of the language—[Interruption.] The Member is not giving way, and I do say to the Conservative benches, there was silence when you were quoting all your statistics. There was silence from the Labour benches, and I expect that sort of courtesy to be extended now the alternative argument is being advanced. Keith Davies.</p>	<p>Trefn. Mae'n rhaid i chi fod yn ofalus iawn pan fyddwch yn defnyddio'r gair 'celwyddau', er na wnaethoch ei briodoli i unrhyw un, ond gadewch i ni fod yn ofalus gyda'r iaith—[Torri ar draws.] Nid yw'r Aelod am ildio, ac rwy'n dweud wrth feinciau'r Ceidwadwyr fod distawrwydd pan oeddech chi'n dyfynnu eich holl ystadegau. Roedd tawelwch o'r meinciau Llafur, ac rwy'n disgwyl i chi ddangos cwteisi o'r fath yn awr i'r ddafl arall sy'n cael ei chyflwyno. Keith Davies.</p>
16:26	<b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Thank you. Well, Dirprwy Lywydd, Disraeli actually said:	Diolch yn fawr. Wel, Ddirprwy Lywydd, Disraeli mewn gwirionedd a ddywedodd:
	'lies, damned lies, and statistics'.	'celwyddau, celwyddau bondigrybwyll, ac ystadegau'.

It's a quote.

Mae'n ddyfyniad.

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

And I said just be careful whenever you quote a phrase that contains that particular word. [Laughter.]

A'r cyfan a ddywedais i oedd byddwch yn ofalus pan fyddwch yn dyfynnu ymadrodd sy'n cynnwys y gair penodol hwnnw. [Chwerthin.]

16:26 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Nuffield Trust's four nations' report 2014 concluded that there had been improvements in areas of all four health services, and the gap between them has closed. Now, we heard earlier about the Welsh Government investment in new diagnostic equipment to speed up waiting times—waiting times for diagnostic procedures in England are increasing, partly as a result of not protecting social care budgets.

Daeth adroddiad y pedair gwlad Ymddiriedolaeth Nuffield yn 2014 i'r casgliad y bu gwelliannau mewn rhai meysydd ym mhob un o'r pedwar gwasanaeth iechyd, ac mae'r bwllch rhyngddynt wedi cau. Nawr, clywsom yn gynharach am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn offer diagnostig newydd i gyflymu amseroedd aros—mae amseroedd aros ar gyfer gweithdrefnau diagnostig yn Lloegr yn ymestyn, yn rhannol o ganlyniad i beidio â diogelu cyllidebau gofal cymdeithasol.

In my constituency—I want to say a few things—health issues account for the single largest component of my casework mailbag. Rightly so that constituents contact me; it accounts for 40% of the Welsh Government budget. However, some are repeated issues, usually involving Hywel Dda health board, and I have, on occasion, added mine to the critical voices. But now we have a new landscape. The business case for front-of-house developments at Prince Philip Hospital has been put forward and received by Welsh Government. These plans have been designed by clinicians at the hospital. They are based on a medical footing and reflect clinical priorities. As well as the accident and emergency department, there will be a clearer pathway route for patients who present needing urgent care, the idea being enhanced throughput and improved waiting times. The message I received in meetings with new leadership at Hywel Dda is one of medical design. I want to talk about Llanelli health services in a positive light; I know that is what local people want too. They already see politicians in England talking down our NHS, and we do not want the same on our doorstep. Yes, there will always be a scrutiny role, and challenge to decisions, and my voice has been included there. Unlike Plaid Cymru, who continue to talk down services in Prince Philip Hospital in a negative light, we have a positive message and we will provide that.

Yn fy etholaeth i—hoffwn ddweud ychydig o bethau—materion iechyd yw'r elfen unigol fwyaf yn yr ohebiaeth gwaith achos a gaf. Mae'n iawn fod etholwyr yn cysylltu â mi; mae'n 40% o gyllideb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn faterion sy'n ailadrodd, fel arfer yn cynnwys bwrdd iechyd Hywel Dda, ac ar adegau, rwyf wedi ychwanegu fy llais i at y lleisiau beirniadol. Ond yn awr mae gennym dirwedd newydd. Cyflwynwyd a derbyniwyd yr achos busnes dros ddatblygiadau blaen y tŷ yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cynllunio gan glinigwyr yn yr ysbyty. Maent wedi eu llunio ar sail feddygol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau clinigol. Yn ogystal â'r adran damweiniau ac achosion brys, bydd yna lwybr diriach ar gyfer cleifion sydd angen gofal brys, a'r syniad yw gwella llif cleifion drwy'r ysbyty ac amseroedd aros gwell. Mae'r neges a gefais mewn cyfarfodydd gydag arweinwyr newydd yn Hywel Dda yn ymwneud â chynllunio meddygol. Rwyf am siarad am wasanaethau iechyd Llanelli mewn modd cadarnhaol; gwn mai dyna mae'r bobl leol ei eisiau hefyd. Maent eisoes yn gweld gwleidyddion yn Lloegr yn difrio ein GIG, ac nid ydym am i'r un peth ddigwydd ar garreg ein drws. Yn sicr, fe fydd yna rôl graffu bob amser, a her i benderfyniadau, ac mae fy llais wedi'i gynnwys yn hynny. Yn wahanol i Blaid Cymru, sy'n parhau i roi gwasanaethau Ysbyty'r Tywysog Philip mewn goleuni negyddol, mae gennym neges gadarnhaol a byddwn yn darparu hynny.

Here are more development examples there: a new research and development department, part of a £22 million project, which will see Prince Philip Hospital leading the way. Hywel Dda is also involved in the west Wales stream of the south Wales programme, working and collaborating with Abertawe Bro Morgannwg. Such collaboration will improve waiting times so that targets will be met. We have to talk up the best of our services. Naturally, these must be considered as a wider picture, and I will continue to ask questions at all stages, but not talking about these developments because they don't fit the script is not an option. The Welsh NHS is now treating more patients than at any time in its history, and has taken decisive action to reduce the number of delayed transfers of care in recent years. Delayed transfers of care in Wales—

Dyma ragor o enghreifftiau datblygu yno: adran ymchwil a datblygu newydd, yn rhan o brosiect gwerth £22 miliwn, a fydd yn galluogi Ysbyty'r Tywysog Philip i arwain y ffordd. Mae Hywel Dda hefyd yn ymwneud â ffrwd gorllewin Cymru o raglen de Cymru, gan weithio a chydweithio ag Abertawe Bro Morgannwg. Bydd cydweithredu o'r fath yn gwella amseroedd aros fel y bydd y targedau yn cael eu cyrraedd. Mae'n rhaid i ni ganmol ein gwasanaethau gorau. Yn naturiol, rhaid eu hystyried fel darlun ehangach, a byddaf yn parhau i ofyn cwestiynau ar bob cam, ond nid yw'n opsiwn peidio â sôn am y datblygiadau hyn am nad ydynt yn cyfateb i'r sgrïpt. Mae'r GIG yng Nghymru yn awr yn trin mwy o gleifion nag ar unrhyw adeg yn ei hanes, ac mae wedi rhoi camau pendant ar waith i leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn y blynyddoedd diwethaf. Mae lefelau oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru—

- 16:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Finish with this please. Gorffennwch gyda hyn os gwelwch yn dda.
- 16:29 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
[Continues.]—are at a record low, whilst in England they are at a record high. Thank you. [Yn parhau.]—yn is nag erioed, ac yn Lloegr maent yn uwch nag erioed. Diolch yn fawr.
- 16:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Suzy Davies. Suzy Davies.
- 16:29 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  

Diolch, Ddirprwy Lywydd, and thank you for letting me take part in this debate today. Minister, I'm sure that you've prepared well for this debate today. You may choose to adopt attack as the best form of defence, playing down the figures that illustrate most starkly where the NHS is not meeting the targets that your own Government has set, or you may play down any accusations of Government failure by reminding us that it's local health boards and the ambulance trust that are responsible for decisions. I'm sure you'll also take the opportunity to highlight any shortcomings that you think you find in the UK Government's health record, even though your role is to meet Wales's needs and ours is to hold you to account on attempts to do that. But I hope, in your response, that you will have time to just comment on the

The First Minister said some time ago that he would be reviewing targets, so perhaps you could update us on that. We support amendment 2, and we've heard Aled Roberts's arguments, but nevertheless the existing targets came from somewhere. However they were calculated, your Government has stood by them as ambitious but achievable, measurable, and reliable as evidence to show Government progress against stated aims. You have thoroughly owned them. Yet, whatever you have asked for, whatever decisions the LHBs and the ambulance trust have made, despite all the hard work of front-line staff who Darren Millar was so keen to praise, the targets your Government have set are routinely and spectacularly missed, and that has led to demoralisation within the health service workforce, nervousness within the population, and many a migraine, I'm sure, in your own department.

So, this first issue raises these questions: did something go wrong with the setting of the targets? Was there some colossal gaffe in someone's data or algorithms? Or were they chosen to disguise an inconvenient truth, that Wales faces such a monumental challenge that the targets that you could achieve under Labour's approach to the NHS would've been politically unpalatable for a party that has been in uninterrupted power since devolution? Now, I hope that the answer to all these questions is 'no', not least because the targets in our neighbouring nation, for waiting times particularly, are much more ambitious yet more frequently achieved.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i chi am adael i mi gymryd rhan yn y ddatl heddiw. Weinidog, rwy'n siŵr eich bod wedi paratoi'n dda ar gyfer y ddatl hon heddiw. Efallai y byddwch yn dewis mabwysiadu ymosod fel y ffurf orau ar amddiffyn, gan wneud yn fach o'r ffigurau sy'n dangos gliriaf lle nad yw'r GIG yn cyrraedd y targedau y mae eich Llywodraeth eich hun wedi eu gosod, neu efallai y byddwch yn gwneud yn fach o gyhuddiadau o fethiant y Llywodraeth drwy ein hatgoffa mai'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaeth ambiwlans sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Rwy'n siŵr y byddwch hefyd yn manteisio ar y cyfle i dynnu sylw at ddiffygion y credwch eich bod yn eu canfod yn record Llywodraeth y DU ar iechyd, er mai eich rôl yw diwallu anghenion Cymru a'n rôl ni yw eich dwyn i gyfrif am ymdrechion i wneud hynny. Ond rwy'n gobeithio, yn eich ymateb, y bydd gennych amser i roi sylwadau ar y

Dywedodd y Prif Weinidog beth amser yn ôl y byddai'n adolygu targedau, felly efallai y gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny. Rydym yn cefnogi gwelliant 2, ac rydym wedi clywed dadleuon Aled Roberts, ond mae'r targedau presennol wedi dod o rywle. Sut bynnag y cawsant eu cyfrifo, mae eich Llywodraeth wedi eu cefnogi fel rhai uchelgeisiol ond cyraeddadwy, mesuradwy, a dibynadwy fel tystiolaeth i ddangos cynnydd y Llywodraeth yn erbyn amcanion a nodwyd. Rydych wedi eu perchnogi'n llawn. Eto i gyd, beth bynnag y gofynnoch amdano, pa benderfyniadau bynnag a wnaeth y Byrddau Iechyd Lleol a'r ymddiriedolaeth ambiwlans, er holl waith caled y staff rheng flaen roedd Darren Millar mor awyddus i'w canmol, ceir methiant cyson a thrawiadol i gyrraedd y targedau y mae eich Llywodraeth wedi eu gosod, ac mae hynny wedi arwain at ddigalondid yng ngweithlu'r gwasanaeth iechyd, at nerfusrwydd ymhlith y boblogaeth, a sawl pen tost, rwy'n siŵr, yn eich adran eich hun.

Felly, mae'r mater cyntaf yn cymell y cwestiynau hyn: a aeth rhywbeth o'i le gyda gosod y targedau? A wnaeth rhywun gamgymeriad anferthol o ran y data neu'r algorithmau? Neu a gawsant eu dewis i guddio'r gwirionedd anghyfleus fod Cymru yn wynebu her mor enfawr y byddai'r targedau y gallech eu cyrraedd o dan ddull Llafur o weithredu'r GIG wedi bod yn annymunol yn wleidyddol i blaid sydd wedi bod mewn grym yn ddi-dor ers datganoli? Nawr, rwy'n gobeithio mai 'na' yw'r ateb i'r holl gwestiynau hyn, nid yn lleiaf am fod y targedau yn y genedl sy'n ffinio â ni, ar gyfer amseroedd aros yn arbennig, yn llawer mwy uchelgeisiol ac eto i gyd yn cael eu cyrraedd yn amlach.

I'll just take the ambulance response times, if I may. In Wales, we have a target of just 65% of immediately life-threatening calls receiving a response within eight minutes, as we all know. We don't achieve this target. It's a target that is already the lowest in the UK. So, you know, I can say, yes, that Wales's stats are worse than England's stats. The important stat for you, though, Minister, is this: in the case of a cardiac arrest, for every minute that a casualty does not receive life-saving CPR, their chances of survival go down by 10%. Now, the fact is that 58%—that's over half—of category A calls did not get the emergency attendance within eight minutes in December, and it was still over half in January. Those figures should disturb you, Minister, regardless of whether they're better or worse than other parts of the UK, because that means that, in January, well over 7,000 people waited anxiously, frightened, in danger even, maybe even on their own, for more than eight minutes for an emergency response. In my own region of South Wales West, in January, 146 people waited more than half an hour for an emergency response, and of course, across Wales, more than 960 people waited for more than 30 minutes for an ambulance, despite the fact that the adverse weather conditions that had been anticipated weren't as great as we all thought.

Now, the many reviews don't seem to have solved the problems. Hard-working ambulance crews are paying the price for poor planning, and those who rely on the service, of course, are being let down. We welcome, undoubtedly, the announcement of the extra £11 million for the service, but that in itself is an emergency response; it is not part of a recovery plan to heal the cuts inflicted by this Labour Government.

Now, others in this debate will remind us of the missed targets for waiting times for A&E and referrals for diagnostics and treatments, particularly relating to cancer, and we've heard some of those already. Those numbers add up to a real human cost, not just in the high-profile cases that we've heard about and that we've talked about in this Chamber before, but for everyone who's in this part of the system, everyone who, sometimes quite suddenly and devastatingly, loses control of a part of their life, and it's a part of their life that they place entirely in the hands of the national health service.

So, this is my second point: these particular missed targets are about people's fear, their pain, their anger and their despair over longer and longer periods. Leanne Wood actually gave us a very good example yesterday. These targets are not just numbers on a spreadsheet; they are people who are dying waiting for ambulances or lying for three hours on a freezing cold rugby pitch waiting for a paramedic. They are any one of us, any one of us who's grown up trusting the health service. We are not casualties of a war on Wales, Keith Davies; we are casualties of one Government—

Fe soniaf am amseroedd ymateb ambiwlansys yn unig, os caf. Yng Nghymru, mae gennym darged i ymateb i 65% yn unig o alwadau lle y mae bywyd yn y fantol o fewn wyth munud, fel rydym i gyd yn gwybod. Nid ydym yn cyrraedd y targed. Dyma'r targed isaf yn y DU eisoes. Felly, wyddochi, gallaf ddweud, ydynt, mae ystadegau Cymru yn waeth nag ystadegau Lloegr. Ond yr ystadegyn pwysig i chi yw hwn, Weinidog: mewn achos o ataliad y galon, am bob munud nad yw'r claf yn cael adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) i achub ei fywyd, mae ei obaith o oroesi yn lleihau 10%. Nawr, mae'n ffaith na roddwyd sylw brys o fewn wyth munud i 58%—dros hanner—y galwadau categori A ym mis Rhagfyr, ac roedd yn dal i fod dros hanner ym mis Ionawr. Dylai'r ffigurau hyn beri anghysur i chi, Weinidog, ni waeth a ydynt yn well neu'n waeth na rhannau eraill o'r DU, oherwydd mae'n golygu, ym mis Ionawr, fod ymhell dros 7,000 o bobl wedi aros yn bryderus, yn ofnus, mewn perygl hyd yn oed, ar eu pen eu hunain efallai, am fwy nag wyth munud am ymateb brys. Yn fy rhanbarth i, sef Gorllewin De Cymru, ym mis Ionawr, arhosodd 146 o bobl dros hanner awr am ymateb brys, ac wrth gwrs, ledled Cymru, arhosodd dros 960 o bobl am fwy na 30 munud am ambiwlans, er nad oedd y tywydd garw a ragwelwyd mor ddrwg â'r disgwyl.

Nawr, nid yw'n ymddangos fod yr adolygiadau niferus wedi datrys y problemau. Mae criwiau ambiwlans gweithgar yn talu'r pris am gynllunio gwael, ac mae'r rhai sy'n dibynnu ar y gwasanaeth, wrth gwrs, yn cael cam. Yn ddi-os, rydym yn croesawu'r cyhoeddiad am yr £11 miliwn ychwanegol i'r gwasanaeth, ond mae hwnnw ynddo'i hun yn ymateb brys; nid yw'n rhan o gynllun adfer i wella'r toriadau a achoswyd gan y Llywodraeth Lafur hon.

Nawr, bydd eraill yn y ddadl hon yn ein hatgoffa o'r targedau y methwyd â'u cyrraedd o ran amseroedd yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys ac atgyfeiriadau ar gyfer diagnosteg a thriniaethau, yn enwedig yng nghyswllt canser, ac rydym wedi clywed rhai o'r rheini eisoes. Mae'r niferoedd hynny'n creu cost ddynol go iawn, nid yn unig yr achosion proffil uchel y clywsom amdanynt ac a drafodwyd gennym yn y Siambr hon o'r blaen, ond i bawb sydd yn y rhan hon o'r system, pawb sy'n colli rheolaeth dros ran o'u bywydau, weithiau'n sydyn ac yn erchyll, ac mae'n rhan o'u bywyd y maent yn ei osod yn gyfan gwbl yn nwylo'r gwasanaeth iechyd gwladol.

Felly, dyma fy ail bwynt: mae'r targedau penodol hyn y methwyd â'u cyrraedd yn ymwneud ag ofnau pobl, eu poen, eu dicter a'u hanobaith dros gyfnodau hwy o hyd. Mewn gwirionedd rhoddodd Leanne Wood enghraifft dda iawn inni ddoe. Nid rhifau ar daenlen yn unig yw'r targedau hyn; pobl ydynt sy'n marw wrth aros am ambiwlansys neu'n gorwedd am dair awr ar gae rygbi rhewllyd yn aros am barafeddyg. Maent yn unrhyw un ohonom, unrhyw un ohonom sydd wedi tyfu i fyny'n ymddiried yn y gwasanaeth iechyd. Nid anafedigion mewn rhyfel yn erbyn Cymru ydym ni, Keith Davies; rydym yn anafedigion un llywodraeth—

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—that has run this system for too long. Thank you.

[Yn parhau.]—sydd wedi rhedeg y system hon yn rhy hir. Diolch yn fawr.

16:35

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nothing so clearly demonstrates the failure of the Welsh Labour Government to deliver the best level of healthcare possible than its inability to meet the target it has set itself. Year after year, the NHS in Wales has failed to meet its targets. The fault of this does not lie with our hard-working and dedicated NHS staff. I do not criticise the NHS in Wales. I do, however, criticise Labour's running of the NHS, which has stopped it performing to its full potential.

Let us take an example: ambulance response times. In December last year, fewer Welsh ambulances than ever before responded on time to emergency calls. The Welsh Government target is for 65% of first responses to category A calls to arrive within eight minutes. In December, fewer than 43% of ambulances across Wales met that target. In Nye Bevan health board area, the figure was even worse. I welcome the improvements shown in the latest figures published today. However, the fact remains that fewer than 45% of ambulance responses to emergency calls in the Nye Bevan health board area did so within that target time. Deputy Presiding Officer, this is below the Welsh average.

This awful figure hasn't just recently appeared. Indeed, the Welsh Government target has only been met once in the last two and a half years. It is nearly two and a half years since the McClelland review of the Welsh ambulance service was published. The review stated that there were deep-rooted problems with the Welsh ambulance service and issues existed in its relationship with partners. It highlighted fundamental problems that needed to be addressed if the service was to match its aims and objectives, and made a number of recommendations. In response, the Minister announced a number of changes. In May 2013, he said—and I quote in his words,

'officials will work with the ambulance service and other parts of the NHS to develop a new set of indicators that provide an intelligent suite of clinically informed targets and standards.'

In November 2013, he announced that some new measures would be piloted from April 2014. In November last year, the Deputy Minister for Health said that the target was still being developed and that he was expecting something—in his words—more sensible to discuss in the new year. Many of the recommendations remain to be implemented, Deputy Presiding Officer.

Nid oes unrhyw beth yn dangos methiant Llywodraeth Lafur Cymru i ddarparu'r lefel orau o ofal iechyd posibl cyn gliried â'i hanallu i gyrraedd y targed y mae wedi ei osod i'w hun. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r GIG yng Nghymru wedi methu â chyrraedd ei thargedau. Nid bai ein staff GIG gweithgar ac ymroddedig yw hyn. Nid wyf yn beirniadu'r GIG yng Nghymru. Ond rwy'n beirniadu'r modd y mae Llafur yn rhedeg y GIG, sydd wedi ei atal rhag cyrraedd ei botensial llawn.

Gadewch i mi roi enghraifft: amseroedd ymateb ambiwlansys. Ym mis Rhagfyr y llynedd, ymatebodd llai o ambiwlansys yng Nghymru yn brydlon i alwadau brys nag erioed o'r blaen. Targed Llywodraeth Cymru yw i 65% o'r ymatebion cyntaf i alwadau categori A gyrraedd o fewn wyth munud. Ym mis Rhagfyr, cyrhaeddodd llai na 43% o ambiwlansys y targed hwn ledled Cymru. Yn ardal bwrdd iechyd Aneurin Bevan, roedd y ffigur hyd yn oed yn waeth. Rwy'n croesawu'r gwelliannau a welwyd yn y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd heddiw. Fodd bynnag, erys y ffaith fod llai na 45% o'r ymatebion ambiwlans i alwadau brys yn ardal bwrdd iechyd Aneurin Bevan wedi gwneud hynny o fewn yr amser targed. Ddirprwy Lywydd, mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru.

Nid ymddangos yn ddiweddar y mae'r ffigur ofnadwy hwn wedi ei wneud. Yn wir, unwaith yn unig y cyrhaeddwyd targed Llywodraeth Cymru yn ystod y ddwy flynedd a hanner diwethaf. Mae hi bron yn ddwy flynedd a hanner ers cyhoeddi adolygiad McClelland o'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru. Nododd yr adolygiad fod yna broblemau sylfaenol gyda'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru a bod problemau yn ei berthynas â phartneriaid. Tynnodd sylw at broblemau sylfaenol roedd angen mynd i'r afael â hwy os oedd y gwasanaeth i gyrraedd ei nodau a'i amcanion, a gwnaeth nifer o argymhellion. Yn ei ymateb, cyhoeddodd y Gweinidog nifer o newidiadau. Ym mis Mai 2013, dywedodd—ac rwy'n dyfynnu ei eiriau ef,

'bydd swyddogion yn gweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans a rhannau eraill o'r GIG i ddatblygu cyfres newydd o ddangosyddion sy'n rhoi cyfres ddeallus o dargedau a safonau sydd wedi'u llywio'n glinigol.'

Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd y byddai rhai mesurau newydd yn cael eu trialu o fis Ebrill 2014. Ym mis Tachwedd y llynedd, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd fod y targed yn dal i gael ei ddatblygu a'i fod yn disgwyl rhywbeth—yn ei eiriau ef—mwy synhwyrol i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Mae nifer o'r argymhellion yn parhau heb gael eu gweithredu, Ddirprwy Lywydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Last month, the Minister said he wished the pace of implementation of the review could have been faster. Well, it certainly could not have been much slower. Labour has failed to get a grip on this problem and to tackle the problem of the Welsh ambulance services. No patient should have to suffer having to wait more than eight minutes for an ambulance to arrive in response to an emergency call.

Patients need to be seen promptly to maximise their chances of receiving successful treatment and making a full recovery. I repeat this, Deputy Presiding Officer: this is not the fault of hard-working and dedicated NHS staff; it is the fault of Welsh Labour Government. The provision of hastily released emergency funds is welcome, but it's no substitute for taking the action required to deliver long-term improvements to the service. The Welsh Government has set the targets. It must now act to ensure the target is met at the earliest opportunity in Wales. Thank you.

Y mis diwethaf, dywedodd y Gweinidog y byddai wedi dymuno i'r broses o weithredu'r adolygiad fod wedi bod yn gyflymach. Wel, yn sicr ni allai fod wedi bod yn llawer arafach. Mae Llafur wedi methu â rheoli'r broblem hon a mynd i'r afael â phroblem y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru. Ni ddylai unrhyw glaf orfod dioddef aros mwy nag wyth munud i ambiwlans gyrraedd mewn ymateb i alwad frys.

Mae angen i gleifion gael eu gweld yn brydlon i uchafu eu gobaith o gael eu trin yn llwyddiannus a gwella'n llwyr. Rwy'n ailadrodd hyn, Ddirprwy Lywydd: nid bai staff gweithgar ac ymroddedig y GIG yw hyn; bai Llywodraeth Lafur Cymru ydyw. Mae darparu arian brys yn rhywbeth i'r groesawu, ond nid yw'n cymryd lle'r angen i roi'r camau gofynnol ar waith i gyflawni gwelliannau hirdymor i'r gwasanaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y targedau. Rhaid iddi weithredu yn awr i sicrhau bod y targed yn cael ei gyflawni ar y cyfle cyntaf yng Nghymru. Diolch yn fawr.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:39 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. In responding to this debate on behalf of the Welsh Government, I'll briefly confirm how the Government will vote on the amendments. We'll support amendments 1 and 2, but if we do vote on them, we won't be supporting amendments 3 and 4. I note the comments made by Members, with varying degrees of venom and varying degrees of rationality, in today's debate.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Wrth ymateb i'r ddadl hon ar ran Llywodraeth Cymru, rwyf am gadarnhau'n gryno sut y bydd y Llywodraeth yn pleidleisio ar y gwelliannau. Byddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 2, ond os ydym yn pleidleisio arnynt, ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau 3 a 4. Nodaf y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau, gyda gwahanol raddau o wenwyn a gwahanol raddau o resymoledd yn y ddadl heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Despite all of the difficulty and all of the noise, the NHS in Wales continues to perform, despite experiencing periods of extreme pressure. Last year's Nuffield Trust report showed we could only broadly compare performance across the four home nations because of differences in the way data are collected and the way they're used. We're not closed to new ideas in Wales, and we are willing to learn from others, just as others look to Wales for innovation. For example, NHS England is learning from our pioneering mortality case note review process. We have regular and constructive conversations with the other devolved nations to share best practice in the health service, including how we might develop community pharmacy services.

Er gwaethaf yr holl anawsterau a'r holl sŵn, mae'r GIG yng Nghymru yn parhau i berfformio, er iddo brofi cyfnodau o bwysau eithafol. Dangosodd adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield y llynedd na allem ond cymharu'n fras y perfformiad ar draws y pedair gwlad oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y cesglir data a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio. Nid ydym yn cau'r drws ar syniadau newydd yng Nghymru, ac rydym yn barod i ddysgu gan eraill, yn union fel y mae eraill yn troi at Gymru am arloesedd. Er enghraifft, mae GIG Lloegr yn dysgu gwersi o'n proses arloesol o adolygu nodiadau achos marwolaeth. Rydym yn cael trafodaethau rheolaidd ac adeiladol gyda'r gwledydd datganoledig eraill er mwyn rhannu arfer gorau yn y gwasanaeth iechyd, gan gynnwys sut y gallem ddatblygu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol.

The NHS in Wales is performing better now than at any point before or after devolution. More people are being treated, and despite increasing demand for services, the latest figures show more people in Wales are being treated faster than ever before and they are living longer.

Mae'r GIG yng Nghymru yn perfformio yn well yn awr nag ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl datganoli. Mae mwy o bobl yn cael triniaeth, ac er gwaethaf y cynnydd yn y galw am wasanaethau, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod mwy o bobl yng Nghymru yn cael triniaeth yn gyflymach nag erioed o'r blaen ac maent yn byw yn hirach.

To pick up one of the points made in the opening contribution to this debate about waiting lists, we have, within this Assembly, for many years, debated the issues between waiting lists and waiting times, and, broadly, the size of the list means nothing. It is the access to treatment that is much more important, and the median wait for treatment here in Wales is 10 weeks. There is literally just a few days' difference between Wales and England. Since 1999, the number of people waiting a year for treatment has halved.

I fynd ar ôl un o'r pwyntiau a wnaed yn y cyfraniad agoriadol i'r ddaol hon ynglŷn â rhestrau aros, rydym wedi trafod problemau rhestrau aros ac amseroedd aros yn y Cynulliad hwn ers blynyddoedd lawer, ac yn fras, nid yw maint y rhestr yn golygu dim. Mae mynediad at driniaeth yn llawer pwysicach, ac mae cyfartaledd yr amser aros am driniaeth yma yng Nghymru yn 10 wythnos. Yn llythrennol, ychydig ddyddiau'n unig o wahaniaeth a geir rhwng Cymru a Lloegr. Ers 1999, mae nifer y bobl sy'n aros blwyddyn am driniaeth wedi haneru.

16:41 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:41 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The number of NHS clinical staff has increased by a third. Cancer survival rates have continued to improve.

Mae traean yn fwy o staff clinigol yn y GIG. Mae cyfraddau goresi cancer wedi parhau i wella.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar rose—*

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister's not taking an intervention. Sit down.

Nid yw'r Gweinidog yn cymryd ymyriad. Eisteddwch.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:41 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There has been a 25% reduction in mortality, in people under the age of 75, and a 20% improvement in the number of people still alive five years after diagnosis. Since 2004, the number of delayed transfers of care has reduced by 58%. Vaccination rates have improved. Uptake of the MMR jab in two-year-old children in Wales is now at its highest ever level.

Cafwyd gostyngiad o 25% yng nghyfraddau marwolaeth pobl o dan 75 oed a gwelliant o 20% yn nifer y bobl sy'n dal yn fyw bum mlynedd ar ôl diagnosis. Ers 2004, mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gostwng 58%. Mae cyfraddau brechu wedi gwella. Mae nifer y plant dwy oed yng Nghymru sy'n cael brechiad MMR bellach ar ei lefel uchaf erioed.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In debates like this, as we have heard, sadly, there is a tendency to only focus on those things that the NHS isn't achieving, those targets that are not being met, while ignoring all of the good work that goes on every day in the Welsh health service, and all those targets that are being delivered. More people are being seen every day and living longer, thanks to the expertise and excellence of NHS staff. Our health service does a remarkable job in providing excellent standards of care free at the point of need, and we take that for granted at our peril.

Fel y clywsom, mewn dadleuon fel hyn, yn anffodus mae tuedd i ganolbwyntio'n unig ar y pethau nad yw'r GIG yn eu cyflawni, y targedau nad ydynt yn cael eu cyrraedd, ond anwybyddwyd yr holl waith da sy'n digwydd bob dydd yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a'r holl dargedau sy'n cael eu cyrraedd. Mae mwy o bobl yn cael eu gweld bob dydd ac yn byw yn hirach, diolch i arbenigedd a rhagoriaeth staff y GIG. Mae ein gwasanaeth iechyd yn gwneud gwaith rhyfeddol yn darparu safonau rhagorol o ofal am ddim lle y mae ei angen, a gwae i ni gymryd hynny'n ganiataol.

Of all of the points made about funding in today's debate, I always struggle when Conservatives get to their feet and complain about cuts to public services. The vision set out by the United Kingdom Conservative-led Government is to dramatically reduce public spending to levels unseen since the 1930s.

O'r holl bwyntiau a wnaed am gyllid yn y ddaol heddiw, rwyf bob amser yn cael trafferth pan fydd Ceidwadwyr yn codi ar eu traed i gwyno am y toriadau i wasanaethau cyhoeddus. Gweledigaeth Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig yw lleihau gwariant cyhoeddus yn sylweddol i lefelau nas gwelwyd ers y 1930au.

The reality is that if the Conservatives are able to implement their vision for public expenditure across the UK, not just the NHS but every single public service here in Wales will look dramatically different and be dramatically reduced. To say now that the Conservatives are the saviours of the NHS and public services simply does not match up to reality.

Os yw'r Ceidwadwyr yn gallu gweithredu eu gweledigaeth ar gyfer gwariant cyhoeddus ar draws y DU, y realiti yw y bydd nid yn unig y GIG, ond pob gwasanaeth cyhoeddus unigol yma yng Nghymru yn edrych yn wahanol iawn ac yn cael ei leihau'n ddramatig. Yn syml iawn, nid yw dweud yn awr mai'r Ceidwadwyr yw achubwyr y GIG a gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i realiti.

I also need to deal with the points raised here about the way in which attacks are made on the NHS, but nothing should be read into this about staff morale or the praise that should be made for NHS staff. When people talk about a war on Wales, when people talk about the Prime Minister's comments about the line of death being Offa's Dyke, nobody should pretend that this does not have a significant impact on staff who run and deliver health services. You need not take my word for it. Only today, the Royal College of Nurses have said the Prime Minister's comments degrade the service in Wales, and they deplore the comments of the Prime Minister. This is not simply a matter between different political parties.

Mae angen i mi ymdrin hefyd â'r pwyntiau a grybwyllwyd yma ynglŷn â'r ffordd y ceir ymosodiadau ar y GIG, ond nid yw hynny'n awgrymu dim am forâl staff na'r clod y dylid ei roi i staff y GIG. Pan fydd pobl yn siarad am ryfel yn erbyn Cymru, pan fydd pobl yn siarad am sylwadau'r Prif Weinidog am Glawdd Offa fel llinell marwolaeth, ni ddylai neb esgus nad yw hyn yn cael effaith sylweddol ar staff sy'n rhedeg ac yn darparu gwasanaethau iechyd. Nid oes angen ichi gymryd fy ngair i am hynny. Heddiw'n unig, dywedodd Coleg Brenhinol y Nyrsys fod sylwadau'r Prif Weinidog yn diraddio'r gwasanaeth yng Nghymru, ac maent yn gresynu at ei sylwadau. Nid mater syml rhwng gwahanol bleidiau gwleidyddol yw hyn.

16:44 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:44 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No. Despite a threefold increase in the number of people being referred for cancer treatment in Wales, performance against both the 31-day and the 62-day targets has improved significantly. We've also seen improvement in a number of other key areas, including increased flu vaccination rates, reductions in the numbers of children under five who are classed as obese, reductions in mortality rates, and reductions in the number of hospital infections. We have also seen improved access to stroke care and mental health services.

Na wnaif. Er gwaethaf cynnydd triphlyg yn nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio am driniaeth canser yng Nghymru, mae perfformiad yn erbyn y targedau 31 diwrnod a 62 diwrnod wedi gwella'n sylweddol. Rydym hefyd wedi gweld gwelliannau mewn nifer o feysydd allweddol eraill, gan gynnwys cyfraddau brechu rhag y fflui, gostyngiadau yn nifer y plant dan bump oed sy'n cael eu hystyried yn ordew, gostyngiadau yng nghyfraddau marwolaeth, a gostyngiadau yn nifer yr heintiau mewn ysbytai. Rydym hefyd wedi gweld gwell mynediad at ofal strôc a gwasanaethau iechyd meddwl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There is, of course, more that the NHS can do and should do to improve performance. However, to imply that performance in the NHS in Wales is somehow uniquely poor is to deliberately misrepresent not just a picture of health in Wales, but also the situation in other healthcare systems in the UK.

Wrth gwrs, mae mwy y gall y GIG ei wneud ac y dylai ei wneud i wella perfformiad. Fodd bynnag, mae awgrymu bod perfformiad y GIG yng Nghymru yn unigryw o wael yn rhoi camargraff bwriadol nid yn unig o'r darlun iechyd yng Nghymru, ond hefyd o'r sefyllfa mewn systemau gofal iechyd eraill yn y DU.

The pressures being felt here in some parts of the Welsh NHS are also being experienced in other parts of the UK. We know that ambulance services across the UK have struggled to meet category-A response time targets in winter months. The four-hour target has not been met in A&E departments in England or Wales. England has not achieved its cancer waiting time targets for the last year. The picture is less clear in Scotland, as referral-to-treatment times as reported are not complete. We do know, however, that the Nuffield Trust's four nation report last year concluded that no one country consistently lags behind or outperforms another, once relative starting points are taken account of. It sums up the position by saying:

Mae'r pwysau sy'n cael ei deimlo yma mewn rhai rhannau o'r GIG yng Nghymru hefyd yn cael ei brofi mewn rhannau eraill o'r DU. Gwyddom fod gwasanaethau ambiwlans ar draws y DU wedi cael trafferth i gwrdd â thargedau amser ymateb categori A yn ystod misoedd y gaeaf. Nid yw'r targed pedair awr wedi cael ei gyrraedd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru na Lloegr. Ni chyrrhaeddodd Lloegr ei thargedau amseroedd aros ar gyfer canser y llynedd. Mae'r darlun yn llai clir yn yr Alban, gan nad yw amseroedd atgyfeirio i driniaeth yn gyflawn fel y cânt eu hadrodd. Rydym yn gwybod, fodd bynnag, fod adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield ar y pedair gwlad y llynedd wedi dod i'r casgliad nad oes un wlad yn gyson ar ei hôl hi neu'n perfformio'n well na'r lleill, ar ôl ystyried manau cychwyn cymharol. Mae'n crynhoi'r sefyllfa drwy ddweud:

'A foreigner would be much more struck by the similarities than the differences.'

'Byddai estronwr yn cael ei synnu lawer mwy gan y tebygrwydd na chan y gwahaniaethau.'

So, the Government is taking a serious view about how we improve performance. We're evaluating the latest versions of health boards' medium-term plans, which will be key to improving delivery. Those finalised plans will be received by the Government at the end of March. I am also looking at what more we can do and will do to improve health board accountability where they are not meeting the required levels of performance.

While we continue to challenge the NHS to deliver national targets, we know that driving process targets does not always lead to improved patient outcomes, which has to be our focus. It goes to some of the points made by Aled Roberts and others in today's debate.

From April, a new NHS outcomes framework will be introduced. This has been developed with the engagement of the public, clinicians and key stakeholders. This is the first step towards measurement-based outcomes at both a population and a patient level. We're also working with cancer, emergency and planned care clinicians to identify possible alternative quality outcome-based measures.

Some patients don't get the service they deserve or we expect, but the overwhelming majority do. The last national survey for Wales results are very encouraging and show that about nine in 10 people are very satisfied with their healthcare, as Keith Davies correctly pointed out in his contribution.

We will, however, support the original motion, as we believe the NHS needs to be relentless in striving for the best possible services, which are high-quality, timely and meet the health needs of the population of Wales.

Felly, mae'r Llywodraeth yn edrych o ddirif ar sut i wella perfformiad. Rydym yn gwerthuso'r fersiynau diweddaraf o gynlluniau tymor canolig byrddau iechyd, a fydd yn allweddol i wella'r ddarpariaeth. Bydd y cynlluniau terfynol hynny yn cael eu derbyn gan y Llywodraeth ar ddiwedd mis Mawrth. Rwyf hefyd yn edrych i weld beth arall y gallwn ei wneud ac y byddwn yn ei wneud i wella atebolrwydd byrddau iechyd lle nad ydynt yn cyrraedd y lefelau perfformiad sy'n ofynnol.

Er ein bod yn parhau i herio'r GIG i gyrraedd targedau cenedlaethol, gwyddom nad yw ysgogi targedau proses bob amser yn arwain at well canlyniadau i gleifion, a rhaid i ni ganolbwyntio ar y rheini. Mae'n ymwneud â rhai o'r pwyntiau a wnaed gan Aled Roberts ac eraill yn y ddatlled hddiw.

O fis Ebrill, bydd fframwaith canlyniadau newydd y GIG yn cael ei gyflwyno. Cafodd ei ddatblygu drwy ymgysylltiad â'r cyhoedd, clinigwyr a rhanddeiliaid allweddol. Dyma'r cam cyntaf tuag at ganlyniadau sy'n seiliedig ar fesuriadau ar lefel poblogaeth a lefel y claf. Rydym hefyd yn gweithio gyda chlinigwyr gofal canser, gofal brys a gofal wedi'i gynllunio er mwyn nodi mesuriadau posibl sy'n seiliedig ar ganlyniadau ansawdd amgen.

Nid yw rhai cleifion yn cael y gwasanaeth y maent yn ei haeddu neu'r gwasanaeth rydym yn ei ddisgwyl, ond mae'r mwyafrif llethol yn ei gael. Mae canlyniadau'r arolwg cenedlaethol diwethaf ar gyfer Cymru yn galonogol iawn ac yn dangos bod tua naw o bob 10 o bobl yn fodlon iawn â'u gofal iechyd, fel y nododd Keith Davies yn briodol yn ei gyfraniad.

Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi'r cynnig gwreiddiol, gan y credwn fod angen i'r GIG fod yn benderfynol wrth ymdrechu i gael y gwasanaethau gorau posibl, sydd o ansawdd uchel, yn amserol ac yn diwallu anghenion iechyd poblogaeth Cymru.

16:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Andrew R.T. Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Andrew RT Davies i ymateb i'r ddatlled.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank everyone who has contributed to the debate today. I welcome the Government's acceptance of the motion before the Assembly today, and I look forward to them, obviously, enacting what the motion is calling on the Welsh Government to do, which is to get a grip on NHS targets and to start delivering for the many people who find themselves on those waiting lists.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddatlled hddiw. Rwy'n falch fod y Llywodraeth yn derbyn y cynnig sydd gerbron y Cynulliad hddiw, ac yn amlwg, edrychaf ymlaen at eu gweld yn deddfu ar yr hyn y mae'r cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud, sef cael rheolaeth ar dargedau GIG a dechrau cyflawni dros yr holl bobl sydd ar y rhestrau aros.

As outlined by Darren Millar in his opening remarks, one in seven people in Wales now find themselves on a waiting list or, to put it more bluntly, 420,000 people are stuck on a waiting list. When the current First Minister came into office, it was 187,000. I can see the Deputy Minister chirping away there. Stuck. Well, if you're sitting on a waiting list for in excess of 36 weeks, or maybe 52 weeks, you do feel as if you are stuck on that waiting list, dealing with the pain and dealing with the anguish that that wait has locked you in to, Deputy Minister.

Fel yr amlinellodd Darren Millar yn ei sylwadau agoriadol, mae un o bob saith o bobl yng Nghymru bellach ar restr aros neu o'i roi'n fwy plaen, mae 420,000 o bobl yn sownd ar restr aros. Pan ddaeth y Prif Weinidog presennol i'w swydd, roedd yn 187,000. Gallaf weld y Dirprwy Weinidog yn pyncio. Yn sownd. Wel, os ydych ar restr aros am fwy na 36 wythnos, neu efallai 52 wythnos, fe fyddwch yn teimlo fel pe baech yn sownd ar y rhestr aros, yn delio â'r boen ac yn delio â'r gofid y mae'r aros yn ei orfodi arnoch, Ddirprwy Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is quite right, as has been put by many people around this Chamber—in fact, all speakers, in fairness—to pay tribute to the dedication and hard work of all the staff within the NHS and the work that they undertake in very challenging circumstances very often to fulfil what, in most instances, is a vocational calling into medicine to achieve the best for the people who are in their care.

But, I do find it remarkable that the Deputy Minister talks about the Royal College of Nursing's English general secretary's remarks today, when it was only two weeks ago that the First Minister here was lambasting the staff at Glan Clwyd over the maternity closures. I quote his direct words:

'those medical staff need to look to themselves in terms of the way they have worked with each other',

when he was blaming them for the closure and the loss of the service in Glan Clwyd. So, it is a bit rich for the Deputy Minister to quote an English general secretary's remarks that appear in the paper today. It is also a bit rich for the Deputy Minister to talk today about a war on Wales, when his fellow backbench Member Keith Davies and himself, from the same Labour group, have used statistics to try and denigrate the English NHS and the performance of the English NHS. Is that a war on England, Deputy Minister? Is that a war on England? And I challenge—I'm quite happy, because I've got the confidence to take an intervention, unlike the Deputy Minister—and I am quite happy to ask the Deputy Minister: does he regret the term that was used by Ed Miliband when he said he wanted to 'weaponise' the NHS in the current general election campaign? Do you want to disassociate yourself from those remarks, Deputy Minister? I'll quite happily take the intervention if you wish to, and I would invite you to say whether you've written to your leader at Westminster to ask him to clarify his position on that remark. Do you want to make an intervention? No, sadly not.

So, it is the typical hypocrisy that we hear from the Labour Party, time and time again, when it comes to the NHS here in Wales. It is a fact—it is a fact—that has been pointed out by colleagues behind me here that there are many people, whether it be with ambulance times, whether it be with maternity, whether it be with cancer or whether it be with orthopaedic, finding themselves on increasingly long waiting times. If we look at the figures about people starting hospital procedures, in Wales, 21,000 people are waiting on a waiting list to start a hospital procedure. In England, with a population 15 times greater—15 times greater—than Wales, the figure is 15,000 people. If we look at A&E response times for 12 hours or more, there are 3,051 people waiting 12 hours or more to be seen in Welsh A&E departments. In England, that figure—albeit it is gauged differently, because it's done on a weekly basis, but if you cumulatively put four weeks together—

*David Rees a gododd—*

Fel sydd wedi cael ei ddweud gan lawer o bobl yn y Siambr hon—gan bob siaradwr a bod yn deg—mae'n hollol iawn inni roi teyrnged i ymroddiad a gwaith caled holl staff y GIG a'r gwaith y maent yn ei wneud mewn amgylchiadau heriol iawn yn aml iawn i gyflawni'r hyn sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn alwedigaeth i'r maes meddygol er mwyn sicrhau'r gorau i'r bobl yn eu gofal.

Ond rwy'n ei hystyried yn rhyfeddol fod y Dirprwy Weinidog yn siarad am sylwadau ysgrifennydd cyffredinol Lloegr y Coleg Nyrsio Brenhinol heddiw, a phythefnos yn ôl yn unig roedd y Prif Weinidog yma'n lladd ar y staff yng Nglan Clwyd ynglŷn â chau gwasanaethau mamolaeth. Dyfynnaf ei union eiriau:

'mae angen i'r staff meddygol hynny edrych ar eu hunain o ran y ffordd maen nhw wedi gweithio gyda'i gilydd',

pan oedd yn eu beio am y cau a cholli'r gwasanaeth yng Nglan Clwyd. Felly, mae'n haerllug braidd i'r Dirprwy Weinidog ddyfynnu sylwadau'r ysgrifennydd cyffredinol y Lloegr sy'n ymddangos yn y papur heddiw. Hefyd, mae'r Dirprwy Weinidog braidd yn haerllug yn siarad heddiw am ryfel yn erbyn Cymru, pan fo'i gyd-Aelod ar y meinciau cefn, Keith Davies ac ef ei hun, o'r un grŵp Llafur, wedi defnyddio ystadegau i geisio dirmygu GIG Lloegr a pherfformiad GIG Lloegr. Ai rhyfel yn erbyn Lloegr yw hynny, Ddirprwy Weinidog? Ac rwy'n herio—rwy'n ddigon hapus am fod gennyf hyder i gymryd ymyriad, yn wahanol i'r Dirprwy Weinidog—ac rwy'n ddigon bodlon i ofyn i'r Dirprwy Weinidog: a yw'n gresynu'r term a ddefnyddiwyd gan Ed Miliband pan ddywedodd ei fod eisiau 'arfogi' y GIG yn yr ymgyrch gyfredol ar gyfer yr etholiad cyffredinol? A ydych eisiau datgysylltu eich hun oddi wrth y sylwadau hynny, Ddirprwy Weinidog? Rwy'n ddigon hapus i gymryd yr ymyriad os ydych yn dymuno, a byddwn yn eich gwahodd i ddweud a ydych wedi ysgrifennu at eich arweinydd yn San Steffan i ofyn iddo egluro ei safbwynt ar y sylw hwnnw. A ydych am ymyrryd? Nac ydych, yn anffodus.

Felly, dyma'r rhagrith nodweddiadol a glywn gan y Blaid Lafur, dro ar ôl tro, ynglŷn â'r GIG yma yng Nghymru. Mae'n ffaith—mae'n ffaith—a nodwyd gan gyd-Aelodau y tu ôl i mi yma fod llawer o bobl, boed yng nghyd-destun amseroedd ambiwlansys, boed yng nghyd-destun mamolaeth, naill ai yng nghyd-destun cancer neu mewn cyd-destun orthopedig yn wynebu amseroedd aros cynyddol. Os edrychwn ar y ffigurau am bobl sy'n dechrau ar weithdrefnau ysbyty yng Nghymru, mae 21,000 o bobl yn aros ar restr aros i ddechrau gweithdrefn ysbyty. Yn Lloegr, gyda phoblogaeth 15 gwaith yn fwy—15 gwaith yn fwy—na Chymru, mae'r ffigur yn 15,000 o bobl. Os edrychwn ar amseroedd ymateb adrannau damweiniau ac achosion brys sy'n 12 awr neu'n hwy, mae 3,051 o bobl yn aros 12 awr neu'n hwy i gael eu gweld mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru. Yn Lloegr, mae'r ffigur hwnnw—er ei fod yn cael ei fesur yn wahanol am ei fod yn cael ei wneud yn wythnosol, ond os rhoch bedair wythnos gyda'i gilydd—

*David Rees rose—*

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll take the intervention in a minute. If you put the four weeks together, 526 people are waiting on that same timeline of 12 hours or more, in a population that is 15 times greater than the population of Wales. I'll take the intervention.

Fe gymeraf yr ymyriad mewn munud. Os rhowch bedair wythnos gyda'i gilydd, mae 526 o bobl yn aros ar yr un llinell amser o 12 awr neu'n hwy, mewn poblogaeth sydd 15 gwaith yn fwy na phoblogaeth Cymru. Cymeraf yr ymyriad.

16:52 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. I heard you saying, you've tweeted it and you keep mentioning, and Darren Millar nearly said it, 'to be seen'. The times are not 'to be seen', are they? They are time spent in an A&E department. I will actually confirm it, because when I was in an A&E department I was actually required to stay there for medical purposes to ensure that I had passed the period of time in which the condition I had would not have any further effect if I left the hospital. So, it is not 'to be seen'; it is actually to be looked at clinically.

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Fe glywais i chi'n dweud, ac rydych chi wedi ei drydar ac yn parhau i'w grybwyll, a bu bron i Darren Millar ei ddweud, 'i gael eu gweld'. Nid amseroedd 'i gael eu gweld' ydynt, oni chytunwch? Amser a dreuliyd mewn adran damweiniau ac achosion brys ydyw. Rwy'n cadarnhau hynny, oherwydd pan oeddwn i mewn adran damweiniau ac achosion brys roedd yn ofynnol i mi aros yno at ddibenion meddygol er mwyn sicrhau nod cyfnod o amser wedi mynd heibio pan na fyddai'r cyflwr a oedd arnaf yn cael unrhyw effaith pellach pe bawn yn gadael yr ysbyty. Felly, nid 'i gael eu gweld' ydyw; 'i glinigydd eu gweld' yw'r ystyr mewn gwirionedd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:52 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll take that point, but the quotes I'm giving you are like-for-like comparisons. So, whether someone is stuck— [Interruption.] They are. Well, I can understand the Labour Party—

Rwy'n derbyn hynny, ond mae'r dyfyniadau rwy'n eu rhoi i chi ar gyfer cymariaethau tebyg am debyg. Felly, pa un a yw rhywun yn sownd—[Torri ar draws.] Dyna ydynt. Wel, gallaf ddeall bod y Blaid Lafur—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. You've got to listen to what he says, before you can disagree with it. So, you know, just listen. Leader of the opposition.

Trefn, trefn. Mae'n rhaid i chi wrando ar yr hyn y mae'n ei dweud cyn y gallwch anghytuno ag ef. Felly, wyddoch chi, gwrandewch. Arweinydd yr wrthblaid.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:52 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. That is part of the problem with the Labour Party: it is the arrogance with which they hold the people of Wales in contempt. You are not prepared to listen and learn, and that is why the Welsh NHS—. Sadly, many patients and clinicians are at their wits' end, because of the lack of direction and the lack of leadership that this Government and its predecessor Governments have given to meeting their own A&E, ambulance and other waiting times, which they themselves have put in place.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Dyna ran o'r broblem gyda'r Blaid Lafur: y dirmyg y maent yn ei ddangos tuag at bobl Cymru. Nid ydych yn barod i wrando a dysgu, a dyna pam y mae'r GIG yng Nghymru—. Yn anffodus, mae llawer o gleifion a chlinigwyr wedi cyrraedd pen eu tennyn oherwydd diffyg cyfeiriad a diffyg arweiniad y Llywodraeth hon a Llywodraethau blaenorol o ran cyrraedd y targedau amseroedd aros Damweiniau ac Achosion Brys, ambiwlans ac amseroedd aros eraill, a roddwyd ar waith ganddynt hwy eu hunain.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Now, the critical part that we must focus on is the debilitating role that waiting times do have, not just on the patients, not just on the clinicians, but on the delivery of the NHS. This was touched on in contributions from this side of the Chamber, with people having to go to GP surgeries—and I believe the Plaid Cymru health spokesperson touched on it. With the constant referrals to GP surgeries, with the bureaucracy around sending more letters out to create new appointments and managing those waiting times rather than dealing with the problems that people face—. That creates its own unique circumstances that, obviously, debilitate the service even more, because instead of doing the job that people go into the health service to perform, of putting people on the road to recovery, they are having to manage increasingly long waiting times. Ever since I've been in this Assembly, in particular around ambulance response times, there's been that continued debate, that continued discussion, and different Ministers in different shapes and forms have come to this Chamber for urgent questions, and yet, each time, Government has failed to get a grip on the issue.

So, I welcome the Government taking on board the motion today. I do hope that, rather than just paying lip service to this motion, we will see progress in the next three months —

Nawr, y rhan hanfodol y mae'n rhaid inni ganolbwyntio arno yw rôl wanychol amseroedd aros, nid i gleifion yn unig, nid i glinigwyr, ond o ran cyflawniad y GIG. Cafodd hyn ei grybwyll mewn cyfraniadau o'r ochr hon i'r Siambr, gyda phobl yn gorfod mynd i feddygfeydd meddygon teulu—ac rwy'n credu bod llefarydd iechyd Plaid Cymru wedi cyffwrdd ar hyn. Gyda'r atgyfeiriadau cyson i feddygfeydd meddygon teulu, gyda'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag anfon mwy o lythyrau allan er mwyn creu apwyntiadau newydd a rheoli'r amseroedd aros yn hytrach nag ymdrin â'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu—. Mae hynny'n creu ei amgylchiadau unigryw ei hun sy'n amlwg yn llesteirio'r gwasanaeth hyd yn oed yn fwy, oherwydd yn hytrach na gwneud y gwaith y mae pobl yn mynd i mewn i'r gwasanaeth iechyd i'w wneud, sef rhoi pobl ar y ffordd i adferiad, yn gynyddol, rhaid iddynt reoli amseroedd aros hir. Ers i mi fod yn y Cynulliad hwn, yn enwedig yng nghyswllt amseroedd ymateb ambiwlansys, mae'r ddaidl hon wedi parhau, mae'r drafodaeth wedi parhau, a gwahanol Weinidogion ar wahanol ffurfiau wedi dod i'r Siambr hon i ateb cwestiynau brys, ac eto, bob tro, mae'r Llywodraeth wedi methu â rheoli'r broblem.

Felly, rwy'n falch fod y Llywodraeth yn ystyried y cynnig heddiw. Yn hytrach na rhoi sylw arwynebol yn unig i'r cynnig hwn, rwy'n gobeithio y gwelwn gynydd dros y tri mis nesaf—

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Quickly now. Yn gyflym yn awr.

16:54 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
[Continues.]—in the next six months, because, ultimately, that is what we all wish for our NHS here in Wales. I thank everyone for contributing in what I believe has been a constructive and thought-provoking debate. [Yn parhau.]—yn y chwe mis nesaf, oherwydd yn y pen draw, dyna rydym i gyd yn ei ddymuno ar gyfer ein GIG yma yng Nghymru. Diolch i bawb am gyfrannu yn yr hyn y credaf iddi fod yn ddaidl adeiladol sy'n ysgogi'r meddwl.

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohirio y bleidlais dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.  
*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.* *Voting deferred until voting time.*

16:55 **6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Iechyd Meddwl** **6. Welsh Liberal Democrats Debate: Mental Health** **Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Item 6 is the Welsh Liberal Democrats' debate on mental health. I call on Eluned Parrott to move the motion.  
Cynnig NDM5702 Aled Roberts Motion NDM5702 Aled Roberts  
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru: To propose that the National Assembly for Wales:  
1. Yn nodi: 1. Notes that:  
a) bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif y bydd un o bob pedwar oedolyn ym Mhrydain yn profi problem iechyd meddwl o fewn unrhyw flwyddyn benodol; a) the Office for National Statistics estimates that one in four British adults will experience a mental health problem within any given year;

b) bod Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif y cynrychiolir 20% o'r 'baich afiechyd' yn y DU gan salwch meddwl ond mai dim ond 11% o wariant y GIG sy'n cael ei wario ar iechyd meddwl;

c) y gall problemau iechyd meddwl ryngweithio â chyflyrau eraill i waethygu les unigolyn ymhellach;

d) yn ôl y Prif Swyddog Meddygol y Deyrnas Unedig, fod tri chwarter o anhwylderau meddwl ymysg oedolion yn dod i'r amlwg erbyn iddynt droi'n 21 oed, ond nad yw tri chwarter o'r plant a'r bobl ifanc sydd â'r anhwylderau hyn wedi cael diagnosis neu gael eu trin;

e) bod Stats Cymru wedi dangos bod pobl ifanc o dan 18 oed yn cynrychioli 85% o'r boblogaeth a wnaeth aros mwy na 18 wythnos ym mis Rhagfyr 2014 rhwng cael eu hatgyfeirio a chael eu triniaeth gyntaf ar gyfer problemau iechyd meddwl;

f) y canfu gwaith ymchwil gan Mind na fyddai 1 o bob 3 o weithwyr yn y DU yn gallu siarad yn agored â'u rheolwyr llinell am straen.

2. Yn croesawu gwaith ardderchog y trydydd sector o ran codi ymwybyddiaeth o les iechyd meddwl.

3. Yn credu bod yn rhaid i fwy gael ei wneud i gefnogi pobl i ofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain.

4. Yn credu bod yn rhaid cael cydraddoldeb o ran y pwyslais a roddir ar iechyd meddwl a chorfforol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynnal astudiaeth i bennu pa gyllid ac adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl yng Nghymru er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran y pwyslais a roddir ar wasanaethau iechyd meddwl a chorfforol;

b) ehangu seiciatreg gyswllt yn y GIG i ddarparu cymorth gofal iechyd meddwl ar gyfer pobl sy'n cael eu trin ar gyfer problemau iechyd corfforol;

c) cynnig hyfforddiant cymorth iechyd meddwl a chyngor i bawb sy'n gweithio'n agos gyda phlant;

d) sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant newydd yn cael hyfforddiant cymorth iechyd meddwl sylfaenol fel rhan o'r statws athro cymwysedig;

e) sicrhau bod cyflogwyr yn sicrhau bod gweithleoedd yn cynnig amgylchedd sy'n ystyriol o iechyd meddwl.

*Cynigiwyd y cynnig.*

b) the World Health Organisation estimates that 20% of the 'burden of disease' in the UK is represented by mental illness but that mental health accounts for just 11% of NHS spending;

c) mental health problems can interact with other conditions to further worsen a person's wellbeing;

d) according to the UK Chief Medical Officer, three-quarters of adult mental disorders are in evidence by the age of 21, but three-quarters of children and young people with these disorders are not diagnosed or treated;

e) Stats Wales showed young people under the age of 18 accounted for 85% of the population waiting more than 18 weeks in December 2014 between referral and receiving first treatment for mental health problems;

f) research by Mind found that 1 in 3 workers in the UK wouldn't be able to talk openly with their line managers about stress.

2. Welcomes the excellent work of the third sector in raising awareness for mental health wellbeing.

3. Believes more must be done to support people to look after their own mental health.

4. Believes there must be a parity of emphasis between mental and physical health.

5. Calls on the Welsh Government to:

a) carry out a study to determine what additional funding and resources are required for mental health provision in Wales in order to ensure parity of emphasis between mental and physical health services;

b) expand liaison psychiatry in the NHS to provide mental healthcare support for people being treated with physical health problems;

c) offer mental health support training and advice to all those who work closely with children;

d) ensure all new student teachers receive basic mental health support training as part of the qualified teacher status;

e) ensure that employers make workplaces a mental health friendly environment.

*Motion moved.*

Diolch, Ddirprwy Lywydd. The subject of mental health and how we tackle issues such as stigma is one that is very close to my own heart, so I'm very proud to open our debate on the subject today. In my contribution, I want to reflect a little on the impact of stigma and delays in treatment on those who experience mental ill health and talk particularly about what we can do to improve the lives of children and young people with a mental health problem.

Talking about my own experiences of postnatal depression some three years ago was probably the most difficult speech I'll ever make, and I know that other Members who chose to come out to talk about their own mental health probably feel very similar emotions. The fear I felt in the lead-up to the debate was extraordinary and I worried that people would think less of me, professionally and personally, for admitting to what I obviously still at that time believed was a personal weakness. I genuinely thought I was going to destroy my career and damage my relationships at home. I was terribly worried about that. And exactly those emotions, all of those fears, go through the minds of thousands of people every single year when they have to tell an employer, or friends and family, that they have a mental health problem. It doesn't matter if you do it in public or in private, if you do it in your office or your home, talking about your mental health is difficult, because our society still thinks in terms of it being a weakness, and that is simply wrong.

I was going to say that I'm still the same person I was before I suffered from depression, but, actually, I no longer think that that is the case. I think I'm a stronger person as a result of that period of my life. I had to rebuild my life and reassess my priorities. I definitely became a more empathetic person. I'm more emotionally aware and I think that my decision to go into politics was due to that reassessment process. At the end of the day, I truly believe that I am stronger than I was as a result of what happened then.

But, that's the experience, of course, of someone who is lucky enough to recover from that illness. For so many other people, every single day is a fight to keep themselves moving forward. Every single day is a challenge. How much more of a challenge is it when we look at the world around us and wonder what other people are thinking about us because of who we are? We have to challenge those lazy presumptions about mental ill health, because the impact of stigma on people with a mental health issue is devastating.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae pwnc iechyd meddwl a sut rydym yn mynd i'r afael â materion fel stigma yn un sy'n agos iawn at fy nghalon, felly rwy'n falch iawn i agor ein dadl ar y pwnc heddiw. Yn fy nghyfraniad, hoffwn fyfyrrio ychydig ar effaith stigma ac oedi cyn rhoi triniaeth ar y rhai sy'n dioddef salwch meddwl a siarad yn benodol am yr hyn y gallwn ei wneud i wella bywydau plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'n debyg mai siarad am fy mhrofiadau fy hun o iselder ôl-enedigol tua thair blynedd yn ôl oedd yr araith anoddaf a wnaif byth, a thbybiaf fod Aelodau eraill a ddeuwodd siarad yn agored am eu hiechyd meddwl eu hunain yn teimlo emosiynau tebyg iawn. Roedd yr ofn a deimlwn yn y cyfnod cyn y ddadl yn eithriadol ac roeddwn yn poeni y byddai pobl yn meddwl llai ohonof, yn broffesiynol ac yn bersonol, am gyfaddef rhywbeth roeddwn yn amlwg yn dal i gredu ar y pryd ei fod yn wendid personol. Roeddwn i'n credu'n wirioneddol fy mod yn mynd i ddiinstrio fy ngyrfa a niweidio fy mherthynas â fy nheulu. Roeddwn yn poeni'n ofnadwy am hynny. Ac mae'r union emosiynau hynny, pob un o'r ofnau hynny, yn mynd drwy feddyliau miloedd o bobl bob blwyddyn pan fydd yn rhaid iddynt ddweud wrth gyflogwr, neu ffrindiau a theulu, fod ganddynt broblem iechyd meddwl. Pa un a fyddwch yn ei wneud yn gyhoeddus neu'n breifat, yn eich swyddfa neu yn eich cartref, mae siarad am eich iechyd meddwl yn anodd am fod ein cymdeithas yn dal i feddwl amdano fel gwendid, ac mae hynny'n gwbl anghywir.

Roeddwn yn mynd i ddweud mai'r un person ydw i â chyn i mi dioddef o iselder, ond mewn gwirionedd, ni chredaf fod hynny'n wir bellach. Rwy'n credu fy mod yn berson cryfach o ganlyniad i'r cyfnod hwnnw yn fy mywyd. Bu'n rhaid i mi ailadeiladu fy mywyd ac ailasesu fy mlaenoriaethau. Yn bendant, deuthum yn berson mwy empathetig. Rwy'n fwy ymwybodol yn emosiynol a chredaf fod fy mhenderfyniad i fynd i fyd gwleidyddiaeth yn deillio o'r broses ailasesu honno. Yn y pen draw, rwy'n credu o ddirif fy mod yn gryfach na'r hyn oeddwn i o ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd bryd hynny.

Ond wrth gwrs, dyna brofiad rhywun sy'n ddigon ffodus i wella o'r salwch. I gymaint o bobl eraill, mae pob dydd yn frwydr i ddal i symud. Mae pob un dydd yn her. Faint yn fwy o her yw hi pan edrychwn ar y byd o'n cwmpas a meddwl tybed beth y mae pobl eraill yn ei feddwl ohonom oherwydd pwy ydym ni? Mae'n rhaid i ni herio rhagdybiaethau diog o'r fath ynghylch salwch meddwl, oherwydd mae effaith stigma ar bobl â phroblem iechyd meddwl yn ddiinstriol.

The fear of being judged stops people from seeking help when they need it. It actively makes people feel worse every moment of every day, and if, like me, you try to hide it from the world, the fear of being found out is terrifying. Stigma magnifies and irritates a disease that is, frankly, painful enough already, and it is time that that stopped. I really do have to pay tribute to the Time to Change campaign from Gofal, Hafal and Mind Cymru for giving me the support and confidence I needed to talk about my own experiences and for encouraging the hundreds of other people who've come forward to do exactly that as well. Because if one in four adults will experience a mental health problem in any given year, we are the norm. We are not the exception and it's about time we were treated accordingly.

Turning to the way in which we support children and young people who experience mental ill health, I think we have to note that what is frightening for an adult to face can be truly bewildering for a child and we need to think about how we can create a supportive environment for children and young people in their homes and in their schools, in every part of their life. Creating that supportive environment must surely begin with a timely diagnosis, identifying those young people who are most at risk. The UK chief medical officer estimates that three quarters of children and young people with mental ill health do not actually have their illness diagnosed at a young age—three quarters. Compare that with the three quarters of adults with a mental health problem who are diagnosed by the age of 21. Early diagnosis is absolutely key to helping treat mental health problems so that they don't persist to be a lifelong disadvantage. With three quarters of young people and children not being diagnosed at an early age is really troubling to me.

Particularly concerning are issues that I've raced before about the breakdown in communication between educational psychology departments and child and adolescent mental health departments, where children seem to be being passed from one team to another over a period of years. A diagnosis for some complex cases is subsequently taking some five years to come through. That's five years without treatment, five years without learning strategies, and five years without the appropriate support that that child needs to succeed in their life.

Mae ofn cael eu barnu yn atal pobl rhag gofyn am gymorth pan fydd ei angen arnynt. Mae'n gwneud i bobl deimlo'n waeth bob eiliad o bob dydd, ac os ydych chi'n ceisio cuddio rhag y byd, fel y gwnawn i, mae'r ofn y cewch eich darganfod yn frawychus. Mae stigma yn chwyddo ac yn lldio clefyd sy'n ddigon poenus yn barod, a bod yn berffaith onest, ac mae'n bryd i hynny ddod i ben. Mae'n rhaid i mi roi teyrnged i'r ymgyrch Amser i Newid gan Gofal, Hafal a Mind Cymru am roi'r gefnogaeth a'r hyder oedd eu hangen arnaf i siarad am fy mhrofiadau fy hun ac am annog y cannoedd o bobl eraill sydd wedi gwneud hynny hefyd. Oherwydd os oes un o bob pedwar oedolyn yn cael problem iechyd meddwl mewn unrhyw flwyddyn benodol, ni yw'r norm. Nid eithriadau ydym ni ac mae'n hen bryd i ni gael ein trin yn unol â hynny.

Gan droi at y ffordd rydym yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi salwch meddwl, rwy'n credu bod yn rhaid i ni nodi bod yr hyn sy'n frawychus i oedolyn ei wynebu yn gallu bod yn wirioneddol ddryslyd i blentyn ac mae angen i ni feddwl ynglŷn â sut y gallwn greu amgylchedd cefnogol ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu cartrefi a'u hysgolion, ym mhob rhan o'u bywydau. Yn sicr, rhaid i greu amgylchedd cefnogol o'r fath ddechrau gyda diagnosis amserol, er mwyn clustnodi'r bobl ifanc sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Mae prif swyddog meddygol y DU yn amcangyfrif nad yw tri chwarter y plant a'r bobl ifanc sy'n dioddef o salwch meddwl yn cael eu diagnosis ar oedran ifanc—tri chwarter. Cymharwch hynny â thri chwarter yr oedolion â phroblem iechyd meddwl sy'n cael diagnosis erbyn eu bod yn 21 oed. Mae diagnosis cynnar yn gwbl allweddol i helpu'r broses o drin problemau iechyd meddwl fel nad ydynt yn parhau i fod yn anfantais gydol oes. Mae'r ffaith nad yw tri chwarter y bobl ifanc a phlant yn cael diagnosis ar oedran ifanc yn peri pryder gwirioneddol i mi.

Yr hyn sy'n peri pryder arbennig yw'r materion hynny a wyntyllais o'r blaen ynghylch diffyg cyfathrebu rhwng adrannau seicoleg addysgol ac adrannau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, lle y mae plant i'w gweld yn cael eu pasio o un tîm i'r llall dros gyfnod o flynyddoedd. Mae'n cymryd tua phum mlynedd i ddiagnosis ddod drwedd ar gyfer rhai achosion cymhleth. Dyna bum mlynedd heb driniaeth, pum mlynedd heb strategaethau dysgu, a phum mlynedd heb y gefnogaeth briodol sydd ei hangen ar y plentyn i lwyddo yn ei fywyd.

Equally troubling to hear, though, are some of the statistics that have come out of the NHS for young people seeking treatment for mental ill health, from being referred to treatment to actually beginning treatment. The figures for December last year show that, of all those waiting 18 weeks to actually begin their course of treatment, young people and children made up 85% of that number, and of those, almost 45% were waiting more than 40 weeks. The impact of this delay is doubly damaging for a child, because not only does it attack their self-esteem, their confidence and their ability to build relationships, but it also prevents them in many cases from actively engaging in their education, leading to them falling behind their peers and then a vicious cycle of depression and anxiety relating to school and educational outcomes, being reinforced by the educational outcomes not being what they ought to have achieved. In one case in my own region, I supported a family where the child had not attended a single day of school for four months in his critical first year of comprehensive, because the child was far too anxious to cross the threshold. He was crying and screaming in the hallway of the school, and the parents were left unsupported in having to deal with that traumatic circumstance. The delay has given these children a lifelong disadvantage, emotionally and educationally, and that is why we need to make it a priority as we move forward.

I also think that we need meaningful research to help shape the services and assess the progress that we are making against the targets that we have already set through strategies like 'Together for Mental Health'. We need to make sure that the measurements that we are using to judge those outcomes are robust enough to be taken seriously and to inform the way in which we must use our investment in the future. For example, one example that I was given is that for the traffic-light measurement scheme that is being used to assess 'Together for Mental Health', one local health board had given itself a green light for setting up a working group to talk about improving the waiting times, and that was an assessment of whether or not progress had been made in improving waiting times. I think you'll agree that that is not a green light. We have to challenge our local health boards to make sure that they are demonstrating meaningful change before they tick those boxes, because this is not about ticking boxes; this is about changing people's lives.

More generally, though, in Wales we have a worrying paucity of research into child mental health. We're the only country in Britain that has not conducted a prevalence study of self-harming behaviours in children and young people. That is something we absolutely must do. I was very glad to speak earlier this month at a conference set up by the DECIPHer network, which is a new research network between the Great Western Four universities, looking at the prevalence of suicide and self-harm in children and young people. The network is hoping to plug some of those gaps in knowledge, and we desperately need that. There is evidence that self-harm is seriously under-reported. There is evidence that self-harm behaviours, whether they be obvious self-harm, such as deliberately injuring oneself, or something perhaps more subtle, like smoking or destructive drinking behaviours—those kinds of things—need to be taken seriously, and those kinds of things need to be more fully understood.

Fodd bynnag, mae rhai o ystadegau'r GIG ar gyfer pobl ifanc sydd angen triniaeth at salwch meddwl rhwng cael eu hatgyfeirio i gael triniaeth a chael y driniaeth honno yn peri'r un faint o bryder. Mae'r ffigurau ar gyfer mis Rhagfyr y llynedd yn dangos mai pobl ifanc a phlant oedd 85% o'r holl rai sy'n aros 18 wythnos i ddechrau eu triniaeth, ac o'r rheini, roedd bron i 45% yn aros mwy na 40 wythnos. Mae effaith oedi o'r fath yn niweidio plentyn mewn dwy ffordd. Nid yn unig y mae'n ymosod ar ei hunan-barch, ei hyder a'i allu i adeiladu perthynas, ond mae hefyd yn ei rwystro mewn llawer o achosion rhag cymryd rhan yn addysgol. Golyga hyn ei fod yn gwneud yn waeth na'i gyfoedion a'i fod wedyn yn cychwyn ar gylch dieffig o iselder a phryder yn ymwneud â chanlyniadau ysgol ac addysgol, sy'n cael ei atgyfnerthu gan y ffaith nad yw ei ganlyniadau addysgol cystal ag y dylent fod. Mewn un achos yn fy ardal i, bûm yn cynorthwyo teulu lle nad yw'r plentyn wedi mynychu diwrnod o ysgol ers pedwar mis yn ei flwyddyn gyntaf allweddol o'r ysgol uwchradd am fod y plentyn yn llawer rhy bryderus i groesi'r trothwy. Roedd yn crio ac yn sgrechian yng nghyntedd yr ysgol, ac nid yw'r rhieni wedi cael cymorth i ddelio â'r amgylchiadau trawmatig. Mae'r oedi wedi rhoi'r plant hyn dan anfantais drwy gydol eu hoes, yn emosiynol ac yn addysgol, a dyna pam y mae angen i ni wneud hyn yn flaenoriaeth wrth inni symud ymlaen.

Credaf hefyd fod arnom angen ymchwil ystyrlon i helpu i lunio'r gwasanaethau ac asesu'r cynnydd rydym yn ei wneud yn erbyn y targedau a osodwyd gennym eisoes drwy strategaethau fel 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Mae angen i ni sicrhau bod y mesuriadau rydym yn eu defnyddio i farnu'r canlyniadau hyn yn ddigon cadarn i gael eu cymryd o ddifrif ac i lywio'r ffordd y mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein buddsoddiad yn y dyfodol. Un enghraifft a roddwyd i mi yw bod un bwrdd iechyd lleol wedi rhoi golau gwyrdd i'w hun am sefydlu gweithgor i siarad am wella'r amseroedd aros yn rhan o'r cynllun mesur goleuadau traffig sy'n cael ei ddefnyddio i asesu 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', a bod hynny'n asesu a wnaed cynnydd ai peidio ar wella amseroedd aros. Rwy'n credu y byddwch yn cytuno nad golau gwyrdd yw hwnnw. Mae'n rhaid i ni herio ein byrddau iechyd lleol i wneud yn siŵr eu bod yn dangos newid ystyrlon cyn ticio blychau o'r fath, gan nad mater o dicio blychau yw hyn; mae hyn yn ymwneud â newid bywydau pobl.

Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, yng Nghymru mae prinder ymchwil i iechyd meddwl plant yn peri pryder. Ni yw'r unig wlad ym Mhrydain nad yw wedi cynnal astudiaeth o lefelau patrymau ymddygiad hunan-niweidiol mewn plant a phobl ifanc. Yn bendant, mae hynny'n rhywbeth sy'n rhaid i ni ei wneud. Roeddwn yn falch iawn i siarad yn gynharach yn y mis mewn cynhadledd a gynhaliwyd gan y rhwydwaith DECIPHer, sef rhwydwaith ymchwil newydd rhwng y pedair prifysgol Great Western, yn edrych ar nifer yr achosion o hunanladdiad a hunan-niwed mewn plant a phobl ifanc. Mae'r rhwydwaith yn gobeithio cau rhai o'r bylchau yn y wybodaeth, ac rydym angen hynny'n fawr. Ceir tystiolaeth fod lefelau adrodd am hunan-niweidio yn llawer is nag y dylent fod. Ceir tystiolaeth y dylid rhoi ystyriaeth fwy difrifol i batrymau ymddygiad hunan-niweidiol, boed yn hunan-niwed amlwg fel anafu eich hun yn fwrriadol, neu'n rhywbeth mwy cynnil efallai, fel ysmygu neu yfed dinistriol—y mathau hynny o bethau—ac mae angen inni ddeall y pethau hyn yn well.

I was very heartened to see at that conference the example given by Ysgol Brynhyfryd from Ruthin, where they had actually set up a mentoring scheme to work with young people who were at risk of self-harm, or who had been identified as self-harming, by providing them with a support network and people to talk to. Internationally, there is a significant lack of evidence-based interventions, which may in part explain why excellent schools such as Brynhyfryd are having to develop their own best practice to fill a gap where evidence ought to be. We expect a lot of our teachers here, but they really do need our support, which is why we were very pleased with the emphasis in the Donaldson review on mental health today. We think it's right to highlight the importance of schools helping children and young people to look after both their own mental and physical health. I think the review highlights the importance of the curriculum in Wales, and one of the main purposes of it is to help children and young people become healthy, confident individuals.

Some of the specific things that Donaldson goes on to highlight about what he means are, I think, particularly helpful: that the curriculum should help children build their mental and emotional wellbeing by developing confidence, resilience and empathy; that they should apply their knowledge about the impact of diet and exercise on physical and mental health in their daily lives; and, that they should know how to find information and support to keep safe and well. All of these things are very, very important, but we can't deliver on these welcome aspirations without providing schools and teachers with the tools, the knowledge and the support they need to create and nurture that kind of warm non-judgmental environment in our schools where children feel that they can talk openly about their wellbeing, and giving the teachers the tools they need, as well, to deal sensitively with these very, very difficult issues.

My final thought is this: just like strategies for 'Together for Mental Health', the issues raised today cross the boundaries of different departments and ministerial portfolios, of course. While the recognition that a broad range of interventions will be necessary to achieve real change is very, very welcome, the fear is that the impetus and focus can be lost as the strategy jumps across the silo boundaries. The challenge for us is this: how do we, as an institution, ensure that we all not only recognise the problem, as I believe we do, but that we all recognise that the solution is one for us all as well?

Calonidid mawr yn y gynhadledd oedd gweld yr esiampl a roddwyd gan Ysgol Brynhyfryd o Ruthun. Maent wedi sefydlu cynllun mentora i weithio gyda phobl ifanc mewn perygl o hunan-niwed, neu a oedd wedi eu nodi fel rhai a oedd yn hunan-niweidio, drwy ddarparu rhwydwaith cymorth a phobl i siarad â hwy. Yn rhyngwladol, ceir diffyg sylweddol o ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n egluro'n rhannol pam y mae ysgolion rhagorol fel Brynhyfryd yn gorfod datblygu eu harferion gorau eu hunain i lenwi bwch lle y dylai'r dystiolaeth fod. Rydym yn disgwyl llawer gan ein hathrawon yn hyn o beth, ond maent angen ein cefnogaeth yn fawr, a dyna pam roeddem yn falch iawn o'r pwyslais yn adolygiad Donaldson o iechyd meddwl heddiw. Rydym yn credu ei bod yn iawn i dynnu sylw at yr angen i ysgolion helpu plant a phobl ifanc i ofalu am eu hiechyd meddyliol a chorfforol eu hunain. Rwy'n credu bod yr adolygiad yn amlygu pwysigrwydd y cwricwlwm yng Nghymru, ac un o'i brif ddibenion yw helpu plant a phobl ifanc i ddod yn unigolion iach a hyderus.

Mae rhai o'r pethau penodol y mae Donaldson mynd ati i dynnu sylw atynt o ran yr hyn a olyga yn arbennig o ddefnyddiol yn fy marn i: mae'n dweud y dylai'r cwricwlwm helpu plant i feithrin eu lles meddyliol ac emosynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathy; y dylent gymhwyso eu gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau pob dydd; ac y dylent wybod sut i ddod o hyd i wybodaeth a chefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach. Mae pob un o'r pethau hyn yn hynod o bwysig, ond ni allwn gyflawni'r dyheadau hyn heb ddarparu'r adnoddau, y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar ysgolion ac athrawon i greu a meithrin y math o amgylchedd cynnes ac anfeirniadol yn ein hysgolion i blant deimlo y gallant siarad yn agored am eu lles, a rhoi'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i athrawon hefyd i ymdrin yn sensitif â'r materion hynod o anodd hyn.

Dyma un sylw i gloi: yn union fel y strategaethau ar gyfer 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', mae'r materion a godwyd heddiw yn croesi ffiniau gwahanol adrannau a phortffolios gweinidogol wrth gwrs. Er ein bod yn croesawu'r gydnabyddiaeth y bydd angen ystod eang o ymyriadau er mwyn cyflawni newid go iawn, yr ofn yw y gall yr ysgogiad a'r ffocws fynd ar goll wrth i'r strategaeth neidio ar draws ffiniau meysydd gwaith. Yr her i ni yw hon: fel sefydliad, sut rydym yn sicrhau ein bod i gyd, nid yn unig yn cydnabod y broblem, fel rwy'n credu ein bod, ond ein bod i gyd yn cydnabod bod dod o hyd i'r ateb yn fater ar ein cyfer ni i gyd hefyd?

17:05

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd really like to pay tribute to the Liberal Democrats for bringing this debate. We've spoken many times in this Chamber on mental health, and I felt that that was a very excellent contribution.

Hoffwn roi teyrnged i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddatl. Rydym wedi siarad am iechyd meddwl lawer gwaith yn y Siambr hon, a theimlwn fod hwn yn gyfraniad rhagorol iawn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

One in every four adults in Wales is living with a mental health condition. Suicide rates in Wales are currently at their highest levels since 1981; the UK average for 2013 was 11.9 deaths per 100,000, comparable, here in Wales, to that of 15.6. Recent statistics have shown the number of A&E visits by children and young people relating to mental health in Wales have almost doubled since 2010-11. A recent survey revealed that 10% of patients who visit their GP to discuss their mental health felt that there was no understanding or empathy.

I believe there is very little understanding or recognition of the difficulties and emotional turmoil that some sufferers feel when identifying a need for support. I know, from first-hand experience, as an Assembly Member, when people find it really difficult to identify that mental health problem in themselves and then have to go and ask for help—say, access to a GP—it becomes even more problematic. Following their GP appointment, only 33% report easy access to the advice, treatment and support service that they actually require, and only 20% felt that these services led to any actual or significant improvement in their mental health and wellbeing.

Recent studies show that, in terms of mental health prevention, intervention and treatment, for every £1 spent for people with psychosis and schizophrenia, the return is significant. A third of workers do not feel comfortable talking openly with their line managers about stress, and evidence suggests that untreated mental health conditions can result in long-term absences from employment. Too often, these delays in intervention can lead to sufferers finding their own prop, such as drugs and/or alcohol.

Recent evidence taken during one of our Assembly workshops on alcohol abuse revealed many still feeling very let down, having been in the system for years, and feeling completely unsupported. Despite this being raised in many debates here by all Assembly Members, many in Wales feel stigmatised or afraid to admit their own mental health concerns, and feel that greater support and intervention are needed whilst still young, and that picks up on the point made by Eluned Parrott. Thirty per cent of parents of those aged five to 18 say they would feel embarrassed if their child wanted support or counselling in school, and, in Wales, one in 10 children and young people aged five to 16 suffer from a diagnosable mental health disorder.

Mae un o bob pedwar oedolyn yng Nghymru yn byw gyda chyflwr iechyd meddwl. Mae cyfraddau hunanladdiad yng Nghymru ar hyn o bryd ar eu lefelau uchaf ers 1981; cyfartaledd y DU ar gyfer 2013 oedd 11.9 o farwolaethau i bob 100,000, o gymharu â 15.6 yma yng Nghymru. Mae ystadegau diweddar wedi dangos bod nifer yr ymweliadau cysylltiedig ag iechyd meddwl ag adrannau damweiniau ac achosion brys gan blant a phobl ifanc yng Nghymru bron â bod wedi dyblu ers 2010-11. Dangosodd arolwg diweddar fod 10% o'r cleifion sy'n ymweld â'u meddyg teulu i drafod eu hiechyd meddwl yn teimlo nad oedd dealltwriaeth nac empathi i'w gael.

Credaf nad oes fawr iawn o ddealltwriaeth neu gydnybuddiaeth o'r anawsterau a'r cythrwfl emosiynol y mae rhai dioddefwyr yn ei deimlo wrth nodi'r angen am gymorth. Rwy'n gwybod, o brofiad personol fel Aelod Cynulliad, pan fydd pobl yn ei chael yn wirioneddol anodd anafod bod ganddynt broblem iechyd meddwl eu hunain, ac mae gorfod mynd i ofyn am help—at feddyg teulu, efallai—hyd yn oed yn fwy o broblem. Ar ôl eu hapwyntiad â meddyg teulu, 33% yn unig ohonynt sy'n dweud ei bod yn hawdd dod o hyd i'r cyngor, y driniaeth a'r gwasanaeth cymorth sydd eu hangen arnynt, ac 20% yn unig oedd yn teimlo bod y gwasanaethau hyn wedi arwain at unrhyw welliant gwirioneddol neu sylweddol yn eu hiechyd meddwl a'u lles.

Mae astudiaethau diweddar yn dangos, o ran atal, ymyrryd a thrin problemau iechyd meddwl, am bob £1 a werir ar gyfer pobl â seicosis a sgitsoffrenia, mae'r elw yn arwyddocaol. Nid yw traean o weithwyr yn teimlo'n gyfforddus yn siarad yn agored â'u rheolwyr llinell am straen, ac mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cyflyrau iechyd meddwl heb eu trin arwain at absenoldeb hirdymor o'r gwaith. Yn rhy aml, gall oedi o'r fath cyn ymyrryd beri i ddiodeffwyr ddod o hyd i'w cynhaliadau eu hunain ar ffurf cyffuriau a/neu alcohol.

Datgelodd tystiolaeth ddiweddar a gymerwyd yn ystod un o'n gweithdai Cynulliad ar gamddefnyddio alcohol fod llawer yn dal i deimlo eu bod wedi cael cam mawr ar ôl bod yn y system ers blynyddoedd, ac yn teimlo nad ydynt yn cael cefnogaeth o gwbl. Er i hyn gael ei godi mewn llawer o ddadleuon yma gan holl Aelodau'r Cynulliad, mae llawer yng Nghymru yn teimlo stigma neu ofn cyfaddef eu pryderon iechyd meddwl eu hunain, ac yn teimlo bod angen mwy o gymorth ac ymyrraeth tra'u bod yn dal yn ifanc, ac mae hynny'n cyffwrdd ar y pwynt a wnaed gan Eluned Parrott. Mae tri deg y cant o rieni rhai pump i 18 oed yn dweud y byddent yn teimlo embaras pe bai eu plentyn eisiau cymorth neu gwnsela yn yr ysgol, ac yng Nghymru, mae un o bob 10 o blant a phobl ifanc rhwng pump a 16 oed yn dioddef o anhwylder iechyd meddwl y mae modd ei ddiagnosio.

Yesterday, I was at the Member's—Bethan Jenkins—group on eating disorders, and that was a really good group, made up of stakeholders, service users and politicians. The subject of CAMHS came up. I must confess that, when I first became an Assembly Member, I thought—maybe quite wrongly, I don't know—that CAMHS were there to pick up these kinds of issues when children find themselves needing support. I understand there is to be a review, because I've certainly raised concerns about CAMHS and specialist CAMHS, but I also understand from yesterday that Dame Sue Bailey, charged with this review, has only been given 12 days in which to actually carry out—12 paid days—this review, and I would just ask the Minister whether he feels that that kind of review that's needed—such a complex review—can be carried out in that kind of timescale.

Among teenagers, rates of depression and anxiety have increased by 70% in the past 25 years. How sad, as Eluned has mentioned, that one in every 12 children and young people now deliberately self-harm. In 2013-14, 1,542 10 to 19-year-olds were admitted to hospital after self-harming, and that's 36% more than the year before. This is a ticking time-bomb, Minister; this needs intervention and support from the Welsh Government now.

A third of 16 to 25-year-olds have thought about or attempted suicide, and with three quarters of adult mental disorders in evidence by the age of 21, it is extremely disappointing that these are not adequately diagnosed or treated at the time. These are shocking statistics, and I know that much has been done in the past, but we're not there yet. We do have a lack of emergency beds; we do know of overprescribing of antidepressants; and we know of poor collaboration between education and health services. Minister, this must be your top priority.

Ddoe, roeddwn yng ngrŵp yr Aelod—Bethan Jenkins—ar anhwylderau bwyta, ac roedd yn grŵp gwirioneddol dda, yn cynnwys rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a gwleidyddion. Cafwyd trafodaeth ar CAMHS. Rhaid i mi gyfaddef, pan ddeuthum yn Aelod o'r Cynulliad gyntaf, fe feddyliais—yn hollol anghywir, efallai, nid wyf yn gwybod—fod CAMHS yno i ymdrin â'r mathau hyn o faterion pan fo plant angen cymorth. Rwy'n deall fod arolwg yn mynd i gael ei gynnal, gan fy mod i'n sicr wedi mynegi pryderon ynghylch CAMHS a CAMHS arbenigol, ond rwyf hefyd yn deall ers ddoe fod y Fonesig Sue Bailey, sy'n gyfrifol am yr adolygiad hwn, ond wedi cael 12 diwrnod i gyflawni'r arolwg mewn gwirionedd—12 diwrnod o dâl—a hoffwn ofyn i'r Gweinidog a yw'n teimlo y gellir cynnal y math hwnnw o adolygiad sydd ei angen—arolwg mor gymhleth—mewn cyn lleied o amser.

Ymhlith rhai yn eu harddegau, mae cyfraddau iselder a phryder wedi cynyddu 70% yn y 25 mlynedd diwethaf. Mae'n dystiolaeth iawn, fel y crybwyllodd Eluned, fod un o bob 12 o blant a phobl ifanc bellach yn hunan-niweidio'n fwiadol. Yn 2013-14, cafodd 1,542 o rai 10-19 oed eu derbyn i'r ysbyty ar ôl hunan-niweidio, 36% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae'n fform sy'n tician, Weiniog; mae angen ymyrraeth a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn awr.

Mae traean o rai 16 i 25 oed wedi meddwl am hunanladdiad, neu wedi ceisio cyflawni hunanladdiad, a gyda thri chwarter o anhwylderau meddwl oedolion yn dod yn amlwg erbyn eu bod yn 21 oed, mae'n hynod o siomedig nad yw'r rhain yn cael diagnosis neu driniaeth ddigonol ar y pryd. Mae'r rhain yn ystadegau brawychus, a gwn fod llawer wedi'i wneud yn y gorffennol, ond nid ydym yno eto. Mae'r prinder gwelyau brys; rydym yn gwybod bod gormod o bresgripsiynau cyffuriau gwrth-iselder yn cael eu rhoi; a gwyddom am y cydweithredu gwael rhwng gwasanaethau addysg ac iechyd. Weiniog, rhaid i hon fod yn brif flaenoriaeth i chi.

17:11

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn wahanol i Eluned, nid wyf yn siarad o unrhyw brofiad personol, ond mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n meddwl y bydd pawb yma yn ymwybodol, un ai o fewn ein teuluoedd neu o fewn ein cylch o ffrindiau, ein bod ni'n adnabod pobl sydd wedi mynd trwy rai o'r profiadau rydym yn sôn amdanynt y prynhawn yma. Rwy'n meddwl hefyd fod fy niddordeb i yn y pwnc yma yn deillio o'r gwaith y mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei wneud ynglŷn â'r gwasanaeth y mae Janet Finch-Saunders newydd sôn amdano. I fod yn deg â'r Gweinidog, rwy'n meddwl bod y pwyllgor plant wedi derbyn tystiolaeth gan y Gweinidog yn dweud ei fod yn awyddus i gael rhyw fath o adolygiad o'r gwasanaeth. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn gallu ateb drosto fo ei hun, ond rydym yn ymwybodol mai rheolwyr y gwasanaeth yn y pen draw fydd yn cymryd yr adolygiad yma ymlaen, ac rwy'n meddwl mai rhyw fath o gefnogaeth annibynnol y mae'r Cadeirydd yn ei rhoi ar gyfer yr adolygiad yma. Rwy'n meddwl bod y Gweinidog yn ddifffuant iawn yn y ffaith ei fod wedi dweud o flaen y pwyllgor bod yn rhaid i'r sefyllfa o ran gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc o ran iechyd meddwl wella. Nid yw'r sefyllfa yn dderbyniol. Roeddem ni, fel pwyllgor, wedi derbyn tystiolaeth gan nifer o deuluoedd yn dangos eu bod yn gorfod aros yn rhy hir.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Unlike Eluned, I am not speaking from any personal experience, but I have to say that I think that everyone here will be aware, within either our families or circle of friends, that we know people who have gone through some of the experiences we are talking about this afternoon. I also think that my interest in this subject stems from the work that the Children, Young People and Education Committee has done in terms of the service that Janet Finch-Saunders has just been talking about. To be fair to the Minister, I think that the children committee heard in evidence from the Minister that he is keen to hold some kind of service review. I'm sure that the Minister will be able to speak for himself, but we are aware that it is service managers that will ultimately take that review forward, and I think it is some kind of independent support that the Chair gives to that review. I think that the Minister has been very sincere given that he told the committee that the situation in terms of mental health services for children and young people must improve. The situation isn't acceptable. As a committee, we took evidence from a number of families, which demonstrated that they had to wait too long

Mae Janet Finch-Saunders hefyd wedi cyfeirio at ymchwil gan yr ONS, sy'n dweud bod un o bob pedwar o'n pobl ni yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl rhywbryd yn ystod eu bywyd. Rwy'n meddwl bod y WHO hefyd wedi dweud, ym Mhrydain, fod afiechydon iechyd meddwl yn gyfrifol am tua 20% o'r byrdwn ar y gwasanaeth iechyd. Er hynny, dim ond 11% o wariant y gwasanaeth iechyd sy'n cael ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl. Fel rhan o'r adolygiad yma, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog a'i weision sifil yn edrych ar—. Mi oeddech chi'n awyddus i ddiogelu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl. Er hynny, mae rhai byrddau iechyd wedi bod yn rhoi gwasanaethau i blant a phobl ifanc o fewn eu gwasanaethau plant ac nid ydynt wedi bod yn diogelu'r gyllideb, er, rwy'n teimlo eich bod yn meddwl eu bod nhw'n gwneud hynny yn y pen draw.

Nid yw sefyllfa lle mae pobl yn gorfod aros 40 wythnos am hyd yn oed yr apwyntiad gwreiddiol yn y gwasanaeth iechyd meddwl yn dderbyniol, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid gofyn y cwestiwn: os ydy'r rhestrau aros yma mor hir, os mai dyna'r esboniad, pam mae lefelau'r 'antidepressants' yma wedi cynyddu cymaint yn ystod y ddegawd olaf? Os ydych yn edrych yn ôl, dim ond ryw 2 filiwn o bresgripsiynau oedd yn cael eu gwneud yn 2002; roedd hynny wedi cynyddu i 4 miliwn erbyn 2012.

Rwyf hefyd, wrth gloi, eisiau codi un pwynt arall. Rwy'n meddwl bod angen i ni weld yn union beth yw'r cysylltiad rhwng iechyd meddwl ac afiechyd yn gyffredinol. Rydych yn gweld o fewn ein cynnig ein bod ni'n sôn am dwf o fewn y gwasanaeth 'liaison psychiatry'—nid wyf hyd yn oed yn gwybod beth yw hynny yn Gymraeg—o fewn y gwasanaeth. Mae yna dystiolaeth sy'n dweud bod pobl sy'n dioddef o gyflwr iechyd meddwl tua thair neu bedair gwaith yn fwy tebygol o gael rhyw fath o broblem o ran eu hiechyd corfforol nhw. Nid oes llawer o dystiolaeth yng Nghymru. Rwy'n meddwl bod yn rhaid cydnabod bod gwariant yng Nghymru ac ym Mhrydain yn gyffredinol yn llawer iawn uwch ar wasanaethau iechyd meddwl nag ydy o mewn rhai o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd. Ond nid yw hynny yn meddwl hwyrach na ddylem ni ailystyried y ffordd rydym wedi edrych ar y sefyllfa yma yn draddodiadol. Mae yna lawer iawn o'r gwasanaethau a lefelau gwariant o fewn ein byrddau iechyd ni yn batrymau hanesyddol, yn hytrach na phatrymau o ran angen o fewn y boblogaeth leol.

Felly, rwy'n gobeithio y bydd yr adolygiad yma mae Janet Finch-Saunders wedi cyfeirio ato yn dangos y ffordd ymlaen o ran gwasanaethau plant a phobl ifanc. Rwy'n meddwl bod y ffaith bod 10 o aelodau'r pwyllgor plant yn mynd draw i'r gynhadledd fory yn dangos y pwysigrwydd mae'r pwyllgor ei hun yn ei roi i'r sefyllfa yma, ac rwy'n gofyn i'r Gweinidog i ystyried yn ddwys argymhellion yr adolygiad yna, a gobeithio na fyddwn yma mewn rhyw dair neu bedair blynedd—rhai ohonom ni—yn trafod yr un pwnc.

Janet Finch-Saunders also referred to research by the ONS, which states that one in every four people in our country suffers from a mental health disorder at some point during their life. Also, I think that the WHO has said that, in Britain, mental health illnesses are responsible for 20% of the burden on the health service. Despite that, only 11% of health service expenditure goes toward mental health services. As part of this review, I hope that the Minister and his civil servants will look at—. You were keen to protect spending on mental health services, but some health boards have been putting services for children and young people within their children's services and therefore have not been protecting the budget. However, I get the impression that you believe that they do that ultimately anyway.

A situation where people have to wait 40 weeks for even the first appointment within the mental health service is unacceptable, and I think that we have to ask the question: if these waiting lists are so long, and if that's the explanation, then why have antidepressant levels increased so much over the last decade? If you look back, only some 2 million prescriptions were issued in 2002, but that had increased to 4 million by 2012.

In closing, I want to raise one further point. I think that we need to establish exactly what the link is between mental health and general health issues. You will see in our motion that we talk about expanding liaison psychiatry—I don't know what that is in Welsh—as part of the service. There is evidence that shows that people who suffer from a mental health condition are three or four times more likely to have some kind of physical health problem as well. There's not much evidence in Wales. I think we have to acknowledge that spending in Wales and in the UK generally is much higher on mental health services than it is in some other countries in the European Union. But that doesn't mean that we shouldn't reconsider the way in which we look at this situation traditionally. Many services and spending levels within our health boards are historical patterns, rather than being led by demand within the local population.

So, I hope that the review that Janet Finch-Saunders has referred to will show the way ahead in terms of children and young people's services. I think the fact that 10 of the members of the children's committee are going to the conference tomorrow shows the importance that the committee places on this situation, and I ask the Minister to consider the recommendations of that review, and I hope that we are not here in three or four years' time—some of us—discussing the same subject.

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Eluned, for opening the debate in a strong way, and actually reopening some of the feelings that I have too, because, of course, you say you feel stronger having come through your depression, but what I feel is, yes stronger, and yes to empathy, but, in the last few weeks, even via social media, because I've done quite a lot of programmes on mental health, I've had some people retaliate and question me and sort of say, 'Well, actually, was that something that you made up?' I would like to say to those very nasty people, 'Well, why would anybody want to make up a mental health problem?' It's certainly something I would never want to make up.

The point, I think, is important with regard to physical and mental health, because, while we should talk about the parity of emphasis here, sometimes there is the issue of comorbidity, so it's just not about seeing them as separate or bringing them together in some way, especially with eating disorders. If you have an eating disorder, it can come with obsessive compulsive disorder, it can come with depression; it can come with so many other different types of mental health problems. So, when we're talking about physical and mental health, I think we have to see them quite often together. I understand the point that the Lib Dems are making, because, of course, quite often we have the debate, don't we, saying, 'Well, If you have a broken leg, you will be seen blah, blah, blah'? But, if you have a mental health issue, you can't see it, and some people then, as I said at the beginning of my speech, can say, 'Well, actually, is that genuine?' They can feel that they have the legitimacy to say to you that potentially it doesn't exist. Let's stop doing that, please: let's just treat it as it is. Yes, it needs to be diagnosed, but if somebody does identify themselves as feeling that way—after having thought about this, because people do think about it, and people with eating disorders, for example, are very in denial to start with, so even getting to the point of recognising that they have a problem is a feat in itself. Or even other mental health problems, because we do put the stigma on ourselves, let alone other people putting the stigma on us. So, I think the physical and mental health issue is important. Especially yesterday from the meeting, the new point—well, not new, new to the meeting of the cross-party group, was chronic—[inaudible.]

Diolch i chi, Eluned, am agor y ddadl mewn ffordd gadarn, ac ailagor rhai o'r teimladau sydd gennyf finnau hefyd, oherwydd rydych yn dweud, wrth gwrs, eich bod yn teimlo'n gryfach ar ôl dod drwy eich iselder, ond yr hyn rwy'n ei deimlo yw, yn gryfach ie, ac empathi ie, ond yn yr ychydig wythnosau diwethaf, ar y cyfryngau cymdeithasol hyd yn oed, gan fy mod wedi gwneud cryn dipyn o raglenni ar iechyd meddwl, rwyf wedi cael rhai pobl yn dod yn ôl ac yn fy holi a rhyw ddweud, 'Wel, mewn gwirionedd, ai rhywbeth rydych wedi'i ffugio yw hyn?' Hoffwn ddweud wrth y bobl hynod o annifyr hyn, 'Wel, pam y byddai unrhyw un am ffugio problem iechyd meddwl?' Mae'n sicr yn rhywbeth na fyddwn byth yn dymuno ei ffugio.

Rwy'n meddwl bod y pwynt am iechyd corfforol a meddyliol yn bwysig, oherwydd, er y dylem siarad am gydraddoldeb o ran pwyslais yma, weithiau ceir cyd-forbidrwydd, felly nid yw'n fater o'u gweld fel pethau ar wahân neu ddod â hwy at ei gilydd mewn rhyw fodd, yn enwedig yng nghyswllt anhwylderau bwyta. Os oes gennyhych anhwylder bwyta, gall ddod ag anhwylder obsesiynol cymhellol yn ei sgil, gall ddod ag iselder yn ei sgil; gall ddod â chymaint o fathau eraill o wahanol broblemau iechyd meddwl yn ei sgil. Felly, pan fyddwn yn sôn am iechyd corfforol a meddyliol, rwy'n credu bod yn rhaid i ni edrych arnynt gyda'i gilydd yn aml. Rwy'n deall y pwynt y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud, oherwydd wrth gwrs, yn eithaf aml, mae yna ddadl, onid oes, sy'n dweud, 'Wel, os ydych wedi torri eich coes, fe gewch eich gweld bla, bla, bla'? Ond os oes gennyhych broblem iechyd meddwl, ni allwch ei gweld, ac mae rhai pobl bryd hynny, fel y dywedais ar ddechrau fy araith, yn gallu dweud, 'Wel, a yw hynny'n wir mewn gwirionedd?' Gallant deimlo bod ganddynt hawl i ddweud wrthyhch nad yw'n bodoli, o bosibl. Gadewch i ni roi'r gorau i hynny, os gwelwch yn dda: gadewch i ni ei drin fel y mae. Oes, mae angen ei ddiagnosisio, ond os yw rhywun yn dweud eu bod yn teimlo felly-ar ôl meddwl am hyn, oherwydd mae pobl yn meddwl amdano, ac mae pobl ag anhwylderau bwyta, er enghraifft, yn gwadu'n llwyr i ddechrau, felly mae hyd yn oed cyrraedd y pwynt o gydnabod bod ganddynt broblem yn gamp ynddi'i hun. Neu hyd yn oed broblemau iechyd meddwl eraill, gan ein bod yn rhoi'r stigma arnom ein hunain, heb sôn am y stigma mae pobl eraill yn ei roi arnom. Felly, rwy'n meddwl bod mater iechyd corfforol a meddyliol yn bwysig. Yn enwedig ddod o'r cyfarfod, y pwynt newydd-wel, nid yw'n newydd, ond yn newydd i gyfarfod y grŵp trawsbleidiol, roedd salwch cronig- [Anghlywadwy.]

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Can we just pause a moment whilst the technicians sort out that microphone?

Trefn. A gawn ni oedi am eiliad tra bod y technegwyr yn trwsio'r meicroffon?

We just have a technical difficulty at the moment. We have a general failure. We'll just see if we can correct it immediately.

Rydym yn cael anhawster technegol ar hyn o bryd. Mae yna nam ar draws y system. Fe gawn ni weld a allwn ei gywiro ar unwaith.

I'm going to suspend proceedings initially for five minutes, then I'll determine what to do once I have a firm diagnosis. So, can we be back at 17:25, please?

Rwy'n mynd i atal y trafodion am bum munud yn y lle cyntaf, yna fe benderfynaf beth i'w wneud ar ôl i mi gael diagnosis pendant. Felly, a gawn ni ddod yn ôl am 17:25, os gwelwch yn dda?

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 17:20.*

*Plenary was suspended at 17:20.*

17:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Order, order. I'm pleased to say the technical difficulties have now been resolved and we will continue the Welsh Liberal Democrats' debate on mental health. I apologise once again to Bethan Jenkins that her speech has been interrupted, and I will show discretion from the Chair, should you need it now, to finish your remarks. Bethan Jenkins.

Trefn, trefn. Rwy'n falch o ddweud bod yr anawsterau technegol wedi cael eu datrys erbyn hyn a byddwn yn parhau â dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar iechyd meddwl. Rwy'n ymddiheuro unwaith eto i Bethan Jenkins am y modd y tarfwyd ar ei haraith, a byddaf yn dangos disgresiwn o'r Gadair, os ydych ei angen yn awr i orffen eich sylwadau. Bethan Jenkins.

17:30

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I'm glad my speech was so electric as to—[Laughter.] Anyway, I literally did only have a few points to finish. I was talking about chronic illnesses. Some of the women who were at the cross-party group were saying that they'd had an eating disorder from a very early age, and still have that eating disorder. They find that employment is difficult, and sustaining employment is difficult, because they have been institutionalised by going in and out of hospital throughout their lives. So, I hope that, when the framework is reviewed—the Minister has written to me saying that it will happen soon—we can look at some of these additional issues that people have brought to the table as a result of their own human experiences.

Wel, rwy'n falch fod fy araith mor drydanol fel— [Chwerthin.] Beth bynnag, ychydig o bwyntiau i orffen oedd gennyf, yn llythrennol. Roeddwn yn sôn am salwch cronig. Roedd rhai o'r merched yn y grŵp trawsbleidiol yn dweud eu bod wedi cael anhwylder bwyta o oedran cynnar iawn, ac yn dal i fod ag anhwylder bwyta. Maent yn teimlo bod gwaith yn anodd, a bod cadw gwaith yn anodd, oherwydd eu bod wedi cael eu sefydliadu drwy fynd i mewn ac allan o'r ysbyty drwy gydol eu bywydau. Felly, rwy'n gobeithio, pan fydd y fframwaith yn cael ei hadolygu—mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu ataf i ddweud y bydd yn digwydd cyn bo hir—y gallwn edrych ar rai o'r materion ychwanegol a gafodd eu cyflwyno i'r bwrdd o ganlyniad i brofiadau personol pobl.

The point I wanted to make as well, carrying on from that, was that yesterday, sadly, we had to have the discussion with regard to the fact that Beat Cymru has had to finish, because we didn't get funding. I appreciate money is tight, but that would mean now that we don't have a charity in Wales—marking Eating Disorders Awareness Week as well—who will be carrying out that work. I know that Gofal have been superb in saying they will take up some of the work with regard to eating disorders in Wales, but I would urge the Minister, with having repatriated some of the moneys back from England to these services, to be very mindful of the fact that we will be relying on a charity based in Norfolk to do some of those self-help groups across Wales now, and how he can work, potentially, with the charities that do exist to help them restructure some of their services so that they can help those with eating disorders in Wales.

Y pwynt roeddwn am ei wneud hefyd, i ddilyn hynny, oedd ein bod ddoe, yn anffodus, wedi gorfod cael y drafodaeth ynglŷn â'r ffaith fod Beat Cymru wedi gorfod dod i ben, oherwydd nad ydym wedi cael arian. Rwy'n sylweddoli fod arian yn brin, ond byddai hynny'n golygu yn awr nad oes gennym elusen yng Nghymru—i nodi Wythnos Ymwybyddiaeth Anhwylderau Bwyta yn ogystal—a fydd yn cynnal y gwaith hwnnw. Gwn fod Gofal wedi bod yn wych yn dweud y byddant yn ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith o ran anhwylderau bwyta yng Nghymru, ond byddwn yn annog y Gweinidog, ar ôl i rywfaint o'r arian gael ei ddychwelyd o Loegr i'r gwasanaethau hyn, i fod yn ymwybodol iawn o'r ffaith y byddwn yn dibynnu ar elusen a leolir yn Norfolk i gynnal rhai o'r grwpiau hunangymorth ledled Cymru bellach, a sut y gall weithio, o bosibl, â'r elusennau sy'n bodoli i'w helpu i ailstrwythuro rhai o'u gwasanaethau fel eu bod yn gallu helpu pobl ag anhwylderau bwyta yng Nghymru.

To finish, I think it's important that I feel I am making some of the same points in a lot of these debates, because we having more debates on mental health here in Wales. I think that, while some staff will say, 'Well, it's not all just the fault of CAMHS', they do feel as if they are feeling that pain at the moment. I think, if we have the review—or the implementation plan, as I was told it would be yesterday—then we can at least then start to seek solutions together, as has been said earlier, and we can see progress on this issue here in Wales. And I hope nobody else has the microphone problem either. Diolch yn fawr.

I orffen, rwy'n credu ei bod yn bwysig fy mod yn teimlo fy mod yn gwneud rhai o'r un pwyntiau mewn llawer o'r dadleuon hyn, gan ein bod yn cael mwy o ddadleuon ar iechyd meddwl yma yng Nghymru. Er y bydd rhai staff yn dweud, 'Wel, nid bai CAMHS yw hyn i gyd', credaf eu bod yn teimlo'r poen hwnnw ar hyn o bryd. Os cawn yr adolygiad—neu'r cynllun gweithredu, fel y dywedwyd wrthyf ddoe y caiff ei alw—yna credaf y gallwn o leiaf wedyn ddechrau chwilio am atebion gyda'n gilydd, fel y dywedwyd yn gynharach, a gallwn weld cynnydd ar y mater hwn yma yng Nghymru. Ac rwy'n gobeithio nad oes neb arall yn cael problem gyda'r meicroffon. Diolch yn fawr.

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I echo that. William Powell.

Ategap hynny. William Powell.

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. It's a great privilege to take part in this important debate today, particularly following two of the most articulate advocates of mental health and wellbeing that I follow today. Ensuring the mental wellbeing of workers is another important aspect that our proposals propose to tackle. A recent YouGov/Mind survey on mental health and wellbeing within the workplace highlighted the need for employers to do more to foster mental health friendly environments. The survey found that workplace stress affects some 53% of employees in their sleep patterns and 20% of employees in their marriages, partnerships or relationships. So, there is clear evidence that workplaces need to become more mental health friendly environments. Our proposals call on the Welsh Government to reform their guidance to employers to create workplaces that genuinely promote positive mental health attitudes. With the same survey showing that one in three workers felt that they wouldn't be able to speak openly about stress in the workplace to a line manager, the Welsh Lib Dems believe passionately that more must be done to combat the stigma around discussing mental health.

Firstly, what we're seeking is an update in the health and safety guidance for workplaces, to include, explicitly, mental wellbeing. Just as physical wellbeing is so often at the centre of any health and safety guidance, so mental health should take its proper place. The guidance must set out what a person in a senior managerial position should do to ensure that employees' mental health is properly looked after.

A guide produced by Mind sets out what they recommend employers should do in this regard: making sure that they are approachable, monitoring work patterns and hours, ensuring that they're setting realistic, achievable targets, and, finally, holding one-on-one meetings when employees seek it to note any difficulties that may occur in the workload that could have an adverse effect upon their mental health. Health and safety guidance along the lines of what Mind is proposing will help towards improving the workplace environment for those who suffer a mental health difficulty. Secondly, we would like to see a mental health friendly workplace accreditation scheme introduced so that people can identify a suitable environment in which to work should they experience mental health difficulties in their work life. Only weeks ago, this National Assembly won plaudits from the National Autistic Society for its work to make this place autism-friendly. A similar scheme in the field of mental health would be most welcome.

The Time to Change pledge scheme is indeed one proposal that the Welsh Government should look at seriously as a positive example. The aim of that pledge is, as we know, to help tackle the stigma and discrimination so often felt by those who experience mental health difficulties. The scheme would encourage employers to make provisions available for their employees and bring added positive public perception also to any business that pursued that avenue.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Mae'n ffrind fawr cael cymryd rhan yn y ddatl bwysig hon heddiw, yn enwedig a minnau'n dilyn dau o hyrwyddwyr mwyaf croym iechyd meddwl a lles heddiw. Mae sicrhau lles meddyliol gweithwyr yn agwedd bwysig arall y bydd ein cynigion yn mynd i'r afael â hi. Amlygodd arolwg Mind/YouGov diweddar ar iechyd meddwl a lles yn y gweithle yr angen i gyflogwyr wneud mwy i feithrin amgylcheddau mwy ystyriol o iechyd meddwl. Canfu'r arolwg fod straeon yn y gweithle yn effeithio ar batrymau cysgu tua 53% o weithwyr ac ar briodasau, partneriaethau neu berthnasoedd 20% o weithwyr. Felly, ceir tystiolaeth glir fod angen i weithleoedd ddod yn amgylcheddau mwy ystyriol o iechyd meddwl. Mae ein cynigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio eu canllawiau i gyflogwyr er mwyn creu gweithleoedd sy'n mynd ati mewn gwirionedd i hyrwyddo agweddau iechyd meddwl cadarnhaol. Gyda'r un arolwg yn dangos bod un o bob tri gweithiwr yn teimlo na fyddent yn gallu siarad yn agored am straeon yn y gweithle gyda rheolwr llinell, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu'n gryf bod yn rhaid gwneud mwy i fynd i'r afael â'r stigma sydd ynghlwm wrth drafod iechyd meddwl.

Yn gyntaf, yr hyn rydym ei eisiau yw diweddarau'r canllawiau iechyd a diogelwch ar gyfer gweithleoedd, gan gynnwys, yn benodol, lles meddyliol. Yn union fel y mae lles corfforol mor aml yn ganolog i unrhyw ganllawiau iechyd a diogelwch, dylai iechyd meddwl gael lle priodol hefyd. Rhaid i'r canllawiau nodi'r hyn y dylai rhywun mewn swydd uwchr-eolwr ei wneud i sicrhau bod iechyd meddwl cyflogion yn cael gofal priodol.

Mae arweiniad a gynhyrchwyd gan Mind yn nodi'r hyn y maent yn ei argymhell y dylai cyflogwyr ei wneud yn hyn o beth: gwneud yn siŵr eu bod yn hawdd mynd atynt, monitro patrymau gwaith ac oriau, sicrhau eu bod yn gosod targedau realistig, cyraeddadwy, ac yn olaf, cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb pan fydd gweithwyr eu heisiau i nodi unrhyw anawsterau posibl yn y llwyth gwaith a allai gael effaith andwyol ar eu hiechyd meddwl. Bydd canllawiau iechyd a diogelwch o'r math y mae Mind yn eu hargymhell yn help tuag at wella amgylchedd y gweithle i'r rhai sy'n dioddef anhawster iechyd meddwl. Yn ail, byddem yn hoffi gweld cynllun achredu gweithleoedd sy'n ystyriol o iechyd meddwl yn cael ei gyflwyno er mwyn i bobl ddod o hyd i amgylchedd addas ar gyfer gweithio os ydynt yn wynebu anawsterau iechyd meddwl yn eu bywyd gwaith. Ychydig wythnosau yn ôl yn unig, enillodd y Cynulliad Cenedlaethol hwn glod gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol am ei waith i wneud y lle hwn yn ystyriol o awtistiaeth. Byddai cynllun tebyg ym maes iechyd meddwl yn dderbyniol tu hwnt.

Mae cynllun adduned Amser i Newid yn bendant yn un argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru edrych arno o ddifrif fel enghraifft gadarnhaol. Nod yr adduned, fel y gwyrddom, yw helpu i fynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n cael ei deimlo mor aml gan bobl sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl. Byddai'r cynllun yn annog cyflogwyr i wneud darpariaethau ar gyfer eu gweithwyr ac yn sicrhau bod y cyhoedd hefyd yn fwy cadarnhaol eu canfyddiad o unrhyw fusnes a fyddai'n dilyn y llwybr hwnnw.

I would also like to speak briefly about the challenges facing another group of people close to my heart, the farming community. While farmers often face the same mental health issues as workers in urban and other settings, there are specific factors that can lead to the deterioration of an individual's mental health in a deep rural context. With suicide rates for farmers above the national average and geographic isolation added as a major factor to the cause of mental health difficulties, this is an area that needs renewed focus. Even the most simple of phenomena can dramatically affect a farmer's mental health. Just last year, we saw the devastating impact that the snow events of last spring had upon so many people. With large numbers of livestock dying due to the extreme snow conditions and the sudden loss of valuable livestock, the devastating trauma that was triggered was truly immense. Thankfully, due to the intervention of the Welsh Government, there was support from Farm Crisis Network and the Addington Fund, which helped farmers to replenish their stocks and indeed gave them some solace in terms of their losses. What I hope this highlights is just how quickly mental health can become a serious factor within the farming and wider rural community. With this in mind, finally, I would urge the Welsh Government to look seriously at the mental health outreach services in rural areas that have been successfully piloted both by the Holyrood and Stormont Governments. I know that these are matters that our Minister for health has previously addressed, and I very much look forward to his response this afternoon.

Hoffwn siarad yn fyr hefyd am yr heriau sy'n wynebu grŵp arall o bobl sy'n agos at fy nghalon, sef y gymuned ffermio. Er bod ffermwyr yn aml yn wynebu'r un problemau iechyd meddwl â gweithwyr mewn trefi a mannau eraill, mae yna ffactorau penodol a all arwain at ddirywiad iechyd meddwl unigolyn mewn cyd-destun gwledig anghysbell. Gyda chyfraddau hunanladdiad ymhlith ffermwyr yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac ynysu daearyddol yn ffactor bwysig arall mewn achosion o anawsterau iechyd meddwl, mae hwn yn faes y mae angen canolbwyntio arno o'r newydd. Gall hyd yn oed y ffenomenau mwyaf syml effeithio ar iechyd meddwl ffermwr yn ddramatig. Y llynedd yn unig, gwelsom yr effaith ddinistriol a gafodd eira'r gwanwyn diwethaf ar gymaint o bobl. Gyda nifer fawr o dda byw yn marw yn yr eira eithafol a cholli da byw gwerthfawr yn sydyn, roedd y trawma ofnadwy a ddeilliodd yn wirioneddol enfawr. Diolch byth, o ganlyniad i ymyrraeth Llywodraeth Cymru, cafwyd cefnogaeth gan y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio a Chronfa Addington a helpodd ffermwyr i ailgyflenwi eu stoc ac yn bendant, rhoddodd rywfaint o gysur iddynt o ran eu colledion. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn tynnu sylw at ba mor gyflym y gall iechyd meddwl ddod yn ffactor ddifrifol yn y gymuned ffermio a'r gymuned wledig ehangach. Gyda hyn mewn golwg, i orffen, byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i edrych o ddifrif ar wasanaethau allgymorth iechyd meddwl mewn ardaloedd gwledig sydd wedi cael eu treialu'n llyyddiannus gan lywodraethau Holyrood a Stormont. Gwn fod y rhain yn faterion y mae ein Gweinidog iechyd wedi mynd i'r afael â hwy'n flaenorol, ac rwy'n edrych ymlaen at ei ymateb y prynhawn yma.

17:38

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And I now call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

A galwaf yn awr ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Can I begin, as others have done, by thanking the Liberal Democrats for bringing forward a debate on mental health? The Government will support the motion this afternoon. There is much in its sentiment with which we agree. There are some elements that are mistaken in fact and premature in conclusion, but these are not sufficient to detract from our wish to support it. Let me begin, then, with the substantial and clear areas of agreement. Mental health problems are commonplace, they can happen to any one of us, they can take place at any point in our lives, and, as Aled Roberts said, they will have an impact on us not simply as individuals but as members of families and of communities. A key to improving the experience of those who undergo an episode of mental ill health is what the motion terms 'parity of esteem'. I take that to mean not simply within treatment services but also parity in the way in which we as a society respond to those who experience mental health problems—the whole stigma agenda with which Eluned Parrott began the debate and to which many other Members have referred this afternoon. Of course, that does mean that it applies in services as well, and we've long been clear in Wales that physical and mental health must be given equal priority. The very first action of our mental health delivery plan sets out just that expectation and the steps taken to promote it. The role of the third sector in doing that is vitally important at both societal and service levels. Hafal's Let's Get Physical campaign has been mentioned here this afternoon. Hafal, with its partners, have provided 15,000 health checks across Wales during the campaign, bringing together the agendas of physical and mental wellbeing.

Last month, I was able to announce a further £3 million of Welsh Government investment to help voluntary organisations deliver mental health projects across Wales during the next three years. I've listened carefully to what Bethan Jenkins said this afternoon about making sure that, within that capacity, we're able to provide for the range of mental health needs, including those with eating disorders. Beyond the £3 million, we have allocated a further £0.5 million over the next three years to continue to support the Time to Change Wales campaign in its work to tackle stigma and discrimination.

Llywydd, as others have noticed and as Bill Powell ended his contribution with, more must and can be done in the workplace to pursue parity of emphasis. The motion illustrates the challenge still to be faced in this regard. The Welsh Government, as a major employer, has committed to the Time to Change organisational pledge. It's why, Dirprwy Lywydd—to move to part 5 of the motion—we are able to accept its very final clause. The ambition of a mental health friendly working environment is one that we all clearly share. The Healthy Working Wales programme involves nearly 2,500 organisations, employing over 400,000 people, and it's recently been identified by the Organisation for Economic Co-operation and Development as a European exemplar.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau, fel y mae eraill wedi gwneud, drwy ddiolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno dadl ar iechyd meddwl? Bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma. Mae llawer ynddo y gallwn gytuno arno. Mae rhai elfennau sy'n cynnwys camgymeriadau ffeithiol ac sy'n dod i gasgliadau cynamserol, ond nid yw'r rhain yn ddigon i lesteirio ein hawydd i'w gefnogi. Gadewch i mi ddechrau felly gyda'r meysydd sylweddol ac eglur y cytunwn â hwy. Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin, gallant ddigwydd i unrhyw un ohonom, gallant ddigwydd ar unrhyw adeg yn ein bywydau, ac fel y dywedodd Aled Roberts, byddant yn cael effaith arnom nid yn unig fel unigolion ond fel aelodau o deuluoedd a chymunedau. Un allwedd i wella profiad y rhai sy'n cael cyfnod o salwch meddwl yw'r hyn y mae'r cynnig yn ei alw'n 'barch cydradd'. Rwy'n cymryd nad yw hynny'n golygu o fewn y gwasanaethau triniaeth yn unig, ond hefyd cydraddoldeb o ran y ffordd rydym fel cymdeithas yn ymateb i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl—yr holl agenda stigma y dechreuodd Eluned Parrott y ddadl â hi ac y cyfeiriodd nifer o Aelodau eraill ati y prynhawn yma. Wrth gwrs, mae hynny'n golygu ei fod yn berthnasol i wasanaethau yn ogystal, ac rydym wedi bod yn glir ers amser yng Nghymru fod yn rhaid i iechyd corfforol a meddyliol gael blaenoriaeth gyfartal. Mae cam gweithredu cyntaf un ein cynllun cyflawni ar gyfer iechyd meddwl yn nodi'r union ddisgwyliad hwnnw a'r camau a gymerwyd i'w hyrwyddo. Mae rôl y trydydd sector yn gwneud hynny yn hanfodol bwysig ar lefel y gymdeithas a lefel y gwasanaeth. Mae ymgyrch Hafal, Caffael ar y Corfforol, wedi cael ei chrybwyll yma y prynhawn yma. Mae Hafal, gyda'i bartneriaid, wedi darparu 15,000 o archwiliadau iechyd ar draws Cymru yn ystod yr ymgyrch, gan ddwyn ynghyd agendâu lles corfforol a meddyliol.

Y mis diwethaf, cyhoeddais £3 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu sefydliadau gwirfoddol i gyflwyno prosiectau iechyd meddwl ledled Cymru yn ystod y tair blynedd nesaf. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedodd Bethan Jenkins y prynhawn yma ynglŷn â gwneud yn siŵr, yn hynny o beth, ein bod yn gallu darparu ar gyfer yr ystod o anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag anhwylderau bwyta. Y tu hwnt i'r £3 miliwn, rydym wedi dyrannu £0.5 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf er mwyn parhau i gefnogi'r ymgyrch Amser i Newid Cymru yn ei waith i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu.

Llywydd, fel y mae eraill wedi sylwi ac fel y gorffennodd Bill Powell ei gyfraniad, mae'n rhaid gwneud mwy, ac mae mwy y gellir ei wneud yn y gweithle i sicrhau cydraddoldeb o ran pwyslais. Mae'r cynnig yn dangos yr her sy'n dal i'w hwynebu yn hyn o beth. Mae Llywodraeth Cymru, fel cyflogwr mawr, wedi ymrwymo i adduned sefydliadol Amser i Newid. Dyna pam, Ddirprwy Lywydd—er mwyn cynnig rhan 5 y cynnig—rydym yn gallu derbyn ei gymal terfynol. Mae'r uchelgais o sicrhau amgylchedd gwaith sy'n ystyriol o iechyd meddwl yn un rydym i gyd yn amlwg yn ei rannu. Mae rhaglen Cymru lach ar Waith yn cynnwys bron i 2,500 o sefydliadau sy'n cyflogi dros 400,000 o bobl, ac mae wedi ei nodi'n ddiweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd fel esiampl Ewropeaidd.

Dirprwy Lywydd, it's not part of my purpose this afternoon to dwell on the more detailed points of difference between the Government side and the motion, but I do need to make some matters clear for the record, so that the basis on which we support it can be fully understood. There is no such office as the UK chief medical officer: there are chief medical officers for Northern Ireland, Scotland, Wales and England. The English CMO recently published an annual report for 2013. That report has since been withdrawn from public circulation in order to correct factual errors contained in it.

We know that our child and adolescent mental health service needs to be redesigned and its position reaffirmed as a specialist mental health service in a wider spectrum of provision, in which all professional workers who come into contact with young people during the difficult business of growing up are equipped to play their part to assist in that process. That does include student teachers, although not necessarily as part of the formal training framework, which, in postgraduate courses for example, typically do not exceed nine months in totality.

Tomorrow, we will hold a major conference here in Cardiff to focus on that wider CAMHS reform agenda. I'm very grateful to all those members of the Children, Young People and Education Committee who will attend the conference. I know the Chair of the committee will be there and the Chair of the Health and Social Care Committee will be there, too. In my contribution tomorrow, I will point out that, under pressure, as it is, CAMHS services today are nevertheless seeing 70% more people within four weeks and nearly 50% more within 18 weeks than they were only four years ago.

Dirprwy Lywydd, there are some other parts of the motion that are premature. It fails to mention the review of the mental health ring fence that is well under way, which will report during this year, and which needs to underpin our thinking on funding. The new psychiatric liaison service at Cwm Taf is very promising. It's supported by over £1 million-worth of invest-to-save funding, in order to establish a consultant-led service for older people with mental health needs and a new acute assessment service at the front door of the hospital. However, not even an interim evaluation of that service has yet been completed. Optimistic as I am about what it is achieving and what it can teach us for the rest of Wales, I don't think we're in a position to commit to its wholesale expansion at this point.

Dirprwy Lywydd, these are relatively minor caveats, and aside from them, the Government will support the motion and its ambition for a Wales that leads the way in a strong, societal and service response to mental health needs across all ages and boundaries.

Ddirprwy Lywydd, nid wyf yn bwriadu mynd ar ôl y gwahaniaethau mwy manwl rhwng ochr y Llywodraeth a'r cynnig y prynhawn yma, ond mae angen i mi wneud rhai materion yn glir ar gyfer y cofnod, fel bod y sail rydym yn ei gefnogi yn gwbl ddealladwy. Nid oes y fath swydd â phrif swyddog meddygol y DU: ceir prif swyddogion meddygol ar gyfer Gogledd Iwerddon, yr Alban, Cymru a Lloegr. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol Lloegr adroddiad blynyddol ar gyfer 2013. Ers hynny, mae'r adroddiad hwnnw wedi ei dynnu'n ôl o gylchrediad cyhoeddus er mwyn cywiro camgymeriadau ffeithiol sydd wedi'u cynnwys ynddo.

Gwyddom fod angen ailgynllunio ein gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasod a chadarnhau ei statws fel gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol mewn sbectrwm ehangach o ddarpariaeth, lle y mae pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl ifanc yn ystod y cyfnod anodd o dyfu i fyny yn cael eu cyfarparu i chwarae eu rhan i gynorthwyo yn y broses honno. Mae hynny yn cynnwys athrawon dan hyfforddiant, er nad o reidrydd fel rhan o'r fframwaith hyfforddi ffurfiol nad yw'n hwy na naw mis o hyd i gyd mewn cyrsiau ôl-raddedig, er enghraifft.

Yfory, byddwn yn cynnal cynhadledd bwysig yma yng Nghaerdydd i ganolbwyntio ar yr agenda ehangach honno i ddiwygio CAMHS. Rwy'n ddiolchgar iawn i holl aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a fydd yn mynychu'r gynhadledd. Rwy'n gwybod y bydd Cadeirydd y pwyllgor yno, a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yno, hefyd. Yn fy nghyfraniad yfory, byddaf yn nodi er bod gwasanaethau CAMHS dan bwysau fel y mae heddiw, maent yn gweld 70% yn fwy o bobl o fewn pedair wythnos a bron i 50% yn fwy o fewn 18 wythnos nag yr oeddent bedair blynedd yn ôl yn unig.

Ddirprwy Lywydd, mae rhai rhannau eraill o'r cynnig sy'n gynamserol. Mae'n methu â sôn am yr adolygiad sydd ar y gweill o'r arian a glustnodwyd, a bydd yn cyflwyno'i adroddiad yn ystod y flwyddyn hon. Mae angen i'r adolygiad fod yn sail i'r ffordd o feddwl am ariannu. Mae'r gwasanaeth cyswllt seiciatrig newydd yng Nghwm Taf yn addawol iawn. Fe'i cefnogir gan dros £1 miliwn o arian buddsoddi i arbed, er mwyn sefydlu gwasanaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion iechyd meddwl a gwasanaeth asesu aciwt newydd wrth ddrws blaen yr ysbyty. Fodd bynnag, ni chwblhawyd gwerthusiad interim hyd yn oed o'r gwasanaeth hwnnw eto. Er fy mod yn optimistaidd o ran yr hyn y mae'n ei gyflawni a'r hyn y gall ei ddsygu i ni ar gyfer gweddill Cymru, nid wyf yn meddwl ein bod mewn sefyllfa i ymrwymo i'w ehangu'n gyfan gwbl ar hyn o bryd.

Ddirprwy Lywydd, maent yn gafeatau cymharol fach, ac ar wahân i'r rhain, bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig a'i uchelgais i weld Cymru yn arwain y ffordd mewn ymateb cryf o fewn y gymdeithas a'r gwasanaethau tuag at anghenion iechyd meddwl ar draws pob oedran a ffin.

17:45

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Peter Black to reply to the debate.

Galwaf ar Peter Black i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and can I thank everybody who's taken part in this debate? It's always humbling to hear about other people's experiences, but also, I think, the number of issues that were raised here very much reflects not just what's in the motion but also the reality of people's experiences in Wales. I think that we need to tackle some of those issues head on. I'm pleased that the Minister has responded so positively to the motion and is able to accept and support it.

Eluned Parrott reflected on the impact of stigma and referred to her speech on her own issues three years ago. She outlined her concerns that talking about depression would be seen as a weakness and ruin her political career, but she also said that we have to challenge lazy presumptions about mental health and that stigma magnifies and irritates a disease that undermines people already.

She refers to the need for a timely diagnosis for young people. Three quarters of young people and children are not diagnosed at an early age, and this exacerbates the failure of the system to put in place support for young people and for children. Of all those waiting over 18 weeks to actually begin treatment, young people and children, she said, make up 85% of those waiting, and, of them, almost 45% are waiting more than 40 weeks to begin. She called for meaningful research to shape priorities and to inform the way we use investment in the future. Local health boards need to demonstrate meaningful change, and there is evidence that self-harm is underreported and self-destructive behaviours not taken seriously. I think that is of concern for all of us.

Janet Finch-Saunders repeated the statistic that one in every four adults live with a mental health condition. She refers to the cross-party group on eating disorders, which, of course, Bethan Jenkins also talked about. When I come to Bethan, I'll refer to that, but I think Bethan's work on this is exemplary and deserves praise for the way that she's taking forward this agenda since she's been in this Assembly. Janet, of course, also referred to the issue that was raised in the cross-party group of the review into CAMHS having to be completed in just 12 working days.

Aled Roberts said that we all know people who have gone through the sorts of problems this debate focuses on. The World Health Organization estimates that mental illness makes up 20% of the burden of disease in the UK, and yet only 11% of the NHS Wales budget is spent on mental health services. Of course, Bethan Jenkins, also spoke of the relationship between physical and mental health and the need for both of them to be seen together, and she referred to the issue of those with chronic illness being unable to sustain employment. So, I think, clearly, although 11% is being spent on mental health, we need to look at people's health issues in the round.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac a gaf fi ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon? Mae bob amser yn gwneud i rywun deimlo'n ostyngedig i glywed am brofiadau pobl eraill, ond hefyd, rwy'n meddwl, mae nifer y materion a godwyd yma yn adlewyrchiad nid yn unig o'r hyn sydd yn y cynnig ond hefyd o realiti profiadau pobl yng Nghymru. Credaf fod angen i ni fynd i'r afael â rhai o'r materion yn uniongyrchol. Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi ymateb mor gadarnhaol i'r cynnig ac yn gallu ei dderbyn a'i gefnogi.

Soniodd Eluned Parrott am effaith stigma a chyfeiriodd at ei haraith ynghylch ei phroblemau ei hun dair blynedd yn ôl. Amlinellodd ei phryderon y byddai siarad am iselder yn cael ei weld fel gwendid ac yn difetha ei gyrfa wleidyddol, ond dywedodd hefyd fod yn rhaid inni herio rhagdybiaethau diog am iechyd meddwl a bod stigma yn chwyddo ac yn llidio clefyd sydd eisoes yn tansellio pobl.

Mae'n cyfeirio at yr angen am ddiagnosis amserol ar gyfer pobl ifanc. Nid yw tri chwarter y bobl ifanc a phlant yn cael diagnosis yn ifanc, ac mae hyn yn gwaethygu methiant y system i sicrhau cymorth ar gyfer pobl ifanc a phlant. O'r holl bobl sy'n aros dros 18 wythnos i ddechrau triniaeth, dywedodd mai pobl ifanc a phlant mewn gwirionedd yw 85% ohonynt, ac o'r rhain, mae bron i 45% yn aros mwy na 40 wythnos i ddechrau triniaeth. Galwodd am ymchwil ystyrlon ar gyfer llunio blaenoriaethau ac i lywio'r ffordd rydym yn defnyddio buddsoddiad yn y dyfodol. Mae angen i fyrdau iechyd lleol ddangos newid ystyrlon, ac mae tystiolaeth nad yw hunan-niweidio yn cael ei gofnodi'n ddigonol ac nad yw ymddygiad hunanddinstriol yn cael ei gymryd o ddirif. Credaf fod hwnnw'n destun pryder i bob un ohonom.

Ailadroddodd Janet Finch-Saunders yr ystategyn fod un o bob pedwar oedolyn yn byw gyda chyflwr iechyd meddwl. Mae hi'n cyfeirio at y grŵp trawsbleidiol ar anhwylderau bwyta y siaradodd Bethan Jenkins amdano hefyd. Pan ddof at Bethan, fe gyfeiraf at hynny, ond rwy'n meddwl bod gwaith Bethan ar hyn yn rhagorol ac yn haeddu canmoliaeth am y ffordd y mae'n symud yr agenda hon yn ei blaen ers iddi fod yn Aelod o'r Cynulliad. Cyfeiriodd Janet hefyd, wrth gwrs, at y mater a godwyd yn y grŵp trawsbleidiol ynghylch yr angen i gwblhau'r adolygiad i CAMHS o fewn 12 diwrnod gwaith yn unig.

Dywedodd Aled Roberts ein bod i gyd yn adnabod pobl sydd wedi mynd drwy'r math o broblemau y mae'r ddadl hon yn canolbwyntio arnynt. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif mai salwch meddwl sydd i gyfrif am 20% o'r baich afiechyd yn y DU, ac eto 11% yn unig o gyllideb GIG Cymru sy'n cael ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl. Wrth gwrs, siaradodd Bethan Jenkins hefyd am y berthynas rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddyliol a'r angen i edrych ar y ddau gyda'i gilydd, a chyfeiriodd at bobl â salwch cronig sy'n methu â dal ati i weithio. Felly, rwy'n meddwl, yn amlwg, er bod 11% yn cael ei wario ar iechyd meddwl, mae angen i ni edrych ar faterion iechyd pobl yn eu cyfanrwydd.

Aled also said that, with waiting times being so high, some GPs are prescribing antidepressants since they feel they cannot leave the patient without any form of intervention. In fact, Mind Cymru has highlighted that prescriptions for antidepressants have more than doubled in the last decade, from around 2 million in 2002 to more than 4 million in 2012.

William Powell referred to a recent YouGov Mind survey on mental health and wellbeing within the workplace, which found that workplace stress affects 53% of employees' sleep and 20% of employees' marriages or relationships. He said that workplaces need to become more mental health friendly and he wants to see a mental health friendly workplace accreditation scheme being put in place. He also referred to mental health issues amongst the farming community.

Again, I'd like to thank the Minister for supporting the motion, but, of course, he also referred to the need for parity of esteem and that this needs to apply to services as well, with mental and physical health having equal treatment. I think that is absolutely important.

I think the Minister also made one of the few references to the voluntary sector, which also have a massive role to play in this. I very much welcome the funding that goes to them, though, as Bethan Jenkins highlighted, there are some areas that do need to address that funding, as well. The Minister also confirmed that CAMHS needs to be redesigned as a service, and that is very welcome, as are other developments that he referred to.

The Welsh Liberal Democrats have today set forward what we believe would be a series of measures that should be taken to help improve the lives of those who suffer from mental health problems in Wales. Our belief is that mental health shouldn't be something that is hidden away and people are afraid to discuss. Tackling stigma and creating parity between mental and physical health will help us move towards creating an ever-healthy Wales. We want to create a Wales where those with mental health problems are receiving the best treatment possible, not just within the NHS but also in the workplace, and where, as a young child, everybody will have the chance to achieve their best potential, no matter what conditions they may have. Thank you again to everybody who has contributed to this debate, and thank you, everyone, for the support for this motion.

Dyweddodd Aled hefyd, gydag amseroedd aros mor hir, fod rhai meddygon teulu yn rhoi cyffuriau gwrth-iselder ar bresgripsiwn am eu bod yn teimlo na allant adael y claf heb unrhyw fath o ymyrraeth. Yn wir, tynnodd Mind Cymru sylw at y ffaith fod presgripsiynau ar gyfer cyffuriau gwrth-iselder wedi mwy na dyblu yn y degawd diwethaf, o tua 2 filiwn yn 2002 i fwy na 4 miliwn yn 2012.

Cyfeiriodd William Powell at arolwg YouGov Mind yn ddiweddar ar iechyd meddwl a lles yn y gweithle, a ganfu fod straen yn y gweithle yn effeithio ar gwsig 53% o weithwyr ac ar briodasau neu berthnasod 20% o weithwyr. Dywedodd fod angen i weithleoedd fod yn fwy ystyrlon o iechyd meddwl ac mae am weld cynllun achredu gweithleoedd ystyrlon o iechyd meddwl yn cael ei weithredu. Cyfeiriodd hefyd at faterion iechyd meddwl ymysg y gymuned ffermio.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gefnogi'r cynnig, ond wrth gwrs, mae hefyd yn cyfeirio at yr angen am barch cydradd a bod angen ei gymhwyso i wasanaethau hefyd, gydag iechyd meddwl a chorfforol yn cael triniaeth gyfartal. Credaf fod hynny'n hollbwysig.

Rwy'n credu bod y Gweinidog hefyd wedi gwneud un o'r ychydig gyfeiriadau at y sector gwirfoddol, sydd â rôl enfawr i'w chwarae yn hyn. Rwy'n croesawu'n fawr iawn y cyllid sy'n mynd iddynt, ond fel y pwysleisiodd Bethan Jenkins, mae yna rai meysydd sydd angen y cyllid hwnnw yn ogystal. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod angen i CAMHS gael ei ailgynllunio fel gwasanaeth, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr, fel y mae datblygiadau eraill y cyfeiriodd atynt.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru heddiw yn cyflwyno'r hyn y credwn y byddai'n gyfres o gamau y dylid eu cymryd i helpu i wella bywydau'r rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl yng Nghymru. Ein cred yw na ddylai iechyd meddwl fod yn rhywbeth sy'n cael ei gelu a phobl yn ofni ei drafod. Bydd mynd i'r afael â stigma a chreu cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn ein helpu i symud tuag at greu Cymru iachach nag erioed. Rydym am greu Cymru lle y bydd pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael y driniaeth orau bosibl, nid yn unig o fewn y GIG, ond hefyd yn y gweithle, a lle y bydd plant ifanc yn cael cyfle i gyflawni eu potensial gorau, ni waeth pa gyflyrau a allai fod ganddynt. Diolch eto i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon, a diolch i bawb am y gefnogaeth i'r cynnig hwn.

17:49

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:50

## 7. Cyfnod Pleidleisio

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 7 is voting time. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote on the Welsh Conservatives' debate, and I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39. There voted against 10. Therefore, the motion without amendment is agreed.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 39, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5701](#)

## 7. Voting Time

Eitem 7 yw'r cyfnod pleidleisio. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, byddwn yn pleidleisio ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid. Pleidleisiodd 10 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Motion agreed: For 39, Against 10, Abstain 0.*

[Result of the vote on motion NDM5701](#)

Y [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:50

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

Quickly, if you're leaving, please.

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambwr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

Yn gyflym, os ydych yn gadael, os gwelwch yn dda.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:51

## 8. Dadl Fer: Adnabod Eich Prostad!

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is the short debate, and I ask Andrew R.T. Davies to speak on the topic he has chosen.

## 8. Short Debate: Know Your Prostate!

Eitem 8 yw'r ddadl fer, a gofynnaf i Andrew RT Davies siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

Y [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:51

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I'm grateful to have the opportunity to bring forward the debate 'Know Your Prostate! Prostate Cancer in Wales—the Hidden Killer'. I have to say I haven't had much sleep over the last 24 hours, because, speaking to the Minister for health yesterday on the way down from the Chamber, he informed me that Vaughan Gething would be holding my prostate today in this debate. That has caused many sorts of images that—[Laughter.] So, it really has, sort of—[Interruption.]—in pain.

I did want to start with that sort of light-heartedness, because the campaign around prostate cancer is about trying to bring up a very serious issue and making it relevant to the male population. My contribution today is going to be focusing on awareness. Right the way through all the evidence that I've looked at in this particular area, and the van that was here last week—or yesterday, I should say—it's about making the point around prostate cancer, and about getting the awareness into men to understand their responsibilities where they do suddenly find something wrong, so that they go and get it checked out, that they do have regular screening, and, above all, when something is detected, that problem is solved. If it is detected early enough, ultimately, prostate cancer is one of the cancers that can have remarkable success rates, in putting people on the road to recovery and the cancer into remission.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Diolch am y cyfle i gyflwyno'r ddadl 'Canser y Prostad yng Nghymru—yr Afiechyd Cudd'. Rhaid i mi ddweud nad wyf wedi cael llawer o gwsg yn ystod y 24 awr ddiwethaf, oherwydd wrth siarad â'r Gweinidog iechyd ddoe ar y ffordd i lawr o'r Siambwr, dywedodd wrthyf y byddai Vaughan Gething yn dal fy mhrostat heddiw yn y ddadl hon. Mae hynny wedi peri i lawer o ddelweddau—[Chwerthin.] Felly, mae'n wir ei fod, mewn ffordd—[Torri ar draws.]—mewn poen.

Roeddwn i'n awyddus i ddechrau gydag ysgafnder o'r fath, oherwydd mae'r ymgyrch canser y prostad yn ymwneud â cheisio tynnu sylw at fater difrifol iawn a'i wneud yn berthnasol i'r boblogaeth wrywaidd. Mae fy nghyfraniad heddiw yn mynd i ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth. Yr holl ffordd drwy'r holl dystiolaeth yr edrychais arni yn y maes arbennig hwn, a'r fan a oedd yma yr wythnos diwethaf-neu ddoe, dylwn ddweud-mae'n ymwneud â gwneud y pwynt ynglŷn â chanser y prostad, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith dynion er mwyn iddynt ddeall eu cyfrifoldebau os dânt o hyd i rywbeth o'i le, ac er mwyn iddynt fynd i gael eu harchwilio a'u sgrinio'n rheolaidd, ac yn anad dim, pan fydd rhywbeth yn cael ei ganfod, fod y broblem yn cael ei datrys. Os caiff ei ganfod yn ddigon cynnar, yn y pen draw, canser y prostad yw un o'r canserau a all gael cyfraddau llwyddiant rhyfeddol, o ran rhoi pobl ar y ffordd i adferiad a sicrhau bod y canser yn cilio.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I would also like to say that I've given a minute of the time for the debate to Keith Davies and to Aled Roberts, who wish to contribute at the end of my contribution.

Wales has a real problem with men's health, in particular male cancer incidence rates, which are 18% higher than those of women. In 2011, 2,346 men in Wales were diagnosed with prostate cancer—an incidence rate in Wales higher than any other part of the United Kingdom. Cancer mortality rates are a third higher for men than for women, and women also have a higher cancer survival rate than men—again, going down to education and awareness. What we've learned through the breast cancer campaign is to make sure that people are aware of the potential danger, make sure that they go for the screening and, if something's detected, that they get on that path to treatment and, ultimately, hopefully, recovery, as we're seeing the success rates around breast cancer increase.

Prostate cancer is also the most common cancer in men in Wales, and it accounts for 13% of all cancers. It kills one man every hour in the United Kingdom. One in eight men will be diagnosed with prostate cancer at some point in their lives. If the current trend continues, it is estimated that it'll be the most common cancer by 2030. Just in this Chamber here, with approximately 35 male Members, that obviously means that four male Members will develop prostate cancer. I don't wish it on anyone, but, ultimately, the statistics tell us that is a fact of life.

There have been great inroads made into awareness around breast cancer in the UK, but we now need to do the same around prostate cancer.

What could be done to improve men's health in Wales? More needs to be done to improve the early diagnosis of cancer amongst men. Wales is now, sadly, the only UK nation without a cancer awareness campaign, and very low awareness of prostate cancer amongst the Welsh population is a fact that comes up time and time again in surveys. Fewer than half of the respondents in the prostate cancer study recognised that age and family history are likely to increase the risk of getting prostate cancer, whilst ethnicity is also acknowledged as a risk factor by 6%, when one in four Afro-Caribbean men will get the disease. We could save lives by funding and supporting a cancer awareness campaign, covering a range of cancers and focusing on symptoms, risk factors and early diagnosis. I hope that the Deputy Minister, in his response to the debate, will touch on that specific point.

Hoffwn ddweud hefyd fy mod wedi rhoi munud o amser y ddadl i Keith Davies ac i Aled Roberts, sy'n dymuno cyfrannu ar ddiwedd fy nghyfraniad.

Mae gan Gymru broblem go iawn gydag iechyd dynion, yn enwedig cyfraddau achosion o ganserau dynion yn benodol, sydd 18% yn uwch na rhai merched. Yn 2011, cafodd 2,346 o ddynion yng Nghymru ddiagnosis o ganser y prostad-cyfradd achosion yng Nghymru sy'n uwch nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Mae cyfraddau marwolaethau cancer draean yn uwch ymhlith dynion nag ymhlith menywod, ac mae cyfradd o roesi cancer hefyd yn uwch ymhlith menywod na dynion-unwaith eto, yn deillio o addysg ac ymwybyddiaeth. Yr hyn rydym wedi ei ddysgu drwy ymgyrch cancer y fron yw'r angen i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r perygl posibl, gwneud yn siŵr eu bod yn mynd i gael eu sgrinio ac os caiff rhywbeth ei ganfod, eu bod yn dilyn y llwybr hwnnw i driniaeth ac yn y pen draw gobeithio, i adferiad, wrth inni weld cyfraddau llwyddiant cancer y fron yn cynyddu.

Cancer y prostad hefyd yw'r cancer mwyaf cyffredin mewn dynion yng Nghymru, ar 13% o'r holl ganserau. Mae'n lladd un dyn bob awr yn y Deyrnas Unedig. Bydd un o bob wyth o ddynion yn cael diagnosis o ganser y prostad ar ryw adeg yn eu bywydau. Os yw'r duedd bresennol yn parhau, amcangyfrifir mai dyma fydd y cancer mwyaf cyffredin erbyn 2030. Yn y Siambr hon yn unig, gyda thua 35 o aelodau gwrywaidd, mae hynny'n amlwg yn golygu y bydd pedwar Aelod gwrywaidd yn datblygu cancer y prostad. Nid wyf yn ei ddymuno i unrhyw un, ond yn y pen draw, mae'r ystadegau yn dweud wrthym mai dyna un o ffeithiau bywyd.

Gwnaed cynnydd mawr o ran codi ymwybyddiaeth o ganser y fron yn y DU, ond mae angen i ni wneud yr un peth gyda chanser y prostad yn awr.

Beth y gellid ei wneud i wella iechyd dynion yng Nghymru? Mae angen gwneud mwy i wella diagnosis cynnar o ganser ymhlith dynion. Yn anffodus, Cymru yw'r unig wlad yn y DU bellach heb ymgyrch ymwybyddiaeth o ganser, ac mae diffyg ymwybyddiaeth o ganser y prostad ymhlith poblogaeth Cymru yn ffaith sy'n codi dro ar ôl tro mewn arolygon. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn yr astudiaeth o ganser y prostad yn sylweddoli bod oedran a hanes teuluol yn debygol o gynyddu'r risg o gael cancer y prostad, tra bod ethnigrwydd yn cael ei gydnabod hefyd yn ffactor risg o 6%, gan y bydd un o bob pedwar o ddynion Affricanaidd Garibiaidd yn cael y clefyd. Gallem achub bywydau drwy ariannu a chefnogi ymgyrch ymwybyddiaeth o ganser, yn ymdrin ag ystod o ganserau ac yn canolbwyntio ar symptomau, ffactorau risg a diagnosis cynnar. Gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog, yn ei ymateb i'r ddadl, yn crybwyll y pwynt penodol hwnnw.

Prostate cancer statistics for Wales, taken from the 2014 cancer statistics by the Welsh Cancer Intelligence Surveillance Unit are that Wales has the highest incidence rate, 110 per 100,000 of the population, in western Europe. The western Europe average is 93 per 100,000. Wales has, sadly, the highest mortality rate, at 22, in western Europe, as opposed to the western European rate of 12. That's a huge difference. If we do look at the numbers across Wales, there is huge variance amongst the health boards. Hywel Dda, which covers my colleague Paul Davies's area, has the highest incidence of prostate cancer, at 124 per 100,000 of the population. If you compare that with ABMU, for example, they only have an incidence, thankfully, of 81 per 100,000 of the population. Now, that can be down to a whole host of factors. It might be down to screening, or it might be down to population demographics. I would suggest there's not a huge difference in the demographics of those two areas, but there's a huge variance in those numbers. I think that is something that I would very much hope that the Deputy Minister will touch on, as to what work the Government is undertaking to look into those numbers.

Also, then, looking at mortality rates, there is a huge variance amongst mortality rates, as I've said a little earlier, where the mortality rates amongst the health boards range from anything from 21 per 100,000 through to 25 per 100,000 in Powys. Yet, as I say, critically, in western Europe, that figure is only 12 per 100,000. So, across Wales, we have a huge gap to fill.

It is also worth reflecting on the test around prostate cancer and in particular the vagaries of that test and the inconsistencies that that test turns up. Again, I would welcome the opportunity for the Deputy Minister, maybe, to touch on what he believes are the issues around testing and screening on which the Government might well be able to assist the cancer charities, and in particular the prostate cancer charities, in working with clinicians across Wales to bring down some of the numbers that I've just talked about in particular.

Then, there's also the issue around having a special care nurse—a clinical nurse specialist—in this particular field. Again, across Wales, there is huge variance in the ability to have a critical care nurse who would be able to support patients diagnosed with prostate cancer. Again, there is variance between the health boards, regrettably, as Hywel Dda, as the poorest-performing health board in the provision of this type of facility, has the highest incidence per head of the population, yet ABMU, for example, has the highest rate of provision for clinical nurse specialist and has the lowest rate. I merely speculate, but I presume there is some form of correlation with the levels of support available from the health boards.

Dengys ystadegau canser y prostad ar gyfer Cymru, a gymerwyd o ystadegau canser 2014 Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru mai Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o achosion, sef 110 o bob 100,000 o'r boblogaeth, yng ngorllewin Ewrop. Y cyfartaledd yng ngorllewin Ewrop yw 93 o bob 100,000. Yn anffodus, gan Gymru y mae'r gyfradd uchaf o farwolaethau, sef 22, yng ngorllewin Ewrop, o gymharu â'r gyfradd yng ngorllewin Ewrop o 12. Dyna wahaniaeth enfawr. Os edrychwn ar y niferoedd ar draws Cymru, mae yna amrywio mawr rhwng y byrddau iechyd. Hywel Dda, sy'n cynnwys ardal fy nghyd-Aelod, Paul Davies, sydd â'r nifer uchaf o achosion o ganser y prostad, sef 124 o bob 100,000 o'r boblogaeth. Os ydych yn cymharu hynny â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, er enghraifft, eu cyfradd achosion hwy, diolch byth, yw 81 o bob 100,000 o'r boblogaeth. Yn awr, gellid priodoli hynny i lu o ffactorau. Gallai ymwneud â sgrinio, neu gallai fod yn gysylltiedig â demograffeg poblogaeth. Byddwn yn awgrymu nad oes gwahaniaeth mawr yn nemograffeg y ddwy ardal, ond mae yna amrywiant enfawr yn y niferoedd hynny. Mae'n rhywbeth rwy'n mawr obeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn cyfeirio ato, o ran y gwaith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ymchwilio i'r ffigurau hynny.

Gan edrych hefyd ar gyfraddau marwoldeb, mae yna amrywiant mawr rhwng y cyfraddau marwolaeth, fel y dywedais ychydig yn gynharach. Mae'r cyfraddau marwolaeth ymhlith y byrddau iechyd yn amrywio rhwng 21 o bob 100,000 a 25 o bob 100,000 ym Mhowys. Eto i gyd, fel y dywedaf, yn allweddol, yng ngorllewin Ewrop, 12 o bob 100,000 yw'r ffigur hwnnw. Felly, ledled Cymru, mae gennym fwch enfawr i'w llenwi.

Mae hefyd yn werth ystyried y prawf canser y prostad ac yn arbennig mympwyon y prawf hwnnw a'i anghysonderau. Unwaith eto, byddwn yn croesawu'r cyfle i'r Dirprwy Weinidog grybwyll yr hyn y mae'n credu yw'r problemau gyda phroffion a sgrinio y gallai'r Llywodraeth helpu'r elusennau canser â hwy, ac yn enwedig elusennau canser y prostad, gan weithio gyda chlinigwyr ledled Cymru i leihau rhai o'r niferoedd penodol y soniais amdanynt.

Yna hefyd, mae mater cael gofal nyrs gofal arbenigol—arbenigwr nyrsio clinigol—yn y maes penodol hwn. Unwaith eto, ar draws Cymru, mae yna amrywio enfawr o ran y gallu i gael nyrs gofal critigol a fyddai'n gallu cynorthwyo cleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser y prostad. Unwaith eto, mae yna amrywiant rhwng y byrddau iechyd, yn anffodus, gan mai Hywel Dda, fel y bwrdd iechyd sy'n perfformio waethaf ar ddarparu'r math hwn o gyfleuster, sydd â'r nifer uchaf o achosion y pen o'r boblogaeth, eto i gyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, er enghraifft, sydd â'r gyfradd uchaf o arbenigwyr nyrsio clinigol a'r gyfradd isaf o achosion. Dyfalu'n unig a wna, ond tybiaf fod rhyw fath o gydberthynas â'r lefelau o gymorth sydd ar gael gan y byrddau iechyd.

Then, the evidence from the survey that the prostate cancer charities have undertaken also shows that the level of support, once patients are diagnosed with prostate cancer—whether that be the clinical support or whether that be the social support that they require—very often is very poor when compared with other cancer diagnoses, such as breast cancer and lung cancer. The surveys show that when men turn up to seek that support, they very much rate the support as being very poor, at a 40% to 45% satisfaction rate, as opposed to lung and breast cancer satisfaction rates of 70% plus. Why the inconsistencies? Surely it should be a level playing field.

So, with the figures that I've given today, we clearly have a major challenge before us. It is, without a shadow of a doubt, the biggest killer of men, regarding cancers, across the United Kingdom and in particular here in Wales. There is a huge programme of education to be done. There is a huge programme about the promotion of awareness. We have a template in that the action that was taken some years ago around breast cancer did succeed in raising awareness and the actions that individuals took, and ultimately that has proved successful. I hope very much that the Deputy Minister, in his response to this debate today, will be able to give us assurances that the Welsh Government is very much in tune with the debate around awareness and education so that more men can have that timely intervention that ultimately will allow them to get on the road to recovery, and ultimately we all want to see as many people as possible having that opportunity.

So, I thank Members for listening to the debate today. This is a debate that is not going to go away. It is, I hope, a debate that will gain momentum, because ultimately the more momentum we put around this subject, the greater the awareness. Men really do need to get over their inhibitions, because I have sadly attended too many funerals where people have succumbed to the terrible disease of prostate cancer, and I very much hope that I don't have to attend so many in the future.

18:01

### **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As Andrew has said, this is a real issue, but thankfully there have been two developments I want to praise supporting men with prostate cancer. The first is with Prostate Cymru: in their campaign, Operation Robot, they came to Tata Steel last year to talk about the problems and to ensure that men with prostate cancer in Wales would be offered robotic surgery, as were men in at least 40 locations in England. I'm glad to say now that we have da Vinci robots, and men can have that treatment now in Wales, and not have to go to Bristol.

Yna, mae'r dystiolaeth o'r arolwg a gynhaliwyd gan elusennau canser y prostad hefyd yn dangos bod lefel y gefnogaeth, wedi i gleifion gael diagnosis o ganser y prostad-boed yn gymorth clinigol neu'n gefnogaeth gymdeithasol sydd ei angen arnynt-yn aml iawn yn hynod o isel o gymharu â diagnosis o ganserau eraill, megis canser y fron a chanser yr ysgyfaint. Mae'r arolygon yn dangos bod dynion sy'n ceisio cymorth o'r fath yn graddio'r gefnogaeth yn wael iawn, gyda chyfradd foddhad rhwng 40% a 45%, o gymharu â chyfraddau boddhad ymhlith cleifion canser yr ysgyfaint a chanser y fron o 70% ac uwch. Pam yr anghysondebau? 'Does bosibl na ddylai fod yn gae chwarae gwastad.

Felly, gyda'r ffigurau rwyf wedi eu rhoi heddiw, rydym yn amlwg yn wynebu her fawr. Heb amheuaeth o gwbl, dyma sy'n lladd fwyaf o ddynion, o blith canserau, ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ac yma yng Nghymru yn enwedig. Mae rhaglen addysg enfawr i'w rhoi ar waith. Mae angen rhaglen enfawr i godi ymwybyddiaeth. Mae gennym dempled gan fod y camau a roddwyd ar waith rai blynyddoedd yn ôl mewn perthynas â chanser y fron wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth a'r camau a gymerodd unigolion, ac yn y pen draw mae hynny wedi bod yn llwyddiannus. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y Dirprwy Weinidog, yn ei ymateb i'r ddatl hon heddiw, yn gallu rhoi sicrwydd inni fod Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd yn llwyr â'r ddatl ynghylch ymwybyddiaeth ac addysg fel y gall mwy o ddynion gael yr ymyrraeth amserol a fydd yn y pen draw yn caniatáu iddynt gychwyn ar y ffordd i adferiad, ac yn y diwedd rydym i gyd am weld cymaint o bobl â phosibl yn cael y cyfle hwnnw.

Felly, diolch i'r Aelodau am wrando ar y ddatl heddiw. Mae'n ddatl nad yw'n mynd i ddiflannu. Rwy'n gobeithio ei bod yn ddatl a fydd yn ennill momentwm, oherwydd yn y pen draw po fwyaf o fomentwm a gawn i'r pwnc, y mwyaf o ymwybyddiaeth a geir. Mae gwir angen i ddynion oresgyn eu swildod, gan fy mod, yn anffodus, wedi mynychu gormod o angladdau lle y mae pobl wedi cael eu gorchfygu gan glefyd ofnadwy canser y prostad, ac rwy'n gobeithio'n fawr na fydd yn rhaid i mi fynychu cynifer ohonynt yn y dyfodol.

Fel y dywedodd Andrew, mae hon yn broblem go iawn, ond diolch i'r drefn bu dau ddatblygiad rwyf am eu canmol, sy'n cynorthwyo dynion â chanser y prostad. Y cyntaf yw Prostad Cymru: yn eu hymgyrch, Operation Robot, daethant i Tata Steel y llynedd i siarad am y problemau ac i sicrhau y byddai dynion â chanser y prostad yng Nghymru yn cael cynnig llawdriniaeth robotig, fel y câi dynion mewn o leiaf 40 o leoliadau yn Lloegr. Rwy'n falch o ddweud yn awr fod gennym robotiaid da Vinci, a gall dynion gael y driniaeth honno bellach yng Nghymru, ac nid oes rhaid i chi fynd i Fryste.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As Andrew said as well, yesterday—and I didn't know the statistics for Hywel Dda, so I'm pleased to hear them—I visited the ManVan, which is a partnership between Tenovus, Prostate Cancer UK and the Movember Foundation. The Tenovus cancer care nurses have negotiated with Hywel Dda Local Health Board to make the ManVan an integral part of nurse-led prostate clinics from diagnosis through to post-treatment in Prince Philip Hospital in Llanelli. Hywel Dda health board now views the ManVan as an excellent resource to fill the gap in patient experience. It is now set up as part of the urology unit in PPH, and obviously will respond to those figures that you gave earlier, Andrew.

Fel y dywedodd Andrew hefyd, ddoe—ac nid oeddwn yn gwybod yr ystadegau ar gyfer Hywel Dda, felly rwy'n falch o'u clywed—ymwelais â'r ManVan, sy'n bartneriaeth rhwng Tenovus, Prostate Cancer UK a Sefydliad Movember. Mae nyrsys gofal canser Tenovus wedi trafod gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i wneud y ManVan yn rhan annatod o glinigau prostad dan arweiniad nyrsys o ddiagnosis i ôl-driniaeth yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli. Mae bwrdd iechyd Hywel Dda yn awr yn ystyried y ManVan fel adnodd ardderchog i lenwi'r bwlch ym mhrofiad y claf. Mae bellach wedi ei sefydlu'n rhan o'r uned wroleg yn Ysbyty'r Tywysog Philip, ac mae'n amlwg y bydd yn ymateb i'r ffigurau hynny a roesocho chi'n gynharach, Andrew.

18:02 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to pick up on the theme of disparity across Wales, and also on the robotic surgery that Keith Davies mentioned, because, whilst we can, in north Wales, acknowledge that Betsi Cadwaladr, together with Hywel Dda and ABMU, has the highest nurse clinician rate, the Minister may recall that we, Plaid Cymru and the Government agreed that da Vinci robotic equipment would be made available for Glan Clwyd, and yet the health board, because of ongoing costs, actually turned down that capital investment. So, I would like the Deputy Minister, if he's not in a position today, to actually ensure that patients in north Wales, as was suggested on the ManVan yesterday, are not naturally placed at a disadvantage because of the health board's decision, given that the royal college, as I understand, will actually be downgrading urology departments that are no longer in a position to actually provide robotic surgery, and it's Betsi Cadwaladr's intention at the moment that patients in north Wales will have to go to Manchester for that treatment.

Rwyf am sôn ymhellach am y gwahaniaeth ar draws Cymru, a hefyd am y llawdriniaeth robotig a grybwyllodd Keith Davies, oherwydd, er ein bod yn gallu cydnabod, yn y Gogledd, mai Betsi Cadwaladr, ynghyd â Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, sydd â'r gyfradd uchaf o nyrsys clinigol, efallai y bydd y Gweinidog yn cofio ein bod ni, Plaid Cymru a'r Llywodraeth wedi cytuno y byddai offer robotig da Vinci ar gael ar gyfer Glan Clwyd, eto i gyd, mewn gwirionedd gwrthododd y bwrdd iechyd y buddsoddiad cyfalaf oherwydd y costau parhaus. Felly, hoffwn i'r Dirprwy Weinidog, os nad yw mewn sefyllfa i wneud hynny heddiw, sicrhau nad yw cleifion yng ngogledd Cymru, fel yr awgrymwyd ar y ManVan ddoe, yn cael eu rhoi dan anfantais naturiol oherwydd penderfyniad y bwrdd iechyd, o gofio bod y coleg brenhinol, fel y deallaf, yn mynd i israddio adrannau wroleg nad ydynt bellach mewn sefyllfa i ddarparu llawfeddygaeth robotig, a bwriad Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd yw y bydd yn rhaid i gleifion yng ngogledd Cymru fynd i Fanceinion i gael y driniaeth honno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Health to reply, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i ateb, Vaughan Gething.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:03 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank the Member for bringing this debate today and for opening it in a constructive opening, and also the other two Members who have contributed. As with many other Members, I have recently met the Men United campaign and visited the ManVan here at the Assembly yesterday. The Men United campaign is a powerful one, focusing on how we harness the power of friendship to raise awareness. There is a point there for all of us to take up in our individual relationships and friendships.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Aelod am gyflwyno'r ddaol heddiw ac am ei hagor mewn modd adeiladol, a hefyd i'r ddau Aelod arall sydd wedi cyfrannu. Fel llawer o Aelodau eraill, cyfarfûm â'r ymgyrch Men United yn ddiweddar ac ymweld â'r ManVan yma yn y Cynulliad ddoe. Mae'r ymgyrch Men United yn un bwyrus, sy'n canolbwyntio ar sut rydym yn harneisio grym cyfeillgarwch er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae pwynt yno i bob un ohonom fynd ar ei ôl yn ein perthynas a'n cyfeillgarwch ag eraill.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

As Andrew R.T. Davies noted, about 1 in 8 men in the UK will get prostate cancer at some point in their lives, with older people particularly affected, and the risk in black men double that of the population, at 1 in 4. I know that the local campaigns are looking to specifically ensure that their awareness-raising campaign does try to address that particular group and that particular community.

Fel y nododd Andrew RT Davies, bydd tua 1 o bob 8 o ddynion yn y DU yn cael canser y prostad ar ryw adeg yn eu bywydau, gyda phobl hŷn yn cael eu heffeithio'n arbennig, a'r risg mewn dynion du yn ddwbl yr hyn yw yng ngweddill y boblogaeth, sef 1 o bob 4. Gwn fod yr ymgyrchoedd lleol yn ceisio sicrhau yn benodol fod eu hymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn mynd i'r afael â'r grŵp hwnnw, a'r gymuned honno'n benodol.

In the last 10 years, there have been over 24,000 diagnoses of prostate cancer in Wales. Mortality, thankfully, is declining, but 529 men died of prostate cancer in 2013. Campaigns that encourage a more open and honest conversation, which engage men to avoid a taboo subject and then to challenge and support each other to understand symptoms and seek help, are, of course, very valuable. We all have a role in tackling cancer through being in control of our own care and supporting friends and family.

There's a point about men needing to be more active and equal partners in their care. When we talk about prostate cancer, we know that there are significant potential side effects to treatment, especially surgical treatment. We also know that men need to be very much more part of discussing healthcare issues to then make informed choices about their treatment and their lifestyle. This is particularly important in this area, as we don't currently have a fully reliable test; the current test—the prostate-specific antigen test—is not without risk. It's essential that those informed and honest conversations between men and clinicians take place before an agreement to test is actually taken. We recognise this and work to continue to promote research to find an alternative and, hopefully, more reliable test for prostate cancer.

The cancer delivery plan sets out our ambition to ensure individuals receive holistic support, including welfare advice and wellbeing support. The ManVan venture, as Keith Davies mentioned, funded by the Movember Foundation and delivered between Tenovus and Prostate Cancer UK, is helping individuals to receive this advice in communities across Wales and closer to where people live.

We have, of course, received a number of calls, in recent years, from a number of partners in this Chamber and outside, to improve services for prostate cancer patients. The Welsh Government has delivered on some of those, and the NHS is making further progress with further improvement. As has been noted, we took the decision to introduce specialist robotic urological surgery for prostate cancer. At a time of unprecedented austerity, we invested £3.5 million in the equipment that is now operating in the Cardiff and Vale University Local Health Board for the wider south-Wales region. I'm pleased to report that the secondary robotic console for training clinicians is also now in use at the University Hospital of Wales, and it demonstrates our investment in ensuring we have a workforce capable of delivering that cutting-edge treatment—no pun intended. The robot is being used to treat patients in south and west Wales, covering every health board apart from Betsi Cadwaladr. North Wales patients can be referred to Manchester's Christie hospital for this form of surgery, but I'll happily write to Aled Roberts about how the money is being used in north Wales.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, cafwyd dros 24,000 o achosion o ganser y prostad yng Nghymru. Mae'r gyfradd farwolaethau, diolch byth, yn gostwng, ond bu farw 529 o ddynion o ganser y prostad yn 2013. Mae ymgyrchoedd sy'n annog sgwrs fwy agored a gonest, sy'n ysgogi dynion i drafod pwnc tabŵ, ac yna i herio a chefnogi ei gilydd i ddeall symptomau a gofyn am gymorth yn werthfawr iawn wrth gwrs. Mae gennym i gyd rôl yn y broses o drechu cancer drwy fod â rheolaeth dros ein gofal ein hunain a chefnogi ffrindiau a theulu.

Mae yna bwynt yma ynglŷn â'r angen i ddynion fod yn bartneriaid mwy gweithgar a chyfartal yn eu gofal eu hunain. Pan soniwn am ganser y prostad, gwyddom fod yna sgil-ffeithiau sylweddol posibl i driniaeth, yn enwedig triniaeth lawfeddygol. Rydym hefyd yn gwybod bod angen i ddynion gymryd rhan lawer iawn yn fwy wrth drafod materion gofal iechyd er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'u triniaeth a'u ffordd o fyw. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y maes hwn, gan nad oes gennym brawf cwbl ddibynadwy ar hyn o bryd; mae risgiau ynghlwm wrth y prawf cyfredol—y prawf antigen penodol i brostad. Mae'n hanfodol fod sgysiaau gonest a gwybodus o'r fath rhwng dynion a chlinigwyr yn digwydd cyn y cytunir i gynnal y prawf mewn gwirionedd. Rydym yn cydnabod hyn ac yn gweithio i barhau i hyrwyddo ymchwil i ddod o hyd i ddewis arall a gobeithio, prawf mwy dibynadwy ar gyfer cancer y prostad.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer cancer yn nodi ein huchelgais i sicrhau bod unigolion yn derbyn cymorth cyfannol, gan gynnwys cyngor a chymorth lles. Mae menter ManVan, fel y crybwyllodd Keith Davies, a ariennir gan y Sefydliad Movember ac a ddarparir gan Tenovus a Prostate Cancer UK, yn helpu unigolion i gael y cyngor hwn mewn cymunedau ledled Cymru ac yn nes at gartrefi pobl.

Wrth gwrs, rydym wedi clywed nifer o alwadau, yn y blynyddoedd diwethaf, gan nifer o bartneriaid yn y Siambr a'r tu allan, i wella gwasanaethau i gleifion cancer y prostad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni rhai o'r rheini, ac mae'r GIG yn gwneud cynnydd a gwelliant pellach. Fel y nodwyd, gwnaethom benderfyniad i gyflwyno llawdriniaeth wrolegol robotig arbenigol ar gyfer cancer y prostad. Ar adeg o galedi digynsail, rydym wedi buddsoddi £3.5 miliwn yn y cyfarpar sydd bellach yn weithredol ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer rhanbarth ehangach de Cymru. Rwy'n falch o adrodd bod y consol robotig eilaidd ar gyfer hyfforddi clinigwyr hefyd yn cael ei ddefnyddio bellach yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac mae'n dangos ein buddsoddiad i sicrhau bod gennym weithlu sy'n gallu cyflwyno'r driniaeth arloesol honno. Mae'r robot yn cael ei ddefnyddio i drin cleifion yn ne a gorllewin Cymru, gan gynnwys pob bwrdd iechyd ar wahân i Betsi Cadwaladr. Gellir cyfeirio cleifion yng ngogledd Cymru i ysbyty Christie ym Manceinion ar gyfer y math hwn o lawdriniaeth, ond rwy'n hapus i ysgrifennu at Aled Roberts ynglŷn â'r modd y mae'r arian yn cael ei ddefnyddio yng ngogledd Cymru.

The quality of services we have for prostate patients was recently evaluated through the UK-wide national prostate audit that was published in November last year. All 10 Welsh hospitals that provide prostate cancer services participated in the audit, and, overall, Welsh services compare well to services across the UK. All 100% of Welsh hospitals have isotope bone scanning facilities onsite, compared to 92% of English trusts, and all multidisciplinary teams have access to this, in keeping with NICE recommendations. All centres in Wales can offer intensely modulated radiotherapy, which is increasingly considered to be the new standard, compared to 91% of centres in England, and 60% of hospitals in Wales can provide the full array of personal support services, including cancer advisory centres, sexual function services, continence services and psychological services, compared to 50% of trusts in England. Five NHS hospitals in Wales now offer radical surgical treatments for prostate cancer, and more than four local multidisciplinary teams in Wales are attended by a member of the palliative care team, compared to just 16% in England.

So, the audit sets out some real good news in treatment provision and outcomes for patients in Wales, but it also sets out areas where we need to improve, including access to specialist MRI and post-surgical follow-up. We expect health boards to use the audit findings to help drive further quality improvement in services, including dealing with the point about the variation between different centres in Wales that the Member raised in his opening remarks. However, it is positive that services in Wales are transparently engaging in the audit to test the quality of services and benchmark themselves against others; it's a process that we encourage in virtually every area of operation within the NHS in Wales. There should be no complacency or levelling down of our ambition.

We know that the support that we give to men does not end at the treatment phase. Four in five men diagnosed with prostate cancer will not die of the disease. We increasingly need to view prostate cancer as a chronic condition, where we focus on wellbeing and supporting people to live full lives after treatment, including dealing with the side effects of that treatment.

Cancer key workers, as mentioned, have a key role in providing information to patients about the effects of their treatment, but also in supporting people to access financial and other welfare advice. The third sector has an active role here and is running peer-support groups and helping people to access advice. An obvious example is, of course, the ManVan that each and every Member has mentioned.

Cafodd ansawdd y gwasanaethau sydd gennym ar gyfer cleifion prostatad ei werthuso yn ddiweddar drwy'r archwiliad prostatad cenedlaethol ar draws y DU a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd y llynedd. Cymerodd pob un o'r 10 ysbyty yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau canser y prostatad ran yn yr archwiliad, ac ar y cyfan, mae gwasanaethau Cymru yn cymharu'n dda â gwasanaethau ar draws y DU. Mae gan 100% o ysbytai Cymru gyfleusterau sganio esgyrn isotop ar y safle, o'i gymharu â 92% o ymddiriedolaethau Lloegr, ac mae pob tîm aml-ddisgyblaethol yn â mynediad at y rhain, yn unol ag argymhellion NICE. Gall pob canolfan yng Nghymru gynnig radiotherapi modiwlleiddio arddwysedd, yr ystyrir yn gynyddol ei bod yn cynnig y safon newydd, o'i gymharu â 91% o ganolfannau yn Lloegr, a gall 60% o ysbytai Cymru ddarparu'r amrywiaeth lawn o wasanaethau cymorth personol, gan gynnwys canolfannau cynghori canser, gwasanaethau rhywiol, gwasanaethau ymataliaeth a gwasanaethau seicolegol, o gymharu â 50% o ymddiriedolaethau yn Lloegr. Mae pump o ysbytai'r GIG yng Nghymru bellach yn cynnig triniaethau llawfeddygol radical ar gyfer canser y prostatad, a mynychir mwy na phedwar tîm aml-ddisgyblaethol lleol yng Nghymru gan aelod o'r tîm gofal lliniarol, o gymharu â 16% yn unig yn Lloegr.

Felly, mae'r archwiliad yn nodi newyddion da iawn o ran triniaethau a chanlyniadau i gleifion yng Nghymru, ond mae hefyd yn nodi meysydd lle y mae angen i ni wella, gan gynnwys mynediad at MRI arbenigol ac ôl-ofal yn dilyn llawdriniaethau. Rydym yn disgwyl i fyrdau iechyd ddefnyddio canfyddiadau'r archwiliad i ysgogi gwelliant pellach yn ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys delio â'r pwynt ynghylch yr amrywio rhwng gwahanol ganolfannau yng Nghymru a grybwyllodd yr Aelod yn ei sylwadau agoriadol. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol fod gwasanaethau yng Nghymru yn mynd ati mewn modd tryloyw i gymryd rhan yn yr archwiliad er mwyn profi ansawdd gwasanaethau a meincodi eu hunain yn erbyn eraill; mae'n broses rydym yn ei hannog ym mron pob maes gweithredu yn y GIG yng Nghymru. Ni ddylai fod unrhyw hunanfodlonrwydd nac unrhyw ymgais i ostwng ein huchelgais.

Gwyddom nad yw'r gefnogaeth a rown i ddynion yn dod i ben wedi'r driniaeth. Ni fydd pedwar o bob pump o ddynion sy'n cael diagnosis o ganser y prostatad yn marw o'r clefyd. Mae mwyfwy o angen i ni weld canser y prostatad fel cyflwr cronig, lle'r ydym yn canolbwyntio ar les ac yn cynorthwyo pobl i fyw bywydau llawn ar ôl cael triniaeth, gan gynnwys ymdrin â sgil-ffeithiau'r driniaeth honno.

Fel y crybwyllwyd, mae gan weithwyr allweddol canser rôl allweddol o ran darparu gwybodaeth i gleifion am effeithiau eu triniaeth, ond hefyd o ran cynorthwyo pobl i gael cyngor ariannol a mathau eraill o gyngor lles. Mae gan y trydydd sector rôl weithredol yma. Mae'n cynnal grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid ac yn helpu pobl i ddod o hyd i gyngor. Un enghraifft amlwg, wrth gwrs, yw'r ManVan y mae pob Aelod wedi ei grybwyll.

To conclude, I want to thank again the Member and others who have participated in both raising this discussion and promoting it. Open discussions between friends can undoubtedly support more men to come forward and support our ambition of earlier diagnosis. I'm pleased with the progress that we are making in improving services for prostate cancer patients, but also I remain restless for further improvement and will continue to challenge health boards to go further and faster in improving their services. The conversations with the Men United campaign, visiting the ManVan and listening to others in this debate have underlined the important role we all have in talking to our friends, family and constituents about the importance of being aware of our bodies and in taking action that can either save our lives or improve the quality of our lives.

I gloi, rwyf am ddiolch eto i'r Aelod ac i eraill sydd wedi cymryd rhan yn cynnal ac yn hyrwyddo'r drafodaeth hon. Yn ddi-os, gall trafodaethau agored rhwng ffrindiau gynorthwyo mwy o ddynion i ddod ymlaen a chyflawni ein huchelgais o sicrhau diagnosis cynharach. Rwy'n falch o'r cynnydd rydym yn ei wneud o ran gwella gwasanaethau i gleifion canser y prostad, ond hefyd rwy'n parhau'n awyddus i weld gwelliant pellach a byddaf yn parhau i herio byrddau iechyd i fynd ymhellach a mynd ati'n gyflymach i wella eu gwasanaethau. Roedd y sgysiau gydag ymgyrch Men United, ymweld â'r ManVan a gwrando ar eraill yn y ddadl hon yn tanlinellu'r rôl bwysig sydd gan bob un ohonom i siarad â'n cyfeillion, ein teuluoedd a'n hetholwyr am bwysigrwydd bod yn ymwybodol o'n cyrff a rhoi camau ar waith a allai naill ai achub ein bywydau neu wella ansawdd ein bywydau.

18:11

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch i chi, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:11.*

*The meeting ended at 18:11.*